# Agenda - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:
Fideogynhadledd drwy Zoom

Dyddiad: Dydd Llun, 21 Medi 2020

Amser: 08.45

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Fay Bowen**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddArchwilio@senedd.cymru

**Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, mae'r Cadeirydd wedi penderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd. Bydd y cyfarfod hwn yn cael ei ddarlledu'n fyw ar www.senedd.tv**

## Rhag-gyfarfod preifat

(09.15 - 09.45)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09.45)

## 2 Papur(au) i'w nodi

(09.45 - 10.05)

**2a Rheoli meddyginiaethau: Llythyr oddi wrth Llywodraeth Cymru (28 Awst 2020)**

(Tudalennau 1 - 2)

**2b Rheoli Apwyntiadau Dilynol Cleifion Allanol ar Draws Cymru: Llythyr oddi wrth Llywodraeth Cymru (28 Awst 2020)**

(Tudalennau 3 - 12)

**2c Gwasanaethau radioleg - adroddiad cryno cenedlaethol: Llythyr oddi wrth Llywodraeth Cymru (28 Awst 2020)**

(Tudalennau 13 - 14)

Senedd Cymru
Welsh Parliament

**2d Gwasanaethau gofal sylfaenol y tu allan i oriau: Llythyr oddi wrth Llywodraeth Cymru (28 Awst 2020)**

(Tudalennau 15 - 71)

## 3 Craffu ar Gyfrifon 2019-20: Comisiwn y Senedd

(10.05 - 11.15) (Tudalennau 72 - 410)

Papur briffio gan Ymchwil y Senedd

PAC(5)-18-10 Papur 1- Comisiwn y Senedd: Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2019-20

PAC(5)-18-10 Papur 2 - Comisiwn y Senedd: Amrywiaeth a chynhwysiant: Adroddiad Blynyddol 2019-20

PAC(5)-18-10 Papur 3 - Comisiwn y Senedd: Y Cynllun Ieithoedd Swyddogol Adroddiad Blynyddol 2019-20

PAC(5)-18-10 Papur 4 - Comisiwn y Senedd: Cynaliadwyedd: Adroddiad Blynyddol 2019-20

PAC(5)-18-20 Papur 5 - Llythyr oddi wrth Gomisiwn y Senedd at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid - Goblygiadau ariannol pandemig COVID-19, 7 Gorffennaf 2020

PAC(5)-18-20 Papur 6 - Gohebiaeth â Chomisiwn y Senedd

Manon Antoniazzi - Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd

Nia Morgan - Cyfarwyddwr Cyllid

Suzy Davies AS - Comisiynydd sydd â chyfrifoldeb dros y Gyllideb a Llywodraethu

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r busnes a ganlyn:

(11.15)

Eitemau 5, 6, 7, 8 a 9

**(Egwyl)**

(11.15 - 11.25)

## 5 Craffu ar Gyfrifon 2019-20: Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

(11.25 - 11.40)

## 6 Blaenraglen Waith

(11.40 - 11.50) (Tudalennau 411 - 415)

PAC(5)-18-20 Papur 7 - Blaenraglen waith

## 7 Cysgu Allan yng Nghymru - Problem i Bawb; Cyfrifoldeb i neb: Adroddiad Archwilio Cymru

(11.50 - 12.00) (Tudalennau 416 - 419)

Papur briffio gan Ymchwil y Senedd

PAC(5)-18-20 Papur 8 - Adroddiad Archwilio Cymru: Cysgu Allan yng Nghymru - Problem i Bawb; Cyfrifoldeb i neb (Gorffennaf 2020)

## 8 Gwrth-Dwyll yng Nghymru: Adroddiad Archwilio Cymru

(12.00- 12.10) (Tudalennau 420 - 423)

Papur briffio gan Ymchwil y Senedd

PAC(5)-18-20 Papur 9 - Adroddiad Archwilio Cymru: 'Gwella ein Perfformiad' - Mynd i'r Afael â Thwyll yng Nghymru (Gorffennaf 2020)

## 9 Rhaglen cael gwared ar asbestos yn Ysbyty Glan Clwyd: Adroddiad Archwilio Cymru

(12:10 - 12:20) (Tudalennau 424 - 428)

Papur briffio gan Ymchwil y Senedd

PAC(5)-18-20 Papur 10 - Adroddiad Archwilio Cymru: Rhaglen cael gwared ar asbestos yn Ysbyty Glan Clwyd (Medi 2020)

Eitem 2a

**Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol/
Prif Weithredwr GIG Cymru
Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

**Director General Health and Social Services/
NHS Wales Chief Executive
Health and Social Services Group**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Nick Ramsay AS
Cadeirydd Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

28 Awst 2020

Annwyl Mr Ramsay

**Rheoli Meddyginiaethau**

Yn dilyn gohebiaeth gan Glerc y Pwyllgor, dyddiedig 7 Mai, mae'r llythyr hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf y gofynnodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus amdani mewn perthynas â'r argymhellion yn ei adroddiad ar Reoli Meddyginiaethau.

Yn fy ymateb i'r Pwyllgor ar 10 Chwefror, dywedais fod mentrau i wella rhagnodi amlroddadwy a lleihau gwastraff wedi cael sylw yn ein hymatebion blaenorol i argymhellion 2 a 12 yn adroddiad y Pwyllgor. Mae Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan (AWTTC) wedi darparu canllawiau ar bresgripsiynu amlroddadwy ac rwy'n disgwyl i fyrddau iechyd fod yn gweithredu'r canllawiau hynny. Yn ogystal, yng ngoleuni ffyrdd newydd o weithio a achoswyd gan COVID-19 rydym wedi cyhoeddi canllawiau ychwanegol i'r maes gofal sylfaenol ar reoli presgripsiynau amlroddadwy yn effeithiol, law yn llaw â gwybodaeth ategol i gleifion a'r cyhoedd.

Fel y dywedais yn fy llythyr dyddiedig 10 Chwefror, roedd Hysbysiad Diogelwch Cleifion (PSN)030 yn destun adolygiad yn 2018. Daeth yr adolygiad i'r casgliad bod y safonau ar gyfer storio meddyginiaethau a nodir yn yr hysbysiad yn parhau i fodoli. Mae canllawiau proffesiynol y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol ar drin meddyginiaethau'n saff ac yn ddiogel, a gyhoeddwyd hefyd yn 2018, yn rhoi cyngor pellach ar storio meddyginiaethau'n ddiogel ac rwyf yn disgwyl i sefydliadau'r GIG eu gweithredu. Cyn COVID-19, roedd gwaith wedi bod yn mynd rhagddo i ddatblygu asesiad risg safonol i helpu sefydliadau'r GIG i nodi'r blaenoriaethau pennaf o ran gwella'r dulliau o storio meddyginiaethau. Cwblhawyd profion terfynol ar yr asesiad risg ddiwedd 2019 a pe na bai COVID-19 wedi dod ar draws hynny byddai'r PSN diwygiedig wedi'i gyhoeddi yn y gwanwyn. Rydym nawr yn paratoi ar gyfer cyhoeddi'r PSN diwygiedig cyn diwedd y flwyddyn a byddaf yn sicrhau bod copi'n cael ei anfon at y pwyllgor pan gyhoeddir ef.

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel
Andrew.Goodall@gov.wales
Gwefan ● website: www.wales.gov.uk

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Yn gywir

**Dr Andrew Goodall**

cc: Andrew Evans, Prif Swyddog Fferyllol, Llywodraeth Cymru
Blwch post CGU
Blwch post y Cabinet

Eitem 2b

**Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol/
Prif Weithredwr GIG Cymru
Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

**Director General Health and Social Services/
NHS Wales Chief Executive
Health and Social Services Group**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Nick Ramsey, AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Senedd Cymru,
Bae Caerdydd,
Caerdydd,
CF99 1SN

28 Awst 2020

Annwyl Nick

**Adroddiad Cynnydd i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar yr Adroddiad "Rheoli Apwyntiadau Dilynol Cleifion Allanol ar Draws Cymru"**

Yn unol â'r cais, mae'n bleser gennyf amgáu adroddiad sy'n amlinellu'r cynnydd a wnaed yn erbyn yr argymhellion yn yr adroddiad uchod.

Mae croeso i chi gysylltu â mi os bydd angen rhagor o wybodaeth arnoch am y pwyntiau a amlinellir yn yr adroddiad hwn.

Yn gywir,

Dr Andrew Goodall

Amgaeeir: Atodiad A

**Adroddiad Cynnydd i Adroddiad Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru "Rheoli Apwyntiadau Dilynol Cleifion Allanol ar Draws Cymru"**

**Darparwyd gan: Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

**Dyddiad: 28 Awst 2020**

Mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud o ran rheoli cleifion allanol dilynol a'r rhaglen trawsnewid cleifion allanol fel rhan o'r Rhaglen Gofal wedi'i Gynllunio.


Mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf yn erbyn y 10 argymhelliad yn adroddiad Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar "Reoli Apwyntiadau Dilynol Cleifion Allanol ar Draws Cymru" a gyhoeddwyd ym mis Awst 2019.

Er bod COVID-19 wedi effeithio ar y gallu i gyflawni rhai o'r camau a gynlluniwyd, mae hefyd wedi bod yn alluogwr gwych ac mae'r gwasanaeth cleifion allanol wedi addasu'n effeithiol i'r heriau a gyflwynir gan COVID-19.

Argymhelliad 1. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn amlinellu sut y mae'r cynllun Cleifion Allanol Cenedlaethol yn seiliedig ar egwyddorion gofal iechyd darbodus, a sut y bydd y Byrddau Iechyd yn atebol i'r Cynllun. Rydym yn argymell y dylid llunio rhaglen weithredu sy'n nodi'r hyn y dylid ei gyflawni yn seiliedig ar y meini prawf SMART (Penodol, Mesuradwy, Cyflawnadwy, Realistig/Perthnasol ac Amserol, yn erbyn amcanion y cynlluniau i atal y perfformiad yn erbyn targedau apwyntiadau dilynol cleifion allanol rhag gwaethygu ymhellach.

**Cwblhawyd** – Datblygwyd y Strategaeth Trawsnewid Gwasanaethau Cleifion Allanol a'r Cynllun Gweithredu mewn ymgynghoriad llawn â'r byrddau iechyd ac mae wedi'i atodi https://llyw.cymru/strategaeth-chynllun-gweithredu-ar-gyfer-gwasanaethau-i-gleifion-allanol-2020-i-2023

Mae'r siart isod yn crynhoi'r blaenoriaethau allweddol:




| |
|---|
| **Argymhelliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru adolygu arferion da cenedlaethol ar ddata perfformiad i sicrhau nad yw'r targedau a'r mesuriadau perfformiad ar gyfer Cleifion Allanol yn annog chwarae'r system ac yn mesur yr hyn sydd o bwys clinigol. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau y gall y mesurau perfformiad newydd ar gyfer cleifion allanol gymharu â gwledydd eraill, eu bod yn cael eu cyhoeddi'n rheolaidd a bod safonau clir ynghylch yr hyn yw perfformiad "da". |

**Cwblhawyd** – Cwblhawyd yr ymchwil yn fewnol. Mae'r Tabl sy'n amlinellu ein dull o weithredu wedi'i atodi yn Atodiad A.

Yn dilyn yr ymchwil Mae'r targedau a'r mesurau perfformiad ar gyfer cleifion allanol ar gyfer 2020/21 fel a ganlyn (Cynhwysir manylion pellach yn y strategaeth yn https://llyw.cymru/strategaeth-chynllun-gweithredu-ar-gyfer-gwasanaethau-i-gleifion-allanol-2020-i-2023

| |
|---|
| **Argymhelliad 3.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu tystiolaeth i'r Pwyllgor bod pob Bwrdd Iechyd yn gwneud y gwelliannau angenrheidiol yn erbyn y targedau newydd ar gyfer gwasanaethau dilynol i gleifion allanol erbyn dechrau 2020, a bod cynllun gweithredu clir ar gyfer gwella ar i'r Byrddau Iechyd hynny nad ydynt yn dangos gwelliannau. |

**Cwblhawyd.** Mae byrddau iechyd wedi cyflwyno cynlluniau i leihau eu rhestrau aros dilynol gyda llwybr y cytunwyd arno ar gyfer Mawrth 2020. Caiff y rhain eu hadolygu a'u monitro ym mhob grŵp llywio cleifion allanol a chyfarfodydd Ansawdd a Chyflawni Llywodraeth Cymru gyda'r byrddau iechyd.

| Mesur | Cynnydd | Statws |
|---|---|---|
| Pob bwrdd iechyd i fod wedi dyrannu dyddiad adolygiad clinigol i 95% o'r holl gleifion ar restr aros am apwyntiad dilynol erbyn Rhagfyr 2019. | Ar lefel Cymru gyfan, ym mis Mawrth 2020, roedd gan 99.5% o gleifion ddyddiad adolygu wedi'i ddogfennu, gan ragori ar y targed o 95%. | TARGED WEDI'I GYFLAWNI |
| Pob bwrdd iechyd i fod wedi dyrannu ffactor risg glinigol i 98% o gleifion ar restr aros cleifion allanol gofal llygaid erbyn mis Rhagfyr 2019. | Mae gan 98.4% o gleifion ar restr aros offthalmoleg yng Nghymru HRF bellach. | TARGED WEDI'I GYFLAWNI |
| Pob bwrdd iechyd i adrodd yn fanwl ar symptomau llwybrau cleifion erbyn Rhagfyr 2019 | Mae pob Bwrdd Iechyd bellach yn cyflwyno adroddiad ar weithgareddau SOS yn fisol. | TARGED WEDI'I GYFLAWNI |
| Y rhestr aros ddilynol i'w lleihau gan o leiaf 15% erbyn Mawrth 2020, 20% arall erbyn Mawrth 2021 ac 20% arall erbyn Mawrth 2022 | O safbwynt Cymru gyfan, bu gostyngiad o 14.5% yn nifer y cleifion ar y rhestrau aros dilynol, sydd fymryn yn fyr o'r targed o 15%. | TARGED WEDI'I FETHU O DRWCH BLEWYN<br><br>Fodd bynnag, llesteiriwyd cynnydd ym mis Mawrth 2020 o ganlyniad i COVID a gohirio'r holl weithgarwch arferol. |
| Lleihau nifer y cleifion a gafodd eu gohirio o dros 100% o 15% o leiaf erbyn mis Mawrth 2020, 20% pellach erbyn mis Mawrth 2021 a 20% pellach erbyn mis Mawrth 2022 | Ar ddiwedd Mawrth 2020, sicrhawyd gostyngiad o 22.4% yn nifer y cleifion y gohiriwyd eu hapwyntiadau gan dros 100% o'r dyddiad targed ar gyfer apwyntiad dilynol. | TARGED WEDI'I GYFLAWNI |

**Argymhelliad 4.** Mae’r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cadarnhau gyda’r Pwyllgor beth fydd y canlyniadau i Fyrddau Iechyd a fydd yn methu â chyrraedd y targedau newydd ar gyfer cleifion allanol.

**Cwblhawyd** – ysgrifennodd Llywodraeth Cymru at Gadeirydd y Pwyllgor gyda'r wybodaeth y gofynnwyd amdani ym mis Tachwedd 2019.

I grynhoi, roedd y broses a amlinellwyd fel a ganlyn:

Caiff cynnydd yn erbyn y targedau hyn ei adolygu'n fisol gan Lywodraeth Cymru, gyda chefnogaeth yr Uned Gyflawni, yn unol â'r fframwaith rheoli perfformiad fel a ganlyn:

- Cwblhaodd y byrddau iechyd adroddiad misol yn amlygu cynnydd yn erbyn y targedau, gweithredu'r blaenoriaethau dilynol ar gyfer gofal wedi'i gynllunio, a'r sefyllfa bresennol o ran y gweithgarwch a ariennir. Roedd yr adroddiad yn gofyn am fanylion camau unioni lle nad oes cynnydd yn cael ei wneud.
- Adolygir yr adroddiadau hyn gan Lywodraeth Cymru a fu'n holi ynghylch unrhyw ystyriaethau a gofynnwyd am sicrwydd pan oedd angen. Yna cawsant eu hadolygu gan grŵp llywio'r cleifion allanol drwy adolygiad a chymorth effeithiol gan gymheiriaid. Trafodir cynnydd yn erbyn targedau cleifion allanol yng nghyfarfodydd Ansawdd a Chyflawni

byrddau iechyd a gadeirir gan Ddirprwy Brif Weithredwr y GIG a Chyfarwyddwr Cyflawni'r Rhaglen.


- Adolygiadau perfformiad chwarterol gyda'r byrddau iechyd a Llywodraeth Cymru yn erbyn y cynnydd sy'n cael ei wneud.

Roedd y lefel hon o graffu yn rhoi ffocws clir ar gyflawni'r targedau.

**Argymhelliad 5.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu diweddariad i'r Pwyllgor yn gynnar yn 2020 ynghylch y cynnydd y mae holl gyrff y GIG wedi'i wneud i sicrhau bod gan yr holl gleifion ar restrau apwyntiadau dilynol ddyddiad adolygu y cytunwyd arno, ac yn nodi'r camau i'w cymryd i atal niferoedd mawr rhag bod ar y rhestr aros heb ddyddiadau adolygu y cytunwyd arnynt.

**Cwblhawyd** – Gwnaed newidiadau i'r system gweinyddu cleifion sy'n golygu nad yw bellach yn bosibl ychwanegu claf at y rhestr aros ddilynol heb fynd i ddyddiad adolygu y cytunwyd arno.

Mae byrddau iechyd hefyd wedi dilysu pob claf heb ddyddiad adolygu targed ac ar ddiwedd mis Mawrth 2020, roedd gan 99.5% o gleifion ddyddiad adolygu wedi'i ddogfennu**.**




**Argymhelliad 6.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cadarnhau a oes gan bob bwrdd iechyd ddull clinigol digon cadarn o fonitro a rheoli'r risgiau clinigol i gleifion sy'n aros am apwyntiadau dilynol cleifion allanol.

**Cwblhawyd -** Cynhaliwyd arolwg llawn i fonitro a rheoli'r risgiau clinigol i'r holl gleifion a oedd yn aros am apwyntiad dilynol ym mhob bwrdd iechyd. Datgelodd hyn arferion da a drwg a chynhaliwyd nifer o sesiynau i safoni'r dull.

Mae pandemig COVID-19 fodd bynnag wedi amlygu bod angen gwneud mwy i gydbwyso'r risgiau i gleifion sy'n aros ar restr ddilynol. O ganlyniad, mae'r llwybr Gweld pan geir Symptomau (SOS) a llwybrau dilynol a ysgogir gan gleifion (PIFU) wedi'u datblygu a'u cyflwyno gyda chanllawiau clir ynghylch sut y gall cleifion dilynol gael eu hadolygu gan ymgynghorwyr yn ôl yr angen. Mae'r

llwybrau hyn ar waith erbyn hyn ac mae byrddau iechyd yn adolygu eu rhestrau dilynol i sicrhau bod cleifion ar y llwybr cywir.

Mae cynigion i haenu risg atgyfeiriadau newydd a'r rhai ar y rhestr aros wedi'u datblygu ac yn cael eu trafod yn glinigol. Os cânt eu derbyn, gallent ddechrau ym mis Hydref 2020.

Cyflwynwyd canllawiau newydd i gleifion dan arweiniad clinigol ar y llwybr gweld pan geir symptomau a'r llwybr dilynol a ysgogir gan gleifion. Mae hyn yn sicrhau y bydd yr holl gleifion yn cael eu hadolygu'n glinigol cyn cael eu rhyddhau i'r llwybrau hyn o'r rhestrau aros apwyntiadau dilynol gan roi gwybodaeth iddynt ynghylch sut i gael mynediad at wasanaethau os oes angen clinigol amdanynt.

**Argymhelliad 7.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyflwyno cynigion ar gyfer cofnodi achlysuron lle mae cleifion wedi cael niwed o ganlyniad i aros am apwyntiad dilynol claf allanol neu driniaeth yn fwy cyffredinol. Mae angen i'r wybodaeth hon gael ei chasglu ar sail Cymru gyfan a'i chyhoeddi mewn fformat agored a hygyrch.

**Cwblhawyd** - Mae'r broses bresennol o adrodd am ddigwyddiadau difrifol yn ei gwneud yn ofynnol i holl sefydliadau'r GIG roi gwybod am achosion o niwed uniongyrchol a diangen i gleifion yn ystod triniaeth y GIG waeth beth fo'r arbenigedd neu ble maen nhw yn llwybr y claf. Mae hyn yn cynnwys unrhyw niwed a achoswyd o ganlyniad i'r amser y bu'r claf allanol yn aros a dylid rhoi gwybod amdano, ymchwilio iddo a rhannu unrhyw ddysgu fel y bo'n briodol yn unol ag unrhyw fath arall o niwed i gleifion, y gellid bod wedi'i osgoi.

Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n adnewyddu ei pholisi a'i phrosesau o ran rheoli digwyddiadau ac adrodd er mwyn sicrhau y caiff 'camau sicrhau diogelwch' eu rhoi ar waith ar unwaith; ymdriniaeth fwy cynhwysfawr o adrodd am ddigwyddiadau ar draws arbenigeddau a lleoliadau; y rhoddir mwy o ffocws ar yr hyn a ddysgir o'r digwyddiadau hyn, a sut y caiff y dysgu hwn ei ledaenu'n well ar sail Cymru gyfan i gefnogi gwelliannau i ddiogelwch cleifion ledled Cymru. Bydd yr adolygiad hwn yn cynnwys sicrhau bod gwybodaeth am ddigwyddiadau yn cael ei chyhoeddi mewn fformat agored a hygyrch. Caiff hyn ei ategu gan ddeddfwriaeth ddiweddar ynghylch dyletswydd o onestrwydd ac ansawdd.

**Argymhelliad 8.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi canllawiau i'r byrddau iechyd ynghylch rhannu gwybodaeth â meddygon ymgynghorol am nifer y cleifion sydd ar restrau apwyntiadau dilynol cleifion allanol nad oes apwyntiadau wedi'u trefnu ar eu cyfer.

**Cwblhawyd –** Fel rhan o'r arolwg a gynhaliwyd o dan argymhelliad 6 – mae gan bob bwrdd iechyd, drwy eu timau cyfarwyddiaeth, broses o wneud rhestrau'n weladwy i'w hymgynghorwyr. Er y cadarnhawyd nad oedd hyn yn cael ei wneud yn rheolaidd ac yn gyson, a bod lle i wella.

Ar hyn o bryd, mae Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (NWIS) yn profi proses a fydd yn galluogi clinigwyr i edrych yn uniongyrchol ar y rhestr Apwyntiadau Dilynol sydd Heb eu Trefnu (FUNB) drwy'r system cofnod gofal iechyd clinigol o dan Borth Clinigol Cymru (WCP). Mae hyn yn caniatáu mynediad uniongyrchol at gofnod iechyd digidol y claf a swyddogaeth o fewn y WCP gan gefnogi'r llif gwaith.

Rhagwelir y bydd hwn ar gael i glinigwyr ym mis Hydref 2020

**Argymhelliad 9.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn sefydlu dull sy'n galluogi i arferion gorau gael eu rhannu ar draws cyrff y GIG ac sy'n dwyn cyrff y GIG i gyfrif am fabwysiadu'r arferion da hynny.

**Cwblhawyd** – Mae Llywodraeth Cymru, y Rhaglen Gofal wedi'i Gynllunio a Gwella Cymru wedi cydweithio i annog lledaenu arferion da. Mae'r Rhaglen Gofal wedi'i Gynllunio a'r Grŵp Llywio Cleifion Allanol wedi cynnal tri digwyddiad cydweithredu ar arferion gorau, ac wedi cyhoeddi compendiwm o arferion da ar-lein.

Mae sesiwn carwsél arferion gorau wedi'i sefydlu. Yn y sesiwn hon, mae pob bwrdd iechyd yn cyflwyno astudiaeth achos i fyrddau iechyd eraill ei addasu (lle y bo'n gymwys). Cynhaliwyd pump o'r sesiynau hyn yn 2019.

Mae byrddau iechyd yn rhannu enghreifftiau o arferion da ac adnoddau i'w defnyddio yn y llawlyfrau gweithredu newydd ar gyfer gweithgaredd rhithwir a fydd oll yn cael eu hymgorffori mewn ystorfa genedlaethol.

O ganlyniad i COVID-19 nid yw'r carwsél wedi parhau yn y flwyddyn ariannol gyfredol, fodd bynnag ym mhob cyfarfod o'r Grŵp Llywio Cleifion Allanol (misol) bydd bwrdd iechyd yn cyflwyno dull arloesol. Datblygwyd cymorth ac arweiniad cenedlaethol fel rhan o'r ymateb COVID-19 a'i rannu gyda'r gwasanaeth er mwyn sicrhau dull cyson o ad-drefnu gwasanaethau i gleifion allanol. Mae'r canllawiau wedi cael eu datblygu a'u rhannu gyda byrddau iechyd ar draws gofal sylfaenol a gofal eilaidd.

Disgwylir i fyrddau iechyd ymgorffori modelau arferion gorau o fewn cynlluniau ar gyfer eu gwasanaethau.

**Argymhelliad 10.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru werthuso'r dull a ddefnyddiwyd i ddatblygu'r mesurau gofal llygaid ac ystyried mabwysiadu dulliau tebyg ar draws arbenigeddau eraill. Byddai'r Pwyllgor yn gwerthfawrogi diweddariad ar hyn erbyn mis Gorffennaf 2020.

**Cwblhawyd** – Mae'r Uned Gyflawni wedi cynnal dau adolygiad gweithredu/gwerthuso mewn perthynas â'r mesur gofal llygaid - gan arwain at newidiadau mewn arferion, casglu data a safonau data. Parhaodd y perfformiad yn erbyn y mesurau i wella cyn COVID-19 fel y nodwyd yn yr adolygiad. Mae'r blaenoriaethu a wnaed ar y garfan hon o gleifion wedi bod yn ddefnyddiol iawn o ran deall pa gleifion yr oedd angen eu gweld yn ystod COVID-19 a'r rhai a oedd yn gallu aros ychydig yn hirach.

Mae'r dull hwn o weithredu bellach yn cael ei ystyried ar draws y system yn ôl ei briodoldeb ar gyfer cyflyrau eraill gan ddechrau gyda chleifion allanol newydd a dilynol. Fodd bynnag, nid yw hyn yn briodol ar gyfer pob cyflwr ac mae gwaith ar y gweill gyda'r gymuned ganser i newid i'r llwybr canser sengl a chyda'r gymuned gardiaidd i ail-ystyried arosiadau cydrannol.

Atodiad A

<table>
<tr><th colspan="3">Datblygu fframwaith cysyniadol ar gyfer rheoli perfformiad apwyntiadau cleifion allanol yng Nghymru</th></tr>
<tr><th>Cysoni ag amcanion strategol</th><th>Beth rydym yn ei wneud</th><th>Yr hyn y mae angen inni ei wneud</th></tr>
<tr><td>Mae trawsnewid y ffordd rydym yn darparu apwyntiadau cleifion allanol ledled Cymru yn nodi gweledigaeth strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer moderneiddio'r model darparu gwasanaethau i gleifion allanol. Mae'r ddogfen yn darparu data clir i ddangos sut nad yw capasiti yn dal i fyny â galw cynyddol sy'n arwain at amseroedd aros hwy am wasanaethau cleifion allanol, profiad gwael i gleifion a'r posibilrwydd o niwed na ellir ei wrthdroi. Mae'r ddogfen hefyd yn nodi targedau ar gyfer gwella gwasanaethau dros y 3 blynedd nesaf ac yn darparu cynllun gweithredu lefel uchel ar sut y caiff y rhain eu cyflawni. Mae'r rhaglen wedi'i chysoni'n strategol i/neu ei llywio gan:<br>▪ Swyddfa Archwilio Cymru: Rheoli Apwyntiadau Dilynol Cleifion Allanol ar draws Cymru (2018)<br>▪ Cymru Iachach (2018)<br>▪ Egwyddorion gofal iechyd darbodus<br>▪ Egwyddorion gofal iechyd seiliedig ar werth<br>▪ Rhaglen Genedlaethol Gofal wedi'i Gynllunio<br>▪ Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015)<br>▪ Y Cynllun Clinigol Cenedlaethol sydd ar ddod</td><td>▪ Dull Cymru gyfan o weddnewid a gwella'r gwasanaethau a ddarperir i gleifion allanol ledled Cymru drwy'r Grŵp Llywio Trawsnewid Cleifion Allanol</td><td>▪ Parhau â chyfarfodydd y Grŵp Llywio Trawsnewid Cleifion Allanol fel fforwm ar gyfer cyfathrebu, cydweithio a rhannu arferion da.<br>▪ Is-grwpiau perthnasol i yrru ffrydiau gwaith unigol.</td></tr>
<tr><th>Meysydd blaenoriaeth uchel</th><th>Beth rydym yn ei wneud</th><th>Yr hyn y mae angen inni ei wneud</th></tr>
<tr><td>Nodwyd meysydd blaenoriaeth uchel yn y strategaeth cleifion allanol a'r cynllun gweithredu ar gyfer 2020 i 2023 sy'n cynnwys y canlynol ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:<br><u>Meintiol</u><br>▪ Lleihau nifer y cleifion sy'n aros am apwyntiad dilynol<br>▪ Lleihau nifer y cleifion a oedd yn aros am apwyntiad dilynol wedi'i ohirio ers eu dyddiad adolygu<br>▪ Lleihau nifer yr apwyntiadau</td><td><u>Rheoli apwyntiadau dilynol</u><br>Yn parhau'n flaenoriaeth. Cyllid wedi'i ddyrannu i weithredu dulliau o leihau apwyntiadau dilynol a darparu ffyrdd amgen o ddarparu gwasanaethau sy'n cyfrannu at gyflawni targedau a nodwyd.<br><br><u>SOS a PIFU</u><br>Mae WPAS 20.1 wedi cael ei gyflwyno gyda swyddogaethau</td><td><u>Platfform hunan-reoli</u><br>Mae gwaith yn mynd rhagddo mewn byrddau iechyd i gyflwyno platfform ar gyfer cleifion er mwyn hwyluso'r broses o hunan-reoli cyflyrau. Mae dull gweithredu cenedlaethol yn cael ei archwilio er mwyn darparu platfform craidd i integreiddio systemau byrddau iechyd i hyrwyddo</td></tr>
</table>

| | | |
|---|---|---|
| dilynol rheolaidd y gellir eu hosgoi<br>▪ Lleihau apwyntiadau a ddarperir wyneb yn wyneb<br>▪ Cynyddu nifer y cleifion sy'n cael eu rhyddhau i lwybrau SOS a PIFU lle bo hynny'n briodol yn glinigol<br>▪ Cynyddu nifer yr ymgynghoriadau ac adolygiadau rhithwir<br>▪ Lleihau'r DNAs a'r HICs<br>Ansoddol<br>▪ Datblygu model haenu risgiau i reoli'r risg o niwed i gleifion sy'n gysylltiedig ag arosiadau hir a blaenoriaethu apwyntiadau dilynol yn seiliedig ar angen clinigol<br>▪ Rheoli atgyfeirio'n well<br>▪ Grymuso cleifion i reoli eu cyflyrau eu hunain<br>▪ Gwella profiad y claf | ychwanegol i gefnogi gweithredu'r modelau SOS a PIFU o 1 Gorffennaf 2020. Mae llawlyfr gweithredu SOS yn cael ei ddiweddaru i gynnwys PIFU.<br><br>Rhith-weithgaredd<br>• Fel gydag SOS a PIFU, bydd WPAS 20.1 yn cefnogi'r broses o roi'r model ar waith o 1 Gorffennaf 2020. Mae'r llawlyfr yn cael ei ddatblygu i helpu i weithredu'r model yn safonol.<br>• Mae Attend Anywhere yn cael ei gyflwyno ar draws gofal eilaidd yng Nghymru i ddarparu llwyfan digidol ar gyfer ymgynghoriadau fideo.<br><br>Rheoli atgyfeiriadau<br>Mae cyswllt ag ymgynghorwyr wedi'i gyflwyno ar draws gofal sylfaenol ac eilaidd i hwyluso cyngor ac arweiniad clinigol i ymarferwyr. | rhannu gwybodaeth a pharhad gofal ar gyfer cleifion sy'n cael gofal gan fwy nag un bwrdd iechyd.<br><br>Haenu risg<br>Mae is-grŵp yn dechrau ym mis Gorffennaf 2020 i archwilio'r broses o ddatblygu model haenu risgiau ar gyfer rheoli apwyntiadau dilynol.<br><br>Rheoli atgyfeiriadau<br>Datblygu model i reoli atgyfeiriadau i ofal eilaidd er mwyn sicrhau bod atgyfeiriadau yn briodol ac na ellir eu rheoli mewn gofal sylfaenol na chymunedol:<br>• Datblygu cyfres gadarn o feini prawf cyfeirio penodol ar gyfer arbenigeddau<br>• Datblygu modelau cyngor a chanllawiau ar gyfer cleifion. |
| **Cysoni ag amcanion y sefydliad** | **Beth rydym yn ei wneud** | **Yr hyn y mae angen inni ei wneud** |
| Cynlluniau cyflawni clir i gyflawni amcanion y sefydliad a'u cysoni â'r amcanion strategol a gyflwynwyd:<br>• Fel rhan o'r broses IMTP<br>• Fel rhan o broses rheoli perfformiad y Gronfa Trawsnewid Cleifion Allanol | Mae byrddau iechyd wrthi'n cyflwyno ceisiadau yn erbyn y gronfa trawsnewid cleifion allanol i gynllunio a chyflawni canlyniadau sy'n gyson â'r amcanion strategol. | • Datblygu fframwaith rheoli perfformiad cysyniadol cadarn a ategir gan ddamcaniaeth<br>• Cynnal adolygiadau rheoli perfformiad chwarterol gyda byrddau iechyd yn seiliedig ar y fframwaith |
| **Integreiddio â TG a chasglu data rheolaidd** | **Beth rydym yn ei wneud** | **Yr hyn y mae angen inni ei wneud** |
| Prosesau casglu data ac adrodd cadarn wedi'u hategu gan systemau TG integredig. | Systemau TG<br>Mae WPAS 20.1 wedi'i gyflwyno gyda swyddogaethau sy'n helpu i ddarparu modelau cleifion allanol sy'n gyson ag amcanion strategol:<br>• SOS a PIFU fel y nodwyd uchod<br>• Gweithgaredd rhithwir fel y nodir uchod<br>Mae gwaith wedi'i gwblhau hefyd gyda byrddau iechyd ar PIMS.<br><br>Casglu data rheolaidd<br>• Mae templed misol adrodd byrddau iechyd (Rhaglen | Cwblhau darnau cyfredol o waith. |

| | | |
|---|---|---|
| | Gofal wedi'i Gynllunio a Thrawsnewid Cleifion Allanol) yn cael ei adolygu i sicrhau ei fod yn gyson ag amcanion strategol a sefydliadol a'r gronfa trawsnewid cleifion allanol.<br>• Mae gwaith yn mynd rhagddo gyda NWIS i adolygu'r Set Ddata Cleifion Allanol er mwyn sicrhau bod y data'n berthnasol ac yn gywir. | |
| **Atebolrwydd ariannol** | **Beth rydym yn ei wneud** | **Yr hyn y mae angen inni ei wneud** |
| Mae'r Gronfa Trawsnewid Cleifion Allanol 2020/21 yn rhoi cymorth ariannol i fyrddau iechyd ac ymddiriedolaethau yng Nghymru i wella'r gwasanaethau a ddarperir i gleifion allanol. Yn unol â'r dystiolaeth, mae rheolaeth ariannol yn rhan o'r broses rheoli perfformiad. Cyn dyfarnu cyllid, mae'n ofynnol i sefydliadau ddarparu cynlluniau ariannol ar sut y caiff cyllid ei wario i sicrhau canlyniadau a nodwyd. Cl | <u>Cronfa Trawsnewid Cleifion Allanol</u><br>Mae cynigion yn cael eu cyflwyno a'u hystyried ar hyn o bryd.<br><br>Trefniadau llywodraethu ariannol ar waith. | Ymgorffori perfformiad ariannol yn y fframwaith:<br>• Canlyniadau clir wedi'u cysoni â gwariant ariannol<br>• Cerrig milltir clir wedi'u cysoni â threfniadau llywodraethu ariannol: Rhaid i fyrddau iechyd ddarparu tystiolaeth eu bod yn bodloni cerrig milltir chwarterol cyn rhyddhau arian y chwarter dilynol |
| **Cymharedd rhyngwladol** | **Beth rydym yn ei wneud** | **Yr hyn y mae angen inni ei wneud** |
| Rhannu arferion gorau yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. | Archwilio modelau rhyngwladol wrth ddarparu gwasanaethau i gleifion allanol a rheoli perfformiad. | Ei gynnwys o fewn ein harferion lle y bo'n berthnasol ac yn briodol. |

Eitem 2c

**Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol/
Prif Weithredwr GIG Cymru
Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

**Director General Health and Social Services/
NHS Wales Chief Executive
Health and Social Services Group**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Nick Ramsay, AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Senedd Cymru,
Bae Caerdydd,
Caerdydd,
CF99 1SN

28 Awst 2020

Annwyl Mr Ramsay

**Gwasanaethau Radioleg – Camau Gweithredu i'w cwblhau ar gyfer y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus**

Ar ddiwedd 2016, cychwynnodd yr Archwilydd Cyffredinol, Swyddfa Archwilio Cymru, adolygiad o wasanaethau radioleg ym mhob bwrdd iechyd yng Nghymru. Dangosodd gwaith ychwanegol fod nifer o heriau allweddol yn wynebu GIG Cymru ar lefel genedlaethol a lleol.

Ar 20 Tachwedd 2019, ysgrifennais at brif weithredwyr y byrddau iechyd yn gofyn am yr wybodaeth ddiweddaraf am y camau a gymerwyd yn lleol mewn perthynas â'r pum her ganlynol:

- Y Gweithlu
- Cyfarpar
- Y Galw
- Rheoli Gwasanaethau
- Ansawdd

Mae Llywodraeth Cymru wedi adolygu'r ymatebion ac yn ceisio sicrwydd gan Fwrdd Strategaeth y Rhaglen Delweddu Genedlaethol (NIPSB) bod y camau a gymerwyd yn briodol ac yn cefnogi'r cyfeiriad strategol fel yr amlinellir yn y Datganiad o Fwriad ar gyfer Delweddu.

Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio sicrwydd bod y camau a nodwyd yn adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru wedi'u cynnwys yn y Cynllun Gweithredu Delweddu yn sgil y Datganiad o Fwriad a'u bod yn cael eu monitro'n rheolaidd a'u hadrodd i NIPSB er mwyn gallu nodi risgiau a lliniaru camau i'w cymryd yn unol â hynny.

Mae'r NIPSB yn disgwyl cadarnhau adroddiad terfynol o gynnydd yn erbyn argymhellion Archwilydd Cyffredinol Cymru yn y cyfarfod nesaf a drefnwyd ar 13 Hydref 2020. Disgwylir y bydd yr adroddiad hwn yn rhoi adlewyrchiad cywir a manwl

o'r cynnydd a wnaed gan y rhaglen.  Rydym hefyd yn disgwyl y bydd yr adroddiad hwn yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor i'w ystyried yn syth ar ôl i'r Bwrdd ei gymeradwyo.

Yn gywir



Dr Andrew Goodall

cc Rob Orford, Prif Gynghorydd Gwyddonol (Iechyd)
Frances Duffy, Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol a Gwyddor Gofal Iechyd a Phroffesiynau Perthynol i Iechyd
Chris Newbrook, Pennaeth y Gangen Gwyddor Gofal Iechyd a Phroffesiynau Perthynol i Iechyd
Matthew Ager, Arweinydd Ymbelydredd ar gyfer Iechyd
Jane Fitzpatrick, Cyfarwyddwr Rhaglenni Strategol/Cynghorydd Strategol ar gyfer Delweddu a Phatholeg, Llywodraeth Cymru
Melanie Barker, Cyfarwyddwr Cyswllt Interim Patholeg a Delweddu, Cydweithrediad Iechyd GIG Cymru
Chris Kalinka, Rheolwr Rhaglen, Cydweithrediad Iechyd GIG Cymru

**Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol/
Prif Weithredwr GIG Cymru
Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

**Director General Health and Social Services/
NHS Wales Chief Executive
Health and Social Services Group**

Eitem 2d

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Nick Ramsay AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Our Ref: AG/RP

2 Medi 2020

Annwyl Mr Ramsay

**Yr wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd yn erbyn argymhellion a wnaed yn adroddiadau'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Swyddfa Archwilio Cymru ar Wasanaethau y Tu Allan i Oriau**

Bu ichi nodi ein hymateb, dyddiedig 7 Hydref 2019, i Ymchwiliad y Pwyllgor i Wasanaethau y Tu Allan i Oriau a gofyn am yr wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed yn erbyn yr argymhellion ym mis Gorffennaf 2020. Bu ichi ofyn inni hefyd roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am argymhellion Archwilio Cymru a wnaed yn eu hadroddiad y Tu Allan i Oriau a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2018. Rwyf yn ymddiheuro am yr oedi cyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf hon i chi.

Mae cryn gynnydd wedi'i wneud yn erbyn argymhellion y ddau adroddiad a bydd diweddariad cynhwysfawr yn **Atodiad 1**. Mae swyddogion wedi cael trafodaethau gydag Archwilio Cymru ac wedi ystyried eu hadborth. Dylid ystyried yr atodiad hwn fel dogfen 'fyw' ac felly caiff ei ddiweddaru pan wneir unrhyw gynnydd yn erbyn yr argymhellion.

Mae'n werth nodi hefyd fod y broses barhaus o gyflwyno 111 yn mynd rhagddi'n dda ac y bydd 5 o bob 7 BILl wedi gweithredu'r gwasanaeth yn llawn cyn bo hir, gyda 111 hefyd yn rhychwantu Cymru Gyfan ar gyfer ymholiadau sy'n ymwneud â COVID. Mae gweithredu'r holiadur symptomau ar-lein (sydd wedi cael dros 1.2m o ymweliadau dros y 6 mis diwethaf) ynghyd ag amrywiaeth o wasanaethau digidol eraill i glinigwyr a'r cyhoedd wedi gwneud

gwahaniaeth sylweddol a chynyddu cadernid y GIG drwy gydol y cyfnod COVID. Rydym bellach yn adolygu sut y gall y gwasanaeth gefnogi rhai o'r gwasanaethau gofal heb ei drefnu a gofal brys ehangach cyn y gaeaf hwn tra byddwn hefyd yn adeiladu system TG newydd ac rydym yn rhag-weld y bydd hyn ar waith o Chwarter 3 ymlaen y flwyddyn nesaf.

Mae pandemig COVID-19 2020 wedi cael effaith ddwys ar ddarparu gwasanaethau'r GIG ac ymddygiad y cyhoedd yn y ffordd y maent yn cael mynediad at ofal iechyd. Rydym wedi gweld datblygiadau cyflym i gyflenwi gweithredol o fewn y GIG er mwyn sicrhau bod cleifion sy'n profi'n gadarnhaol am COVID yn cael y driniaeth y mae arnynt ei hangen ac ar yr un pryd yn diogelu'r rhai sydd fwyaf mewn perygl. Yn sgil y mesurau i gyfyngu ar symudiadau'r boblogaeth i reoli lledaeniad COVID-19 cafwyd gostyngiad sydyn yn y nifer a aeth i Adrannau Achosion Brys, a chynnydd mawr yn nifer y galwadau i wasanaeth y GIG a'r defnydd o holiadur symptomau ar-lein COVID-19. Er bod 111 o wasanaethau'n dal i weithredu ar lefel 30+% yn uwch na'r lefelau cyn-COVID, nid yw'r nifer sy'n mynychu Adrannau Achosion Brys wedi dychwelyd i'r sefyllfa a oedd yn bodoli cyn-COVID eto.

Mae'r newid hwn i'r ffordd y mae'r cyhoedd yn cael mynediad at wasanaethau cyhoeddus yn rhywbeth y mae'n rhaid inni geisio'i gynnal y tu hwnt i'r pandemig presennol. Er enghraifft, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi gweithredu CAV 24/7 yn ddiweddar lle y gofynnir i gleifion ffonio'n gyntaf cyn mynd i Adran Achosion Brys. Bydd proses brysbennu cychwynnol yn cael ei gwneud gan driniwr galwadau ac os bydd angen byddant wedyn yn cael eu trosglwyddo i glinigydd a fydd yn ymgymryd â phroses brysbennu pellach. Yn dilyn hyn, bydd y clinigydd wedyn yn gwneud penderfyniad ar y pwynt gofal gorau i'r claf. Mae'r model wedi ennill diddordeb ledled y wlad ac edrychwn ymlaen at weld unrhyw werthusiad o'r model hwn yn y dyfodol. Yng ngoleuni hyn, bydd Tîm Rhaglen 111a chydweithwyr Gofal Sylfaenol Brys o fewn BILlau yn awr yn adolygu'r strategaeth ar gyfer y dyfodol dros y blynyddoedd nesaf.

Gobeithio y bydd y diweddariad hwn o gymorth ichi.

Yn gywir



**Dr Andrew Goodall CBE**

# Gwasanaethau Gofal Sylfaenol y Tu Allan i Oriau

## Ymateb i Argymhellion Swyddfa Archwilio Cymru a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Tîm Gofal Brys, Llywodraeth Cymru

**Cynnwys**

Adran 1 – Cyd-destun a Chyfeiriad Strategol

- Cyflwyniad Tudalen 2
- Cefndir Tudalen 2
- Model Gofal Sylfaenol Cymru Tudalen 3
- Y Gwasanaeth 111 Tudalen 5

Adran 2 – Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar Ofal Sylfaenol y Tu Allan i Oriau: Argymhellion

- Argymhelliad 1 Tudalen 7
- Argymhelliad 2 Tudalen 8
- Argymhelliad 3 Tudalen 9
- Argymhelliad 4 Tudalen 12
- Argymhelliad 5 Tudalen 13
- Argymhelliad 6 Tudalen 14
- Argymhelliad 7 Tudalen 15
- Argymhelliad 8 Tudalen 16

Adran 3 – Ymchwiliad Gofal Sylfaenol y Tu Allan i Oriau y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus: Argymhellion

- Argymhelliad 1 Tudalen 18
- Argymhelliad 2 Tudalen 18
- Argymhelliad 3 Tudalen 19
- Argymhelliad 4 Tudalen 19
- Argymhelliad 5 Tudalen 20
- Argymhelliad 6 Tudalen 20
- Argymhelliad 7 Tudalen 21
- Argymhelliad 8 Tudalen 21

**ADRAN 1 – CYD-DESTUN A CHYFEIRIAD STRATEGOL**

**Cyflwyniad**

Cyhoeddodd Swyddfa Archwilio Cymru (WAO) ei harchwiliad o *Wasanaethau Gofal Sylfaenol y Tu Allan i Oriau* ar 12 Gorffennaf 2018.

Mae argymhellion yr adroddiad yn galw am fwy o gyfranogiad ac arweiniad gan y GIG a Llywodraeth Cymru. Dylid cofio bod gan Fyrddau Iechyd Lleol gyfrifoldeb statudol dros ddarparu gwasanaethau gofal sylfaenol yn y cyfnod 'y tu allan i oriau'. Derbyniodd pob bwrdd iechyd adroddiad unigol gan SAC yn ystod 2017 yn ymwneud yn benodol â'u gwasanaeth y tu allan i oriau lleol.

Gwnaeth yr adroddiad 8 argymhelliad yr oedd yn ofynnol i randdeiliaid o fewn Llywodraeth Cymru a'r GIG fynd i'r afael â hwy. Yn dilyn adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru, cynhaliodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus (PCC) ymchwiliad ei hun i wasanaethau y Tu Allan i Oriau yn ystod gwanwyn 2019.

Cymerodd y PCC dystiolaeth gan y GIG a bu Andrew Goodall, Simon Dean a Judith Paget yn bresennol mewn sesiwn gyda'r Pwyllgor ddydd Llun 29 Ebrill 2019. Edrychodd ymchwiliad y Pwyllgor ar ganfyddiadau adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ac ystyriodd yn benodol:-

- Perfformiad a phrofiad cleifion
- Cynaliadwyedd ariannol a chlinigol
- Rheoli gwybodaeth a pherfformiad
- Integreiddio gwasanaethau y tu allan i oriau gyda gwasanaethau eraill

Ystyriodd yr ymchwiliad hefyd:

- Cwmpas gwasanaethau y tu allan i oriau
- Safonau Cenedlaethol
- Cynllunio'r Gweithlu
- Ymgysylltu â Staff
- Asesiadau Ansawdd
- Lledaenu arfer arloesol
- Trefniadau Arweinyddiaeth Cenedlaethol
- Y Gwasanaeth 111

Cyhoeddodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ei adroddiad ym mis Gorffennaf 2019 a gwnaeth 8 argymhelliad. Derbyniwyd 5 ohonynt, gwrthodwyd 2 ohonynt ac mae 1 wedi'i nodi.

Bwriad y ddogfen hon yw cyflwyno naratif sy'n disgrifio'r dystiolaeth sy'n ymwneud â'r camau gweithredu a gymerwyd yn erbyn pob un o argymhellion adroddiadau Swyddfa Archwilio Cymru a'r PCC.

**Cefndir**

Er ein bod yn falch o nodi bod adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru yn cydnabod bod gan y cyhoedd barch mawr at wasanaethau y tu allan i oriau, roeddem yn derbyn bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn gyfraniad defnyddiol at ddarparu gwasanaeth y Tu Allan i Oriau (TAiO) effeithiol yng

Nghymru. Fel mewn rhannau eraill o'r DU, cafwyd problemau gyda recriwtio staff clinigol, yn enwedig meddygon teulu, yn y cyfnod y tu allan i oriau dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf.

Dros y 2 flynedd ddiwethaf, mae Llywodraeth Cymru, gan weithio'n agos gyda'r GIG, wedi bod yn canolbwyntio ar y meysydd a amlygir yn adroddiad y Swyddfa Archwilio gan ddarparu camau gweithredu cenedlaethol a lleol sy'n gwneud y system yn fwy cydnerth. Ar yr un pryd, mae'r gwaith o gyflwyno 111 wedi cynyddu cydnerthedd ac wedi creu cyfleoedd ar gyfer cynyddu a gwella gwaith rhanbarthol a chenedlaethol.

Gwnaeth Swyddfa Archwilio Cymru 8 prif argymhelliad a chredwn fod cryn dipyn o waith wedi'i wneud, ac roedd llawer ohono'n mynd rhagddo erbyn i'r adroddiad gael ei gyhoeddi.

Yn benodol, roeddem yn cydnabod yr alwad am fwy o gyfranogiad ac arweiniad gan Lywodraeth Cymru a'r GIG ac mae Judith Paget, Prif Weithredwr Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan, wedi bod yn darparu arweiniad strategol, gan gadeirio'r Bwrdd Gofal Sylfaenol Cenedlaethol, sy'n cydgysylltu camau gweithredu allweddol ar daith tuag at integreiddio gwasanaethau'n well fel rhan o'r Model Gofal Sylfaenol i Gymru.

Ein cyd-uchelgais yw sicrhau mwy o gysondeb a thegwch o ran darparu gwasanaethau y Tu Allan i Oriau ledled Cymru, gan ddysgu o'r arferion gorau sy'n bodoli eisoes. Fodd bynnag, yn y pen draw, mae byrddau iechyd yn parhau i fod yn statudol gyfrifol am ddarparu gwasanaethau gofal sylfaenol yn ystod y cyfnod y tu allan i oriau.

**<u>Y Model Gofal Sylfaenol i Gymru</u>**

Gan adeiladu ar Gynllun Gofal Sylfaenol Cymru, mae Model Gofal Sylfaenol Cymru yn disgrifio'r elfennau sydd eu hangen i'w gyflawni. Cafodd y model ei lywio gan brosiectau pennu cyfeiriad ledled Cymru mewn ymateb i'r Cynllun Gofal Sylfaenol, ac ysgogir y broses o weithredu'r model drwy'r Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol (2018). Mae yna chwe ffrwd waith fel rhan o strwythur rheoli ffurfiol y Rhaglen Strategol fel a ganlyn:

- Atal a Lles
- model 24/7
- Data a Digidol
- Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol
- Cyfathrebu ac Ymgysylltu
- Trawsnewid a'r Weledigaeth ar gyfer Clystyrau.

Mae'r Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol a'r Rhaglen Gwasanaeth TAiO/111 ill dau yn adrodd i'r Bwrdd Gofal Sylfaenol Cenedlaethol. Ceir cynrychiolaeth o 111/Gwasanaethau TAiO ar draws ffrydiau gwaith y Rhaglen Strategol, yn enwedig ar y ffrwd waith 24/7 lle mae Cyfarwyddwr y Rhaglen 111 yn gyd-gadeirydd. Mae hyn yn atgyfnerthu'r dull 24/7 ac yn sicrhau bod egwyddorion cyflawni'r un fath gan adlewyrchu y gall fod modelau gweithredu gwahanol yn ystod oriau arferol a'r tu allan i oriau. Mae cydnerthedd gwasanaethau yn ystod oriau arferol, a mynediad at y

gwasanaethau hynny, yn cael effaith allweddol ar wasanaethau Y Tu Allan i Oriau (TAiO). Felly, mae gwasanaethau TAiO yng Nghymru bellach yn cael eu cynllunio yng nghyd-destun strategol Model Gofal Sylfaenol Cymru, yn ogystal â bod yn rhan annatod o'r system gofal heb ei drefnu.

Yn y cyd-destun hwn, mae ein dull yn rhan o wasanaeth 24 awr y dydd. Rydym yn gwybod y gall gwasanaethau a ddarperir yn ystod oriau arferol effeithio ar y galw am wasanaethau y tu allan i oriau. Mae rhai meddygfeydd teulu ledled Cymru yn wynebu heriau o ran cyflawni cynaliadwyedd a hygyrchedd. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda byrddau iechyd a meddygfeydd teulu i fynd i'r afael â'r heriau o ran recriwtio meddygon teulu ac i gyflwyno mynediad at amrywiaeth ehangach o weithwyr iechyd proffesiynol ac atgyfeirio pobl i wasanaethau lleol eraill megis fferyllfeydd cymunedol.

O ran denu mwy o feddygon teulu a gweithwyr iechyd proffesiynol eraill i Gymru, lansiwyd ein hymgyrch genedlaethol a rhyngwladol "Gwlad, Gwlad: Hyfforddi, Gweithio, Byw" ym mis Hydref 2016 i farchnata Cymru a GIG Cymru fel lle gwych i feddygon, gan gynnwys meddygon teulu. Mae'r ymgyrch wedi arwain at gynnydd sylweddol yn y gyfradd lenwi ar gyfer hyfforddiant meddygon teulu. Cynyddodd y dyraniad sylfaenol ar gyfer lleoedd hyfforddi meddygon teulu o 136 i 160 yr hydref diwethaf. Yn dilyn y broses recriwtio ddiweddaraf (2019), mae 186 o leoedd hyfforddi meddygon teulu wedi'u llenwi sy'n rhagori nid yn unig ar y dyraniad sylfaenol cychwynnol o 136 o leoedd ond hefyd y dyraniad newydd uwch o 160. Mae'n gadarnhaol bod mwy o feddygon yn dewis hyfforddi fel meddygon teulu yng Nghymru. Ein strategaeth yw ehangu timau amlddisgyblaethol mewn gofal sylfaenol, gan gynnwys gweithwyr y tu allan i oriau, dan arweiniad meddygon teulu, trwy fuddsoddi mewn amrywiaeth o weithwyr gofal iechyd proffesiynol, megis ymarferwyr uwch, fferyllwyr clinigol, clinigwyr iechyd meddwl a therapyddion. Rydym yn mynd ati hefyd i ddiwygio'r contract cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau gofal sylfaenol o fewn oriau arferol i wella'r ffordd y cânt eu cynllunio a'u darparu, gan arwain at wasanaethau mwy cynaliadwy a hygyrch.

Ers diwygio contract meddygon teulu yn 2004 a welodd Gwasanaethau TAiO meddygon teulu yn cael eu tynnu o'r contract ar gyfer Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol, mae'r model cyflenwi ar gyfer y tu mewn a'r tu allan i oriau wedi'i reoli mewn amrywiaeth o ffyrdd a'i ddarparu drwy wahanol ddarparwyr (h.y. ar hyn o bryd caiff TAiO ei ddarparu gan Fyrddau Iechyd). Mae'r etifeddiaeth ar ôl 2004 wedi creu nifer o broblemau strwythurol gyda systemau ategol sydd wedi cymryd cryn amser ac ymdrech i'w cywiro. Fodd bynnag, cydnabyddir bod yna 'linyn euraid' gofal brys sy'n rhedeg ar draws y gwasanaethau yn ystod oriau gwaith a thu allan i oriau. Mae'n amlwg bod rheoli gofal sylfaenol brys yn ystod oriau gwaith yn cael effaith ar wasanaethau gofal sylfaenol brys y tu allan i oriau ac i'r gwrthwyneb. Felly, mae angen inni ystyried y cynnig gofal sylfaenol brys yn ei gyfanrwydd gan gydnabod y bydd darpariaeth gwasanaethau ychydig yn wahanol y tu mewn a'r tu allan i oriau ond y bydd gofal di-dor ac effeithiol gan dîm aml-broffesiynol ar sail 24/7 yn ganolog iddynt, gyda blaenoriaeth i'r bobl fwyaf sâl.

Fel rhan o'r gwaith o weithredu Model Gofal Sylfaenol Cymru, mae gan y Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol bum ffrwd waith benodol i ddatblygu camau gweithredu. Ffrwd waith allweddol yn hyn o beth yw *Ffrwd waith y model 24/7*, wedi'i labelu'n fwriadol i sicrhau ein bod yn ystyried beth yw'r cynnig cyffredinol i'r cyhoedd. Cydnabyddir bod y gwasanaethau gofal brys sy'n cael eu cynnig i'r cyhoedd gan wasanaethau Gofal Sylfaenol a Chymunedol ledled Cymru yn wahanol iawn, yn dibynnu ar yr adeg o'r dydd, a lleoliad y darpar glaf yn aml. Er ein bod yn cydnabod y bydd y

gwasanaethau a ddarperir ychydig yn wahanol yn ystod oriau gwaith a thu allan i oriau, dylai egwyddorion a chydrannau cyffredinol y model fod yr un fath, er enghraifft systemau trafod galwadau, y tîm amlddisgyblaethol estynedig a'r seilwaith gwasanaethau cymunedol ehangach (elfennau allweddol yn y Model Gofal Sylfaenol i Gymru).

Mae'r ffrwd waith 24/7 yn canolbwyntio ar wasanaethau gofal brys o fewn Gofal Sylfaenol a Chymunedol a dylai ategu gwaith y Bwrdd Gofal Heb Ei Drefnu Cenedlaethol. Mae'r ffrwd waith yn ymdrin â'r camau gweithredu sy'n gysylltiedig â'r Adolygiadau Cymheiriaid diweddar o wasanaethau y tu allan i oriau, buddsoddiadau mewn Gwasanaethau Sylfaenol a Chymunedol sy'n gysylltiedig â chyfnod y gaeaf, metrigau a dulliau uwchgyfeirio o fewn gofal sylfaenol, mynediad i holl ôl-troed contractwyr annibynnol mewn ardal a'r defnydd ohono a'r opsiynau o ran darparu gwasanaeth brysbennu clinigol yn ystod oriau gwaith gwasanaethau meddygol cyffredinol a llwyddiant y gwasanaeth hwnnw. Bydd gan y gwaith hwn friff gwylio ar ddatblygiad y segmentu poblogaeth a haenu risgiau ar lefel clwstwr.

**<u>Y Gwasanaeth 111</u>**

Mae gwasanaeth 111 Cymru yn gyfle sylweddol i ddod yn bwynt mynediad sengl a ffefrir i bobl ag anghenion gofal brys, gan gyflwyno cyfleoedd strategol i symleiddio mynediad at amrywiaeth o wasanaethau a chyngor.  Yn yr ardaloedd hynny yng Nghymru ble mae 111 wedi cael ei gyflwyno, mae hyn eisoes yn gwneud gwasanaethau y tu allan i oriau yn fwy cydnerth – gellir gweld hyn ym mwrdd Bae Abertawe, Hywel Dda, Powys ac yn fwy diweddar Aneurin Bevan, lle mae'r gwasanaeth 111 yn rheoli pobl ag anghenion brys yn y cyfnod y tu allan i oriau ar waith. I ddechrau, bydd cyflwyno rhaglen 111 a fydd wedi ei chwblhau erbyn 2021/22, yn cefnogi gofal sylfaenol brys y tu allan i oriau, gan ddarparu mwy o aliniad cenedlaethol ar gyfer trin galwadau a brysbennu clinigol.

Mae'r gwasanaeth 111 yn gwella mynediad drwy gyfeirio pobl at wasanaethau lleol a ffynonellau cymorth, gan ddefnyddio rhif rhad ac am ddim fel y dangoswyd drwy'r pandemig Covid-19, lle cafodd 111 ei gyflwyno ledled Cymru i bob BILl ar gyfer ymholiadau'n ymwneud â COVID. Maes o law, caiff hyn ei gyflawni gan ddefnyddio cyfleoedd amlgyfrwng / digidol eraill a defnyddiwyd y gwiriwr symptomau ar-lein yn helaeth dros y 6 mis diwethaf gyda thros 1.2m o ymweliadau. Bydd mwy o waith rhanbarthol a chenedlaethol i ateb y galw am gyngor a thriniaeth ar adegau prysur ac i leihau'r gweithlu'n ddiogel ar adegau tawel.

Bydd cysylltiadau â chleifion yn cynyddu yn seiliedig ar waith timau amlddisgyblaethol; bydd y rhain yn dibynnu llai ar feddygon teulu ond yn rhoi mwy o bwyslais ar eu rôl fel arweinwyr clinigol. Mae pensaernïaeth y system, gan gynnwys Porth Clinigol Cymru a Nodiadau Cleifion Arbennig wedi'u diweddaru, yn golygu y bydd cofnodion clinigol cyfredol ar gael i dimau clinigol, sy'n hanfodol fel bod pobl yn cael gofal priodol, yn enwedig y rhai â chyflyrau cymhleth a / neu ar ddiwedd eu hoes.

Mae cynlluniau ar y gweill i gyflwyno'r gwasanaeth yng Nghaerdydd yn 2021 a Betsi yn gynnar yn 2022, ond rydym yn mynd i weithredu bwlch yn y broses o gyflwyno o hyn tan y flwyddyn nesaf er mwyn caniatáu cyflwyno llwyfan TG 111 cenedlaethol newydd i gefnogi'r gwasanaeth yn y dyfodol. Ar ôl rhoi'r system TG ar waith, bydd y gwaith o gyflwyno'r gwasanaeth 111 yn cael ei ymestyn i fwrdd iechyd Betsi Cadwaladr fel y nodwyd yn 2022.  Unwaith y bydd wedi'i gyflwyno yng Nghaerdydd, bydd 111 yn darparu mynediad i'r gwasanaeth 'Ffonio'n gyntaf' a lansiwyd yn

ddiweddar ar gyfer mynediad nad yw'n argyfwng i'r Adran Achosion Brys yn Ysbyty Athrofaol Cymru. Dyma fydd y model mewn mannau eraill yng Nghymru pan gaiff 'Ffonio'n gyntaf' ei gyflwyno.

**ADRAN 2 - ARGYMHELLION SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU**

Mae'r adran ganlynol yn rhoi naratif o dystiolaeth yn erbyn yr argymhellion a nodir yn adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar *Wasanaethau Gofal Sylfaenol y Tu Allan i Oriau* a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2018. Rydym wedi graddio'r argymhellion yn goch, melyn neu wyrdd i adlewyrchu lle rydym ni'n teimlo ein bod yn erbyn pob argymhelliad. Gweler yr allwedd isod:-

**<u>Argymhelliad 1</u>**

**Ochr yn ochr â rhoi'r gwasanaeth ffôn 111 ar waith yn genedlaethol, dylai Llywodraeth Cymru arwain gwaith i safoni'r modd y bydd gwefannau'r GIG, llinellau ffôn meddygfeydd teulu a ffynonellau eraill o wybodaeth o fewn y GIG yn cyfeirio ac yn atgyfeirio i wasanaethau y tu allan i oriau. Yn rhan o'r gwaith hwn, dylid hefyd ymdrechu i roi diffiniad clir y cytunir arno'n genedlaethol o gwmpas gwasanaethau y tu allan i oriau ac ym mha amgylchiadau y dylai'r cyhoedd eu defnyddio.**

Ym mis Awst 2018, cyhoeddwyd y negeseuon TAiO safonol canlynol i bractisau meddygon teulu:-

- *Diolch am ffonio xxx. Mae'r feddygfa bellach ar gau. Os oes gennych chi argyfwng lle mae bywyd yn y fantol, ffoniwch 999.*
- *Os ydych chi angen sylw meddygol brys, ffoniwch y gwasanaeth y tu allan i oriau ar xxxxxx neu 111 (fel sy'n briodol).*
- *Am gyngor a gwybodaeth iechyd, ffoniwch Galw Iechyd Cymru ar 0845 4647.*

Darparwyd y negeseuon safonol i'r meddygfeydd yn Gymraeg a Saesneg. Roedd Cymdeithas Feddygol Prydain (BMA) Cymru yn cefnogi'r dull hwn ac fe wnaeth y Gymdeithas ei ddosbarthu i'r Pwyllgorau Meddygol Lleol (LMCs).

O ran safoni gwefannau'r GIG, mae Prosiect Newid y System Rheoli Cynnwys wedi'i sefydlu. Nod y prosiect hwn yw newid system rheoli cynnwys GIG Cymru a chytuno ar edrychiad, teimlad, cynnwys a dulliau gwe-lywio ar draws gwefannau GIG Cymru.

Cadeirydd y Bwrdd Prosiect yw'r Athro Hamish Laing gyda chynrychiolaeth gyfathrebu, technegol a chlinigol. Mae cwmni sy'n ymgynghori ar ddylunio ar sail profiad defnyddwyr gwefannau, Box UK, wedi cyflawni gwaith gydag amrywiaeth eang o randdeiliaid i ddatblygu dyluniadau cadarn a sbardunir gan ddefnyddwyr. Mae'r cwmni hwn yn cael ei ddefnyddio bellach i lywio datblygiad y gwefannau newydd, a bydd yn llywio datblygiad Platfform Ar-lein Cymru.

O ran diffiniad clir o gwmpas y gwasanaeth y tu allan i oriau, mae Model Gofal Sylfaenol Cymru, a ddisgrifir yn fyr yn y cyflwyniad i'r ddogfen hon, yn ymwneud â gwasanaethau di-dor dros gyfnod 24/7, lle mae llai o wahaniaeth rhwng y gwasanaeth oriau arferol a'r gwasanaeth tu allan i oriau. Bydd hyn yn seiliedig ar ddealltwriaeth fanwl o batrymau galw a mwy o ffocws ar wneud mynediad i'r gwasanaethau cywir yn haws i'r cyhoedd. Bydd y gwasanaeth 111 yn elfen bwysig o hyn. Er bydd y diffiniad a'r model ar gyfer Gofal Sylfaenol brys sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd gan yr is-grŵp 24/7 a grybwyllir uchod yr un mor hanfodol.

**Argymhelliad 2**

**Mae Llywodraeth Cymru yn cyflawni gwaith i ddiweddaru'r safonau cenedlaethol ar gyfer y gwasanaeth y tu allan i oriau, er mwyn sicrhau bod y safonau'n cyd-fynd a'r dulliau newydd o weithio rhwng 111 a'r gwasanaeth y tu allan i oriau. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno adroddiad blynyddol i ddisgrifio cynnydd y byrddau iechyd wrth weithredu'r safonau cenedlaethol newydd.**

Safonau

Roedd y gymuned y tu allan i oriau / 111 yn awyddus i greu un gyfres 'gyffredinol' o safonau a dangosyddion ansawdd. Y bwriad oedd datblygu cyfres o fesurau y gellid eu mabwysiadu, a'u defnyddio gan bob bwrdd iechyd, p'un ai ydynt yn gweithredu 111 neu wasanaeth y tu allan i oriau ai peidio.

Mae'r gyfres newydd o Safonau a Mesurau Gweithgarwch ar gyfer 111 a TAiO yng Nghymru wedi'u datblygu trwy gydweithrediad agos rhwng clinigwyr y tu allan i oriau/111, rheolwyr gwasanaethau a Llywodraeth Cymru. Cafodd y rhain eu rhannu'n eang gyda'r GIG cyn eu cyhoeddi ym mis Mawrth 2019. Mae'r safonau wedi'u rhannu'n dair rhan:

- Rhan A yw safonau darparu a dangosyddion gweithgarwch (AI) y mae'n ofynnol eu hadrodd yn fisol naill ai ar lefel genedlaethol neu leol.

- Rhannau B a C yw dangosyddion ansawdd a datblygiad sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (WAST) a Byrddau Iechyd grynhoi ac adrodd y wybodaeth naill ai'n fisol, yn chwarterol, bob chwe mis neu'n flynyddol.

Er y cydnabyddir yn gyffredinol bod y safonau'n her i'r gwasanaeth presennol, cytunwyd y byddai'r Safonau 'ymestyn' hyn yn parhau i lywio'r gwaith o ddatblygu model y ddarpariaeth ar gyfer gwasanaethau y tu allan i oriau. Byddant hefyd yn sbarduno gwelliannau, arloesi, gweithio rhanbarthol / cenedlaethol mewn modd darbodus. Mae'r gyfres newydd o safonau diwygiedig wedi'i chyhoeddi, a chânt eu monitro o 1 Ebrill 2019 ymlaen.

Er bod y sail dystiolaeth yn dal i fod yn gymharol fach, ymddengys y bydd y gwaith o gyflawni'r safonau clinigol hyn yn well gan ddefnyddio model 111, gan ei gwneud yn haws cael y clinigwr cywir i'r person cywir ar yr adeg gywir.

Adroddiad blynyddol

Gwnaeth Llywodraeth Cymru hi'n ofynnol i fyrddau iechyd gynhyrchu Adroddiad Blynyddol yn nodi perfformiad yn erbyn y Safonau am y tro cyntaf ar gyfer 2017/18. Mae templed yr adroddiad blynyddol wedi'i ddiweddaru a'i ddatblygu, ac fe'i darparwyd i Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru a'r byrddau iechyd ym mis Ebrill 2019, yn barod ar gyfer adrodd ym mis Gorffennaf 2019 ar weithgarwch 2018 -19 yn erbyn y Safonau presennol.

Mae'r broses hon bellach wedi'i chwblhau ac mae'r adroddiad blynyddol ar gyfer 2018/19 wedi'i gyhoeddi ar y wefan Cyflawni a Pherfformiad sy'n rhan o Fewnrwyd y GIG.

Byddwn yn comisiynu adroddiad blynyddol ar gyfer 2019/20 maes o law.

**Argymhelliad 3**

**Er mwyn gwneud gwasanaethau y tu allan i oriau yn weithleoedd mwy deniadol, dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r byrddau iechyd i gynnal prosiect cenedlaethol i ymgysylltu â staff y tu allan i oriau, er mwyn canfod ac ymdrin â'r ffactorau sydd yn achosi morâl isel, ac sy'n atal staff rhag gweithio yn y gwasanaethau hynny.**

Adolygiadau gan Gymheiriaid

Fel mecanwaith i wella'r modd y caiff gwasanaethau eu darparu i gleifion a gwella profiad staff, roedd y broses Adolygu Cymheiriaid a gyflawnwyd yn 2018 ac eto yn 2019, yn adolygiad o wasanaeth TAiO pob bwrdd iechyd dan arweiniad clinigol gyda data'n sail iddo a gan ganolbwyntio ar ganlyniadau. Fe'i cynlluniwyd i weithredu fel 'cyfaill beirniadol' gan gynnig cyngor a chymorth fel rhan o'r gwaith o ddatblygu gwasanaeth TAiO effeithiol diogel.

Roedd cadeirydd annibynnol (Dr CDV Jones) yn arwain y Panel Adolygu Cymheiriaid gydag aelodaeth yn cynnwys Cyfarwyddwyr Clinigol, arweinwyr gweithredol, Cyfarwyddwyr Meddygol Cysylltiol, Cyfarwyddwyr Gofal Sylfaenol, y Rhaglen 111, Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) a Llywodraeth Cymru. Roedd y canlyniadau a fwriadwyd yn cynnwys:

- Cydnabod arfer da a dysgu a rennir;
- Darparu cefnogaeth gadarnhaol gan gymheiriaid ar gyfer gwella;
- cynnig mwy o eglurder o ran cyfeiriad i GIG Cymru mewn perthynas â'r trawsnewidiad ehangach mewn gofal sylfaenol brys a mwy o gysondeb o ran gweithredu gwasanaethau yn ystod oriau gwaith a thu allan i oriau (24/7);
- helpu i ddatblygu model cynaliadwy i Gymru sy'n canolbwyntio ar atebion dan arweiniad clinigol;
- Rhoi llais i staff ar bob lefel o fewn gwasanaethau TAiO; a
- Tynnu sylw at rôl TAiO yn swyddogaeth Weithredol y Byrddau a WAST.

Roedd yr allbwn o bob adolygiad yn cynnwys adroddiad cryno a chynllun gweithredu a gymeradwywyd gan arweinwyr clinigol lleol a'r tîm gweithredol ehangach.

Yn gyffredinol, cafodd yr ymroddiad a'r ymrwymiad parhaus a ddangoswyd gan yr holl staff a'u ffocws parhaus ar ddarparu gofal o ansawdd uchel i gleifion gryn argraff ar y Panel Adolygu Cymheiriaid. Roedd 'angerdd' amlwg i sicrhau newid cynaliadwy hirdymor i gyd-fynd â'r agenda gofal sylfaenol brys 24/7 ehangach a'r Rhaglen 111 genedlaethol.

Mae gan Fyrddau Iechyd garfan newydd o arweinwyr clinigol a staff gweithredol sydd yn aml ar flaen y gad o ran datblygu dulliau newydd o ymdrin â gofal sylfaenol brys yn lleol, yn rhanbarthol neu'n genedlaethol.

Y prif negeseuon a ddeilliodd o ymweliadau'r Adolygiad gan Gymheiriaid oedd:

- Canfu timau clinigol a'u sefydliadau ehangach fod ymweliadau'r Adolygiad gan Gymheiriaid yn adeiladol ac yn cynorthwyo gyda dysgu ehangach a rhannu arfer gorau.

- Mae amgylcheddau gwaith lleol yn cael eu hadolygu i sicrhau eu bod yn ffafriol i ofal cleifion a lles staff a bod ystod debyg o wasanaethau ar gael iddynt yn gyffredinol ag sydd gan gydweithwyr sy'n gweithio o fewn oriau arferol lle bo hynny'n briodol.
- Mae cynlluniau gweithlu lleol a chenedlaethol yn cael eu cryfhau i sicrhau eu bod yn cefnogi meddygon teulu sy'n arwain ac yn gweithio o fewn tîm amlddisgyblaethol ehangach.
- Mae Gofal Sylfaenol Brys (TAiO) yn mabwysiadu dull mwy cyson o gynllunio galw a chapasiti sy'n gysylltiedig â modelu'r gweithlu gyda chymorth gan 111 a'r Uned Gyflawni.
- Mae byrddau iechyd bellach i gyd ar yr un fersiwn o Adastra fel y gallwn feincnodi yn erbyn safonau mewn modd mwy cyson wrth symud ymlaen.
- Mae gwella prosesau brysbennu anghlinigol a chlinigol effeithiol yn hanfodol i effeithiolrwydd y llwybrau gofal brys. Mae'r tîm 111 yn helpu i safoni'r dulliau hyn ledled Cymru ac yn gynyddol bydd mwy o gyfle i ddatblygu'r rhain ar lefel ranbarthol neu genedlaethol. Mae rhywfaint o'r gwaith hwn wedi'i wneud y gaeaf hwn sy'n gysylltiedig ag ymateb iechyd meddwl a chapasiti deintyddol brys.
- Yn gynyddol, bydd yr integreiddio rhwng 111, Galw Iechyd Cymru, a gwasanaethau y tu allan i oriau yn cynnig cyfleoedd sylweddol i sicrhau cydnerthedd ehangach y system.
- Bydd rôl yr hyb glinigol 111 (dros amser) yn cynnig cyngor a chymorth gofal brys fwyfwy ar gyfer nifer o lwybrau clinigol allweddol fel cyngor iechyd meddwl, deintyddol, lliniarol a phediatrig.
- Mae cynnal a diweddaru un Cyfeiriadur Canolog o Wasanaethau (ar draws Iechyd, Awdurdodau Lleol a'r trydydd sector) yn parhau i fod yn elfen hanfodol o gefnogi gofal sylfaenol brys – yn enwedig pan fo ystod gynyddol o wasanaethau.
- Roedd yr adroddiadau am Ddigwyddiadau Difrifol, achosion y bu ond y dim iddynt ddigwydd a digwyddiadau "byth" yn amrywio. Mae prosesau'n cael eu cryfhau'n lleol i sicrhau dysgu parhaus rhwng timau clinigol (yn lleol ac yn genedlaethol) ac at ddibenion llywodraethu clinigol ehangach. Mae Gwasanaethau Gofal Sylfaenol Brys / y Fforwm TAiO wedi adolygu eu mecanweithiau adrodd i sicrhau eu bod yn gadarn ac yn effeithiol ac wedi cysylltu â strwythurau llywodraethu priodol ym mhob sefydliad.
- Mae BILlau, 111 a Llywodraeth Cymru wrthi'n cefnogi amrywiaeth o fentrau i gefnogi gwasanaethau y tu allan i oriau fel rhan o gynllunio'r gaeaf. Canolbwyntiwyd yn benodol ar fewnbwn ehangach y timau amlddisgyblaeth gan gynnwys cymorth fferylliaeth, iechyd meddwl, gofal lliniarol, ymarferwyr parafeddygol uwch, Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd a mentrau i gefnogi gwell mynediad at ofal deintyddol brys. Gwerthuswyd cynlluniau 2018/19 a chawsant gefnogaeth a chael eu hymestyn yn weithredol i gwrdd â galw brig y Pasg a daeth y rhan fwyaf yn drefn arferol. Mae mentrau eraill wedi'u rhoi ar waith ar gyfer 24/7 yn 2019 dan arweiniad Cyfarwyddwyr Gofal Sylfaenol.
- Mae cynnal arweinyddiaeth glinigol weithredol ac uwch yn hanfodol, yn benodol y rôl y mae gofal sylfaenol brys yn ei chwarae yn ei swyddogaeth ehangach i gefnogi gofal heb ei drefnu.
- Mae nifer o gynlluniau peilot wedi'u cychwyn ar draws sefydliadau sy'n adlewyrchu arfer (da) sefydledig. Cytunodd timau gweithredol a chlinigol y dylai'r rhain, yn y rhan fwyaf o achosion, yn amodol ar werthusiad priodol, gael eu prif ffrydio a'u cydnabod fel trefn arferol.

Fel y nodwyd eisoes, mae'r Safonau newydd a uwchraddiwyd mewn ymgynghoriad â chlinigwyr a rheolwyr yn y gwasanaeth yn allweddol i ddatblygu'r model cyflenwi newydd ac ymateb o ansawdd uchel i gleifion.

Mentrau Eraill

Mae amrywiaeth eang o fentrau cenedlaethol a lleol ar waith i wneud TAiO yn lle mwy deniadol i weithio. Nod y rhain yn aml yw lleihau'r teimlad cyffredinol o unigedd drwy: greu diwylliant tîm, cynyddu ei broffil (TAiO), a chynnig rolau wedi'u diffinio'n dda i'r holl staff drwy ddatblygu fframwaith cymhwysedd trawsbynciol – clinigol, rheolaethol a gweinyddol, gwell cyfleoedd hyfforddi a datblygu, lleihau'r ddibyniaeth ar feddygon teulu a chyflwyno gweithwyr proffesiynol / rolau newydd. Er enghraifft:-

- Gwaith galw / capasiti - nid yw'r adnoddau ar gyfer cefnogi gwaith galw a chapasiti wedi'u datblygu'n llawn ar gyfer gofal sylfaenol. Fel rhan o Grŵp Gweithlu'r Rhaglen Strategol, mae modelau o ran capasiti a galw yn cael eu hystyried er mwyn darparu dull 'unwaith i Gymru' ar gyfer gofal sylfaenol o fewn a thu allan i oriau. Mae'r gwasanaethau tu allan i oriau wedi bod yn arwain y gwaith hwn ac maent bellach yn gweithredu un fethodoleg ar gyfer holl fyrddau iechyd Cymru.

- Rolau Cymru gyfan ar gyfer gofal brys – Mae is-grŵp o'r Grŵp Gofal Sylfaenol Brys (y tu allan i oriau) yn ystyried datblygu rolau cenedlaethol ac mae wedi datblygu cyfres o gymwyseddau craidd ar gyfer gofal brys. Bydd y gwaith hwn yn arbennig o bwysig wrth i ni ystyried defnyddio rôl ymarferwyr gofal brys o fewn oriau arferol a thu allan i oriau.

- Cynllun y gweithlu – Mae'r gwaith o fodelu'r galw / capasiti a datblygu rolau gofal brys cenedlaethol yn hanfodol er mwyn llywio cynlluniau ar gyfer y gweithlu. Mae Grŵp Gweithlu'r Rhaglen Strategol yn datblygu'r gwaith o gynllunio'r gweithlu ar gyfer gwasanaethau y tu mewn a thu allan i oriau er mwyn rhoi'r adnoddau i glystyrau a Byrddau Iechyd ddatblygu cynlluniau gweithlu cadarnach ac, yn eu tro, llywio cynlluniau'r Cynllun Tymor Canolig Integredig yn y dyfodol. Mae Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) wedi'i gysylltu'n llawn â grŵp y gweithlu felly gellir ystyried unrhyw ofynion addysgol neu hyfforddiant wrth iddynt godi.

- Datblygu gwefan – mae AaGIC ac 111 wedi ymgymryd â phrosiect i fynd i'r afael ag anawsterau recriwtio staff i weithio y tu allan i oriau drwy gyfrwng datblygiad gwefan sy'n ymroddedig i Ofal Sylfaenol y Tu Allan i Oriau ar gyfer darparu siop un stop am wybodaeth, addysg a manylion cyswllt uniongyrchol gwasanaethau y tu allan i oriau lleol. Diben y wefan yw tynnu sylw at gyfleoedd o fewn y gwasanaeth tu allan i oriau a denu a recriwtio staff posibl. Lansiwyd y wefan ym mis Medi 2019 ac roedd yn cyd-daro ag ymgyrch cyfryngau cymdeithasol gweithredol i godi ymwybyddiaeth ynghylch y gwasanaeth y tu allan i oriau fel dewis gyrfa ymarferol a chefnogi marchnata cyfleoedd recriwtio a bydd dolen i'r wefan newydd ar gyfer meddygon teulu Cymru. Mae hyn yn dal yn ei ddyddiau cynnar, ond disgwylir i'r safle hwn gyfleu atyniad ehangach y gwasanaeth yn glir i glinigwyr a chynnig amrywiaeth o wybodaeth iddynt. Bydd hyn yn ei dro yn arwain at welliant o ran recriwtio a chadw staff yn gyffredinol.

**Argymhelliad 4**

**Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r byrddau iechyd, y gwasanaeth ambiwlans a'r rhaglen 111 i ddatblygu cynllun cenedlaethol ar gyfer gweithlu'r gwasanaethau y tu allan i oriau. Dylai hyn adeiladu ar y gwaith ymgysylltu yn Argymhelliad 3. Dylai'r cynllun nodi'r gymysgedd o sgiliau a chymwyseddau y bydd ar dimau amlddisgyblaeth y tu allan i oriau eu hangen yn y dyfodol, a'r camau y bydd angen eu cymryd ar raddfa genedlaethol i gyflenwi'r gymysgedd honno o sgiliau.**

Unwaith eto, mae angen ystyried yr argymhelliad hwn yng nghyd-destun y model 24/7 o Ofal Sylfaenol lle gall y gweithlu weithio o fewn oriau arferol a'r tu allan i oriau a lle mae'r ffiniau rhwng y ddau yn aneglur yn fwriadol. Yn y ddau, mae gweithlu amlddisgyblaethol medrus sydd wedi'i hyfforddi'n dda yn allweddol i ddarparu gofal diogel o ansawdd uchel yn gyson, a ddarperir yn y lle cywir ac ar yr adeg gywir i gleifion ag anghenion gofal brys.

O fewn y lleoliad Gofal Sylfaenol Brys (TAiO), mae angen datblygu gweithlu cynaliadwy sydd â'r sgiliau, yr ymddygiadau a'r cymwyseddau cywir a bod dull cyson o ymdrin â hyn ledled Cymru.

Nododd yr Adolygiad Cymheiriaid diweddar o wasanaethau Gofal Sylfaenol Brys TAiO mai prin oedd y cyfle i wella gyrfa a datblygu gyrfa mewn lleoliadau Gofal Sylfaenol Brys ledled Cymru ar gyfer pob gweithiwr clinigol proffesiynol sy'n ymwneud â gweithio mewn Gofal Sylfaenol Brys (TAiO). Felly, mae angen mwy o bwyslais ar weithio timau amlddisgyblaethol sy'n gofyn am fframwaith gyrfa a chymhwysedd sy'n cefnogi'r weledigaeth ar gyfer gweithlu clinigol amlddisgyblaethol proffesiynol iawn.

Er mwyn datblygu fframwaith o'r fath, sefydlwyd grŵp gorchwyl a gorffen (gan adrodd i grŵp gweithlu Gofal Sylfaenol Brys (TAiO)) sy'n cynnwys clinigwyr sy'n gweithio naill ai yn TAiO neu 111 ac o dan gadeiryddiaeth arweinydd y Gweithlu 111. Mae'r grŵp wedi datblygu fframwaith cryno a phortffolio cysylltiedig (sydd wedi'i atodi yn Atodiad 3) sy'n diffinio'r sgiliau a chymwyseddau craidd ac atodol sydd eu hangen ar gyfer pob rôl. Ni fwriedir i'r fframwaith ddisodli nac wrth-ddweud unrhyw un o'r gofynion a bennwyd gan gorff proffesiynol aelod unigol o'r tîm, mae yno i gynorthwyo clinigwyr sy'n dymuno gweithio y Tu Allan i Oriau naill ai fel prif rôl neu rôl ychwanegol.

Oherwydd yr ystod amrywiol o weithwyr proffesiynol sy'n gweithio yn y lleoliad Gofal Sylfaenol Brys mae symudiad oddi wrth deitlau'r rôl draddodiadol i sicrhau bod gan ymarferwyr sy'n ymarfer ar lefel benodol yr wybodaeth, y profiad a'r sgiliau cyfatebol i ymgymryd â'r rôl, er enghraifft bydd gan barafeddyg a nyrs ar lefel 6 gymwyseddau craidd gwahanol yn ôl eu corff proffesiynol ac felly nod y fframwaith yw nodi bylchau mewn gwybodaeth a chymhwysedd a chefnogi ymarferwyr i fynd i'r afael â'r bylchau hynny i sicrhau bod yr ymarferydd yn gymwys i ymarfer ar y lefel honno o fewn y lleoliad TAiO. Gyda chymorth AaGIC, mae rhaglen addysgol fodiwlaidd benodol yn cael ei datblygu ar hyn o bryd i ategu'r fframwaith a darparu cyfleoedd i ddatblygu clinigwyr sy'n gweithio yn y lleoliad TAiO. Er mwyn sicrhau bod y rhaglen addysgol yn cael ei datblygu a'i gweithredu'n amserol, mae'r Rhaglen 111 wedi ariannu clinigydd profiadol y tu allan i oriau i weithio 1 diwrnod yr wythnos tan 31 Mawrth 2020.

Mae'r fframwaith ar ffurf ddrafft ar hyn o bryd ac mae arweinydd y gweithlu wedi ymgysylltu â gwahanol grwpiau cyfoedion a chyrff proffesiynol i gael barn a sylwadau ar y ddogfen. Hyd yma, gofynnwyd am sylwadau gan Bwyllgor Meddygon Teulu Cymru, Coleg Brenhinol y Nyrsys, RPS, Uwch

gydweithwyr Parafeddygon, aelodau fforwm TAiO, aelodau grŵp 24/7, Cyfarwyddwyr Nyrsio, Cyfarwyddwyr Gofal Sylfaenol, Cyfarwyddwyr Therapïau, Cyfarwyddwyr Cynorthwyol a'r Gweithlu a chydweithwyr Datblygu Sefydliadol ac AaGIC. Mae'r adborth gan y gwahanol grwpiau / cyrff proffesiynol wedi bod yn gadarnhaol ac mae pob un yn croesawu cyflwyno fframwaith o'r fath. Mae'r fframwaith yn cael ei addasu ar hyn o bryd yn unol â'r adborth a gafwyd a rhagwelir y bydd y ddogfen wedi ei chwblhau erbyn mis Ionawr. Er y rhagwelwyd yn wreiddiol y byddai'r fframwaith yn cael ei gymeradwyo ym mis Hydref, cymerodd y broses ymgysylltu ychydig yn hwy na'r disgwyl.

**Argymhelliad 5**

**Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r byrddau iechyd i gyflwyno asesiad cenedlaethol rheolaidd o ansawdd mewn gwasanaethau y tu allan i oriau, i ystyried archwiliadau clinigol, gan ddysgu yn sgil digwyddiadau a phrofiadau cleifion. Dylai'r asesiad hefyd arwain at gyfres o gamau gwella lleol a chenedlaethol i'r GIG yng Nghymru.**

Adolygiad gan gymheiriaid

Fel y disgrifiwyd yn Argymhelliad 3, ymgymerwyd â phroses adolygu gan gymheiriaid tua diwedd 2018 ac eto yn 2019 gyda phob bwrdd iechyd. Yr allbwn a gafwyd o bob adolygiad oedd adroddiad cryno i'w ddefnyddio fel sail cynllun gweithredu a ddatblygir yn lleol ac sy'n eiddo i bobl leol y gofynnir i Fwrdd Gweithredol y Bwrdd Iechyd ei ardystio a'i gefnogi i gyflawni gwelliannau yn y gwasanaeth y tu allan i oriau. Cododd pob adolygiad lywodraethu clinigol gan herio byrddau iechyd i sicrhau bod hyn ar waith ac yn gadarn. Ar ddiwedd adolygiad 2018 crëwyd dogfen yn tynnu sylw at faterion a chanfyddiadau cenedlaethol. Un o'r materion cenedlaethol hyn oedd yr angen i weithredu dull mwy trwyadl o lywodraethu clinigol a gwreiddio hyn ym mhrosesau llywodraethu byrddau iechyd.

Mae'r adborth a gafwyd gan fyrddau iechyd ynglŷn â'r adolygiad gan gymheiriaid wedi bod yn gadarnhaol dros ben. Roedd y broses yn ddefnyddiol iawn iddynt ac maent wedi croesawu cynnal ymweliadau adolygu gan gymheiriaid yn ystod 2019. Mae'r adolygiadau hyn wedi nodi dull llawer mwy trwyadl a chynhwysol o lywodraethu clinigol.

Fforwm y Tu Allan i Oriau – Grŵp Ansawdd a Diogelwch

Mae'r Fforwm y Tu Allan i Oriau yn gyfarfod cenedlaethol sy'n cynnwys nifer o randdeiliaid ar draws y gwasanaeth TAiO yng Nghymru, ac mae'n cynnwys clinigwyr, rheolwyr gweithredol, tîm 111, swyddogion Llywodraeth Cymru ac ati.

Mewn ymateb i adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru, sefydlwyd Grŵp Ansawdd a Diogelwch TAiO. Ar hyn o bryd, Cadeirydd y grŵp hwn yw Dr Sherard Lemaitre, Cyfarwyddwr Clinigol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Mae'r Grŵp Ansawdd a Diogelwch yn canolbwyntio ar ddangosyddion ansawdd, archwiliadau clinigol a digwyddiadau difrifol gyda golwg ar ddysgu gwersi a gallu cefnogi penderfyniadau clinigol.

Mae'r Cylch Gorchwyl wedi'i atodi **yn Atodiad 1** er gwybodaeth:

111 / Safonau y Tu Allan i Oriau

Fel y cyfeirir ato yn Argymhelliad 2, mae'r set newydd o Fesurau Safonau a Gweithgarwch ar gyfer 111 a TAiO yng Nghymru yn cynnwys y safonau gwella ansawdd canlynol:

- Adrodd 'digwyddiadau difrifol' i Lywodraeth Cymru 100% o fewn Amserlenni cytunedig trwy DATIX
- Cynnal archwiliad clinigol i adolygu unrhyw 'ddigwyddiadau andwyol' a adroddir trwy broses lywodraethu (DATIX)
- Defnyddir Methodoleg Sicrhau Ansawdd yn gyson i ddatblygu gwasanaethau lleol a rhannu arfer da

<u>DATIX</u>

Mae gwaith yn cael ei wneud ar hyn o bryd i edrych ar adroddiadau DATIX y tu allan i oriau a mapio sut yr adroddir / cofnodir digwyddiadau difrifol o fewn y gwasanaeth tu allan i oriau. Defnyddir y gwaith hwn i nodi meysydd i'w gwella gan fwydo i mewn i waith Grŵp Ansawdd a Diogelwch Fforwm TAiO. Sefydlwyd cysylltiadau ar draws timau o fewn Llywodraeth Cymru ac mae'r gwaith hwn yn datblygu.

Mae cydweithwyr o fewn Llywodraeth Cymru hefyd yn caffael systemau newydd a fydd yn disodli'r systemau NRLS a DATIX presennol. Mae sgwrs yn mynd rhagddi ar sut y gall TAiO fwydo i mewn i'r systemau newydd hyn.

Er bod y gwaith a grybwyllir uchod yn mynd rhagddo, mae Grŵp Ansawdd a Diogelwch y Fforwm Tu Allan i Oriau wedi drafftio protocol arfer da ar gyfer adrodd DATIX. Mae hwn i'w weld **yn Atodiad 2** er gwybodaeth i chi.

**<u>Argymhelliad 6</u>**

**Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda byrddau iechyd, y gwasanaeth ambiwlans a grwpiau Cymru-gyfan perthnasol i brofi a lledaenu arferion arloesol wrth gynnal apwyntiadau wyneb-yn-wyneb ac ymweliadau cartref y tu allan i oriau. Dylai'r gwaith hwn arwain at fodel clir o wasanaethau y tu allan i oriau i'w weithredu gan y GIG yn lleol neu'n rhanbarthol.**

Erbyn hyn mae nifer o fecanweithiau ar waith i nodi a rhannu arfer da. Nododd proses adolygu cymheiriaid 2018 lawer o arfer da o fewn byrddau iechyd ac roedd y broses o gymorth ar gyfer rhannu hyn yn ystod ac ar ôl yr adolygiad, ar gyfer y rhai sy'n cael eu hadolygu a'r adolygwyr. Roedd yr adroddiad cryno cenedlaethol yn cynnwys tystiolaeth bod arfer da yn cael ei rannu ar draws y gymuned TAiO. Nod yr Adolygiad oedd hwyluso rhannu'r arfer da hwn i ddarparu dull mwy cyson ledled Cymru. Mae pob bwrdd iechyd yn gyfrifol am ddatblygu cynllun gweithredu sy'n eiddo i bobl leol a fydd yn defnyddio arfer gorau. Bydd y rhain, ynghyd â digwyddiad cenedlaethol cychwynnol a gynhelir yn gynnar yn yr haf 2019, yn rhannu pwyntiau dysgu cenedlaethol allweddol.

Mae'r Broses Adolygu Cymheiriaid ar gyfer 2019 wedi helpu i atgyfnerthu'r broses o rannu arfer da ledled Cymru ac mae'n darparu tystiolaeth bod yr arfer da hwn yn cael ei weithredu ledled Cymru. Bydd adroddiad cryno yn cael ei ddosbarthu'n eang unwaith y bydd pob ymweliad wedi dod i ben.

Mae'r gwaith o gyflwyno'r gwasanaeth 111 yng Nghymru yn gyfle i fyrddau iechyd adolygu a chynllunio eu model brysbennu clinigol, brysbennu a chymorth cymunedol ehangach a sut y gellir cyflawni hyn yn gyson.

Mae byrddau iechyd yn dechrau sefydlu asesiad mwy trylwyr o'r galw a byddant yn parhau i fod yn gyfrifol am y gwasanaeth wyneb yn wyneb ac ymweliadau cartref a mabwysiadu a chyflwyno Model Gofal Sylfaenol Cymru yn lleol sy'n ymwneud â gofal aml-broffesiynol di-dor dros y cyfnod 24/7.

Mae'r Fforwm Ansawdd a Diogelwch y Tu Allan i Oriau, sy'n cyfarfod tua bob 6 wythnos, wedi bod yn weithredol iawn yn y maes hwn, gan roi cyfle i arweinwyr a rheolwyr clinigol drafod a rhannu dysgu ac arfer gorau.

**Argymhelliad 7**

**Dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r trefniadau arwain cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau y tu allan i oriau. Yn rhan o'r adolygiad, dylid ystyried a oes angen arweinyddiaeth fwy penodol ar raddfa genedlaethol ar gyfer gwasanaethau y tu allan i oriau. Dylid hefyd ystyried rôl Fforwm Gwasanaethau y Tu Allan i Oriau Cymru Gyfan ac ystyried a yw ei waith wedi'i gydgysylltu'n ddigonol â grwpiau eraill cenedlaethol o fewn y GIG.**

Penodwyd Judith Paget, Prif Weithredwr, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn arweinydd strategol gwasanaethau y Tu Allan i Oriau (12 Gorffennaf 2018) a chymerodd Richard Bowen (Cyfarwyddwr Rhaglen 111/TAiO) yn cymryd rôl arweiniol i weithredu llawer o'r materion gweithredol hyn gan effeithio'n uniongyrchol ar y gwasanaethau fel y nodwyd. Sefydlwyd 'Grŵp gorchwyl a gorffen Strategol y Tu Allan i Oriau' i edrych ar ba gamau gweithredu / cymorth strategol oedd eu hangen i wella gwasanaethau TAiO yng Nghymru. Mae'r Grŵp yn edrych ar nifer o gyfleoedd gan gynnwys:

- Adolygiad Cymheiriaid (a ddisgrifir uchod);
- Deall y galw fel rhan o waith ystyrlon i gynllunio'r gweithlu;
- Gweithio amlddisgyblaethol;
- Prosesau dilysu marwolaeth; a
- Pharatoi ar gyfer cyflwyno 111.

<u>Fforwm Ansawdd a Diogelwch y Tu Allan i Oriau</u>

Fel y cyfeirir ato uchod, mae'r Fforwm TAiO yn gyfarfod cenedlaethol sy'n cynnwys rhanddeiliaid allweddol ar draws y gwasanaeth TAiO yng Nghymru, ac mae'n cynnwys clinigwyr, rheolwyr gweithredol, y tîm 111, Swyddogion Llywodraeth Cymru ac ati.

Mae aelodau'r Fforwm hefyd â seddi ar grwpiau strategol allweddol eraill fel Byrddau'r Rhaglen Gofal Heb ei Drefnu a Gofal Sylfaenol Cenedlaethol, Bwrdd Gweithredu 111, cyfarfod Cyfarwyddwyr Gofal Sylfaenol ac ati.

Mae trefniadau atebolrwydd a llywodraethu'r Fforwm wedi'u diwygio a'u diweddaru ac mae'r holl Gyfarwyddwyr Clinigol sy'n arwain Gwasanaethau TAiO lleol yn eistedd ar y grŵp hwn ynghyd â chynrychiolydd o'r grŵp Cyfarwyddwyr Meddygol Cysylltiol. Mae gan bob un ddyletswydd i adrodd yn ôl yn ffurfiol i'w sefydliadau statudol a'u His-bwyllgorau Ansawdd a Diogelwch priodol. Hefyd,

mae arweinwyr yn adrodd am faterion cenedlaethol yn uniongyrchol i'r Bwrdd 111 a gadeirir gan Judith Paget.

Arweinyddiaeth Strategol Genedlaethol

Mae'r Grŵp Strategol y Tu Allan i Oriau yn goruchwylio nifer o ddarnau o waith fel y rhai uchod a dwy ffrwd newydd:

- Gweithgor Addysgol a'r Gweithlu; a
- Datblygu 'cynnig gwell' i staff y Tu Allan i Oriau a lleihau'r teimlad o unigedd.

Arweinyddiaeth Leol

Mae wedi bod yn amlwg o'r ddau adolygiad gan gymheiriaid bod arweinyddiaeth leol wedi gwella'n sylweddol yn y cyfnod ar ôl cyhoeddi'r Adroddiad. Ceir tystiolaeth bod y Tu Allan i Oriau yn cyrraedd llawer mwy o amlygrwydd ym mhob bwrdd iechyd ac mae cenhedlaeth newydd o arweinwyr clinigol yn dod i'r amlwg ledled Cymru o fewn y Gwasanaethau Tu Allan i Oriau, gan ddod â barn newydd a syniadau newydd fel y dangoswyd gyda phenodiadau diweddar yn Aneurin Bevan a Chwm Taf Morgannwg.

**Argymhelliad 8**

**Dylai Llywodraeth Cymru a Rhaglen 111 gadarnhau'r amserlenni ar gyfer cwblhau ac asesu'r achos busnes ar gyfer y system gyfrifiadurol integredig fydd yn disodli systemau presennol y gwasanaeth 111 a'r gwasanaethau y tu allan i oriau, er mwyn sicrhau y gwneir penderfyniadau ynghylch fforddiadwyedd cyn gynted ag sy'n bosibl.**

Cyflwynwyd yr Achos Busnes Llawn i Lywodraeth Cymru ym mis Tachwedd 2019, craffodd y Bwrdd Buddsoddi yn Seilwaith arno ym mis Rhagfyr a'i gymeradwyo ym mis Chwefror 2020. Hefyd, cymerodd WAST swyddogaeth yr Awdurdod Contractio yn ffurfiol ym mis Mawrth 2020 (yn unol â'r cynlluniau) ac mae GIG Cymru yn gweithredu'r system SALUS newydd y bwriedir iddi fod ar waith ar gyfer 6 o'r 7 BILl ac WAST yn Chwarter 3 2021. Bydd Betsi yn dilyn gan weithredu 111 a'r system TG SALUS newydd.

Diben Rhaglen Gaffael 111 Cymru yw caffael ateb gwybodaeth integredig i gefnogi'r gwasanaeth 111 newydd, gan ddisodli CAS presennol Galw Iechyd Cymru a systemau Adastra Meddygon Teulu Y Tu Allan i Oriau ar draws pob un o'r byrddau iechyd.

Bydd y system newydd yn darparu gwasanaeth a reolir yn llawn a ddarperir yn un o Ganolfannau Data GIG Cymru gyda'r nodweddion canlynol:

- Ateb integredig sengl sy'n cwmpasu trafod galwadau, brysbennu ac asesiad clinigol;
- Cysylltiadau â systemau 999 ac Adrannau Brys;
- Y gallu i integreiddio â seilwaith TG GIG Cymru a darparu cofnodion i'r storfeydd perthnasol;
- Darparu mynediad aml-gyfrwng i ddinasyddion sydd eisiau cael mynediad at y gwasanaeth;
- Bod ar gael ar y bwrdd gwaith ac ar ddyfeisiau symudol; gyda
- System cefnogi penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac yn gwbl integredig, ar gael i drinwyr galwadau clinigol ac anghlinigol.

Mae caffael system newydd yn alluogwr allweddol ar gyfer sicrhau llwyddiant tymor hir y rhaglen 111, a bydd yn helpu GIG Cymru i wneud newidiadau i'r system gofal brys a gofal heb ei drefnu ehangach.

**ADRAN 3 – ARGYMHELLION Y PWYLLGOR CYFRIFON CYHOEDDUS**

Mae'r adran ganlynol yn rhoi naratif o dystiolaeth yn erbyn yr argymhellion a nodwyd yn ymchwiliad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus i Wasanaethau Gofal *Sylfaenol y Tu Allan i Oriau* a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2019. Rydym wedi graddio'r argymhellion yn goch, melyn neu wyrdd i adlewyrchu lle rydym ni'n teimlo ein bod yn erbyn pob argymhelliad. Gweler yr allwedd isod:-

**ARGYMHELLIAD 1**

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod capasiti yn y gwasanaeth y tu allan i oriau i roi sicrwydd i gleifion a'u helpu i ddefnyddio'r gwasanaeth sydd fwyaf priodol i'w hanghenion.**

Derbyniwyd yr argymhelliad hwn er mai Byrddau Iechyd sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau y tu allan i oriau, rydym yn cydnabod bod yn rhaid iddynt barhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru i ddarparu gwasanaeth cynaliadwy cadarn. Gan ddefnyddio model a ddatblygwyd yn genedlaethol, mae byrddau iechyd yn cyflawni darn sylweddol o waith ar hyn o bryd i ddadansoddi a deall union natur ac amseriad y galw. Defnyddir hyn i sicrhau bod y rotas yn cynnwys y cydbwysedd cywir o glinigwyr i fodloni'r galw disgwyliedig hwn.

Mae byrddau iechyd yn rheoli llenwi shifftiau ar gyfer pob grŵp staff y tu allan i oriau, gan gynnwys meddygon teulu, ond nid yn gyfyngedig iddynt. Caiff lefelau staffio clinigol a gyflwynir eu rhannu gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill ddwywaith yr wythnos. Mae'r wybodaeth hon ar gael ar gyfer galwadau cynhadledd ddyddiol y GIG ar lefel weithredol, ac yn cael eu trafod at ddibenion hwyluso cynllunio gweithredol a chydnerthedd.

Mae datblygu un Cyfeiriadur Canolog o Wasanaethau, ar draws Iechyd, Awdurdodau Lleol a'r trydydd sector, yn parhau i fod yn elfen hanfodol o gefnogi gofal sylfaenol brys. Mae hyn yn arbennig o bwysig pan fydd ystod gynyddol o wasanaethau iechyd a lles yn gweithio o fewn ac ar draws ffiniau sefydliadol. Mae gwybodaeth y Cyfeiriadur Canolog o Wasanaethau yn hanfodol er mwyn cyfeirio cleifion i'r gwasanaeth cywir, boed hynny gan y cleifion eu hunain neu gan weithwyr proffesiynol neu'r gwasanaeth 111. Er enghraifft, yn yr haf lansiwyd Ap Iechyd a Lles sy'n darparu mynediad i'r Cyfeiriadur Gwasanaethau ar gyfer gweithwyr proffesiynol , tra bod gan y cyhoedd fynediad i wefannau DEWIS a Galw Iechyd Cymru y GIG.

**ARGYMHELLIAD 2 - GWRTHODWYD YR ARGYMHELLIAD**

**Argymhelliad 2: Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu'r ffordd y mae'n dyrannu cyllid i fyrddau iechyd ar gyfer gwasanaethau y tu allan i oriau er mwyn sicrhau bod y dyraniadau'n adlewyrchu'r anghenion gwasanaeth presennol yn fwy cywir ac yn rhoi mwy o dryloywder o ran buddsoddiad a gwariant gwirioneddol.**

Mae cyllid ar gyfer gwasanaethau y tu allan i oriau yn cael ei gynnwys o fewn y dyraniad Gwasanaeth Meddygol Cyffredinol ar gyfer byrddau iechyd. Mae'r argymhelliad yn canolbwyntio ar y dyraniad. Y byrddau iechyd sy'n penderfynu ar lefel briodol y buddsoddiad yn y gwasanaethau hyn, gan ddefnyddio naill ai'r dyraniad y GMC, neu trwy dynnu ar eu lefelau sylweddol o gyllid dewisol. Nid yw hyn felly yn ymwneud yn uniongyrchol â dyraniadau canolog. Mae'r cyfuniad hwn o gyllid yn

adlewyrchu'r amrywiaeth ehangach o wasanaethau sydd bellach yn eu lle i gefnogi gwasanaethau y tu allan i oriau. Mae'n hanfodol bod sefydliadau lleol yn deall gwasanaethau lleol. O ystyried hyn, rydym yn cytuno y byddai'n amserol i adolygu'r diffiniad cyfredol o wariant i sicrhau bod cyllid yn fwy tryloyw ac yn adlewyrchu'r ystod ehangach o wasanaethau sydd ar waith bellach i gefnogi mynediad y tu allan i oriau.

**ARGYMHELLIAD 3**

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhannu arfer da ar draws byrddau iechyd yng Nghymru wrth wneud gwasanaethau y tu allan i oriau'n lleoedd mwy deniadol i weithio ynddynt, fel y dull gweithredu a fabwysiadwyd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.**

Fel y trafodwyd eisoes yn y ddogfen hon, mae hyn eisoes ar waith. Cynhaliwyd Adolygiad gan Gymheiriaid o bob bwrdd iechyd ddiwedd Hydref 2018 ac eto yn 2019. Roedd gwneud tu allan i oriau gwaith yn lle gwell i weithio yn thema bwysig, tra bod yr adolygiad yn rhoi cyfle i rannu arferion gorau.

Yn dilyn yr adolygiad, cynhyrchwyd adroddiad cryno a oedd yn nodi'r arfer gorau o bob rhan o Gymru, ac fe rannwyd hyn â'r holl fyrddau iechyd ac Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru yn gynharach eleni. Ymhellach, mae Fforwm Ansawdd a Diogelwch Tu Allan i Oriau / 111 Cymru Gyfan, sy'n gyfarfod o arweinwyr clinigol a rheolwyr, wedi ad-drefnu gan atgyfnerthu'r broses o rannu arfer gorau yn ymwneud ag ansawdd, diogelwch a rheolaeth. Er enghraifft, mae'r adran glinigol yn rhannu ac yn dysgu o ddigwyddiadau clinigol a damweiniau agos, tra bod yr adran reoli wedi helpu i gyflawni'r polisi newydd sy'n ymwneud â hyfforddiant Dilysu Marwolaeth. Bydd gwefan newydd yn cael ei lansio yn y mis Medi sy'n anelu at ddarparu ystod o wybodaeth i helpu i hysbysu clinigwyr am fanteision gweithio y tu allan i oriau arferol (gweler hefyd Argymhelliad 4 isod).

Nododd yr adolygiad cymheiriaid fod 'unigrwydd' yn ffactor allweddol ym mhenderfyniad rhai clinigwyr i beidio â gweithio y tu allan i oriau. Mae llawer o waith i'w wneud o hyd ond mae'r newid i weithio mewn timau amlddisgyblaethol, gweithredu 111 a gosod y gwasanaethau tu allan i oriau o fewn y model gofal sylfaenol 24/7 oll yn helpu i leihau'r teimlad hwn o unigrwydd, gan wneud gweithio y tu allan i oriau yn gynnig llawer mwy deniadol ar gyfer yr holl staff.

**ARGYMHELLIAD 4**

**Mae pryder gennym am y dirywiad cyffredinol yn nifer y meddygon teulu ar gyfer gwasanaethau yn ystod y dydd ar draws Cymru, yn ogystal â gwasanaethau y tu allan i oriau. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn datblygu polisïau i gynyddu nifer y meddygon teulu.**

Mae'r ymgyrch *Hyfforddi, Gweithio, Byw* yn mynd ati i dargedu meddygon teulu a meddygon teulu dan hyfforddiant ac fe'i cefnogir gan 2 gynllun cymhelliant i feddygon teulu dan hyfforddiant. Mae'r gyfradd lenwi ar gyfer hyfforddiant meddygon teulu wedi gwella'n sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac o ganlyniad, rydym wedi cynyddu nifer y lleoedd i feddygon teulu o 136 i 160 eleni, gyda'r bwriad o gynyddu nifer y lleoedd ymhellach yn y dyfodol agos. Rydym hefyd yn gweithio gydag Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) i gynyddu nifer y llefydd hyfforddi meddygon teulu eto fyth o Awst 2021 ymlaen.

Rydym hefyd wedi cyflwyno ac yn parhau i ddatblygu nifer o adnoddau i gefnogi cynaliadwyedd y gweithlu gofal sylfaenol, gan gynnwys sefydlu Cofrestr Locwm Cymru gyfan o feddygon teulu locwm. Dyma gam cyntaf allweddol i strwythuro'r gwaith sesiynol a ddarperir i gefnogi'r partneriaid ymhlith meddygon teulu sy'n gweithio yng Nghymru.

Mae AaGIC wedi ymgymryd â phrosiect i fynd i'r afael ag anawsterau recriwtio staff y tu allan i oriau drwy ddatblygu gwefan sy'n ymroddedig i Ofal Sylfaenol y Tu Allan i Oriau. Diben y wefan yw amlygu cyfleoedd yn y gwasanaeth y tu allan i oriau a denu staff posibl a staff presennol. Lansiwyd y wefan ym mis Medi 2019.

**ARGYMHELLIAD 5**

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn datrys problemau sy'n ymwneud ag ansawdd y data sydd ar gael ar nifer y meddygon teulu fel mater o frys oherwydd bod angen data gwell, gan gynnwys ar ofal y tu allan i oriau. Os mai timau amlddisgyblaethol sy'n darparu'r gwasanaethau y tu allan i oriau, mae'n hanfodol gwybod pwy sy'n gweithio ym mhob tîm, i ble y maent yn darparu'r gwasanaeth, a gallu olrhain nifer y staff dros y blynyddoedd.**

Mae Llywodraeth Cymru wedi trefnu i Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru gaffael a gweithredu System Genedlaethol ar gyfer Adrodd am y Gweithlu (WNWRS), sy'n darparu adnodd diogel ar y we a ddatblygwyd i gadw'r wybodaeth am **holl** staff Practisau Cyffredinol.

Yn sgil cyflwyno'r system WNWRS, rydym yn gobeithio gwella ansawdd y data yn gyffredinol ac rydym yn parhau i weithio gyda'r holl randdeiliaid perthnasol i sicrhau bod y data o'r safon uchaf. Rydym yn dibynnu ar y meddygfeydd i ddarparu gwybodaeth mor gyflawn a chywir â phosibl i gefnogi'r broses o gynhyrchu ystadegau o ansawdd uwch.

Byddwn yn archwilio'r posibilrwydd o ddatblygu'r cynllun hwn ymhellach gyda Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, i ystyried sut y gellir casglu gwybodaeth am glinigwyr sy'n gweithio y tu allan i oriau a datblygu cynnig erbyn diwedd Rhagfyr 2019. Os na fydd y datblygiad hwn yn ymarferol, byddwn yn gweithio gyda byrddau iechyd a chlystyrau gofal sylfaenol i gasglu data cywir a chyflawn ar y gweithlu ar gyfer meddygon teulu sy'n gweithio mewn lleoliadau amgen, gan gynnwys gwasanaethau y tu allan i oriau.

**ARGYMHELLIAD 6 - GWRTHODWYD YR ARGYMHELLIAD**

**Rydym yn pryderu ei bod yn ymddangos bod nifer o broblemau'n codi yn sgil anghydraddoldebau cyflog meddygon teulu o gymharu â'r sefyllfa yn Lloegr, yn ogystal â materion trethiant fel yr adroddwyd i ni mewn tystiolaeth. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ceisio mynd i'r afael â'r problemau hyn ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am y camau gweithredu a gymerwyd i wneud hynny.**

Er yr ymddengys fod rhywfaint o hanes o anghydraddoldebau cyflog yn nwyrain ardal Betsi Cadwaladr, nid oes gennym dystiolaeth gadarn o hyn ac nid yw'n ymddangos bod hwn yn fater cenedlaethol. Rydym hefyd yn ymwybodol o'r materion yn ymwneud â threthiant mewn perthynas â IR 35 CThEM ond mae'r rhain yn faterion sydd heb eu datganoli. Mae'r byrddau iechyd wedi gweithredu ar y cyd i ymateb i'r materion hyn, tra bod Llywodraeth Cymru wedi tracio cynnydd ac effaith. Fodd bynnag, mae yna bryderon mwy sylweddol a chyffredinol ynghylch pensiynau ac mae'r

Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn mynd ar drywydd y rhain gyda Llywodraeth y DU.

**ARGYMHELLIAD 7**

**Rydym yn argymell bod yr arfer da ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, o ran atgyfnerthu'r ffordd y mae'n rheoli perfformiad, yn cael ei rannu â byrddau iechyd eraill a bod Llywodraeth Cymru yn edrych yn fanylach ar sut y gall wella trefniadau o ran rhannu arfer da. Efallai y bydd angen i Lywodraeth Cymru ystyried rhoi mwy o gyfarwyddyd, lle y bo'n bosibl, o ran arfer o'r fath a monitro cydymffurfiaeth â chyfarwyddiadau a roddir.**

Rydym yn gweithio gyda'r gymuned tu allan i oriau yng Nghymru i gryfhau'r pwyslais ar ddeall natur y galw o fewn byrddau iechyd unigol o ran amrywiaeth yr achosion ac amser y dydd. Mae hyn yn cynnwys datblygu'r arfer da sydd eisoes wedi'i ddatblygu ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro o ran modelu galw a chapasiti fel y gellir ei ddefnyddio ledled Cymru. Mae model 'Unwaith i Gymru' wedi'i ddatblygu ac mae pob bwrdd iechyd yn ei ddefnyddio'r gaeaf hwn. Credwn mai datblygu'r model clinigol yn seiliedig ar alw yw'r allwedd. Unwaith y bydd y blociau adeiladu hyn yn eu lle byddwn yn cynyddu'r pwyslais ar reoli perfformiad.

**ARGYMHELLIAD 8 - NODWYD**

**Rydym yn argymell bod ein pwyllgor olynol yn y chweched Cynulliad yn trafod cynnydd a llwyddiant gweithredu'r gwasanaeth 111 ar ôl ei gyflwyno'n llawn yn 2021/22.**


Rydym yn falch o **nodi** bod y Pwyllgor yn cydnabod llwyddiant y broses o gyflwyno 111 hyd yma ac yn cydnabod y cyfleoedd a ddaw yn sgil y gwasanaeth. Byddem yn croesawu pe bai pwyllgor y chweched cynulliad yn edrych ar gynnydd a llwyddiant y gwasanaeth 111. Bydd hyn yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol i GIG Cymru yn y dyfodol ac rydym wrthi'n cefnogi nifer o fentrau i sicrhau ei lwyddiant yn y tymor hir.

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor** | **Grŵp Ansawdd a Diogelwch 111/Y Tu Allan i Oriau Cymru gyfan** |
| **Diben** | Diben Grŵp Ansawdd a Diogelwch 111/y tu allan i oriau Cymru gyfan yw rhoi i Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (WAST) a Byrddau Iechyd Lleol:<br>• Tystiolaeth a chyngor amserol ynghylch Gofal Iechyd Brys y Tu Allan i'r Ysbyty<br>• Sicrwydd mewn perthynas â threfniadau ar gyfer diogelu a gwella ansawdd a diogelwch gofal iechyd sy'n canolbwyntio ar y claf gan 111 Cymru, a ddarperir gan WAST a gwasanaethau cysylltiedig y Tu Allan i Oriau (Gofal Sylfaenol Brys) a ddarperir gan BILl.<br>• Darparu sicrwydd penodol mewn perthynas â'r Ganolfan Cymorth Clinigol a'i rolau a chyfrifoldebau traws-sefydliadol.<br><br>Yn unol â'i amcanion datganedig a'r safonau a bennwyd ar gyfer GIG Cymru. |
| **Aelodaeth** | **Cadeirydd:**<br>• Cyfarwyddwr Meddygol neu Gyfarwyddwr Meddygol Cysylltiedig Gofal Sylfaenol WAST neu BILlau<br><br>**Is-gadeirydd**:<br>• Uwch-glinigydd o dimau 111/y Tu Allan i Oriau<br><br>**Cynrychiolwyr y Tu Allan i Oriau WAST / BILl** – o bob sefydliad<br>• Uwch-glinigydd<br>• Rheolwr Gweithredol<br><br>**Bydd y cynrychiolwyr uchod yn bwydo yn ôl i'w grwpiau proffesiynol lleol, gan gwmpasu meddygol, deintyddol a phroffesiynau perthynol.**<br><br>**Tîm Prosiect 111 Cymru**<br>• Cyfarwyddwr neu Ddirprwy<br>• Uwch-glinigydd (Cydgysylltydd Digwyddiadau)<br>• Arweinydd Fferyllol<br><br>**Trwy wahoddiad**<br>Caiff y Pwyllgor estyn gwahoddiadau i fynychu yn ôl yr angen i gynrychiolwyr yn GIG Cymru gan gynnwys ond ddim yn gyfyngedig i:<br><br>• Llywodraeth Cymru – Gofal Sylfaenol neu Ofal yn y Gymuned |

| | |
|---|---|
| | • Cyngor Iechyd Cymuned<br>• Iechyd Cyhoeddus Cymru<br>• Addysg Iechyd Cymru<br>• Adnoddau Dynol<br>Gwahoddiadau ar gyfer Ymgysylltu clinigol ehangach â Rhanddeiliaid trwy:<br><br>• Meddygaeth Frys<br>• Iechyd Meddwl<br>• Paediatreg<br>• Deintyddiaeth<br>• Microbioleg<br>• Optometreg<br>• Proffesiynau Perthynol i Feddygaeth<br>• Cynrychiolwyr o gyrff proffesiynol allweddol<br><br>Gall pob aelod o'r grŵp gyfethol unrhyw aelodau eraill ag sy'n angenrheidiol ac felly efallai na fydd aelodaeth yn gyfyngedig i'r hyn a bennir yn y Cylch Gorchwyl.<br><br>**Yn mynychu**<br><br>Caiff Cyfarwyddwyr Gweithredol / neu ddirprwyon sy'n dal portffolios sy'n cynnwys agweddau ar ansawdd, diogelwch, cwynion neu wella gwasanaethau fynychu o bryd i'w gilydd, neu yn unol â chais Cadeirydd y Grŵp<br><br>**Ysgrifennydd:** Caiff cymorth ysgrifenyddol ei ddarparu trwy Dîm Prosiect 111 Cymru<br><br>Caiff ***costau ar gyfer amser aelodau*** eu hysgwyddo gan y corff sy'n eu cynrychioli. |
| **Dyletswyddau:** | Bydd y grŵp yn gweithredu mewn perthynas â'i gyngor i WAST a'r BILlau: *(Italics = Specific advice to WAST CSPT sign off processes when time permits).*<br><br>**Ansawdd:**<br><br>• *Gall y grŵp adolygu a chynghori yn benodol ar y feddalwedd cefnogi penderfyniadau ar gyfer derbynwyr galwadau a chlinigwyr a ddarperir fel ateb o fewn datrysiad TG 111/y Tu Allan i Oriau.*<br>• *Gall y grŵp gynghori ac argymell addasiadau lleol (a chenedlaethol a Chymru gyfan ymhen amser) ar feddalwedd cefnogi penderfyniadau gan ystyried polisi GIG Cymru - ee pandemig neu frigiadau neu achosion lluosog lleol eraill ym maes iechyd y cyhoedd.* |

| | |
|---|---|
| | • Bydd y grŵp yn gwneud argymhellion cenedlaethol ar ddefnydd gwrthficrobaidd yn y lleoliad gofal sylfaenol brys, gan gymryd polisïau a chanllawiau BILl i ystyriaeth. Bydd hyn yn ei dro yn helpu i safoni argaeledd gwrthficrobaidd ar draws gwasanaethau y Tu Allan i Oriau yng Nghymru.<br><br>**Diogelwch**<br>• Mae gwersi'n cael eu dysgu a'u rhannu ar draws y gwasanaeth y tu allan i oriau o ddigwyddiadau diogelwch cleifion, cwynion a hawliadau.<br>• Mae risgiau cenedlaethol sylweddol yn cael eu nodi, eu rhannu a'u rheoli'n gadarn ar draws 111 Cymru a gwasanaeth y tu allan i oriau<br>• Gan nodi'r canlyniadau o'r uchod, dylai'r grŵp (gyda sêl bendith BILl a Chyfarwyddwyr Meddygol WAST) ystyried y goblygiadau ar gyfer GIG Cymru yn sgil cyhoeddi adroddiadau unrhyw adolygiad/ymchwiliad sy'n deillio o reoleiddwyr allanol.<br><br>**Y gweithlu**<br>• Yn tanlinellu materion neu bryderon cenedlaethol ynghylch y gweithlu ynghylch dethol, hyfforddiant, cymorth, ymatebolrwydd ac iechyd a llesiant.<br><br>**Ansawdd, Diogelwch a Rheoli Perfformiad**<br><br>• Cynghori ar ddatblygiad cychwynnol strategaethau GIG Cymru ar gyfer datblygu gwasanaethau o ansawdd uchel a diogel, neu lwybrau i gleifion sy'n gofyn am gyngor ar anghenion iechyd newydd neu frys yn y gymuned.<br>• Ystyried y goblygiadau o ran ansawdd a diogelwch yn ymwneud â strategaethau corfforaethol ar draws GIG Cymru mewn perthynas â diwallu anghenion cleifion sy'n arddangos problemau iechyd newydd neu frys o fewn y gymuned.<br>• Ystyried y goblygiadau ansawdd a diogelwch i GIG Cymru yn deillio o adroddiadau ar berfformiad gwasanaethau yn erbyn Safonau Gofal Iechyd i Gymru mewn perthynas â 111 Cymru a Gwasanaethau Gofal Sylfaenol Brys BILl y tu allan i oriau.<br>• Bydd y grŵp yn cynghori Llywodraeth Cymru, WAST a BILlau ar fabwysiadu set o ddangosyddion allweddol ar ansawdd gofal, y caiff perfformiad GIG Cymru ei asesu a'i adrodd yn ei erbyn trwy Adroddiadau Blynyddol. |

| | |
|---|---|
| | • Bydd y Grŵp yn cynhyrchu adroddiad blynyddol yn crynhoi perfformiad cenedlaethol ac amrywiant lleol yn erbyn y dangosyddion allweddol. |
| Mynediad | • Bydd y grŵp yn goruchwylio dangosyddion perfformiad a mynediad ar gyfer 111 (a thrwy gytundeb â BILlau) ar safonau y Tu Allan i Oriau a gall ddarparu cefnogaeth gan gymheiriaid ar gyflenwi a thrawsnewid gwasanaethau yn ehangach.<br>• Gall y grŵp hefyd gynnig mewnbwn ehangach ar ddarparu atebion rhanbarthol i weithio y Tu Allan i Oriau a 111 er mwyn hwyluso gwell diogelwch i gleifion ac ansawdd gofal. |
| Cyfarfodydd<br><br>Amlder: | Dylai fod o leiaf 8 aelod o'r grŵp er mwyn ffurfio cworwm gydag o leiaf un o'r aelodau yn Gadeirydd neu'r Is-gadeirydd<br><br>Caiff cyfarfodydd eu cynnal ddim llai na chwarterol ond fel rheol bob yn ail fis neu fel arall fel y mae Cadeirydd y Grŵp yn gweld yn dda. |
| Adrodd | Caiff y cofnodion a'r argymhellion cysylltiedig eu hadrodd i Bwyllgorau Ansawdd a Diogelwch WAST a BILlau, Cyfarwyddwyr Gofal Sylfaenol a Bwrdd Prosiect 111 gyda copïau'n cael eu rhannu â Llywodraeth Cymru a Fforwm y Tu Allan i Oriau Cymru gyfan. |
| Grwpiau bwydo | Caiff y grŵp, yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth Bwrdd Cenedlaethol 111, sefydlu grwpiau gorchwyl a gorffen penodol i gyflawni agweddau ar eu gwaith yn ôl yr angen. |
| Cymwysoldeb Rheolau Sefydlog | Ni ragwelir y bydd gwaith y grŵp hwn yn effeithio'n uniongyrchol ar Reolau Sefydlog sefydliad unigol. Er hynny, os oes gwrthdrawiad posibl yna caiff hyn ei adolygu gan Ysgrifenyddion y Byrddau a / neu'r Cyfarwyddwyr Meddygol yn y lle cyntaf. |
| Adolygu | Caiff y cylch gorchwyl a'r trefniadau gweithredu eu hadolygu'n flynyddol gan y Grŵp, Rhaglen Genedlaethol 111 a'u rhannu â sefydliadau priodol ar draws GIG Cymru |


Cysylltiadau allweddol
Bwrdd Cenedlaethol Gofal heb ei drefnu
Adrodd yn ffurfiol
Cyfarwyddwyr Gofal Sylfaenol
Bwrdd Prosiect
Addysg Iechyd Cymru
Cyrff cynrychioliadol
Gweithlu
QPSC WAST
QPSC ABUHB
QPSC ABMUHB
Grŵp Ansawdd a Diogelwch 111/y tu allan i oriau Cymru gyfan
Iechyd Cyhoeddus
QPSC BCUHB
QPSC CVUHB
TGCh
QPSC CTUHB
NWIS
WAST
QPSC HDUHB
Cyflenwyr TG
QPSC PTHB
Safonau
Fforwm y Tu Allan i Oriau Cymru Gyfan
AMD Gofal Sylfaenol
Llywodraeth Cymru
Cyrff cynrychioliadol

# GOOD PRACTICE PROTOCOL – DATIX REPORTING FOR URGENT PRIMARY CARE OOHS SERVICES

## INTRODUCTION

Reporting incidents, near misses and concerns ~~is~~ are essential for improving patient and staff safety, developing more effective processes and providing a record of incident occurrences. DATIX tools tend to be applied universally throughout Health Boards which means they have to cover a vast array of circumstances and areas of work – this can lead to too many user choices or difficulty in knowing which options to select on the report.

As part of the peer review process in 2018, it was noted that the reporting of DATIX in OOHs services was low, compared to other services.

There could be many reasons for this, for example:-

- Staff do not need to fill in DATIX reports very often and therefore do not build up the experience finding the whole experience daunting when they are required to complete one.
- GPs who work in OOHs are sessional GPs and do not often have access to reporting tools such as DATIX, unless they are employed by the Health Board.

## PURPOSE

This document aims to provide a national Good Practice guide for all Out of Hours Service providers to encourage standardisation and reduce variations in practice.

## DEFINITION OF A REPORTABLE INSTANCE

The Occupational Safety and Health Association defines a**n** incident as *"an unplanned, undesired event that adversely affects completion of a task."*

In NHS terms this would mean anything that impacts on the safe and timely delivery of healthcare provision. The severity of this could range from near-miss (could have happened but was avoided) to actual harm (death). By reporting all unexpected incidents that impact of service delivery and the actions taken at the time (if any) to mitigate the risk, service delivery changes can be made (and justified) if they can show improvement and reduction in future occurrences.

**COMMON TYPES OF INCIDENTS**

- Complaints from Staff, Patients or Contractors about staff or patient attitude
- Complaints from Staff, Patients or Contractors about service provision (accessing service and availability)
- Accidents involving staff, patients or contractors
- Delay in Patient Care (this could be due to service demand or failure to act)
- Misdiagnosis
- Confidentiality breach
- Medication errors
- Faulty equipment
- Incidents involving violence and aggression

**RESPONSIBILITIES**

- The identifier of a reportable incident should be the person responsible for completion of the Datix report.
- In the first instance, Datix should be completed on the Datix Health Board system.
- With prior agreement a 'responsible person' can be nominated to complete the Datix on the identifiers behalf and a desk top reporting tool has been created for this purpose (Attached). OOHs services need to ensure this is on every member of staff's desktop via their IT departments. This should be e-mailed to key personnel (see below), if e-mail is not possible this should be printed and put in an envelope and put in a safe place.

**SCOPE**

This Good Practice Guide is a protocol for OOHs providers to use and adapt to their own needs and will be agreed and formulised at the Urgent Primary Care OOHs group as well as the Quality and Safety 111/OOHs forum.

**PROCEDURES**

All DATIX reports should also be reported on a quarterly basis to the All Wales Quality and Safety OOHs/111 Forum to encourage shared clinical learning and active recording of types of incidents to aid themes and trends.

Key information to record:

- Date and time of incident
- Name(s) of parties involved; whether actively or witnesses
- Nature of the Incident (facts only. No opinions or supposition)
- Case reference number, vehicle registration, other specifics to support investigation
- Location of incident
- Immediate circumstances
- Immediate remedial action taken
- Further action required, if any
- Route for feedback, if requested

**RECOMMENDATIONS TO OOHS PROVIDERS**

- Each OOHs service to share the good practice guide with all staff.
- Each OOHs service to ensure they have named staff on each shift for the forms to be returned to or completed by.
- Each OOHs service to have a designate place for the forms to be returned to (if e-mail not possible) in a sealed envelope for attention of the management team.
- Standardised investigation and feedback process to be adopted by the management team (this includes entering onto the Health Board DATIX system).
- Each OOHs service to provide quarterly information on DATIX to the 111 team and to include key themes and learning outcomes.
- Each OOHs service to create their own protocol on DATIX following this guidance.

**DATIX PAPER BASED REPORT**

| | |
|---|---|
| Date of Incident | |
| Time of Incident | |
| Name of incident reporter | |
| Contact Details (Email /Telephone) | |
| Department | Urgent Primary Care Service (OOHs) |
| Name(s) and Contact Details of Parties involved. (witness or actively affected) | |
| | |
| | |
| | |
| Location of incident (select from list) | |
| Type of Incident | |
| Case reference / Car registration (If applicable) | |
| Immediate details of the incident | |
| Immediate remedial action taken | |
| Further action recommended / required | |
| Route for feedback, if requested | |

**FORM MUST BE E-MAILED TO………………………. FOLLOWING YOUR SHIFT OR IF E-MAIL NOT POSSIBLE RETURN TO ………………………**

# Competency framework for clinicians working in Urgent Primary Care (out of hours) services

# Competency Framework and Portfolio

## Contents:

**Section 1: Introduction to the Portfolio & How It Works**

1.1. Introduction to the Urgent Care Practitioner
1.2. The Framework and Working in Urgent Primary Care (OOH)
1.3. How To Use This Portfolio

**Section 2: The Urgent Primary Care (OOH) Career Framework**

2.1. Career Pathway
2.2. Education and Qualification Requirements
2.3. Novice to Expert Taxonomy
2.4. Taxonomy Applied to Career Pathway
2.5. Self-Assessment

**Section 3: The Competency Portfolio and Framework**

3.1. Portfolio and Framework Key
3.2. Competence Development and Educational Support

**Section 4: The Competency Framework**

**4.1. Urgent Primary Care Practitioner**

**4.2. Paediatric Urgent Primary Care Practitioner**

**Section 1:**

## 1.1. Introduction to the Urgent Care Practitioner

The Urgent Care Practitioner (UCP) is the term used within Urgent Primary Care Out Of Hours (UPC OOH) in Wales and this document for a clinical, registered member of the OOH team regardless of their professional background (nurse, paramedic, pharmacist, allied health professional). Whilst due regard is made to the base professions, and the requirements within them, this framework serves to provide parity across these professions with regards to the level of competence of practitioners specifically within an UPC OOH setting.

## 1.2. The framework and working in Urgent Primary Care (OOH)

This is your framework. It is designed to help you gather and collate evidence that supports your level of practice, whatever your clinical role in OOH is. This evidence is essential for your practice both for the PADR process under Agenda for Change and your revalidation requirements for your professional body.

This document defines the core and supplementary skills and competencies for each clinical role within OOH. It is designed to stay with you for the whole of your career in the service, supporting your progression through the career pathways.

There are no set rules for what constitutes evidence for this portfolio; this is for you to decide with your assessor. There are some templates/tools to support gathering of evidence within the document but it is up to you if and how you use them. Examples of other forms of evidence may include a certificate from a course, notes from an informal discussion, a reflection on practice, a case study or a thank you card from a patient.

One piece of evidence may provide proof of competence for several different competencies. This can be logged and tracked in the Competency Portfolio and the Evidence Log.

This portfolio is designed to work alongside other portfolios currently in use across Wales e.g. Advanced Practice Portfolios, RSP/111 Transition portfolios. These portfolios will have competencies in common with this UCP portfolio and therefore can themselves be used as evidence of attainment of competency by simply mapping the competencies that are common to each.

## 1.3. How to use this Framework/Portfolio

### Step 1. Choose a Named Mentor/Assessor

Completing the portfolio and framework will take time and dedication from both you and your mentor. Your Named Mentor/Assessor should be a GP or Senior Practitioner that regularly works for an OOH service that has a good understanding of competence development and this framework. This Mentor/Assessor will be your final sign off as having shown competence at the required level within the framework.

Individual competencies within the portfolio, or assessments done to achieve competencies can be assessed by any clinician that practices in the area that competence is being assessed.

### Step 2. Map your current competency

It is important that you map where you currently are in relation to the competencies in order that you can plan with your assessor/mentor/tutor your development.

This is the point where, if you have another portfolio that has already been completed and assessed, you map this across into this portfolio. If a competency within the framework or portfolio is demonstrated as complete, this can be directly dropped into the UCP framework and signed off by your Named Mentor/Assessor, there will be no requirement for further assessment of these competencies provided the required level of competence for role is met.

Once prior learning has been incorporated into your portfolio, identify the gaps in your practice/knowledge and think about what you will need to do to address those gaps.

### Step 3. Draft a Development Plan

Once you have completed step 2 it's important to meet with your Named Mentor/Assessor to discuss your development plan. This will include setting a timeframe for completion of tasks and also to plan in checkpoints for you and your mentor. It will also give you an opportunity to discuss and arrange any learning activities that your mentor may be able to help with such as shadowing or attendance at a course.

**Step 4. Gathering Evidence**

As a general rule, there is an expectation of a triad of evidence for each competency within the portfolio. For example, a mini-cex done in practice with a case-based discussion on the case and a documented reflection on practice. As previously stated, there are no set rules for what constitutes a single piece of evidence.

You will need to think about the evidence you submit and whether it truly meets demonstrates competence rather than knowledge. For example, you may attend a course where you have learned about the pathophysiology and assessment of a particular condition. In isolation this would not demonstrate competence, but a reflection on the learning and then a Direct Observation of Practice demonstrating the use of that knowledge in practice would.


**Step 4. Assessment**

It is anticipated that the formal assessment will be a dynamic process between you and your Named Mentor/Assessor. As each section in the portfolio becomes complete, the relevant section of the framework can be signed off.

Competencies not required for your role can be assessed at any time, and as you progress through the career framework and up the levels, each competency will be reassessed with new evidence to demonstrate the ability to work at a higher level. This continual building of new evidence will demonstrate your progression and should inform your employers of your level of practice through the PADR process.

**Section 2: The Urgent Primary Care (OOH) Career Framework**

**2.1. Career Pathway**



## 2.2. Education/Qualification requirements – Medical/Clinical roles

| Profession/Role: | Salary scale/Banding | Qualification/Education requirements | Role specific |
|---|---|---|---|
| **Clinical Director** | Medical & Dental or AfC depending on professional background | • Full GMC Registration & License to practice or Professional registration with NMC, GPhC and/or HCPC<br>• PMETB or JCPTGP Certificate<br>• MRCGP or equivalent MSc in Advanced Practice/Advanced Clinical Practice or equivalent experience and competency as defined in this Framework<br>• Non-medical prescribing | Visible on Welsh Performers List and/or Expert level of competence as defined in this Framework. |
| **Expert Generalist/Flight Controller** | Medical & Dental or AfC depending upon professional background | • Full GMC Registration & License to practice or Professional registration with NMC, GPhC and/or HCPC<br>• PMETB or JCPTGP Certificate<br>• MRCGP or equivalent MSc in Advanced Practice/Advanced Clinical Practice or equivalent experience and competency as defined in this Framework<br>• Non-medical prescribing | Visible on Welsh Performers List and/or Expert level of competence as defined in this Framework. |
| **GP** | Medical & Dental – BMA Salary model, incl. Pay Enhancement for OOH working | • Full GMC Registration & License to practice<br>• PMETB or JCPTGP Certificate MRCGP or equivalent | Visible on Welsh Performers List |
| **Senior Urgent Care Practitioner** | AfC, incl. Pay enhancement for unsocial hours | • MSc in Advanced Practice/Advanced Clinical Practice or equivalent experience and competency as defined in this Framework<br>• Non-medical prescribing<br>• Evidence of working with the Advanced Practice framework for Wales Professional registration with NMC, GPhC and/or HCPC | Leadership & Management competencies<br>Significant knowledge of Primary Care/OOH policies, practices and clinical governance.<br>Evidence of working within core competencies as defined by OOH |

DRAFT

DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Urgent Care Practitioner level 3** | AfC, incl. Pay enhancement for USH | • MSc in Advanced Practice/Advanced Clinical Practice or equivalent experience or Postgraduate studies in Minor Illness, Clinical Patient Assessment modules<br>• Non-medical prescribing Professional registration with NMC, GPhC and/or HCPC | Evidence of working within core competencies as defined by OOH |
| **Urgent Care Practitioner level 2** | AfC, incl. Pay enhancement for USH | • MSc pathway in Advanced practice (must have completed year 2), or equivalent experience or Postgraduate studies in Minor Illness, Clinical Patient Assessment modules<br>• Non-medical prescribing – optional<br>• Degree in nursing/paramedic sciences or equivalent<br>• Professional registration with NMC, GPhC and/or HCPC | Evidence of working within core competencies as defined by OOH |
| **Urgent Care Practitioner / Minor Illness Practitioner Level 1** | AfC, incl. Pay enhancement for USH | • Postgraduate studies in Minor Illness<br>• Degree in nursing/paramedic sciences or equivalent<br>• Professional registration with NMC, GPhC and/or HCPC<br>• Non-medical prescribing – optional<br>• Relevant Degree in nursing/paramedic or allied healthcare sciences or equivalent<br>• Professional registration with NMC, GPhC and/or HCPC | Evidence of working within core competencies as defined by OOH |

## 2.3. Novice to Expert Taxonomy – Benner's Stages of Skill Acquisition

Benner's (1984)(1)Stages of Skill Acquisition provides a framework to describe the concept that expert nurses develop skills and understanding of patient care over time through a sound educational base as well as a multitude of experiences. The theory outlines five levels or stages of nursing performance: novice, advanced beginner, competent, proficient and expert.

For the purpose of this document these stages have been applied to all clinicians to describe the knowledge/skill development of non-patient facing and patient facing roles within the Urgent Primary Care (OOH) service to help illustrate the career progression opportunities that can exist within OOH.

Please note that for roles where there is a requirement to undertake both patient facing and non-patient facing functions it is possible to be at different stages of skill acquisition, i.e. you may be expert Triage practitioner, and a competent Clinical Practitioner at the same time, however this should describe the skill development and journey expected in your career within OOH, supplemented by your competency portfolio.



DRAFT

[1] P. Benner (1984) Model of Skills Acquisition http://currentnursing.com/ nursing theory/Patricia_Benner_From_Novice_to_Expert.html

## 2.4. Taxonomy Applied to Career Pathway



DRAFT

| Taxonomy<br>Role | Novice | Advanced Beginner | Competent | Proficient | Expert |
|---|---|---|---|---|---|
| | ***New to role, no prior experience of working as a clinician within a primary care/OOH setting*** | ***Knowledge has been consolidated, able to practice safely within scope of role.*** | ***Additional learning identified. Operates independently as a clinician, but under supervision of a senior clinician whilst developing advanced practice skills.*** | ***Operates independently as a Clinical Practitioner within scope of role. Advancing skills through additional knowledge and competence.*** | ***Operates independently as an Advanced Clinical Practitioner, within recognised framework. Leads service.*** |
| **Urgent Care Practitioner** | 1. New to role/service qualified within patient facing role.<br>2. Assessment of competence and learning needs undertaken.<br>3. Will practice only with direct clinical supervision available on site (ACP/Lead Nurse/GP)<br>4. Must undertake essential education such as telephone consultation skills, ADASTRA training etc. | 1. 6 months post qualification/commencement in role.<br>2. Role specific competencies achieved.<br>3. Will practice with direct/indirect clinical supervision available.<br>4. Attends appropriate training to supplement knowledge.<br>5. Developed telephone triage skills (competent practitioner). | 1. Progressing additional postgraduate studies in clinical practice (MSc pathway to Advanced Practice modular approach)<br>1. Additional competencies identified for completion.<br>2. Attends appropriate training to supplement knowledge.<br>3. Demonstrates and maintains competencies in daily practice.<br>4. May mentor other triage clinicians.<br>5. May undertake audit of triage calls using appropriate framework. | 1. Holds MSc in Advanced Clinical Practice or equivalent level of qualification and/or satisfactory completion of the competency portfolio.<br>2. Non-medical prescribing module undertaken/in progress.<br>3. Provides mentorship to newly appointed/trained triage clinicians.<br>4. Role specific competencies achieved.<br>5. Will develop skills to work across pillars of advance practice.<br>6. Lead role identified. | 1. Evidence of working across all pillars of advance practice<br>2. Educated to MSc level<br>3. Independent prescriber<br>4. Will undertake research and actively participate/lead service improvement initiatives.<br>5. Provides clinical leadership.<br>6. Review and analyse audits to inform future design of training programmes.<br>7. Collaborate with GPs and lead on developing new or reviewing existing protocols. |

## 2.5. Self-Assessment

We believe Benner's model will help you to undertake a self-assessment of your practice against the competencies required within OOH as your career develops. This will also assist your clinical supervisors in evaluating your competence and development within the OOH Service. The following table provides descriptions against each stage to support you with this;

| | |
|---|---|
| **Novice** | • Beginner with no experience<br>• Taught general rules to help perform tasks<br>• Rules are: context-free, independent of specific cases, and applied universally<br>• Rule-governed behaviour is limited and inflexible |
| **Advanced Beginner** | • Demonstrates acceptable performance<br>• Has prior experience of actual situations to recognize own limitations and identify and adopt good practice<br>• Principles, based on experiences, begin to be formulated to guide actions |
| **Competent** | • Typically, a practitioner with experience on the job in the same area or in similar day-to-day situations<br>• More aware of long-term goals<br>• Gains perspective from planning own actions based on conscious, abstract, and analytical thinking and helps to achieve greater efficiency and organization |
| **Proficient** | • Perceives and understands situations as whole parts<br>• More holistic understanding improves decision-making<br>• Learns from experiences what to expect in certain situations and how to modify plans |
| **Expert** | • No longer relies on principles, rules, or guidelines to connect situations and determine actions<br>• Background of greater experience<br>• Has intuitive grasp of clinical situations<br>• Performance is now fluid, flexible, and highly-proficient |

DRAFT

## Section 3: The Competency Portfolio and Framework

### 3.1. Competency Portfolio and Framework Key

The competencies required for working in Urgent Primary Care (OOH) are detailed in the attached Portfolio. There are 17 sections, organised into 3 areas;

- General
- Triage
- Clinical

The framework in Section 4 demonstrates the expected level of competence for each role. All clinicians should read and be familiar with the competencies specific to their job.

| Area | Content |
|---|---|
| **General** | 1. Organisational<br>2. Communication<br>3. Personal and People Development<br>4. Health, Safety & Security<br>5. Quality, Service Improvement & Research<br>6. Equality and Diversity<br>7. Information Systems & Documentation<br>8. Health & Wellbeing |
| **Triage** | 9. Telephone Triage |
| **Clinical** | 10. Core Clinical Competencies<br>11. Adult (16+) Clinical Competencies<br>12. Child (3yr – 16yr) Clinical Competencies<br>13. Pre-Verbal Child (0-3yr) Clinical Competencies |

DRAFT

### 3.2. Competence Development and Educational Support

Some clinicians joining Urgent primary Care (OOH) will already have attained core clinical competencies through their education, learning and development and work experience. There is a requirement for all clinicians to ensure their competence is mapped and aligned to this framework. The service will then offer support to fill any knowledge gaps identified. This may be through self-directed study, clinical supervision in practice or specific training programs within the following areas:

- Telephone consultation skills
- Diagnostic reasoning
- Cardiovascular
- Respiratory
- Gastrointestinal
- Neurological
- Ear, Nose & Throat
- Ophthalmology
- Musculoskeletal
- Dermatology
- Genitourinary
- Endocrine/Metabolic
- Mental Health
- Women's Health
- Men's Health
- Sexual Health
- Paediatrics
- End of Life Care
- Independent Prescribing
- Leadership
- Mentorship
- Coaching

DRAFT

# 4.1 Urgent Care Practitioner Competency Framework

This is a tabular summary of the clinical portfolio. It demonstrates the minimal level of competence in each area expected for each role. Sign and date in box when minimal level achieved. Clinical Competencies (Section 10 onwards are only required at UCP Level 1 if the practitioner has a F2F role (Minor Illness). Novice and Advanced Beginner would indicate the need for supervised practice in that area, Competent and above would be autonomous practice. Where Novice or Advanced Beginner is shown for role, this is indicative and not a requirement.

DRAFT

| Novice | Advanced Beginner | Competent | Proficient | Expert |
|---|---|---|---|---|

| Competency | Urgent Care Practitioner | | | | Expert Generalist |
|---|---|---|---|---|---|
| | Level 1 | Level 2 | Level 3 | Senior | |
| **1. Organisational** | | | | | |
| 1.1. Practicing the Health Board's Values and Behaviours | | | | | |
| **2. Communication** | | | | | |
| 2.1. Communication with Patients | | | | | |
| 2.2. Communication within Teams | | | | | |
| **3. Personal and People Development** | | | | | |
| 3.1. Personal Development | | | | | |
| 3.2. People Development | | | | | |
| **4. Health, Safety & Security** | | | | | |
| 4.1. Procedures and Processes | | | | | |
| 4.2. Vaccines and Drugs | | | | | |
| 4.3. Emergency Situations | | | | | |
| 4.4. Infection Control | | | | | |
| 4.5. Mandatory Training | | | | | |
| **5. Quality, Service Improvement & Research** | | | | | |
| 5.1. Service Improvement | | | | | |
| 5.2. Audit | | | | | |
| 5.3. Research | | | | | |
| **6. Equality & Diversity** | | | | | |
| 6.1. Population Needs | | | | | |
| **7. Information Systems & Documentation** | | | | | |
| 7.1. IT & Telephone Systems | | | | | |
| 7.2. Documentation | | | | | |
| **8. Health & Wellbeing** | | | | | |
| 8.1. Health Promotion and Public Health | | | | | |

| Novice | Advanced Beginner | Competent | Proficient | Expert |
|---|---|---|---|---|

| Competency | Urgent Care Practitioner | | | | Expert Generalist |
|---|---|---|---|---|---|
| | Level 1 | Level 2 | Level 3 | Senior | |
| **9. Telephone Triage** | | | | | |
| 9.1. General Competencies | Competent | Competent | Proficient | Proficient | Expert |
| 9.2. Adult (16yr+) Competencies | Competent | Competent | Proficient | Proficient | Expert |
| 9.3. Child (3yr – 16yr) Competencies | Competent | Competent | Competent | Proficient | Expert |
| 9.4. Infant & Pre-Verbal (0yr-3yr) Child Competencies | Novice | Novice | Advanced Beginner | Competent | Proficient |
| **10. Core Knowledge Competencies** | | | | | |
| 10.1. Diagnosis, Decision Making & Management | Competent | Proficient | Expert | Expert | Expert |
| 10.2. Cardiovascular | Competent | Proficient | Expert | Expert | Expert |
| 10.3. Respiratory | Competent | Proficient | Expert | Expert | Expert |
| 10.4. Gastro-Intestinal (GI) | Competent | Proficient | Expert | Expert | Expert |
| 10.5. Neurological | Competent | Proficient | Expert | Expert | Expert |
| 10.6. Ear, Nose & Throat (ENT) | Competent | Proficient | Expert | Expert | Expert |
| 10.7. Ophthalmology | Competent | Proficient | Expert | Expert | Expert |
| 10.8. Musculoskeletal (MSK) | Competent | Proficient | Expert | Expert | Expert |
| 10.9. Dermatology | Competent | Proficient | Expert | Expert | Expert |
| 10.10. Genitourinary (GU) | Competent | Proficient | Expert | Expert | Expert |
| 10.11. Endocrine/Metabolic | Novice | Advanced Beginner | Competent | Proficient | Expert |
| 10.12. Mental Health | Novice | Advanced Beginner | Competent | Proficient | Expert |
| 10.13. Women's Health | Novice | Advanced Beginner | Competent | Proficient | Expert |
| 10.14. Men's Health | Novice | Advanced Beginner | Competent | Proficient | Expert |
| 10.15. Sexual Health | Novice | Advanced Beginner | Competent | Proficient | Expert |
| 10.16. End of Life Care | Novice | Advanced Beginner | Competent | Proficient | Expert |
| 10.17. Pharmacotherapy and Medicines Management | Advanced Beginner | Competent | Proficient | Expert | Expert |
| 10.18. Child Health | Advanced Beginner | Advanced Beginner | Competent | Proficient | Proficient |

| Novice | Advanced Beginner | Competent | Proficient | Expert |
|---|---|---|---|---|

| Competency | Urgent Care Practitioner | | | | Expert Generalist |
|---|---|---|---|---|---|
| | Level 1 | Level 2 | Level 3 | Senior | |
| **11. Adult (16+) Clinical Competencies** | | | | | |
| 11.1. Cardiovascular | | | | | |
| 11.2. Respiratory | | | | | |
| 11.3. Gastro-Intestinal (GI) | | | | | |
| 11.4. Neurological | | | | | |
| 11.5. Ear, Nose & Throat (ENT) | | | | | |
| 11.6. Ophthalmology | | | | | |
| 11.7. Musculoskeletal (MSK) | | | | | |
| 11.8. Dermatology | | | | | |
| 11.9. Genitourinary (GU) | | | | | |
| 11.10. Endocrine/Metabolic | | | | | |
| 11.11. Mental Health (MH) | | | | | |
| 11.12. Women's Health | | | | | |
| 11.13. Men's Health | | | | | |
| 11.14. Sexual Health | | | | | |

| Novice | Advanced Beginner | Competent | Proficient | Expert |
|---|---|---|---|---|

| Competency | Urgent Care Practitioner | | | | Expert Generalist |
|---|---|---|---|---|---|
| | Level 1 | Level 2 | Level 3 | Senior | |
| **12. Child (3yr – 16yr) Clinical Competencies** | | | | | |
| 12.1. Cardiovascular | | | | | |
| 12.2. Respiratory | | | | | |
| 12.3. Gastro-Intestinal (GI) | | | | | |
| 12.4. Neurological | | | | | |
| 12.5. Ear, Nose & Throat (ENT) | | | | | |
| 12.6. Ophthalmology | | | | | |
| 12.7. Musculoskeletal (MSK) | | | | | |
| 12.8. Dermatology | | | | | |
| 12.9. Genitourinary (GU) | | | | | |
| 12.10. Endocrine/Metabolic | | | | | |
| 12.11. Mental Health | | | | | |
| **13. Infant & Pre-Verbal (01-3yr) Child Clinical Competencies** | | | | | |
| 13.1. Cardiovascular | | | | | |
| 13.2. Respiratory | | | | | |
| 13.3. Gastro-Intestinal (GI) | | | | | |
| 13.4. Neurological | | | | | |
| 13.5. Ear, Nose & Throat (ENT) | | | | | |
| 13.6. Ophthalmology | | | | | |
| 13.7. Musculoskeletal (MSK) | | | | | |
| 13.8. Dermatology | | | | | |
| 13.9. Genitourinary (GU) | | | | | |
| 13.10. Endocrine/Metabolic | | | | | |

# 4.2 Paediatric Urgent Care Practitioner Competency Framework

This is a tabular summery of the clinical portfolio. It demonstrates the minimal level of competence in each area expected for each role. Sign and date in box when minimal level achieved. Clinical Competencies (Section 10 onwards are only required at UCP Level 1 if the practitioner has a F2F role (Minor Illness). Novice and Advanced Beginner would indicate the need for supervised practice in that area, Competent and above would be autonomous practice. Where Novice or Advanced Beginner is shown for role, this is indicative and not a requirement.

DRAFT

| Novice | Advanced Beginner | Competent | Proficient | Expert |
|---|---|---|---|---|

| Competency | Paediatric Urgent Care Practitioner | | | | Expert Generalist |
|---|---|---|---|---|---|
| | Level 1 | Level 2 | Level 3 | Senior | |
| **1. Organisational** | | | | | |
| 1.2. Practicing the Health Board's Values and Behaviours | Competent | Competent | Proficient | Proficient | Expert |
| **2. Communication** | | | | | |
| 2.1. Communication with Patients | Competent | Competent | Proficient | Proficient | Expert |
| 2.2. Communication within Teams | Competent | Competent | Proficient | Proficient | Expert |
| **3. Personal and People Development** | | | | | |
| 3.1. Personal Development | Competent | Competent | Proficient | Proficient | Expert |
| 3.2. People Development | Advanced Beginner | Competent | Competent | Proficient | Expert |
| **4. Health, Safety & Security** | | | | | |
| 4.1. Procedures and Processes | Competent | Competent | Proficient | Proficient | Expert |
| 4.2. Vaccines and Drugs | Competent | Competent | Proficient | Proficient | Expert |
| 4.3. Emergency Situations | Competent | Competent | Proficient | Proficient | Expert |
| 4.4. Infection Control | Competent | Competent | Proficient | Proficient | Expert |
| 4.5. Mandatory Training | Competent | Competent | Proficient | Proficient | Expert |
| **5. Quality, Service Improvement & Research** | | | | | |
| 5.1. Service Improvement | Competent | Competent | Competent | Proficient | Expert |
| 5.2. Audit | Advanced Beginner | Competent | Competent | Proficient | Expert |
| 5.3. Research | Advanced Beginner | Competent | Competent | Proficient | Expert |
| **6. Equality & Diversity** | | | | | |
| 6.1. Population Needs | Competent | Competent | Proficient | Proficient | Expert |
| **7. Information Systems & Documentation** | | | | | |
| 7.1. IT & Telephone Systems | Competent | Competent | Proficient | Proficient | Expert |
| 7.2. Documentation | Competent | Competent | Proficient | Proficient | Expert |
| **8. Health & Wellbeing** | | | | | |
| 8.1. Health Promotion and Public Health | Competent | Competent | Proficient | Proficient | Expert |

| Novice | Advanced Beginner | Competent | Proficient | Expert |
|---|---|---|---|---|

| Competency | Paediatric Urgent Care Practitioner | | | | Expert Generalist |
|---|---|---|---|---|---|
| | Level 1 | Level 2 | Level 3 | Senior | |
| **9. Telephone Triage** | | | | | |
| 9.1. General Competencies | Competent | Competent | Proficient | Proficient | Expert |
| 9.2. Adult (16yr+) Competencies | Novice | Advanced Beginner | Competent | Proficient | Proficient |
| 9.3. Child (3yr – 16yr) Competencies | Competent | Competent | Proficient | Proficient | Expert |
| 9.4. Infant & Pre-Verbal (0yr-3yr) Child Competencies | Competent | Competent | Proficient | Proficient | Expert |
| **10. Core Knowledge Competencies** | | | | | |
| 10.1. Diagnosis, Decision Making & Management | Competent | Proficient | Expert | Expert | Expert |
| 10.2. Cardiovascular | Competent | Proficient | Expert | Expert | Expert |
| 10.3. Respiratory | Competent | Proficient | Expert | Expert | Expert |
| 10.4. Gastro-Intestinal (GI) | Competent | Proficient | Expert | Expert | Expert |
| 10.5. Neurological | Competent | Proficient | Expert | Expert | Expert |
| 10.6. Ear, Nose & Throat (ENT) | Competent | Proficient | Expert | Expert | Expert |
| 10.7. Ophthalmology | Competent | Proficient | Expert | Expert | Expert |
| 10.8. Musculoskeletal (MSK) | Competent | Proficient | Expert | Expert | Expert |
| 10.9. Dermatology | Competent | Proficient | Expert | Expert | Expert |
| 10.10. Genitourinary (GU) | Competent | Proficient | Expert | Expert | Expert |
| 10.11. Endocrine/Metabolic | Novice | Advanced Beginner | Competent | Proficient | Expert |
| 10.12. Mental Health | Novice | Advanced Beginner | Competent | Proficient | Expert |
| 10.13. Women's Health | Novice | Advanced Beginner | Competent | Proficient | Proficient |
| 10.14. Men's Health | Novice | Advanced Beginner | Competent | Proficient | Proficient |
| 10.15. Sexual Health | Novice | Advanced Beginner | Competent | Proficient | Proficient |
| 10.16. End of Life Care | Novice | Advanced Beginner | Competent | Proficient | Proficient |
| 10.17. Pharmacotherapy and Medicines Management | Advanced Beginner | Competent | Proficient | Expert | Expert |
| 10.18. Child Health | Competent | Competent | Proficient | Expert | Expert |

| Novice | Advanced Beginner | Competent | Proficient | Expert |
|---|---|---|---|---|

| Competency | Paediatric Urgent Care Practitioner | | | | Expert Generalist |
|---|---|---|---|---|---|
| | Level 1 | Level 2 | Level 3 | Senior | |
| **11. Adult (16+) Clinical Competencies** | | | | | |
| 11.1. Cardiovascular | | | | | |
| 11.2. Respiratory | | | | | |
| 11.3. Gastro-Intestinal (GI) | | | | | |
| 11.4. Neurological | | | | | |
| 11.5. Ear, Nose & Throat (ENT) | | | | | |
| 11.6. Ophthalmology | | | | | |
| 11.7. Musculoskeletal (MSK) | | | | | |
| 11.8. Dermatology | | | | | |
| 11.9. Genitourinary (GU) | | | | | |
| 11.10. Endocrine/Metabolic | | | | | |
| 11.11. Mental Health (MH) | | | | | |
| 11.12. Women's Health | | | | | |
| 11.13. Men's Health | | | | | |
| 11.14. Sexual Health | | | | | |

| Novice | Advanced Beginner | Competent | Proficient | Expert |
|---|---|---|---|---|

| Competency | Paediatric Urgent Care Practitioner | | | | Expert Generalist |
|---|---|---|---|---|---|
| | Level 1 | Level 2 | Level 3 | Senior | |
| **12. Child (3yr – 16yr) Clinical Competencies** | | | | | |
| 12.1. Cardiovascular | | | | | |
| 12.2. Respiratory | | | | | |
| 12.3. Gastro-Intestinal (GI) | | | | | |
| 12.4. Neurological | | | | | |
| 12.5. Ear, Nose & Throat (ENT) | | | | | |
| 12.6. Ophthalmology | | | | | |
| 12.7. Musculoskeletal (MSK) | | | | | |
| 12.8. Dermatology | | | | | |
| 12.9. Genitourinary (GU) | | | | | |
| 12.10. Endocrine/Metabolic | | | | | |
| 12.11. Mental Health (MH) | | | | | |
| **13. Infant & Pre-Verbal (0yr-3yr) Child Clinical Competencies** | | | | | |
| 13.1. Cardiovascular | | | | | |
| 13.2. Respiratory | | | | | |
| 13.3. Gastro-Intestinal (GI) | | | | | |
| 13.4. Neurological | | | | | |
| 13.5. Ear, Nose & Throat (ENT) | | | | | |
| 13.6. Ophthalmology | | | | | |
| 13.7. Musculoskeletal (MSK) | | | | | |
| 13.8. Dermatology | | | | | |
| 13.9. Genitourinary (GU) | | | | | |
| 13.10. Endocrine/Metabolic | | | | | |

# Eitem 3

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Senedd Cymru
**Comisiwn y Senedd**
(a elwid yn Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru tan 5 Mai 2020)

# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon: 2019-20

Mehefin 2020





www.senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:


Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

0300 200 6565

Cysylltu@senedd.cymru

www.senedd.cymru

SeneddCymru

SeneddCymru

Senedd



**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2020**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Comisiwn y Senedd**
(a elwid yn Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru tan 5 Mai 2020)

# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon: 2019-20

Mehefin 2020



# CYNNWYS

## Trosolwg 7

Rhagair ........ 8
Rhagair ........ 10
Datganiad o ddiben ........ 12
Y Comisiynwyr ........ 14
Cynghorwyr Annibynnol ........ 16
Uwch Arweinwyr y Comisiwn ........ 20
Rheoli'r Comisiwn ........ 22
Rheoli Risg ........ 24
Crynodeb o weithgaredd ........ 26

## Dadansoddi perfformiad 29

Darparu cefnogaeth seneddol o'r radd flaenaf ........ 31
Ymgysylltu â holl bobl Cymru a hyrwyddo'r Cynulliad ........ 53
Defnyddio adnoddau'n ddoeth ........ 67

## Atebolrwydd 95

Llywodraethu corfforaethol ........ 96
Staff a thaliadau ........ 121
Atebolrwydd ac archwilio ........ 138

## Datganiadau ariannol 149

Nodiadau sy'n cyd-fynd â'r Cyfrifon ........ 154
Atodiad - adrodd ar reoleidd-dra ........ 183


SENEDD
IEUENCTID
CYMRU
WELSH
YOUTH

# TROSOLWG

Mae'r adran Trosolwg hon yn darparu gwybodaeth am bwrpas, strwythur a nodau strategol y Comisiwn a rhai gweithgareddau allweddol sydd wedi digwydd dros y flwyddyn ddiwethaf.

# Rhagair



**Elin Jones AS**
Llywydd, Senedd Cymru

Mae'n bleser gennyf gyflwyno'r Adroddiad Blynyddol hwn ar gyfer fy mhedwaredd flwyddyn fel Llywydd. Dechreuais y flwyddyn yn cynrychioli Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac rwy'n dod â'r flwyddyn i ben fel Llywydd Senedd Cymru.

Ond nid yw ein henw mor bwysig â'r hyn y mae'n ei gynrychioli, sef ein gwaith o graffu ar y Llywodraeth a bod yn llais i bobl Cymru. Ac yn ystod y cyfnod hwn, mae hynny'n bwysicach nag erioed.

Wrth i mi ysgrifennu hwn, mae cyfyngiadau symud yn parhau i fod ar waith yng Nghymru. Mae pandemig Covid-19 wedi golygu ein bod ni oll yn wynebu heriau digynsail. Mae cannoedd o deuluoedd wedi colli anwyliaid, ac mae'n rhaid i ni i gyd addasu i ddod i arfer â chadw pellter cymdeithasol.

Golyga hyn ein bod wedi gorfod newid sut rydym yn gweithio. Yn wyneb anawsterau, bu'r Senedd ar flaen y gad yn ei harloesedd wrth iddi ddod yn un o'r Seneddau cyntaf yn y byd i gwrdd drwy Gyfarfod Llawn rhithwir. Mae deddfwrfeydd o bob rhan o'r byd wedi troi atom am gyngor.

Roeddem yn benderfynol i barhau i gwrdd fel Senedd, ac mae'r penderfyniad hwnnw yn adlewyrchu ein hawydd i ddwyn Gweinidogion i gyfrif ac i adlewyrchu barn y cyhoedd. Mae hyn yn rhywbeth sy'n greiddiol

drwy'r Adroddiad Blynyddol; o ymchwiliadau pwyllgorau i ddatblygiad ein Senedd Ieuenctid.

Mae'r flwyddyn ddiwethaf hefyd wedi rhoi cyfle inni fyfyrio. Wrth i ni nodi 20 mlynedd o'r Senedd, gwnaethom ofyn i bleidleiswyr sut yr hoffent gyfrannu at ein gwaith. Yng Nghynulliad Dinasyddion cyntaf Cymru, dewiswyd 60 o bobl yn annibynnol i adlewyrchu ein cenedl gan ddod at ei gilydd am benwythnos i drafod gwahanol opsiynau ar y ffordd ymlaen. Rwy'n falch bod rhai o'r awgrymiadau hynny eisoes wedi'u gweithredu.

Mae ymgorffori diwylliant o urddas a pharch o fewn y sefydliad wedi parhau gyda sesiynau hyfforddi i staff ac Aelodau yn ogystal â'r ymgyrch "Hawl i Herio" i herio ymddygiad annerbyniol.

Hoffwn ddiolch i holl staff y Comisiwn am barhau i gefnogi busnes y Senedd mor effeithiol, ac am frwdfrydedd ac egni'r staff wrth fodloni gofynion newydd, yn enwedig yn yr amseroedd heriol ac unigryw hyn.

# Rhagair



**Manon Antoniazzi**
Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd

## Yn fy nghyflwyniad i Adroddiad Blynyddol y llynedd, nodais yn fy nghasgliad fy mod yn hyderus bod gan staff y Comisiwn, gyda'n gilydd, yr ymrwymiad, y sgiliau a'r uchelgais i gyflawni popeth oedd yn ofynnol ohonom.

Mae digwyddiadau'r wythnosau diwethaf wedi bod yn heriol, ond gwelwyd ein gwerthoedd ar eu gorau yn yr ysbryd penderfynol, yr ymroddiad a'r cymhelliant a ddangosodd ein swyddogion wrth ymateb i heriau pandemig Covid-19.

Wrth i ddifrifoldeb y sefyllfa ddatblygu, roeddem yn gallu cymryd camau cyflym i sicrhau bod y Cynulliad yn gallu parhau i gynnal cyfarfodydd i wneud y gwaith hanfodol o ddeddfu, craffu ar Lywodraeth Cymru a dwyn Gweinidogion i gyfrif.  Byddwn yn disgrifio'r mesurau hyn yn llawn yn Adroddiad Blynyddol y flwyddyn nesaf.  Yn y cyfamser, rwy'n falch o gyflwyno crynodeb o flwyddyn llawn arloesi wrth inni arwain y sector gyda threfniadau cadarn o ran defnyddio ein hadnoddau i wasanaethu'r Senedd a phobl Cymru.

Ar 6 Mai, daethom yn Senedd Cymru. Ym mis Ionawr, pan roddwyd Cydsyniad Brenhinol i Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020, gwelwyd penllanw proses hir a chymhleth i'r nifer helaeth o staff y Comisiwn a oedd yn rhan o hynt y Ddeddf.

Er gwaethaf ein henw newydd, byddwch yn sylwi bod y ddogfen hon yn cyfeirio'n bennaf at y sefydliad fel 'y Cynulliad'; mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith ein bod yn edrych yn ôl dros y 12 mis diwethaf cyn i'n henw newid.

Trwy gydol y flwyddyn, cefnogwyd Pwyllgorau i greu cyfres o adroddiadau pwysig ar bynciau sydd o ddiddordeb i'r cyhoedd: ar ran teithwyr trên, edrychwyd ar achosion o amharu ar y gwasanaeth rheilffyrdd;

i'r miloedd sy'n gofalu am anwyliaid, cynhaliwyd ymchwiliad ar eu rhan i sicrhau bod gofalwyr di-dâl yn cael eu cydnabod yn iawn; ac ar ran disgyblion y dyfodol, tynnwyd sylw at bryderon ynghylch dysgu hanes Cymru.

Yn ystod blwyddyn ariannol 2019-20, fe wnaethom ddathlu'r gorffennol a chynllunio ar gyfer y dyfodol. Gwnaethom nodi 20 mlynedd ers etholiadau cyntaf y Cynulliad ym 1999 gyda gŵyl Gwlad, a oedd yn cynnwys digwyddiadau ledled Cymru dros yr haf. Ond, hyd yn oed wrth inni ystyried ein gorffennol, roedd nifer o drafodaethau'r ŵyl yn canolbwyntio ar y ffordd ymlaen. O'r herwydd, roedd yn briodol bod Aelodau llewyrchus ein Senedd Ieuenctid yn chwarae rhan mor ganolog yn y rhaglen.

Gwnaethom hefyd ystyried ein hanghenion ein hunain yn y dyfodol wrth inni gyhoeddi ein Strategaeth Pobl newydd. Am y tro cyntaf, bydd yn cwmpasu'r tymor hwn a thymor nesaf y Senedd; gan gynnig parhad yn ogystal â chyfle i adolygu blaenoriaethau sy'n newid. Mae ein hymrwymiad i amrywiaeth a chynhwysiant wedi aros wrth graidd ein datblygiad polisi, yn ogystal â phenderfyniad y dylai'r Senedd ddarparu amgylchedd gwaith cefnogol, parchus.

Mae ein hadroddiad amgylcheddol yn adlewyrchu ein hymroddiad i fod yn sefydliad mwy gwyrdd. Ar ôl cyflwyno cychod gwenyn i'r ystâd y llynedd, rydym wedi cydweithio â'r RSPB a Bug Life i wella ein cynefin peillio gan gynnwys adeiladu pwll dŵr bychan.

Mae'r ymdrechion o un flwyddyn i'r llall i wella ein heffeithlonrwydd ynni hefyd yn dwyn ffrwyth. Rydym wedi haneru ein hôl troed ynni o'i gymharu â 2012-2013, sef blwyddyn ein llinell sylfaen, ac felly rydym eisoes yn gwneud yn sylweddol well na'r targed ar gyfer y metrig hwn.

Gwnaethom barhau â'n hymrwymiad i sicrhau bod pobl yn gallu gweithio yn eu dewis iaith wrth i ni gynnal ein harolwg sgiliau iaith cyntaf. Nod yr arolwg oedd sicrhau bod gan dimau ar draws y sefydliad y sgiliau iaith angenrheidiol i ddarparu gwasanaethau dwyieithog rhagorol.

Wrth i mi ysgrifennu'r cyflwyniad hwn, mae'n anodd edrych yn llawer pellach na'r pandemig presennol, Covid-19. Mae Cymru wedi dioddef ei siâr o'r afiechyd, a bydd sawl agwedd ar fywyd yn newid am byth. Wrth i lywodraethau ar draws y DU gynllunio sut i ddod allan o'r cyfyngiadau symud, bydd seneddau hefyd yn ystyried sut y gall rhai o'u ffyrdd newydd o weithio ddod yn barhaol. Ac er y bydd hynny'n esgor ar heriau newydd, rwy'n parhau i fod yn hyderus y byddwn ni, fel staff Comisiwn y Senedd, yn sicrhau bod gan ein Senedd bopeth sydd ei angen arni i aros wrth galon bywyd cyhoeddus Cymru.

# Datganiad o ddiben

## Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, deddfu ar gyfer Cymru, cytuno ar drethi yng Nghymru, a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

## Comisiwn y Cynulliad

Mae Comisiwn y Cynulliad yn gwasanaethu'r Cynulliad Cenedlaethol er mwyn hwyluso ei lwyddiant hirdymor fel sefydliad democrataidd cryf, hygyrch a blaengar a deddfwrfa sy'n gweithredu'n effeithiol ar gyfer pobl Cymru.

## Nodau Strategol Comisiwn y Cynulliad ar gyfer y Pumed Cynulliad

Darparu cefnogaeth seneddol o'r radd flaenaf

Ymgysylltu â holl bobl Cymru a hyrwyddo'r Cynulliad

Defnyddio adnoddau'n ddoeth

## EIN GWERTHOEDD

**PARCH**

Rydym yn gynhwysol ac yn garedig, ac rydym yn gwerthfawrogi cyfraniadau ein gilydd wrth ddarparu gwasanaethau rhagorol.

**ANGERDD**

Rydym yn bwrpasol wrth gefnogi democratiaeth, gan dynnu ynghyd i wneud gwahaniaeth i bobl Cymru.

## Blaenoriaethau Comisiwn y Cynulliad ar gyfer y Pumed Cynulliad

- Caniatáu i'r Aelodau ragori yn eu rolau seneddol, gan ddarparu gwasanaethau ymatebol ac arloesol i'w cefnogi.
- Sicrhau bod gan y Cynulliad yr adnoddau a'r arbenigedd y mae eu hangen arno i gynrychioli buddiannau Cymru, wrth i'r DU ymadael â'r UE.
- Caiff y Cynulliad ei gefnogi yn y gwaith o gyflwyno diwygiadau cyfansoddiadol er mwyn creu senedd sy'n gweithio i Gymru.
- Sicrhau Senedd Ieuenctid sy'n uchelgeisiol ac yn ymgysylltiol, sy'n cyfoethogi'r Cynulliad, ac sy'n ysbrydoli pobl ifanc i gymryd rhan yn y broses ddemocrataidd.
- Sicrhau bod gwell dealltwriaeth o rôl y Cynulliad a'r broses o gymryd rhan, a ddangosir ar ffurf lefelau uwch o ymgysylltu.
- Cyfoethogi gwaith ac enw da'r Cynulliad, a hynny drwy ddatblygu a gwella ein cysylltiadau â seneddau ledled y byd.
- Sicrhau bod staff y Comisiwn yn teimlo eu bod yn rhan o'r un tîm, a bod pawb yn deall sut y maent yn cyfrannu at gyflawni nodau'r Comisiwn.
- Sicrhau bod yr holl Aelodau, staff ac ymwelwyr yn gallu gweithio mewn amgylchedd diogel lle mae urddas ac amrywiaeth yn cael eu parchu.
- Sicrhau bod rheolaethau cyllido, rheolaethau prosiectau a rheolaethau eraill yn caniatáu i'r Comisiwn gyflawni, a dangos gwerth am arian ym mhopeth a wnawn.

**BALCHDER**

Rydym yn arddel arloesedd ac yn dathlu ein llwyddiannau fel tîm.

**UN TÎM**
YDYM NI

# Y Comisiynwyr

Mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn rhagnodi bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y Cynulliad) yn penodi Comisiynwyr y Cynulliad, sy'n gyfrifol am ddarparu'r staff a'r adnoddau sydd eu hangen i'r Cynulliad gyflawni ei waith yn effeithiol ar gyfer pobl Cymru.



**Elin Jones AC:** Plaid Cymru

**Etholwyd 11 Mai 2016 – Presennol**
Y Llywydd yw Cadeirydd y Comisiwn ac mae'n gyfrifol hefyd, fel Comisiynydd, am gyfathrebu ac ymgysylltu.

Roedd Elin Jones yn bresennol mewn 7 allan o 7 o gyfarfodydd y Comisiwn



**Suzy Davies AC:** Ceidwadwyr Cymreig

Penodwyd 9 Mehefin 2016 – Presennol
Y Comisiynydd sydd â chyfrifoldeb dros y gyllideb a llywodraethu, gan gynnwys bod yn aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

Roedd Suzy Davies yn bresennol mewn 6 allan o 7 o gyfarfodydd y Comisiwn



**Joyce Watson AC:** Llafur Cymru

**Penodwyd 9 Mehefin 2016 – Presennol**
Y Comisiynydd sydd â chyfrifoldeb dros gydraddoldeb, a'r Comisiwn fel cyflogwr staff y Cynulliad.

Roedd Joyce Watson yn bresennol mewn 7 allan o 7 o gyfarfodydd y Comisiwn

Mae'r Comisiwn yn cael ei gadeirio gan y Llywydd ac mae'n cynnwys pedwar Aelod Cynulliad sydd wedi'u penodi gan y Cynulliad.  Mae gan bob aelod o'r Comisiwn bortffolio o gyfrifoldebau penodol.

Y rheswm dros yr amrywiad yn nifer y cyfarfodydd yw oherwydd eu cyfnodau gwahanol yn y swydd.



**David Rowlands AC:** UKIP Cymru 6 Mai 2016 – 20 Mai 2019
Plaid Brexit 20 Mai 2019 – Presennol

**Penodwyd 15 Tachwedd 2018 – Presennol**
Y Comisiynydd sydd â chyfrifoldeb am ddiogelwch ac adnoddau'r Cynulliad.

Roedd David Rowlands yn bresennol mewn 6 allan o 7 o gyfarfodydd y Comisiwn



**Sian Gwenllian AC:** Plaid Cymru

**Penodwyd 22 Tachwedd 2018 – 28 Ionawr 2020**
Y Comisiynydd sydd â chyfrifoldeb dros ieithoedd swyddogol, a darparu a thrawsnewid gwasanaethau i'r Aelodau.

Roedd Sian Gwenllian yn bresennol mewn 6 allan o 6 o gyfarfodydd y Comisiwn



**Rhun ap Iorwerth AC:** Plaid Cymru

**Appointed 28 January 2020 – Present**

Y Comisiynydd sydd â chyfrifoldeb dros ieithoedd swyddogol, a darparu a thrawsnewid gwasanaethau i'r Aelodau.

Roedd Rhun ap Iorwerth yn bresennol mewn 1 allan o 1 o gyfarfodydd y Comisiwn

# Cynghorwyr Annibynnol

Mae'r Comisiwn yn penodi Cynghorwyr Annibynnol i sicrhau bod y Comisiynwyr a thîm gweithredol y Cynulliad yn cael eu herio'n adeiladol ac yn cael sicrwydd bod y trefniadau llywodraethu yn gywir, yn effeithiol ac yn briodol.



**Hugh Widdis**
Tachwedd 2013 - Presennol

Bu Hugh yn aelod o Bwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Comisiwn y Cynulliad. Daeth ei dymor fel Cynghorydd Annibynnol i ben ym mis Hydref 2019.

Roedd Hugh Widdis yn bresennol mewn 2 allan o 3 o gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.



**Ann Beynon**
Tachwedd 2018 - Presennol

Dechreuodd Ann ei phenodiad fel Cynghorydd Annibynnol ym mis Tachwedd 2018 ac mae'n aelod o Bwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Comisiwn y Cynulliad a'r Pwyllgor Cynghori ar Daliadau, Ymgysylltu a'r Gweithlu.

Roedd Ann Beynon yn bresennol mewn 4 allan o 4 o gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a 4 allan o 4 o gyfarfodydd y Pwyllgor Cynghori ar Daliadau, Ymgysylltu a'r Gweithlu.



**Robert (Bob) Evans**
Tachwedd 2018 - Presennol

Dechreuodd Bob ei benodiad yn Gynghorydd Annibynnol ac yn aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ym mis Tachwedd 2018. Ym mis Chwefror 2019, cafodd ei benodi yn Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

Roedd Bob Evans yn bresennol mewn 4 allan o 4 o gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

Y rheswm dros yr amrywiad yn nifer y cyfarfodydd yw oherwydd eu cyfnodau gwahanol yn y swydd.



**Ceri Hughes**
Tachwedd 2018 - Presennol

Dechreuodd Ceri ei phenodiad yn Gynghorydd Annibynnol ym mis Tachwedd 2018 ac mae'n aelod o'r Pwyllgor Cynghori ar Daliadau, Ymgysylltu a'r Gweithlu.

Roedd Ceri Hughes yn bresennol mewn 4 allan o 4 o gyfarfodydd y Pwyllgor Cynghori ar Daliadau, Ymgysylltu a'r Gweithlu..



**Sarah Pinch**
Tachwedd 2018 - Presennol

Dechreuodd Sarah ei phenodiad yn Gynghorydd Annibynnol ym mis Tachwedd 2018 ac mae wedi'i phenodi yn Gadeirydd y Pwyllgor Cynghori ar Daliadau, Ymgysylltu a'r Gweithlu.

Roedd Sarah Pinch yn bresennol mewn 3 allan o 4 o gyfarfodydd y Pwyllgor Cynghori ar Daliadau, Ymgysylltu a'r Gweithlu.



**Dr Aled Eirug**
Ebrill 2019 - Presennol

Dechreuodd Aled ei benodiad yn Gynghorydd Annibynnol ym mis Ebrill 2019 ac mae'n aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.


Roedd Aled Eirug yn bresennol mewn 4 allan o 4 o gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

Prif rôl y Cynghorwyr Annibynnol yw gweithredu fel aelodau o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg neu'r Pwyllgor Cynghori ar Daliadau, Ymgysylltu a'r Gweithlu a helpu i sicrhau bod y Comisiynwyr ac uwch dîm rheoli'r Comisiwn yn cael eu cynorthwyo a'u herio mewn modd adeiladol wrth eu gwaith. Maent yn unigolion sydd â chyfoeth o brofiad o fod ar fyrddau, mewn llywodraeth ac yn y sector cyhoeddus, ar y lefelau uchaf, i helpu'r Comisiwn i gyrraedd ei safonau uchel ei hun o lywodraethu da a defnydd effeithlon o arian cyhoeddus.

Mae'r Cynghorwyr Annibynnol yn ymwneud â nifer o weithgareddau a gwasanaethau'r Comisiwn, gan weithredu fel cyfeillion beirniadol ar brosiectau ac weithiau'n cymryd rhan yng nghyfarfodydd y Comisiwn.

## Tâl

Mae Cynghorwyr Annibynnol yn derbyn tâl heb bensiwn o £5,000 y flwyddyn, a £7,000 y flwyddyn i'r Cadeiryddion.




20
DATGANOLI
DEVOLUTION
DEWI

# Uwch Arweinwyr y Comisiwn



**Manon Antoniazzi**
**Prif Weithredwr a Chlerc**

Yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 2006, mae Comisiwn y Cynulliad yn dirprwyo ei swyddogaethau, gan gynnwys cyfrifoldeb dros reoli staff, i'r Prif Weithredwr a'r Clerc, yn amodol ar nifer o eithriadau ac amodau. Y Prif Weithredwr hefyd yw Prif Swyddog Cyfrifyddu'r Comisiwn. I'w chefnogi, mae gan y Prif Weithredwr dîm o Gyfarwyddwyr sy'n rhannu'r cyfrifoldeb am reoli corfforaethol strategol yn ogystal â'r cyfrifoldebau penodol a amlinellir isod.



**Siwan Davies**
**Cyfarwyddwr Busnes**

Darparu gwasanaethau seneddol, cyfreithiol, cyfansoddiadol ac ymchwil arbenigol i'r Cynulliad, gan sicrhau bod busnes y Cynulliad yn cael ei gyflawni'n effeithlon ac yn effeithiol gan gynnwys pasio deddfwriaeth trwy'r Cynulliad a darparu cyngor arbenigol diduedd i Aelodau'r Cynulliad.



**David Tosh**
**Cyfarwyddwr Adnoddau**

Darparu swyddogaethau TGCh, ystadau a chyfleusterau, adnoddau dynol, y Swyddfa Rhaglenni a Newid, diogelwch, caffael a llywodraethu a sicrwydd corfforaethol.  Nia Morgan, y Cyfarwyddwr Cyllid/Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol, sy'n gyfrifol am strategaeth ariannol gorfforaethol, cynllunio, rheoli cyllidebau, taliadau a phensiynau, ac mae'n adrodd i David Tosh.



**Arwyn Jones**
**Cyfarwyddwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu**

Darparu gwasanaethau cymorth y Comisiwn a'r Aelodau, gan gynnwys cymorth i swyddfa'r Llywydd a'r uwch dîm rheoli, gwasanaethau ysgrifenyddiaeth i'r byrddau corfforaethol a'r Comisiwn, yn ogystal â rheoli'r swyddogaethau cyfieithu a chofnodi a'r Cynllun Ieithoedd Swyddogol. Sicrhau bod ein gwasanaethau cyfathrebu corfforaethol, ymgysylltu ag ymwelwyr a gwybodaeth gyhoeddus yn cael eu darparu'n effeithlon ac yn effeithiol.

Dechreuodd Arwyn ei rôl fel Cyfarwyddwr ym mis Medi 2019; Craig Stephenson oedd yn gwneud y swydd o'i flaen (gweler isod).



**Craig Stephenson**
**Cyfarwyddwr Ymgysylltu**

Gadawodd Craig y Comisiwn fel rhan o'r cynllun gadael gwirfoddol ym mis Medi 2019.



**Elisabeth Jones**
**Cyfarwyddwr a Phrif Gynghorydd Cyfreithiol**

Gadawodd Elisabeth y Comisiwn fel rhan o'r cynllun gadael gwirfoddol ym mis Mai 2019.

Mae'r swydd yn rhoi cyngor, her adeiladol a sicrwydd ar draws ystod cyfrifoldebau'r Llywydd, y Comisiynwyr, y Pwyllgorau ac i'r Clerc a'r uwch reolwyr, gan gynnwys materion a allai godi cwestiynau cyfreithiol arbennig o newydd neu gymhleth. Mae'r swydd yn wag ar hyn o bryd a rhoddir cyngor cyfreithiol i'r Comisiwn gan Huw Williams ar sail ymgynghorol dros dro.


# Rheoli'r Comisiwn

Mae'r Bwrdd Gweithredol yn gyfrifol am sicrhau bod adnoddau ariannol a staffio'r Comisiwn wedi'u cynllunio i fodloni gofynion hysbys. Yn benodol, mae'n gyfrifol am gynllunio a blaenoriaethu cronfa prosiect y Comisiwn sy'n canolbwyntio ar gynnal a chadw'r ystâd, darparu gwasanaethau TGCh effeithiol a darparu prosiectau newydd i wella perfformiad ac effeithiolrwydd gwasanaethau.

Elfen bwysig o gyfrifoldeb y Bwrdd Gweithredol yw cynnig trosolwg ac arweinyddiaeth strategol o raglen newid y Comisiwn. Caiff y Bwrdd Gweithredol ei gadeirio gan y Prif Weithredwr ac mae'n cynnwys y Cyfarwyddwyr, y Cyfarwyddwr Cyllid/Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol, y Pennaeth Adnoddau Dynol a Chynhwysiant, a Phennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol. Dyma'r corff gwneud penderfyniadau strategol ar gyfer pob mater a ddirprwyir gan y Comisiwn. Mae hefyd yn gorff ymgynghorol i'r Comisiwn, wrth bennu strategaeth, nodau a blaenoriaethau'r Comisiwn, y gyllideb, a rheoli risgiau corfforaethol.

Mae'r Tîm Arwain yn cynnwys aelodau'r Bwrdd Gweithredol a phob Pennaeth Gwasanaeth. Prif gyfrifoldeb y Tîm Arwain yw sicrhau bod cynlluniau a blaenoriaethau gweithredol yn cael eu cyflawni'n effeithiol.

## STRWYTHUR LLYWODRAETHU



# Rheoli Risg

Mae'r Comisiwn yn gweithredu proses rheoli risg trwy haenau lle caiff risgiau eu nodi a'u rheoli ar lefel gwasanaeth neu brosiect, a'u hadolygu'n rheolaidd. Yna caiff risgiau sy'n dod yn rhai arwyddocaol eu trosglwyddo'n risgiau corfforaethol i'r Cyfarwyddwr perthnasol fod yn berchen arnynt.

Caiff y dull gweithredu ar gyfer lliniaru risg ei sicrhau drwy adolygiad chwarterol y Bwrdd Gweithredol ac mae Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg hefyd yn adolygu risgiau corfforaethol yn ei gyfarfodydd, ac yn dewis risg benodol ar gyfer asesiad manwl.

Drwy'r cyfnod hwn rydym wedi bod yn rheoli risgiau corfforaethol yn y meysydd a restrir isod (mae rhai o'r risgiau hyn wedi cael eu rheoli trwy gydol y flwyddyn, tra bo rhai wedi eu hychwanegu yn ystod y flwyddyn ac eraill bellach wedi eu dileu):

- capasiti corfforaethol y Comisiwn i gyflawni ei flaenoriaethau;
- capasiti o ran y llety;
- urddas a pharch;
- diwygio cyfansoddiadol;
- Brexit;
- diogelu;
- seiberddiogelwch a chydymffurfio â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR);
- cefnogi trefniadau contract ar gyfer meddalwedd Legislative Workbench; a
- effaith Covid-19.

Gellir gweld rhagor o wybodaeth am adnabod a rheoli risg, ynghyd â'r manylion am y risgiau a ychwanegwyd ac a ddilëwyd yn y Datganiad Llywodraethu ar dudalen 112.

Tudalen y pecyn 122

# Crynodeb o’r gweithgareddau

| Nod Strategol y Comisiwn | Blaenoriaethau’r Comisiwn | Risgiau Corfforaethol Dynodedig | Meysydd a nodwyd i ganolbwyntio arnynt a’u datblygu yn ystod 2019-20 | Cynnydd a wnaed yn ystod 2019-20 | Edrych ymlaen at 2020-21 |
|---|---|---|---|---|---|
| Darparu cefnogaeth seneddol o’r radd flaenaf | Caniatáu i’r Aelodau ragori yn eu rolau seneddol, gan ddarparu gwasanaethau ymatebol ac arloesol i’w cefnogi. | Cefnogi trefniadau contract ar gyfer meddalwedd Legislative Workbench | Dechrau cynllunio sut y gall ein gwasanaethau gefnogi Aelodau yn y Chweched Senedd orau. | Mae sawl adolygiad o feysydd gwaith sy’n cael eu gwneud a fydd yn llunio’r gwasanaethau rydym yn eu darparu i Aelodau yn y Chweched Senedd, yn enwedig adolygiad o’n gwasanaethau cyfathrebu a’r Strategaeth Gyfathrebu newydd; y gefnogaeth a ddarperir i Aelodau fel cyflogwyr gan Gymorth Busnes Aelodau, cefnogaeth i Aelodau pwyllgor; ac argymhellion y Pwyllgor gan gynnwys yr adolygiad sy’n cael ei gynnal gan y Pwyllgor Safonau Ymddygiad a’r Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd. | Cynllunio’n effeithiol ar gyfer dechrau’r Chweched Senedd<br><br>Cyflymu’r adolygiad o’r gefnogaeth i bwyllgorau |
| | Sicrhau bod gan y Cynulliad yr adnoddau a’r arbenigedd y mae eu hangen arno i gynrychioli buddiannau Cymru, wrth i’r DU ymadael â’r UE. | Brexit | | Ar ôl cynnal ymchwiliadau eang i effaith Brexit ar Gymru a thrwy ymgysylltu ag ystod eang o randdeiliaid, roedd y pwyllgorau wedi’u paratoi ar gyfer y DU yn ymadael â’r UE ddiwedd mis Ionawr 2020. Er mwyn sicrhau bod buddiannau Cymru yn cael eu diogelu yn ystod y broses ymadael, parhaodd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol â’i archwiliad o’r goblygiadau i Gymru yn sgil Brexit a chyfeiriodd at fuddiannau Cymru gyda chyfranogwyr allweddol yn y DU a’r UE. | |
| | Cefnogi’r Cynulliad yn y gwaith o gyflwyno diwygiadau cyfansoddiadol er mwyn creu senedd sy’n gweithio i Gymru. | Diwygio Cyfansoddiadol | Cynllunio’n effeithiol i sicrhau trosglwyddiad llyfn a threfnus wrth newid enw’r Cynulliad, sydd wedi'i drefnu ar gyfer mis Mai 2020 pe bai'r Bil yn cael ei basio. | O dan gyfarwyddyd Bwrdd Prosiect Diwygio’r Senedd, sefydlwyd Tîm Integredig Newid Enw i “ddod â chynrychiolwyr o wasanaethau ar draws y Cynulliad ynghyd i gynllunio, cydlynu a gweithredu enw newydd y Cynulliad, trwy’r Cynulliad a chyda phartneriaid allanol”. Mae wedi rhoi camau llywodraethu syml ond effeithiol ar waith i arwain y gwaith o gyflawni’r prosiect newid enw. | |

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am y risgiau corfforaethol a’r cynnydd a wnaed ar y meysydd a nodwyd y dylid canolbwyntio arnynt a’u datblygu yn ystod 2019-20 yn y Datganiad Llywodraethu ar dudalen 105.

| Nod Strategol y Comisiwn | Blaenoriaethau'r Comisiwn | Risgiau Corfforaethol Dynodedig | Meysydd a nodwyd i ganolbwyntio arnynt a'u datblygu yn ystod 2019-20 | Cynnydd a wnaed yn ystod 2019-20 | Edrych ymlaen at 2020-21 |
|---|---|---|---|---|---|
| | Sicrhau Senedd Ieuenctid sy'n uchelgeisiol ac sy'n ymgysylltiol sy'n cyfoethogi'r Cynulliad ac sy'n ysbrydoli pobl ifanc i gymryd rhan yn y broses ddemocrataidd. | Diogelu | Adolygu a datblygu gwaith y Senedd Ieuenctid, gan sicrhau arfer da parhaus mewn perthynas â diogelu a chysylltu'r gwaith yn effeithiol â gwaith y Cynulliad. | Ar lefel gorfforaethol, gweithiodd y sefydliad i fynd i'r afael â'r risgiau diogelu a nodwyd a'u lliniaru, ac mae wedi penodi swyddog diogelu penodol yn y gwasanaeth Adnoddau Dynol i arwain a mynd i'r afael â'r holl faterion diogelu sy'n ymwneud â Senedd Ieuenctid Cymru a'r sefydliad ehangach.<br><br>Cynhaliwyd y sesiwn gyntaf ar y cyd rhwng Aelodau Senedd Ieuenctid Cymru ac Aelodau'r Cynulliad a chyhoeddodd Senedd Ieuenctid Cymru ei hadroddiad mawr cyntaf, Sgiliau Bywyd yn y Cwricwlwm. | |
| Ymgysylltu â holl bobl Cymru a hyrwyddo'r Cynulliad | Sicrhau bod gwell dealltwriaeth o rôl y Cynulliad a'r broses o gymryd rhan, a ddangosir ar ffurf lefelau uwch o ymgysylltu. | | Sicrhau ymgysylltiad gwleidyddol ac allanol effeithiol â rhanddeiliaid i gefnogi'r Llywydd a datblygiad rhaglen Diwygio'r Cynulliad, gan gynnwys *Bil y Senedd ac Etholiadau (Cymru)*. | Sefydlwyd Bwrdd Prosiect Diwygio'r Senedd, sy'n atebol i'r Prif Weithredwr, i oruchwylio'r gwaith o gynllunio a chyflawni strategaeth ddeddfwriaethol a rhaglen ddiwygio Comisiwn y Cynulliad. Mae'n gwneud gwaith goruchwylio strategol o ymgysylltu â rhanddeiliaid, sy'n cael ei lywio gan drafodaethau rheolaidd â'r Llywydd, er mwyn sicrhau bod yr elfennau o'r *Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru)* y mae'r Comisiwn yn gyfrifol amdanynt yn cael eu cyflawni'n effeithiol.<br><br>Cynhaliwyd Cynulliad Dinasyddion a oedd yn archwilio sut mae pobl yn ymgysylltu â'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn y Cynulliad ar hyn o bryd ac yn trafod ffyrdd newydd o alluogi cyfranogiad dinasyddion.<br><br>Cynhaliodd y Comisiwn drafodaethau manwl ynghylch cynnal wythnos o Fusnes y Cynulliad yn yr Wyddgrug. Fodd bynnag, oherwydd y coronafeirws roedd yn rhaid gohirio'r cynlluniau. | Ailffocysu gwasanaethau yn ymwneud ag ymgysylltu â'r cyhoedd â chanlyniadau clir |
| | Cyfoethogi gwaith ac enw da'r Cynulliad, a hynny drwy ddatblygu a gwella ein cysylltiadau â seneddau ledled y byd. | | | Rydym yn parhau i chwarae rhan weithredol wrth hyrwyddo democratiaeth Cymru i gynulleidfaoedd rhyngwladol yng Nghymru a thramor, ac yn ystod y cyfnod hwn mae'r Cynulliad wedi cyflwyno rhaglen waith brysur ac uchelgeisiol fel rhan o'r Fframwaith ar gyfer Ymgysylltu Rhyngwladol. | |

Tudalen y pecyn 124

| Nod Strategol y Comisiwn | Blaenoriaethau'r Comisiwn | Risgiau Corfforaethol Dynodedig | Meysydd a nodwyd i ganolbwyntio arnynt a'u datblygu yn ystod 2019-20 | Cynnydd a wnaed yn ystod 2019-20 | Edrych ymlaen at 2020-21 |
|---|---|---|---|---|---|
| Defnyddio adnoddau'n ddoeth | Sicrhau bod staff y Comisiwn yn teimlo eu bod yn rhan o'r un tîm, a bod pawb yn deall sut y maent yn cyfrannu at gyflawni nodau'r Comisiwn. | Capasiti corfforaethol y Comisiwn i gyflawni ei flaenoriaethau | | Mae'r Strategaeth Pobl: 2019 - 2023 yn canolbwyntio'n glir ar ein blaenoriaethau. Mae ein huchelgeisiau strategol yn canolbwyntio ar bedwar nod cydgysylltiedig, ac mae pob un wedi'i gefnogi gan ein hymrwymiadau i amrywiaeth, cynhwysiant a'n gwerthoedd sefydliadol. | Adfywio ymwybyddiaeth llywodraethu ar draws y sefydliad |
| | Sicrhau bod yr holl Aelodau, staff ac ymwelwyr yn gallu gweithio mewn amgylchedd diogel lle mae urddas ac amrywiaeth yn cael eu parchu. | Urddas a pharch | Cwblhau ein hymateb i argymhellion y Pwyllgor Safonau Ymddygiad a gweithgareddau prif ffrwd ar draws y sefydliad i helpu i wreiddio diwylliant o urddas a pharch. | Mae holl argymhellion y Pwyllgor a gyfeiriwyd at y Comisiwn wedi'u hystyried ac mae nifer o newidiadau a gwelliannau wedi'u cyflwyno. Yn y dyfodol bydd ymgyrch i gynyddu ymwybyddiaeth ymhellach, ochr yn ochr â'r adolygiad parhaus o'n polisïau a'n harferion i sicrhau bod diwylliant o urddas a pharch yn parhau i fod yn rhan annatod ohono. | |
| | | Effaith Covid-19. | | Sefydlwyd trefniadau llywodraethu yn ymwneud â'n hymateb i bandemig Covid-19. Mae ein prosesau gwneud penderfyniadau wedi datblygu wrth i ddifrifoldeb y sefyllfa ddod i'r amlwg, ac wrth i bolisi Llywodraeth y DU symud o gyfyngu i oedi. | Gwerthuso gwersi a ddysgwyd ac effeithiau tymor hir pandemig Covid-19 |
| | | Seiberddiogelwch a chydymffurfio â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) | | Mae seiberddiogelwch yn risg gorfforaethol a adolygir yn rheolaidd, gan gynnwys gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Mae'r bygythiad hwn yn parhau i fod yn uchel ac mae'r Comisiwn wedi ymateb drwy barhau i gyflwyno ystod o fesurau diogelu ac ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth. | Gwaith parhaus yn ymwneud â seiberddiogelwch ac adolygu diogelwch corfforol i gadw'n wastad â newid<br>Adfywio ein hymdrechion ynghylch cydymffurfio â Diogelu Data / GDPR |
| | Sicrhau bod rheolaethau cyllido, rheolaethau prosiectau a rheolaethau eraill yn caniatáu i'r Comisiwn gyflawni, a dangos gwerth am arian ym mhopeth a wnawn. | | Comisiynu adolygiad o recriwtio corfforaethol – edrych ar gylch bywyd cyfan y broses bresennol gyda'r nod o wella sut y gallwn fod yn fwy hyblyg wrth recriwtio yn y tymor hir. Bydd hyn yn rhedeg ochr yn ochr â (neu cyn) cyflwyno system recriwtio ar-lein newydd. | Cynhaliwyd yr adolygiad a gwnaed nifer o argymhellion, yr ydym wedi'u cyflwyno yn ystod y flwyddyn. Yn sgil brandio newydd, sy'n canolbwyntio ar ein pobl, gwelwyd cynnydd yn nifer ac amrywiaeth y ceisiadau. Gwnaed nifer o newidiadau i'r broses a lluniwyd canllawiau newydd ar gyfer y panel dethol. Bydd y System Recriwtio ac Olrhain Ar-lein newydd, a fydd yn cael ei gyflwyno yn 2020, yn gwella'r broses i ymgeiswyr yn sylweddol. | |
| | | | | | Gwerthuso ein dull o reoli prosiectau a rhaglenni, gan gynnwys effeithiolrwydd y Swyddfa Rhaglen a Newid |



# DADANSODDI PERFFORMIAD

Mae'r adran hon ar ddadansoddi perfformiad yn darparu manylion am sut rydym wedi datblygu gwaith ar flaenoriaethau'r Comisiwn o dan ein nodau strategol.

## CEFNOGI'R CYFARFOD LLAWN

**12 Nifer y dadleuon Aelodau unigol**

**70 Nifer y Cyfarfodydd Llawn**

## CWESTIYNAU A OFYNNWYD YN Y CYFARFOD LLAWN

**45 Amserol**

**1,225 Llafar**

**1,648 Ysgrifenedig**

**3 Brys**

# DARPARU CEFNOGAETH SENEDDOL O'R RADD FLAENAF

Yn yr adran hon o'r Adroddiad Blynyddol rydym yn disgrifio sut rydym wedi cyflawni busnes y Cynulliad.

## CEFNOGI DEDDFWRIAETH



Cyflwyno **6** Bil newydd



**6** Bil wedi'u pasio i ddod yn ddeddfau*

*(gan gynnwys un Bil pwyllgor ac un Bil Comisiwn)

## CEFNOGI'R PWYLLGORAU



**377** Cyfarfodydd Pwyllgor



**97** Adroddiadau pwyllgorau

# Brexit

Fel yr amlinellwyd yn Adroddiad Blynyddol y llynedd, roedd prif effaith Brexit ar y Cynulliad yn ymwneud â'i waith fel deddfwrfa, wrth i'r Cynulliad ystyried swm sylweddol o ddeddfwriaeth yn ymwneud â Brexit, gan gynnwys Biliau Brexit y DU yn gofyn am gydsyniad datganoledig.

Ar ôl cynnal ymchwiliadau eang i effaith Brexit ar Gymru a thrwy ymgysylltu ag ystod eang o randdeiliaid, roedd y pwyllgorau wedi'u paratoi ar gyfer y DU yn ymadael â'r UE ddiwedd mis Ionawr 2020. Paratowyd adroddiadau ar bynciau mor amrywiol ag effaith Brexit ar addysg uwch ac addysg bellach yng Nghymru, egwyddorion amgylcheddol a llywodraethu ar ôl Brexit, a chynigion ynghylch cynllun ffermio cynaliadwy.

Er mwyn sicrhau bod buddiannau Cymru yn cael eu diogelu yn ystod y broses ymadael, parhaodd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol â'i archwiliad o'r goblygiadau i Gymru yn sgil Brexit a chyfeiriodd at fuddiannau Cymru gyda chyfranogwyr allweddol yn y DU a'r UE. Roedd hyn yn cynnwys gwaith i ddeall yr effaith ar ddinasyddion yr UE sy'n byw yng Nghymru, craffu ar baratoadau Llywodraeth Cymru ar gyfer Brexit, a chyhoeddi asesiad o'r goblygiadau i Gymru sy'n deillio o'r Cytundeb Ymadael a'r Datganiad Gwleidyddol.

Mae'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol wedi ystyried nifer ddigynsail o is-ddeddfwriaeth, wrth i Weinidogion Cymru a'r DU geisio cywiro'r llyfr statud cyn i gyfraith yr UE roi'r gorau i fod yn gymwys.

Wrth gefnogi Aelodau, mae staff y Comisiwn wedi ymateb yn gyflym i sefyllfaoedd a datblygiadau sy'n dod i'r amlwg yn y trafodaethau ar Brexit, gan lunio sesiynau briffio ysgrifenedig a llafar ar y cytundebau, y datganiadau a'r datblygiadau cyfreithiol, a hynny'n aml ar fyr rybudd.

Mae'r Comisiwn wedi parhau i ymgysylltu ag arbenigedd allanol trwy'r Fframwaith Academaidd Brexit sy'n galluogi comisiynu darnau byr o waith sy'n ymwneud â Brexit, ynghyd â darparu hyfforddiant i staff ac Aelodau ar oblygiadau Brexit mewn meysydd polisi datganoledig fel iechyd a pholisi cymdeithasol.

Mae pwyllgorau'r Cynulliad bellach yn ymateb i'r heriau ôl-Brexit yr oeddent yn eu rhagweld, gan gynnwys craffu ar gytundebau rhyngwladol y DU (gyda'r UE ac eraill), fframweithiau polisi cyffredin ledled y DU, cyfansoddiad cyfnewidiol y DU, a lle Cymru yn y byd ar ôl Brexit. Mae'r gwaith o gysylltu'n rheolaidd â seneddau eraill y DU drwy sianeli a arweinir gan Aelodau, a rhwng swyddogion ar bob lefel ac ar bob agwedd, gan gynnwys busnes arfaethedig a threfniadau yn y dyfodol ar gyfer gwaith rhyng-seneddol, wedi bod yn hanfodol. Mae gwaith wedi bod yn mynd rhagddo i helpu i gydlynu ymgysylltiad y Cynulliad â sefydliadau'r UE a sefydliadau eraill ym Mrwsel, gan gynnwys cydlynu trafodaethau ar berthynas y Cynulliad yn y dyfodol â sefydliadau a phartneriaid yr UE ar ôl Brexit.




40
39
38
37
36
35
34
33
32
31
30
29
28
27
26
25
24
23
22
21
20
19
18
17
16
15
14
13
12
11
10

## Diwygio cyfansoddiadol

Cafodd Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 Gydsyniad Brenhinol ar 15 Ionawr 2020.

Yn wahanol i'r mwyafrif o ddeddfwriaeth a ystyriwyd gan y Cynulliad, ni chafodd y Bil ei ddatblygu a'i gyflwyno gan Lywodraeth Cymru. Yn hytrach, cafodd ei gyflwyno gan y Llywydd, ar ran y Comisiwn.

Mae'r gyfraith newydd yn ymestyn yr etholfraint ar gyfer etholiadau i'r ddeddfwrfa i bobl ifanc 16 a 17 oed ac i ddinasyddion tramor cymwys. Dyma'r newid mwyaf i'r etholfraint yng Nghymru ers i'r oed pleidleisio ostwng o 21 i 18 ym 1969.

Cytunodd y Comisiwn a Llywodraeth Cymru ar Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth i weithio ar y cyd ar y cynigion deddfwriaethol hyn a oedd yn ymwneud â newidiadau i'r etholfraint. Ystyriwyd mai hwn oedd y defnydd gorau o adnoddau cyhoeddus, a oedd yn sicrhau, lle bo'n bosibl, bod newidiadau'r Comisiwn i'r etholfraint yn gyson â threfniadau Llywodraeth Cymru ar gyfer llywodraeth leol, a thrwy hynny ddarparu fframwaith gweinyddol cydlynol ar gyfer etholiadau datganoledig Cymru.

Mae'r Ddeddf hefyd yn:

- Ailenwi Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn Senedd Cymru neu Welsh Parliament Bydd Aelodau'r Cynulliad yn cael eu galw'n 'Aelodau o'r Senedd' neu'n 'Members of the Senedd'. Bydd y newid enw yn dod i rym yn gyfreithiol ym mis Mai 2020.
- Newid y rheolau o ran pwy all sefyll mewn etholiad i'r Senedd. Mae rhai swyddi anghymwys erbyn hyn ond yn cael effaith pan fydd Aelod a gaiff ei ethol yn cymryd y llw neu'n cadarnhau teyrngarwch. Mae hyn yn golygu y gall person mewn swydd o'r fath aros i weld a gaiff ei ethol cyn ymddiswyddo o'i swydd. Yn y gorffennol, byddent wedi gorfod ymddiswyddo wrth sefyll etholiad.

Mae'r Ddeddf yn gwahardd Aelodau Tŷ'r Arglwyddi rhag bod yn Aelodau o'r Senedd. O 2021, bydd yn rhaid i unrhyw Aelodau o Dŷ'r Arglwyddi sy'n cael eu hethol i'r Senedd wneud cais am ganiatâd

i fod yn absennol o Dŷ'r Arglwyddi cyn y caniateir iddynt wasanaethu yn y Senedd.

Mae'r Ddeddf hefyd yn estyn y dyddiad cau ar gyfer cyfarfod cyntaf y Senedd ar ôl etholiad; ac yn egluro pwerau'r Comisiwn i godi tâl am nwyddau a gwasanaethau.

Roedd arwyddocâd cyfansoddiadol y Ddeddf yn golygu bod yn rhaid iddi sicrhau cefnogaeth uwchfwyafrif o'r Aelodau er mwyn cael ei phasio. Ar 27 Tachwedd 2019, pleidleisiodd 41 o'r 60 Aelod o blaid pasio'r Bil, gan gynnwys y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd.

Roedd gostwng yr oed pleidleisio yn un o brif argymhellion yr adroddiad, Senedd sy'n gweithio i Gymru, a gafodd ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2017 gan y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol. Roedd yr un adroddiad yn argymell y dylid cynyddu maint y Cynulliad gan gael 20 i 30 Aelod ychwanegol, a'u hethol drwy system etholiadol fwy cyfrannol gydag atebolrwydd i etholwyr ac amrywiaeth yn ganolog i hynny.

Ar 10 Mehefin 2019, ysgrifennodd y Llywydd at yr holl Aelodau i egluro, er ei bod yn hyderus bod yr achos o blaid cynyddu nifer yr Aelodau wedi'i wneud, nad oedd consensws eto ynghylch sut y dylid ethol Aelodau. Am y rheswm hwnnw, penderfynodd y Comisiwn nad oedd yn bosibl deddfu ar Gyfnod 2 diwygio etholiadol yn y Pumed Cynulliad.

Fodd bynnag, byddai'r Comisiwn yn parhau i ystyried materion sy'n ymwneud â maint y Cynulliad a sut y dylid ethol Aelodau, gan hwyluso'r ddadl gyhoeddus a chynorthwyo'r pleidiau gwleidyddol wrth iddynt ystyried eu barn ar y materion hyn.

Ar 10 Gorffennaf 2019, cytunodd y Cynulliad fod angen cynnydd yn nifer yr Aelodau, a galwodd am ragor o waith trawsbleidiol i fwrw ymlaen â'r materion hyn.

Felly, sefydlwyd Pwyllgor newydd (y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad) ar 18 Medi 2019, i edrych ar argymhellion y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad. Nod y Pwyllgor yw:

- cydgrynhoi ac ychwanegu at y sylfaen dystiolaeth bresennol;
- hysbysu ac ymgysylltu â'r cyhoedd; ac
- amlinellu cynllun ar gyfer diwygio i lywio ystyriaeth pleidiau gwleidyddol o'u safbwyntiau polisi a'u maniffestos ar gyfer etholiad y Senedd yn 2021.

Roedd y Pwyllgor wedi bwriadu cynnal cynulliad dinasyddion dros

ddau benwythnos ym mis Gorffennaf 2020 gyda'r canfyddiadau yn rhan o'r sylfaen dystiolaeth y byddai'r Pwyllgor yn dod i gasgliadau arni ac yn gwneud argymhellion.  Fodd bynnag, oherwydd pandemig Covid-19 bu'n rhaid canslo'r cyfarfodydd hyn.

Mae'r Pwyllgor yn bwriadu cyhoeddi ei adroddiad yn gynnar yn nhymor yr hydref 2020. Bydd y Pwyllgor yn cael ei ddiddymu yn dilyn dadl yn y Cyfarfod Llawn ar ei adroddiad terfynol.

Bydd y Comisiwn yn ymgysylltu ag ymchwiliadau ac argymhellion y Pwyllgor ac yn ymateb iddynt, ac mae'r Llywydd a'r Prif Weithredwr a Chlerc wedi rhoi tystiolaeth lafar ac ysgrifenedig i'r Pwyllgor yn ystod ei waith. Mae'r Comisiwn hefyd yn paratoi ar gyfer y Chweched Senedd ar y sail y bydd 60 Aelod gyda'r bwriad o liniaru ei effaith ar y gallu i graffu ar Weinidogion.



## CYNNYDD Y BIL

- **Cyflwyno'r Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru):** 12 Chwefror 2019
- **Cyfnod 1:** Pwyllgor yn ystyried yr egwyddorion cyffredinol – dechrau Chwefror – cyhoeddi adroddiad ym mis Mehefin 2019
- **Cyfnod 1:** Dadl yn y Cyfarfod Llawn ar yr egwyddorion cyffredinol – Gorffennaf 2019
- **Cyfnod 2:** Pwyllgor yn ystyried gwelliannau – dechrau Gorffennaf 2019
- **Cyfnod 2:** Ystyriaeth mewn Pwyllgor o'r Cynulliad Cyfan ym mis Hydref 2019
- **Cyfnod 3:** Y Cyfarfod Llawn yn ystyried y gwelliannau – Tachwedd 2019
- **Cyfnod 4:** Pasio'r Bil yn y Cyfarfod Llawn – Tachwedd 2019
- **Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 yn cael Cydsyniad Brenhinol:** Ionawr 2020

## NEWID ENW

| | |
|---|---|
| **Cynulliad Cenedlaethol Cymru** | **Senedd Cymru** |
| **Comisiwn y Cynulliad** | **Comisiwn y Senedd** |
| **Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad** | **Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd** |
| **Aelod Cynulliad (AC)** | **Aelod o'r Senedd (AS)** |
| **Pumed Cynulliad** (hyd at 5 Mai 2020) | **Pumed Senedd** (o 6 Mai 2020) |
| **Pwyllgor Cynulliad** | **Pwyllgor Senedd** |

## NEWIDIADAU ALLWEDDOL I'R DDEDDF



Gostwng yr oedran pleidleisio ar gyfer etholiadau'r Cynulliad i 16

**Senedd Cymru**
**Welsh Parliament**

Newid enw'r Cynulliad



Gwneud newidiadau eraill i drefniadau etholiadol a threfniadau mewnol y Cynulliad



Newid y gyfraith sy'n ymwneud ag anghymhwyso person rhag bod yn Aelod Cynulliad


UBAYEDHUR RAHMAN
CASEY-JANE BISHOP
; my story isn't over
CHARLEY OLIVER-HOLLAND
ELLIE MURPHY

# Cymorth i bwyllgorau

## Mae pwyllgorau'r Cynulliad yn dwyn ynghyd Aelodau o bob rhan o'r sbectrwm gwleidyddol i wneud gwaith allweddol ar ran y Cynulliad.

Mae gwaith y pwyllgorau yn canolbwyntio ar dri phrif fater:

- goruchwylio'r broses ar gyfer gwneud deddfwriaeth y Cynulliad;
- craffu ar Lywodraeth Cymru, cyrff cyhoeddus ac uwch ddeiliaid swyddi cyhoeddus neu eu dwyn i gyfrif;
- cynnal eu hastudiaethau eu hunain o feysydd allweddol ym mywyd Cymru drwy ymchwiliadau polisi, cyhoeddi eu canfyddiadau a'i gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru ac eraill ymateb.

Cefnogir pob pwyllgor gan dîm integredig sy'n cynnwys y staff clercio, a chynrychiolwyr o'r gwasanaethau ymchwil, cyfreithiol, cyfieithu a chyfathrebu.

Dyma rai enghreifftiau o'r ystod eang o waith a wnaed gan bwyllgorau'r Cynulliad yn 2019-20.

**Deddfwriaeth: Datblygu dull newydd o ymgynghori ar raddfa fawr**

Bu'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn craffu ar Fil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) Llywodraeth Cymru. Pwrpas y Bil oedd diddymu'r amddiffyniad cosb resymol o'r gyfraith gyffredin, felly nid yw bellach ar gael yng Nghymru i rieni fel amddiffyniad rhag curo neu ymosod ar blentyn.

Gan gydnabod y diddordeb tebygol yn y Bil hwn, creodd y Pwyllgor borth ar-lein fel rhan o'i ymgynghoriad cyhoeddus i'w gwneud yn haws i'r cyhoedd a sefydliadau rannu eu barn gyda'r Aelodau, ac i'r safbwyntiau hynny gael eu dadansoddi'n gynhwysfawr.

Yn ogystal, comisiynodd y Pwyllgor Gampws Gwyddorau Data yn y Swyddfa Ystadegau Gwladol i gynnal dadansoddiad gwyddor data annibynnol o'r ymatebion, er mwyn nodi'r prif faterion a godwyd. Cafodd ei ddefnyddio ochr yn ochr â dadansoddiad y Pwyllgor ei hun o'r ymatebion – 655 i gyd – i sicrhau bod yr ystod o safbwyntiau yn cael eu hadlewyrchu yn adroddiad terfynol y Pwyllgor.

**Craffu: Amharu ar y rheilffyrdd yn yr hydref**

Mae ansawdd y ddarpariaeth reilffyrdd, a'r oedi a'r gorlenwi y mae teithwyr yn eu dioddef ar draws y rhwydwaith rheilffyrdd, yn cael eu nodi'n gyson gan y cyhoedd fel meysydd sy'n peri pryder.

Ym mis Mawrth 2019 cyhoeddodd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau adroddiad ar amharu ar y rheilffyrdd yn ystod hydref 2018, ac yn dilyn hynny, cyfarfu'r Aelodau â darparwyr i drafod paratoadau a oedd yn cael eu gwneud ar gyfer hydref 2019. Er gwaetha'r paratoadau hyn, roedd y ffigurau ar gyfer canslo ac amser teithwyr a gollwyd yn hydref 2019 yn waeth nag yn 2018. Gan gydnabod y rhesymau amrywiol a chymhleth y tu ôl i'r problemau hyn, roedd yr Aelodau'n teimlo ei bod yn bwysig sicrhau gwaith craffu ar bob lefel sy'n gysylltiedig â darparu'r gwasanaeth rheilffordd.

Yn 2020, cynhaliodd y Pwyllgor sesiynau a ddarlledwyd yn gyhoeddus ar berfformiad ac atebolrwydd gyda Ken Skates AC, Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru, Trafnidiaeth Cymru, KeolisAmey a Network Rail. Yn ei sesiwn cyhoeddodd y Gweinidog fod hysbysiadau cosb o tua £2.3m wedi eu rhoi i KeolisAmey.

Gan ddefnyddio'r broses graffu, gweithiodd y Pwyllgor ar ran teithwyr rheilffordd i nodi meysydd i'w gwella, helpu'r cyhoedd i ddeall beth sy'n mynd o'i le, a sicrhau bod sefydliadau sy'n darparu ein gwasanaethau rheilffyrdd yn egluro'r hyn y maent yn ei wneud i unioni pethau.

**Ymchwiliad Polisi: Gofalu am ein dyfodol**

Ym mis Tachwedd 2019, cyhoeddodd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon ganfyddiadau ei ymchwiliad i effaith Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 mewn perthynas â gofalwyr di-dâl.

Gofalwyr di-dâl sy'n gyfrifol am ddarparu'r mwyafrif helaeth o ofal yng Nghymru, ac amcangyfrifir ei fod yn cyfateb i £8.1 biliwn y flwyddyn. Bwriad Deddf 2014 oedd darparu hawliau cryfach a gwell gwasanaethau i'r gofalwyr hyn. Fodd bynnag, erbyn 2018 roedd tystiolaeth wedi dod i'r amlwg yn awgrymu nad oedd yn cael yr effaith a ddymunwyd. Yn y cyd-destun hwn y cynhaliodd y Pwyllgor ei ymchwiliad.

Fel rhan o'r gwaith o gasglu tystiolaeth, roedd y Pwyllgor yn arbennig o awyddus i glywed gan bobl oedd â phrofiad byw o fod yn ofalwr di-dâl. Cynhaliodd ddigwyddiad grwpiau trafod gyda gofalwyr a staff cymorth ag

ystod eang o brofiadau, gan gynnwys gofalu am bobl â dementia, salwch meddwl, canser a strôc.  Cynhaliodd sesiwn hefyd gyda gofalwyr ifanc, fel rhan o weithdy yn nodi Diwrnod Ymwybyddiaeth Gofalwyr Ifanc.

Yn seiliedig ar y dystiolaeth a glywodd, gwnaeth y Pwyllgor 31 o argymhellion i Lywodraeth Cymru, gyda phob un â'r nod o sicrhau bod rôl a chyfraniad sylweddol gofalwyr di-dâl o bob oed yn cael eu cydnabod, eu gwerthfawrogi a'u cefnogi'n briodol.

Mae'r Llywodraeth wedi ymateb yn ffurfiol gan amlinellu'r camau sydd ar y gweill neu wedi'u cynllunio mewn ymateb i argymhellion y Pwyllgor.  Bydd yr adroddiad a'r ymateb yn destun dadl yn y Cynulliad.

**Ymchwiliad Polisi:  Addysgu hanes, diwylliant a threftadaeth Cymru**

Yn 2018 nododd arolwg barn gan y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu bryder gan y cyhoedd ynghylch 'sut mae hanes, diwylliant a threftadaeth Cymru yn cael eu haddysgu yn ein hysgolion'.  Roedd ymdeimlad o frys i'r ymchwiliad oherwydd bod Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar newidiadau eang i gwricwlwm yr ysgol.

Clywodd y Pwyllgor gan athrawon, cymdeithasau hanes, disgyblion ac academyddion, a nododd bryderon y gallai'r newidiadau effeithio'n andwyol ar ddealltwriaeth disgyblion o'r hyn a oedd wedi llunio eu cenedl a chyfraniad Cymru i'r byd.  Mynegwyd pryderon hefyd na fyddai cyfraniad cymunedau lleiafrifoedd ethnig i hanes Cymru yn cael digon o sylw.

Cyhoeddodd y Pwyllgor ei adroddiad, Addysgu Hanes Cymru, ym mis Tachwedd 2019.  Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi derbyn argymhelliad i edrych eto ar hyfforddiant cychwynnol athrawon a deunyddiau addysgu i gynnwys mwy o ffocws ar amrywiaeth.  Yn unol â'r argymhelliad, bydd Estyn (yr arolygiaeth addysg a hyfforddiant yng Nghymru) yn cynnal adolygiad o'r addysgu presennol mewn ysgolion i asesu i ba raddau y mae ysgolion ar hyn o bryd yn cwrdd â'u gofynion i addysgu cynnwys Cymreig.

# Ymgysylltu academaidd

Rydym wedi parhau i ddatblygu cyfres o fentrau i wneud y mwyaf o ymgysylltiad academyddion yng ngwaith y Cynulliad, gan arwain at well cyfnewid gwybodaeth.  Mae ymgysylltiad academaidd â gwaith y Cynulliad yn ein helpu i gyflawni pob un o'n tri nod strategol.

Dyma rai enghreifftiau:

- Dewiswyd saith cymrawd academaidd i weithio ochr yn ochr â'r Gwasanaeth Ymchwil yn ystod 2019.  Mae pob un wedi creu nifer o allbynnau ymchwil sydd wedi'u cyhoeddi, ac wedi darparu sesiynau briffio llafar i bwyllgorau i'w helpu gyda'u gwaith craffu.  Er enghraifft, mae Dr David Dallimore wedi creu tair sesiwn friffio i'r Gwasanaeth Ymchwil ar integreiddio addysg a gofal plant yn y blynyddoedd cynnar, ac mae wedi briffio aelodau'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc cyn sesiwn graffu gyda'r Dirprwy Weinidog.

- Cynhaliwyd cynhadledd academaidd bwysig yn y Senedd ym mis Tachwedd 2019. Daeth bron i 70 o gynrychiolwyr i gynhadledd flynyddol Grŵp Seneddau'r Gymdeithas Astudiaethau Gwleidyddol, gan gynnwys pobl o gyn belled â Chanada, Bahrain ac Oman.

- Dechreuodd myfyriwr o Brifysgol Caerdydd radd PhD tair blynedd gyda'r Gwasanaeth Ymchwil ar arwyddocâd parhaus cyfraith yr UE i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn ystod ymadawiad y DU a thu hwnt.  Bydd yn treulio dau ddiwrnod yr wythnos ar gyfartaledd gyda'r Cynulliad i helpu gyda'n gwaith Brexit.

- Croesawyd pum intern PhD arall a ariannwyd gan UKRI ar gyfer lleoliadau tri mis gyda'r Gwasanaeth Ymchwil yn ystod 2019.  Bydd chwech arall yn ymuno â ni yn ystod 2020.



# Gwasanaethau dwyieithog

## Mae ein gwaith dros y flwyddyn ddiwethaf wedi canolbwyntio'n bennaf ar yr arolwg sgiliau iaith, adolygu a diweddaru cynlluniau iaith gwasanaethau a chynllunio capasiti.

Prif nod y gwaith oedd deall mwy am sgiliau iaith ein staff a sicrhau bod gan dimau ar draws y sefydliad y sgiliau iaith angenrheidiol i ddarparu gwasanaethau dwyieithog rhagorol. Bydd y gwaith hwn yn golygu bod gweithio dwyieithog yn rhan naturiol o fywyd bob dydd yn y Cynulliad ac mae'n arbennig o bwysig os ydym am wireddu ein huchelgais i fod yn sefydliad gwirioneddol ddwyieithog sy'n arwain y ffordd yng Nghymru a thu hwnt. Gellir gweld canlyniadau'r gwaith hwn ar draws y sefydliad, gyda thimau'n meddwl yn wahanol am sgiliau iaith, ac yn rhannu arbenigedd.

Yn ystod y flwyddyn, llofnododd y Prif Weithredwr a Chlerc, ar ran y Comisiwn, Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda Chomisiynydd y Gymraeg. Yn unol â Deddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd Swyddogol) 2012, nid yw'r Comisiwn yn ddarostyngedig i Safonau'r Gymraeg nac yn atebol i Gomisiynydd y Gymraeg. Fodd bynnag, mae'r Cynllun Ieithoedd Swyddogol yn nodi bod ein safonau gwasanaeth yn cymharu'n ffafriol â Safonau'r Gymraeg, ac yn nodi na fyddai'r Comisiwn yn dymuno mynd islaw ysbryd y Safonau. Mae'r Memorandwm yn sefydlu perthynas anffurfiol rhwng y ddau sefydliad, sy'n caniatáu inni gyfnewid syniadau a rhannu arfer gorau. Bydd swyddogion o'r ddau sefydliad yn cyfarfod o bryd i'w gilydd, a chafodd y cyfarfod cyntaf ei gynnal ym mis Mawrth 2020.

Rydym hefyd wedi gwneud defnydd arloesol o dechnoleg eleni i ddarparu gwasanaethau dwyieithog yn ystod pandemig digynsail Covid-19. Er mwyn sicrhau bod Aelodau'r Cynulliad yn gallu parhau â'r gwaith hanfodol o graffu ar ddeddfwriaeth a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif ar adeg pan nad oeddent yn gallu bod yn bresennol ar yr ystâd, roedd angen gweithredu ar frys. Gwnaethom ymchwilio i'r dechnoleg sydd ar gael i gynnal cyfarfodydd ar-lein dwyieithog ar gyfer nifer fawr o bobl a phenderfynwyd defnyddio meddalwedd Zoom. Roedd

hyn oherwydd ei fod yn galluogi cyfieithu ar y pryd. Ar 1 Ebrill 2020, cynhaliwyd cyfarfod rhithwir cyntaf y Cynulliad brys a oedd yn gwbl ddwyieithog. Rydym wedi cael ein canmol yn genedlaethol ac yn rhyngwladol am hyn, ac yn y cyfamser rydym wedi cynghori sawl corff cyhoeddus ac awdurdod lleol ar gynnal cyfarfodydd rhithwir gan ddefnyddio cyfieithu ar y pryd.

Mae'r Tîm Sgiliau Iaith hefyd wedi defnyddio Microsoft Teams a meddalwedd Skype i ddarparu hyfforddiant sgiliau iaith o bell. Mae dysgwyr wedi mynychu eu gwersi arferol ar-lein, ac mae tiwtoriaid wedi addasu'r ddarpariaeth i sicrhau ein bod yn cynnal ein dull unigryw o ddysgu. Bydd y Tîm Sgiliau Iaith yn gwerthuso'r ddarpariaeth er mwyn darganfod beth sy'n gweithio'n dda fel y gallwn ddefnyddio ein profiad i ddatblygu gwasanaethau ac adnoddau ar gyfer cyflwyno dysgu o bell yn y dyfodol.





# Ymateb i bandemig Covid-19

Bu'n rhaid i'r Comisiwn, fel pob corff seneddol arall yn y DU a ledled y byd, wneud penderfyniadau digynsail i reoli effaith pandemig Covid-19 wrth barhau i gynnal gweithgarwch seneddol hanfodol a sicrhau diogelwch Aelodau, staff a'r cyhoedd.

Mae ein prosesau gwneud penderfyniadau wedi esblygu wrth i ddifrifoldeb y sefyllfa ddatblygu ac rydym yn parhau i ddilyn y canllawiau a'r wybodaeth a gyhoeddir gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru.

Y peth pwysicaf yn ein holl waith cynllunio a phenderfynu fu'r angen i sicrhau y gallai'r Cynulliad barhau i gwrdd i gynnal ei fusnes hanfodol, sef: busnes sy'n gysylltiedig â Covid-19, y rhaglen ddeddfwriaethol, gofynion statudol ac unrhyw waith arall sy'n gorfod cael ei wneud o fewn amser penodol. Cymerodd y Cynulliad nifer o gamau allweddol gan gynnwys:

- Yn ystod yr wythnos a ddechreuodd ar 16 Mawrth, cyfarfu'r Pwyllgor Busnes a phenderfynwyd atal yr holl fusnes nad oedd yn hanfodol. Erbyn diwedd yr wythnos honno, roedd pob pwyllgor wedi rhoi'r gorau i gyfarfod.
- Yn ystod y Cyfarfod Llawn rheolaidd diwethaf a gynhaliwyd ar 18 Mawrth, cytunodd y Cynulliad ar Reolau Sefydlog brys newydd i hwyluso parhad busnes hanfodol, gan gynnwys:

  - ethol Cadeirydd Dros Dro at ddibenion cadeirio cyfarfodydd llawn, rhag ofn na all y Llywydd na'r Dirprwy Lywydd gadeirio'r cyfarfodydd;

  - ethol Llywydd Dynodedig i arfer yr ystod lawn o swyddogaethau, rhag ofn bod y Llywydd na'r Dirprwy Lywydd yn methu â gweithredu o gwbl;

  - gwahardd y cyhoedd o gyfarfodydd y Cynulliad, ar sail iechyd y cyhoedd.

Ar 23 Mawrth, cytunodd y Pwyllgor Busnes:

- I drefnu un Cyfarfod Llawn yr wythnos am y dyfodol rhagweladwy (ac eithrio toriad wythnos ar ôl y Pasg);
- I gyfarfod fel 'Senedd Frys' – sy'n

cynnwys hyd at 16 o'r 60 Aelod – gyda llai o bresenoldeb gan bob grŵp gwleidyddol (6 o'r Llywodraeth, 3 o'r Ceidwadwyr, 2 o Blaid Cymru, 1 o'r Blaid Brexit, gyda phob un o'r 4 Aelod annibynnol â hawl i fod yn bresennol);

- Na ddylai pwyllgorau gwrdd hyd nes y clywir yn wahanol.

Ar 24 Mawrth cynhaliwyd y Cyfarfod Llawn brys cyntaf. Trefn y busnes oedd Datganiad gan y Prif Weinidog, Datganiad gan y Gweinidog Iechyd, a Chynnig Cydsyniad Deddfwriaethol yn ceisio cydsyniad y Cynulliad y dylai darpariaethau yn y Bil Coronafeirws, i'r graddau eu bod yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad, gael eu hystyried gan Senedd y DU. Roedd y Rheolau Sefydlog brys eraill yn cynnwys:

- Darpariaeth i'r Llywydd adalw'r Cynulliad gyda chytundeb y Pwyllgor Busnes, i ystyried mater sydd o bwys cyhoeddus brys sy'n ymwneud ag iechyd y cyhoedd;
- Cworwm llai o bedwar (yn hytrach na deg) at ddibenion pleidleisio;
- Pleidleisio wedi'i bwysoli, gydag enwebai o bob grŵp gwleidyddol yn pleidleisio ar ran ei grŵp;
- Datgymhwyso'r gofyniad i gael Cwestiynau Llafar ym mhob Cyfarfod Llawn;
- Proses dros dro ar gyfer trin is-ddeddfwriaeth, sy'n golygu gwaith craffu gan y Cynulliad cyfan, yn hytrach na phwyllgor.

Ar 27 Mawrth, cytunodd y Pwyllgor Busnes y byddai'r 'Senedd Frys' nesaf yn cael ei chynnal ar 1 Ebrill, a hynny yn rhithwir.

Cynhaliwyd y Cyfarfod Llawn 'rhithwir' cyntaf, y sesiwn seneddol gyntaf i gael ei chynnal trwy fideo-gynhadledd yn y DU, ddydd Mercher 1 Ebrill. Penderfynwyd ar bresenoldeb gan ddefnyddio'r model 'Senedd Frys', gan ganiatáu ar gyfer 16 Aelod, ac roedd y sesiwn ar gael yn llawn ar Senedd. tv ar ddiwedd y cyfarfod. Trefn y busnes oedd Datganiad gan y Prif Weinidog, Datganiad gan y Gweinidog Iechyd, a Datganiad gan Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth.

Gan adeiladu ar lwyddiant y cyfarfod ar 1 Ebrill, cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r 'Senedd Frys' barhau i gyfarfod yn rhithwir.

Cyfarfu'r Cyfarfod Llawn rhithwir nesaf ar 8 Ebrill a chafodd ei ddarlledu'n fyw. Dyblodd nifer yr Aelodau a gymerodd ran. Trefn y busnes oedd Datganiad gan y Prif Weinidog, Datganiad gan y Gweinidog Iechyd, Datganiad gan Weinidog yr Amgylchedd, a dadl Cyfnod 1 y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru). Cafwyd pleidlais wedi'i phwysoli.

Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae'r 'Senedd Frys' yn parhau i gwrdd yn rhithwir unwaith yr wythnos.

Ar ôl treialu platfform Zoom yn llwyddiannus ar gyfer y Cyfarfod Llawn, estynnwyd yr un dechnoleg i bwyllgorau. Cytunodd y Pwyllgor Busnes ar amserlen dreigl bedair wythnos ar gyfer busnes y pwyllgorau, gan ddechrau yn ystod wythnos 27 Ebrill, gyda chyfarfodydd rhithwir yn cael eu darlledu'n fyw.




Trosolwg
Dadansoddiad o berfformiad
Atebolrwydd
Datganiadau ariannol

## RHANNU EIN GWAITH

**79,397** o ddilynwyr ar ein prif gyfrifon cyfryngau cymdeithasol corfforaethol

## YMGYSYLLTU Â PHOBL

**18**
o ymweliadau allanol

**23**
o ddirprwyaethau ymwelwyr mewnol

Cyrhaeddodd ymgyrch ddigidol Dathlu 20 Mlynedd **3,557,563** o bobl ym mis Mai 2019

Ymwelodd **9,300** o bobl â'r Senedd fel rhan o Eisteddfod yr Urdd

Cynhaliwyd **12** cyfarfod rhanbarthol o Senedd Ieuenctid Cymru

# YMGYSYLLTU Â HOLL BOBL CYMRU A HYRWYDDO'R CYNULLIAD

Mae'r rhan hon o'r Adroddiad Blynyddol yn tynnu sylw at y gwaith rydym wedi'i wneud i godi ymwybyddiaeth o'r Cynulliad a'i waith a'i wneud yn fwy hygyrch i holl bobl Cymru.



# Dathlu 20 mlynedd o ddatganoli

I nodi 20 mlynedd ers ei sefydlu ym 1999, cynhaliodd y Cynulliad nifer o ddigwyddiadau yn ystod haf 2019. Roedd y rhaglen o ddigwyddiadau yn trafod ac yn dathlu'r cyflawniadau a wnaed dros yr 20 mlynedd diwethaf ac yn canolbwyntio ar ddyfodol Cymru. Ymgysylltodd y Cynulliad â phobl, cymunedau a sefydliadau ledled Cymru.

I ddechrau'r rhaglen, ar 6 Mai 2019, union 20 mlynedd ers i bobl Cymru bleidleisio yn etholiad cyntaf y Cynulliad, cynhaliodd y Cynulliad jambori llawn hwyl, a oedd yn cynnwys gorymdaith liwgar o amgylch Bae Caerdydd a llawer o weithgareddau rhyngweithiol ar gyfer pobl o bob oed.

Ar 7 Mai, daeth Aelodau'r Cynulliad, cyn Aelodau'r Cynulliad a rhanddeiliaid allweddol o bob rhan o Gymru ynghyd i dderbyniad i ddathlu 20 mlynedd o ddatganoli.

Yn dilyn areithiau gan Elin Jones AC, Llywydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Mark Drakeford AC, Prif Weinidog Cymru, arweiniodd Huw Stephens, y cyflwynydd radio a theledu, noson yn dathlu doniau diwylliannol Cymru.

Darllenodd Ifor ap Glyn, Bardd Cenedlaethol Cymru, ei gerdd a gomisiynwyd yn arbennig, Y Cynulliad yn 20 oed. Roedd y cerddorion Robin Huw Bowen a Kizzy Crawford yn perfformio hefyd.

Ym mis Medi, ar benwythnos hir o weithgareddau yn y Senedd a'r Pierhead, fel rhan o Ŵyl GWLAD – Dyfodol Cymru, bu'r Cynulliad yn gweithio gydag ystod o bartneriaid i gyflwyno sgyrsiau, perfformiadau comedi a hyd yn oed cyngerdd roc.

Cafwyd gwyliau bach yng Nghaernarfon, Caerfyrddin a Wrecsam yn ystod mis Tachwedd a oedd yn cynnwys gweithgareddau teuluol, sioeau a pherfformiadau i ddifyrru pobl a rhoi gwybod iddynt am waith y Cynulliad.

Trefnwyd arddangosfa ffotograffig, Nifer o Leisiau, Un Genedl, mewn partneriaeth â Ffotogallery fel rhan o'r ŵyl, gyda'r nod o ddangos cyfoeth ac amrywiaeth daearyddiaeth, diwylliant a chymdeithas Cymru. Aeth yr arddangosfa ar daith o amgylch y wlad ym mis Hydref 2019.





Wrth edrych yn ôl ar yr 20 mlynedd diwethaf, dywedodd Elin Jones AC, y Llywydd:

> *Teg yw dweud bod y cyfnod ers ethol yr Aelodau cyntaf hynny ym 1999 wedi cynnig ei siâr o heriau i Senedd ifanc fel hon. Yn wir, dechrau o brin ddim oedden ni bryd hynny.*
>
> *Ond gyda'r newydd-deb hynny daeth y cyfle hefyd i dorri ein cwys ein hunain. O'r cychwyn, Senedd gwbl ddwyieithog oedd hon, a Senedd gynhwysol, gyda chydraddoldeb yn ein nodweddu o'r cychwyn cyntaf.*
>
> *[...]*
>
> *Darn wrth ddarn, mae'r gwaith o adeiladu Senedd, o adeiladu cenedl, wedi mynd rhagddo, ac erbyn heddiw, rydym yn sefyll ar seiliau cadarn penseiri cynnar datganoli.*



Wrth edrych ymlaen, nododd Mark Drakeford AC, Prif Weinidog Cymru:

> *Rwy'n gobeithio, yn ystod yr 20 mlynedd nesaf, y gallwn ddweud y bydd gwleidyddiaeth flaengar wedi'i chynnal yma yng Nghymru, ei bod yn dal i fod yn fan lle caiff atebion eu saernïo ar y cyd i fod yn broblemau cyfunol, a lle caiff systemau eu newid i gyrraedd bywydau'r rhai hynny â'r lleiaf, nid dim ond y rhai sydd â'r mwyaf, a'n bod yn gallu dangos, fel yr ydym ni'n ei wneud yn y tymor Cynulliad hwn, nad yw'r duedd gynyddol honno yng ngwleidyddiaeth Cymru yn dod i ben o bell ffordd.*
>
> *[...]*
>
> *Rwy'n hyderus y bydd Cymru yn parhau i ddangos y ffordd ymlaen—dangos y ffordd at gymdeithas mwy llewyrchus, mwy cyfartal, mwy gwyrdd, a chymdeithas sy'n deg i bawb.*



# Eisteddfod yr Urdd

Daeth Eisteddfod yr Urdd i Fae Caerdydd ym mis Mai 2019, a chwaraeodd y Cynulliad ran allweddol wrth gynnal y dathliadau. Am y tro cyntaf erioed, roedd mynediad i Eisteddfod yr Urdd yn rhad ac am ddim er mwyn denu cynulleidfaoedd newydd.

Yn ystod yr wythnos, ymwelodd 9,300 o bobl â'r Senedd i weld yr arddangosfa Celf, Dylunio a Thechnoleg, gan ymgysylltu â gwybodaeth a gweithgareddau sy'n hyrwyddo'r Cynulliad a Senedd Ieuenctid Cymru. Defnyddiwyd y Pierhead fel Pabell y Dysgwyr a chroesawyd bron i 8,000 o ymwelwyr.

Yn dilyn ei boblogrwydd yn ystod yr Eisteddfod Genedlaethol yn 2018, roedd caniatáu i'r cyhoedd eistedd yng nghadair y Llywydd er mwyn cael tynnu llun yn boblogaidd iawn unwaith eto gyda llawer o ymwelwyr.

Yn ystod yr wythnos canolbwyntiodd y staff ar rannu pedair prif neges:

- Codi ymwybyddiaeth o Senedd Ieuenctid Cymru;
- Tynnu sylw at y ffaith bod 20 mlynedd wedi mynd heibio ers sefydlu'r Cynulliad;
- Hyrwyddo gwaith pwyllgorau'r Cynulliad mewn meysydd sy'n ymwneud yn benodol â'r Gymraeg, y celfyddydau, diwylliant a phlant / pobl ifanc; ac
- Annog pobl i ymateb i ymgynghoriadau cyfredol perthnasol.

Roedd ffurflenni adborth a gwblhawyd gan rai o'r ymwelwyr yn dangos bod 70% wedi dweud bod eu hymweliad wedi cynyddu eu diddordeb yng ngwaith y Cynulliad, a dywedodd dros 50% ei fod wedi cynyddu eu dealltwriaeth o'r Cynulliad.

Yn ogystal ag Eisteddfod yr Urdd, defnyddiodd y Cynulliad Sioe Frenhinol Cymru, yr Eisteddfod Genedlaethol a Pride Cymru fel cyfleoedd dros yr haf i gwrdd â phobl Cymru a'u gwahodd i ymgysylltu â gwaith y Cynulliad.


SENEDD
IEUENCTID
CYMRU
EICH DYFODOL
NYC
SENEDD IEUENCTID CYMRU
WELSH YOUTH PARLIAMENT


Sgiliau Bywyd yn y Cwricwlwm
Life Skills in the Curriculum

# SENEDD IEUENCTID CYMRU

*Yn ystod y flwyddyn, nododd Senedd Ieuenctid Cymru nifer o gerrig milltir nodedig.*

- Cynhaliwyd sesiwn gyntaf hanesyddol ar y cyd ym mis Mehefin 2019 rhwng Aelodau Senedd Ieuenctid Cymru ac Aelodau'r Cynulliad, a chytunwyd yn unfrydol ar ddatganiad ar y cyd yn amlinellu ymrwymiad y Cynulliad a Senedd Ieuenctid Cymru i weithio gyda'i gilydd ar ran pobl ifanc Cymru.

- Cynhaliodd Senedd Ieuenctid Cymru ei hymgynghoriad cyntaf ar Sgiliau Bywyd yn y Cwricwlwm a llunio ei hadroddiad cyntaf, a oedd yn cynnwys nifer o argymhellion. Trafodwyd yr adroddiad yn ddiweddarach yn y Siambr gyda'r Gweinidog Addysg, Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a Chomisiynydd Plant Cymru.

- Nododd Senedd Ieuenctid Cymru 30 mlynedd o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn trwy ddod i gyfarfod ffurfiol y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg. Cawsant gyfle i ddangos hawliau plant ar waith trwy ddiweddaru'r Pwyllgor ar waith a blaenoriaethau Senedd Ieuenctid Cymru hyd yma a llywio ymchwiliad y Pwyllgor ar hawliau plant yng Nghymru

Cymerodd Aelodau Senedd Ieuenctid Cymru ran hefyd yn y digwyddiadau i nodi 20 mlynedd o ddatganoli, yn y sioeau haf ac yn ngŵyl GWLAD.



# Y FLWYDDYN MEWN YSTADEGAU:



12 CYFARFOD RHANBARTHOL WEDI'U CYNNAL



2 GYFARFOD PRESWYL I BOB UN O'R 60 O AELODAU'R SENEDD IEUENCTID



YMGYSYLLTU Â BRON I 7,000 O BOBL



186 CAIS AM GYFWELIADAU CYFRYNGAU



2 DDIGWYDDIAD RHANBARTHOL YN Y GOGLEDD A'R DE

# Cynulliad Dinasyddion

Ym mis Gorffennaf 2019, ymgasglodd 60 o bobl o bob rhan o Gymru yn Neuadd Gregynog yn y Drenewydd i gynnal Cynulliad Dinasyddion – y cyntaf i Gymru. Trafodwyd sut y gall pobl yng Nghymru lunio eu dyfodol trwy waith y Cynulliad.

Dewiswyd cyfranogwyr trwy broses loteri ddinesig, a oedd yn cynnwys defnyddio cronfa ddata cod post i anfon llythyrau at 10,000 o gartrefi yng Nghymru a gofyn a hoffai rhywun yn y cartref, a oedd dros 16 oed, gymryd rhan yn y Cynulliad Dinasyddion. O'r rhai a ddangosodd ddiddordeb, defnyddiwyd samplu ar hap fesul haen i ddewis 60 o gyfranogwyr a oedd yn adlewyrchu cyfansoddiad y cyhoedd yng Nghymru yn gywir. Roedd hyn yn cynnwys oedran; lefel addysgol; ethnigrwydd; rhyw; lledaeniad daearyddol; sgiliau Cymraeg ac a oeddent wedi pleidleisio neu beidio yn Etholiadau'r Cynulliad yn 2016.

***"Pan ddaeth llythyr drwy'r drws yn fy ngwahodd i gymryd rhan yng y Cynulliad Dinasyddion roedd gen i ddiddordeb mawr ac nid oeddwn yn gwybod beth i'w ddisgwyl – ond ar ôl mynd drwy'r broses roeddwn i'n llawn cyffro ac yn teimlo'n gadarnhaol iawn. Yn aml gallwch chi deimlo ar wahân iawn i'r broses wleidyddol – ond roedd yn braf cael eich cynnwys a bod rhywun yn gwrando arnoch. Roedd y syniad o fynd â syniadau i groestoriad o'r boblogaeth er mwyn eu trafod yn apelio ataf yn fawr – roedd yn gwneud i mi deimlo bod gan y system ddiddordeb yn ei dinasyddion"***

- Mark Curry, aelod o'r Cynulliad Dinasyddion.

Yn y cyfarfod, bu'r Cynulliad Dinasyddion yn trafod, ac yna'n pleidleisio ar yr hyn roedden nhw'n credu oedd yr heriau allweddol sy'n wynebu Cymru – roedd y rhain yn cynnwys gwasanaethau iechyd, gwasanaethau iechyd meddwl ac addysg. Roeddent hefyd yn pleidleisio ar feysydd yr oeddent yn teimlo sy'n gweithio'n dda yng Nghymru gan gynnwys cynnal a chadw adeiladau hanesyddol a mynediad iddynt; cynnyrch a bwyd lleol o ansawdd uchel; a diogelu'r amgylchedd gyda chynnydd da ar ailgylchu.

Un agwedd allweddol ar y Cynulliad Dinasyddion oedd edrych ar sut mae pobl ar hyn o bryd yn ymgysylltu â'r rhai sy'n gwneud

penderfyniadau yn y Cynulliad a thrafod ffyrdd newydd o alluogi cyfranogiad dinasyddion, er enghraifft, ffyrdd newydd y gallai pobl gymryd rhan yn ymchwiliadau ac ymgynghoriadau pwyllgorau'r Cynulliad; ffyrdd y gallai aelodau'r cyhoedd fod yn rhan o'r broses o gwestiynu'r llywodraeth; galluogi pobl i leisio barn ar sut mae'r gyllideb yng Nghymru yn cael ei chymeradwyo; ac wrth osod yr agenda wleidyddol ehangach.

Roedd aelodau'r Cynulliad Dinasyddion yn glir y dylai'r Cynulliad barhau i wneud mwy i ennyn diddordeb pobl ledled Cymru a chroesawyd y defnydd o ffyrdd arloesol fel gwasanaethau dinasyddion a llwyfannau ar-lein.

Ar 29 Medi 2019, fel rhan o ŵyl GWLAD, cyflwynwyd adroddiad y Cynulliad Dinasyddion i'r Cynulliad i'w ystyried a'i weithredu.

Yn dilyn hynny, lansiodd y Cynulliad blatfform ar-lein newydd a threfnu Cynulliad Dinasyddion arall.  Fodd bynnag, oherwydd pandemig Covid-19 mae'r Cynulliad Dinasyddion hwn wedi'i ohirio a bydd yn cael ei aildrefnu yn y dyfodol.

***"Roedd y Cynulliad y Dinasyddion yn syniad gwych. Dim ond pan fyddant yn mynd i bleidleisio y mae rhai pobl yn ymgysylltu yn y broses ond mae hon yn ffordd effeithiol o gyrraedd pobl na fyddent fel arfer yn rhan o'r broses wleidyddol. Mae'n ffordd wych o bontio'r bwlch rhwng pobl a gwleidyddiaeth.***

***Roedd yn brofiad gwych a gobeithio y bydd pawb yn cael mwy o lais yn y dyfodol."***

- Poppy Jones, Aelod o'r Cynulliad Dinasyddion a myfyriwr chweched dosbarth o Gaerdydd



# Ymgysylltu rhyngwladol

## Mae'r Cynulliad yn parhau i chwarae rhan weithredol wrth hyrwyddo democratiaeth Cymru ymysg cynulleidfaoedd rhyngwladol yng Nghymru a thramor, ac yn ystod y cyfnod hwn mae'r Cynulliad wedi cyflwyno rhaglen waith brysur ac uchelgeisiol fel rhan o'r Fframwaith ar gyfer Ymgysylltu Rhyngwladol.

Trwy gymryd rhan mewn rhwydweithiau rhyngwladol, bod yn aelod o Gynhadledd Cynulliadau Deddfwriaethol Rhanbarthol Ewrop, yn ogystal â threfnu rhaglenni ymweld mewnol ac allanol, rydym wedi lleoli'r Cynulliad fel Senedd arloesol, sy'n barod i ymgysylltu a rhannu arfer democrataidd gorau ar draws y byd.

Ymysg uchafbwyntiau'r rhaglen ymgysylltu eleni oedd ymweliad dau Aelod o Senedd Ieuenctid Cymru â Degfed Senedd Ieuenctid y Gymanwlad yn India, y Llywydd yn ymweld â Brwsel ar gyfer rhaglen o gyfarfodydd a digwyddiadau Dydd Gŵyl Dewi, a'r Cynulliad yn cynnal ymweliad swyddogol gan Lefarydd Senedd Catalwnia, Roger Torrent. Ym mis Chwefror 2020, aeth y Llywydd ar ymweliad â Chanada a oedd yn cynnwys rhaglenni yn y Senedd Ffederal yn Ottawa, yn ogystal â Chynulliad Cenedlaethol Quebec, a oedd yn trafod ystod eang o faterion, gan gynnwys ieithoedd swyddogol, archwilio a risg ac ymgysylltu â phobl ifanc.

Mae'r Cynulliad yn parhau i fod â chysylltiadau gwaith da gyda sefydliadau rhyngwladol megis Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad a Sefydliad Democratiaeth San Steffan i hyrwyddo llywodraethu da o fewn democratiaethau sy'n esblygu ac yn datblygu. Fel rhan o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad, mae Aelodau'r Cynulliad wedi cymryd rhan mewn nifer o raglenni a gweithgareddau gan gynnwys y gynhadledd flynyddol yn Kampala, Uganda lle roedd gan y Dirprwy Lywydd rôl amlwg wrth gadeirio ac annerch sesiynau ar seneddwyr ag anableddau a seneddwyr benywaidd. Fel rhan o Sefydliad Democratiaeth San Steffan, mae'r Cynulliad wedi croesawu dirprwyaethau seneddol o Sri Lanka a'r Maldives. Mae tystiolaeth yn barod fod newidiadau wedi'u rhoi ar waith yn senedd y Maldives,

yn seiliedig ar fodel pwyllgorau'r Cynulliad.

Mae Aelodau'r Cynulliad hefyd wedi cymryd rhan yng nghyfarfodydd llawn Cymdeithas Seneddol Prydain ac Iwerddon lle roedd trafodaethau'n canolbwyntio ar newid hinsawdd a Brexit. Ymwelodd pwyllgor o Gymdeithas Seneddol Prydain ac Iwerddon â Chaerdydd fel rhan o ymchwiliad gan glywed tystiolaeth ar fater ieithoedd lleiafrifol yn ei awdurdodaethau.

Mae swyddogion y Comisiwn wedi parhau i chwarae rhan bwysig wrth hyrwyddo democratiaeth Cymru i'n cynulleidfaoedd rhyngwladol trwy rannu arbenigedd o'u rolau o fewn amrywiaeth o wasanaethau'r Comisiwn. Mae hyn wedi cynnwys rhoi cyflwyniadau i nifer o ddirprwyaethau sy'n ymweld â'r Cynulliad yn ogystal ag ymweliadau gan staff y Comisiwn â deddfwrfeydd sy'n datblygu, ar gais ein partneriaid rhwydwaith rhyngwladol. Rhannwyd cyngor ac arbenigedd ar ddatblygu Gwasanaethau Ymchwil a chymorth Datblygiad Proffesiynol i Aelodau gyda seneddau Gambia a Malawi yn y drefn honno.

Mae'r Cynulliad, mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, hefyd wedi croesawu nifer o uwch ddiplomyddion ar ymweliadau â Bae Caerdydd. Mae'r cyfarfodydd wedi cael eu hwyluso rhwng y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd â Llysgenhadon yr Almaen, y Ffindir, Awstria, Serbia, Periw a Norwy.



## CYNLLUN PRENTISIAETH

**Cynnydd o 136% mewn ceisiadau o'r flwyddyn flaenorol Cynnydd o 43% mewn ceisiadau gan ymgeiswyr BAME o'r flwyddyn flaenorol**

## CYFRIFOLDEB ARIANNOL

**39% o wariant caffael gyda chyflenwyr o Gymru**

**Tanwariant o 1.2% yn y gyllideb weithredol yn ystod y flwyddyn**

## CYFRIFOLDEB AMGYLCHEDDOL

**Gostyngiad o 49% yng nghyfanswm yr allyriadau nwyon tŷ gwydr crynswth o'i gymharu â llinell sylfaen 2012-13**

**100% o ddargyfeirio gwastraff o safleoedd tirlenwi**

# DEFNYDDIO ADNODDAU'N DDOETH

Mae'r adran hon o'r adroddiad blynyddol yn dangos sut rydym yn defnyddio ein hadnoddau i gefnogi busnes y Cynulliad a sut rydym yn sicrhau ein bod yn eu defnyddio'n effeithlon ac yn effeithiol.

## DYFARNIADAU AC ACHREDIADAU

Stonewall 100 CYFLOGWR GORAU / TOP 100 EMPLOYERS CYMRU 2020

Stonewall TOP 100 — 100 CYFLOGWR GORAU / TOP 100 EMPLOYERS 2019

yn cefnogi AGE POSI+IVE

Stonewall CANMOLIAETH PERFFORMWYR DISGLAIR / STAR PERFORMER COMMENDATION 2019

Stonewall PRIF GYFLOGWR CYNHWYSOLTRAWS / TOP TRANS INCLUSIVE EMPLOYER 2019

hyderus o ran anabledd CYFLOGWR

teuluoedd sy'n gweithio — newid y ffordd yr ydym yn byw ac yn gweithio

BUDDSODDWYR MEWN POBL | Aur

LOUDER THAN WORDS

TOP 30 EMPLOYER for Working Families

autism friendly / awtistiaeth gyfeillgar — The National Autistic Society Cymru / Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth Cymru

ACTION ON HEARING LOSS — A national charity since 1911



# Ein pobl

## Wrth i'r Cynulliad barhau i esblygu, mae ein gallu i sicrhau bod gennym weithlu ystwyth yn dibynnu ar y ffaith bod gan ein pobl y sgiliau, y wybodaeth a'r ymddygiadau cywir i gyflawni ein nodau ac i baratoi ar gyfer gofynion a heriau'r dyfodol.

Yn ystod 2019 cyhoeddom ein Strategaeth Pobl: 2019 - 2023 sy'n rhoi ffocws clir ar y blaenoriaethau dros oes y Pumed Cynulliad a thu hwnt. Am y tro cyntaf, mae'r Strategaeth yn pontio dau dymor y Cynulliad yn fwriadol, gan roi rhywfaint o barhad, a chyfle i adolygu blaenoriaethau yn unol â'r cyfeiriad strategol a osodir gan y Chweched Cynulliad.

Mae ein huchelgeisiau strategol yn canolbwyntio ar bedwar nod strategol rhyng-gysylltiedig, ac mae pob un wedi'i gefnogi gan ein hymrwymiadau i amrywiaeth, cynhwysiant a'n gwerthoedd sefydliadol.

Rydym am **ddenu, cadw a chydnabod** yr amrywiaeth ehangaf o dalent:

- Rydym wedi canolbwyntio ar arallgyfeirio ein gweithlu ac wedi cael blwyddyn lwyddiannus arall o recriwtio carfan amrywiol o brentisiaid trwy weithio'n agos gydag ysgolion a phartneriaid cymunedol, a defnyddio'r cyfle hwn i fuddsoddi mewn datblygu ein cenhedlaeth newydd o arweinwyr fel cyfeillion prentis.
- Rydym wedi addasu ein dull gweithredu mewn meysydd anodd eu recriwtio trwy gynlluniau graddedigion wedi'u targedu, rhaglen secondiad mewnol, ac wedi hysbysebu rolau hyblyg penodol sy'n apelio at farchnad amrywiol.
- Rydym wedi datblygu rhaglen fentora fewnol mewn partneriaeth â'n rhwydwaith staff BAME, wedi parhau â'n partneriaethau ymgysylltu academaidd fel dull amgen o arallgyfeirio ein gweithlu, ac wedi gweithio gyda llu o sefydliadau a chyrff i gefnogi unigolion a grwpiau sydd eisiau deall mwy am y Cynulliad trwy dreulio amser byr gyda ni.
- Rydym wedi parhau i ddangos bod y Comisiwn yn gyflogwr rhagorol trwy anrhydeddau allanol, gan gynnwys gwobrau ar gyfer sefydliad ac ystâd sy'n Gyfeillgar i Awtistiaeth, y 10 gweithle gorau sy'n ystyriol o

Tudalen y pecyn 166

deuluoedd, y Cyflogwr Gorau yng Nghymru ar gyfer LHDTQ+ gan Stonewall, clod am ein rhwydwaith cydraddoldeb staff LHDTQ+, ac ail-achredu ein safon Aur Buddsoddwyr mewn Pobl.

Rydym am sicrhau bod gennym yr hyblygrwydd i ymateb i flaenoriaethau sy'n newid trwy fuddsoddi yn ein pobl, **adeiladu portffolio o brofiad, sgiliau ac arbenigedd;** ymgorffori diwylliant o arloesi a chreu cyd-ddealltwriaeth gyda'n gilydd a gydag Aelodau'r Cynulliad:

- Yn ystod y flwyddyn rydym wedi manteisio ar y cyfleoedd a roddwyd inni gan y cynllun Ymadael Gwirfoddol, o wneud newidiadau bach ond effeithiol hyd at ailstrwythuro gwasanaethau.
- Rydym wedi gweithio gyda staff ar draws meysydd i gyd-ddylunio dulliau amgen ar gyfer gwelliant parhaus. Mae hyn wedi cynnwys datblygu Adolygiad Perfformiad a Datblygiad newydd a phrosesau ar gyfer bylchau sgiliau. Er mwyn cefnogi'r dull hwn yn well, rydym wedi buddsoddi mewn technoleg ryngweithiol, sy'n cefnogi ein hethos o un tîm, sy'n lleihau gwastraff, ac sy'n cefnogi ein hymrwymiadau amrywiaeth a pharhad busnes trwy sicrhau y gellir cefnogi busnes o bell yn ôl yr angen.

Rydym wedi canolbwyntio ar adeiladu ein gallu sefydliadol drwy **gael ein harwain gan werthoedd**, a hynny mewn modd sy'n gwneud y gorau o'n perfformiad sefydliadol fel Un Tîm,:

- Rydym wedi ymgorffori ein gwerthoedd sefydliadol trwy hyfforddiant ac ymddygiadau, gan eu hyrwyddo ochr yn ochr â'n nodau a'n blaenoriaethau ar gyfer y Pumed Cynulliad. Rydym wedi dangos ein gwerthoedd ar waith trwy ein gwobrau cydnabyddiaeth flynyddol newydd.
- Rydym wedi parhau i gefnogi ymrwymiad y Cynulliad i Urddas a Pharch, ac wedi canolbwyntio ar ymgyrch Hawl i Herio lwyddiannus sydd wedi gweld nifer fawr o Aelodau'r Cynulliad, Staff Cymorth Aelodau a staff y Comisiwn yn ymrwymo i'r addewid.
- Rydym wedi ymgorffori cyfres o sesiynau hyfforddiant i gefnogi Urddas, Parch, a'r hyder i herio, wedi ymuno mewn partneriaeth â Survivors Trust i ddarparu llinell gymorth aflonyddu rhywiol annibynnol, ac wedi lansio rhaglen e-Ddysgu wedi'i chynllunio i gefnogi'r rhai sy'n arwain neu'n rheoli eraill.
- Rydym wedi adeiladu ar ganlyniadau cadarnhaol yr arolwg staff, gan adolygu meysydd lle mae cyfleoedd

i wneud mwy, gan gynnwys canolbwyntio'n wahanol ar arweinyddiaeth a newid trwy ddatblygu gweithredol.

Mae ein hymrwymiad i greu amgylchedd sy'n ffafriol ac yn fuddiol i weithwyr ac ymwelwyr yn golygu ein bod yn ymdrechu'n barhaus i ddatblygu diwylliant gwaith sy'n hyrwyddo **iechyd a lles** ein pobl:

- Rydym wedi adolygu ac archwilio ein harferion, wedi cefnogi staff trwy gynnig hyfforddiant mewn meysydd presennol gan gynnwys lles meddyliol, Iechyd a Diogelwch, a chymorth cyhyrysgerbydol, a meysydd diddordeb amrywiol newydd gan gynnwys diogelu a'r menopos.
- Rydym wedi parhau i weithio ar gael gwared ar unrhyw stigma canfyddedig yn ymwneud â chyflyrau iechyd a chynyddu gwybodaeth a dealltwriaeth trwy ddigwyddiadau rheolaidd, ymgyrchoedd hyrwyddo, a gweithio gyda'n rhwydweithiau cydraddoldeb yn y gweithle i rannu profiadau a darparu cefnogaeth cymheiriaid.



# Amrywiaeth a chynhwysiant

## Mae Adroddiad Blynyddol Amrywiaeth a Chynhwysiant 2019-2020 yn cynnwys gwybodaeth fanwl am ein gwaith yn y maes hwn, ynghyd â data monitro amrywiaeth y gweithlu a recriwtio, a'n data adrodd ar gyflog cyfartal a bwlch cyflog rhwng y rhywiau. Mae'r adroddiad hwn ar gael ar ein gwefan.

Dyma rai o uchafbwyntiau'r flwyddyn:

- Mae ein hymateb i Barhad Busnes yn sgil Covid-19 wedi canolbwyntio ar amrywiaeth a chynhwysiant. Rydym wedi sicrhau ein bod wedi deall anghenion busnes a'u cydbwyso ag anghenion unigol a'r cymorth sydd ei angen ar Aelodau'r Cynulliad a'n cydweithwyr, i'w cadw'n wybodus ac yn ddiogel.
- Nodwyd 20 mlynedd o ddatganoli gyda digwyddiad i'r holl staff, dathlu ein staff trwy gynllun cydnabod newydd, a chyhoeddi rhifyn 20 mlynedd arbennig o'r cylchgrawn mewnol Llechen i nodi'r achlysur.
- Lansiwyd ymgyrch lwyddiannus 'Hawl i Herio' a oedd yn adeiladu ar y cynnydd rydym wedi'i wneud gyda'n hymrwymiad Urddas a Pharch, gan rymuso pawb i wneud rhywbeth os ydynt yn dyst i ymddygiad amhriodol yn ein gweithle.
- Fel rhan o'n hymrwymiad i ehangu cynhwysiant trwy recriwtio, fe wnaethom gynnwys ymgeiswyr llwyddiannus ac aflwyddiannus yn ein hadolygiad o arferion recriwtio. Mae hyn wedi arwain at frandio newydd, mwy cynhwysol, a phrosesau cliriach i wella profiad yr ymgeisydd, ac rydym yn gweithio ar wella hyn ymhellach yn ystod y misoedd nesaf.
- Cafodd ein hymrwymiad i ddatblygu ein prentisiaid ei ategu ymhellach wrth i Mahima Khan, ein prentis BAME cyntaf, ennill Gwobrau Prentis y Flwyddyn QSA. Mae cynllun prentisiaeth eleni wedi denu mwy o geisiadau nag erioed o'r blaen.
- Fe wnaethom ennill y gweithle gorau yng Nghymru ar gyfer gweithwyr LHDTQ+ gan Stonewall UK ac fe wnaethom hefyd gadw ein lle yn y 10 Gorau yn y DU am y chweched flwyddyn yn olynol. Eleni cawsom hefyd ein henwi fel Grŵp Rhwydwaith Cymeradwyaeth Uchel.

- Lansiwyd ein canllaw menopos i helpu menywod sy'n mynd trwy'r cyfnod anodd hwn yn y gweithle. Hefyd buom yn cynnal sesiynau ymwybyddiaeth i reolwyr llinell a chydweithwyr ar sut y gallant gefnogi eu cydweithwyr.
- Rydym wedi bod yn gweithio gyda darparwyr allanol i ddarparu hyfforddiant amrywiaeth a chynhwysiant wyneb yn wyneb ac ar-lein i holl staff Aelodau'r Cynulliad. Ymhlith yr uchafbwyntiau mae Dewch i Ni Siarad am Hil, Ymwybyddiaeth Ddiwylliannol, ein catalog Skill Boosters newydd a gweminarau meddwlgarwch.
- Rydym wedi nodi llawer o ddigwyddiadau amrywiaeth a chynhwysiant llwyddiannus trwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys ein hwythnos Amrywiaeth a Chynhwysiant, Pride, brecwast Iechyd Meddwl Dynion, lansio Wales Ability a'n trafodaeth Panel LHDT.
- Fe wnaethon hefyd ymuno â'r Siarter Hil yn y Gwaith. Mae'r Siarter hon yn helpu busnesau i wella cydraddoldeb hil yn y gweithle ac mae'n cynnwys pum prif alwad i weithredu i arweinwyr a sefydliadau ar draws pob sector.
- Buom yn gweithio mewn partneriaeth â Busnes yn y Gymuned fel partneriaeth graidd gyfun gan drafod rhyw, hil a lles.
- Mae gwaith wedi cychwyn i baratoi ar gyfer tymor nesaf y Cynulliad ar Benderfyniad y Bwrdd Taliadau, sy'n canolbwyntio ar gael gwared ar rwystrau posibl i sefyll etholiad fel ffordd o helpu i ddenu ystod amrywiol o ymgeiswyr.



Mahima Khan
Prentis y Flwyddyn QSA

# Trefniadau rheoli ariannol ein cyllideb

## Mae'n rhaid i'r Comisiwn ddarparu'r Cynulliad â'r staff, eiddo a gwasanaethau sydd eu hangen i hybu ei rôl fel deddfwrfa gref, hygyrch a blaengar sy'n gwasanaethu pobl Cymru yn llwyddiannus.

Defnyddir cyllideb y Comisiwn i dalu am gostau rhedeg y Cynulliad yn ogystal â chostau cyflogau a lwfansau Aelodau'r Cynulliad fel y'u pennir gan y Bwrdd Taliadau annibynnol.

Mae'r Comisiwn wedi parhau i fireinio'r ffordd y mae'n cyflwyno ei gyllideb yn seiliedig ar y gwaith craffu a wnaed gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a'r Pwyllgor Cyllid a'r adborth a gafwyd.

Mae'r dull cyllidebol a fabwysiadwyd ar gyfer 2020-21 yn gyson â'r hyn a nodwyd yn nogfen gyllideb 2019-20 ar gyfer cyllidebau di-dâl a chronfeydd prosiect.

Mae'r cysylltiad uniongyrchol â symudiadau ym Mloc Cymru wedi'i ddileu bellach yn unol â'r canllawiau a ddarperir yn Natganiad o Egwyddorion y Pwyllgor Cyllid. Mae cyllideb y Comisiwn yn anelu at fod yn dryloyw, ac yn ddarbodus, ac mae wedi'i gosod yng nghyd-destun y sefyllfa cyllido ariannol hirdymor yng Nghymru.

Mae'n ystyried gofyniad cyllidebol y Comisiwn am y tair blynedd ariannol sydd i ddod a sut mae'r Comisiwn yn blaenoriaethu ei adnoddau i sicrhau nad yw gwasanaethau'n cael eu peryglu.

Cymeradwyodd Aelodau'r Cynulliad gyllideb 2020-21 yn unfrydol ar 13 Tachwedd 2019.


Croeso
i'r Senedd
Welcome
to the
Senedd



# Effeithiau amgylcheddol

## Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi gweithredu sawl menter amgylcheddol yn ymwneud â'n hadeiladau a'n hystâd ehangach, a hynny er mwyn lleihau ein defnydd o gyfleustodau a darparu cynefin mwy croesawgar i fywyd gwyllt.

Gan ddatblygu ar y cychod gwenyn y gwnaethom eu cyflwyno'r llynedd, rydym wedi gweithio gydag RSPB a Bug Life i wella'r cynefin peillio o amgylch ein hystâd ym Mae Caerdydd fel rhan o'u menter Urban Buzz, gan gynnwys llain blodau gwyllt, gardd fwy amrywiol a phwll dŵr bach.

Rhoddwyd nifer sylweddol o fesurau arbed ynni ar waith yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys gosod mwy o oleuadau LED, gyda synwyryddion is-goch goddefol i leihau eu defnydd, yn ogystal â gwelliannau sylweddol i'r ffordd y mae ein prif swyddfa'n cael ei chynhesu.

Mae'r ymdrechion hyn, ynghyd â grid trydan mwy gwyrdd y DU, wedi helpu i leihau ein hôl troed ynni i hanner lefel ein blwyddyn waelodlin 2012-2013.  Felly rydym wedi rhagori'n sylweddol ar y targed ar gyfer y metrig hwn eisoes, ac wrth inni symud i flwyddyn olaf ein strategaeth garbon gyfredol rydym yn canolbwyntio nawr ar strategaeth newydd a fydd yn mynd â ni o 2021 hyd at 2030.

Mae ein gwaith amgylcheddol yn parhau o dan faner system reoli wedi'i hardystio'n ffurfiol sy'n cynnwys archwiliad blynyddol gan gorff sydd wedi'i achredu gan UKAS yn erbyn gofynion



ISO14001. Darperir crynodeb o'n perfformiad, ochr yn ochr â'r data ystadegol gofynnol, ond gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth yn ein Hadroddiad Cynaliadwyedd Blynyddol, sydd ar gael ar ein gwefan.

## Ynni

Rydym wedi gweld gostyngiad yn y defnydd o ynni eleni, yn enwedig trydan. Mae'r defnydd o nwy hefyd wedi lleihau, er i ni gael cyfnod gwresogi hirach na'r llynedd. Gellir priodoli rhai o'r arbedion hyn i'r mesurau effeithlonrwydd ynni a osodwyd trwy gydol y flwyddyn ddiwethaf, gan gynnwys goleuadau a rheolyddion mwy effeithlon, gwelliannau effeithlonrwydd gyda'r systemau gwresogi ac oeri, yn ogystal â rhagor o fecanweithiau rheoli amser ar ffynonellau gwres a boeleri dŵr. Mae gosod boeleri nwy mwy effeithlon newydd yn Nhŷ Hywel, ein prif adeilad, hefyd wedi helpu i wrthbwyso cyfnod gwresogi'r gaeaf.

Cafodd y defnydd is o nwy a thrydan ei wrthbwyso gan godiadau mewn costau cyfleustodau, gyda phrisiau trydan yn codi tua 16% eleni, a nwy 20%. O ystyried natur ein gweithrediadau, trydan yw'r gydran fwyaf o'n galw am gyfleustodau o bell ffordd, ac oherwydd, hynny rydym wedi gweld costau'n codi er gwaethaf ein hymdrechion i leihau defnydd. Rydym yn parhau i brynu ynni trwy Wasanaeth Caffael Cenedlaethol Llywodraeth Cymru, yn unol â'r rhan fwyaf o weddill sector cyhoeddus Cymru.



## Gwastraff ac adnoddau

Yn ystod 2019, mewn ymateb i newid yn y gofynion gweithredol, newidiwyd ein contractwyr ar gyfer ein darpariaeth rheoli gwastraff ac wrth wneud hynny roeddem yn gallu gostwng cost y gwasanaeth yn sylweddol.  Rydym yn credu bod swm tebyg o wastraff wedi'i gynhyrchu â'r llynedd, er bod mwy yn mynd i'r cyfleuster adfer ynni, ac rydym yn gweithio gyda'r contractwr newydd i sicrhau adroddiadau effeithiol.  Nid oes unrhyw wastraff yn cael ei anfon i safleoedd tirlenwi.

Mae ein system cynaeafu dŵr glaw fel arfer yn cefnogi ein galw am ddŵr yn effeithlon, ond oherwydd bod angen gwagio, glanhau ac ail-lenwi'r tanciau dŵr glaw ar gyfer gwaith cynnal a chadw, rydym wedi profi cynnydd yn y dŵr a ddefnyddiwyd ar yr ystâd eleni.

Mae ein defnydd o bapur wedi lleihau eto eleni, yn sgil darparu argraffu canolog dilynol, sydd o gymorth i leihau'r defnydd diangen o bapur.

## Teithio

Mae teithio busnes wedi bod yn debyg i'r llynedd, gydag ychydig mwy o filltiroedd wedi'u teithio ar ffyrdd a rheilffyrdd, a llai o filltiroedd awyr na'r un cyfnod yn 2018-19.  Fodd bynnag, mae effeithlonrwydd carbon ein dulliau teithio wedi gwella, gyda mwy o staff yn dewis defnyddio cerbydau allyriadau isel neu isel iawn (gan gynnwys ein car trydan at ddefnydd pawb), yn ogystal â hyd yn oed ambell daith ddi-garbon ar un o'n beiciau at ddefnydd pawb.

Rydym yn parhau i hyrwyddo opsiynau teithio cynaliadwy ac iach gyda staff, a hynny o ran teithiau busnes a chymudo fel y'i gilydd.

| **Allyriadau nwyon tŷ gwydr** [1, 2, 3] | | **2012-13 (llinell sylfaen)** | **2016-17** | **2017-18** | **2018-19** | **2019-20** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Dangosyddion nad ydynt yn ariannol (tCO2e) | *Cyfanswm cwmpas yr allyriadau crynswth* [4] | 329 | *308* | *297* | *239* | 236 |
| | *Cyfanswm cwmpas yr allyriadau crynswth* [5] | 1,470 | *1,133* | *955* | *732* | *643* |
| | *Cyfanswm cwmpas yr allyriadau crynswth* [6] | 432 | *396* | *390* | *316* | *261*[7] |
| | *Cyfanswm yr allyriadau y tu hwnt i'r cwmpas* | 298 | *4.1* | *5.3* | *7.4* | *6.0* |
| | *Cyfanswm yr allyriadau crynswth* | 2,588 | *1,846* | *1,659* | *1,304* | *1,156* |
| | *Cyfanswm yr allyriadau net* | 2,290 | *1,841* | *1,654* | *1,296* | *1,150* |
| Gwariant ar fentrau gwrthbwyso achrededig (e.e. Cronfa Gwrthbwyso'r Llywodraeth) | | £0 | *£0* | *£0* | *£0* | *£0* |
| Dangosyddion Ariannol (£) | *Gwariant Crynswth yng nghyswllt yr Ymrwymiad i Leihau Allyriadau Carbon* | Amh | Amh | Amh | Amh | Amh |

[1] Mae'r holl ddata ynghylch ynni bellach yn cynnwys yr allyriadau trawsyrru a dosbarthu cyfredol ac ôl-weithredol ac allyriadau o'r ffynnon i'r tanc lle y bo'n berthnasol.

[2] Mae'r holl ddata ynghylch teithio bellach yn cynnwys allyriadau o'r ffynnon i'r tanc cyfredol ac ôl-weithredol ar gyfer defnyddio tanwydd.

[3] Ac eithrio teithio Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2020 oherwydd oedi o ran gofynion adrodd. Mae blynyddoedd blaenorol wedi'u haddasu wrth i'r hawliadau terfynol ar gyfer y blynyddoedd hynny gael eu prosesu..

[4] Mae'n cynnwys costau trydan ac aerdymheru ar gyfer 'fferm weinyddwyr' oddi ar y safle rhwng 2010 a phan y daeth i ben ym mis Mehefin 2018.

[5] Mae'r holl ddata ynghylch ynni yn cynnwys yr allyriadau trawsyrru a dosbarthu cyfredol ac ôl-weithredol ac allyriadau o'r ffynnon i'r tanc lle y bo'n berthnasol.

[6] Mae'r holl ddata ynghylch teithio bellach yn cynnwys ffigurau'r holl allyriadau o'r ffynnon i'r tanc cyfredol ac ôl-weithredol ar gyfer defnyddio tanwydd.

[7] Ac eithrio teithio Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2020 oherwydd oedi o ran gofynion adrodd. Mae blynyddoedd blaenorol wedi'u haddasu wrth i'r hawliadau terfynol ar gyfer y blynyddoedd hynny gael eu prosesu.

| Y defnydd o ynni [8, 9] | | 2012-13 (llinell sylfaen) | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Dangosyddion nad ydynt yn ariannol (oriau cilowat) | Trydan (tariff adnewyddadwy o 2018) | 3,194,890 | 2,623,244 | 2,602,054 | 2,647,115 | 2,596,810 |
| | Nwy | 1,741,299 | 1,481,681 | 1,452,075 | 1,314,772 | 1,289,334 |
| | Biomas (adnewyddadwy) | 840,438 | 308,850 | 409,770 | 492,420 | 404,690 |
| Dangosyddion nad ydynt yn ariannol (tCO2e) | Cyfanswm yr allyriadau ynni | 1,880 | 1,563 | 1,363 | 1,066 | 962 |
| Dangosyddion Ariannol (£) | Cyfanswm y gwariant ar ynni | 458,168 | 377,993 | 431,187 | 467,404 | 521,093 |

| Cynhyrchu gwastraff | | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dangosyddion nad ydynt yn ariannol (tunelli)** | Cyfanswm y gwastraff | 123 | 140 | 142 | 128 | 103 |
| | Ailgylchu/Adfer | 118 | 136 | 138 | 124 | 104 |
| | Adfer Ynni | - | - | 4.04 | 4.07 | 43.0 |
| | Tirlenwi | 3.7 | 5 | 0 | 0 | 0 |
| | Gwastraff wedi'i gompostio | 12.5 | 15.9 | 17.0 | 17.0 | 17.5 |
| | Gwastraff peryglus | 0.4 | 0.15 | 0.4 | 0.3 | 0.2 |
| | Papur a brynwyd (cyfateb i filiwn o ddalennau A4) | 2.48 | 1.99 | 2.92 | 2.73 | 2.33 |
| **Dangosyddion ariannol (£)** | Gwariant ar waredu gwastraff | 33,266 | 36,455 | 33,008 | 31,649 | 27,025 |

[8] Mae'n cynnwys costau trydan ac aerdymheru ar gyfer 'fferm weinyddwyr' oddi ar y safle rhwng 2010 a phan y daeth i ben ym mis Mehefin 2018.

[9] Mae'r holl ddata ynghylch ynni yn cynnwys yr allyriadau trawsyrru a dosbarthu cyfredol ac ôl-weithredol ac allyriadau o'r ffynnon i'r tanc lle y bo'n berthnasol.

| Y defnydd o ddŵr | | 2014-15 (llinell sylfaen) | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Dangosyddion nad ydynt yn ariannol (m3) | Y dŵr a gyflenwyd (uniongyrchol) | 6,117 | 5,347 | 4,158 | 6,064 | 6,281 |
| | Y dŵr a gasglwyd (anuniongyrchol) | 1,554 | 853 | 578 | 542 | 515 |
| | Tynnu dŵr (anuniongyrchol) | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Dangosyddion ariannol (£) | Gwariant ar y cyflenwad a charthffosiaeth | 22,245 | 19,376 | 15,424 | 12,189 | 18,065 |

| Teithio Swyddogol [10, 11] | | 2013-14 (llinell sylfaen) | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Dangosyddion nad ydynt yn ariannol (milltiroedd) | Teithio ar fusnes | 884,176 | 820,851 | 724,400 | 732,235 | 625,557 [12] |
| | Cerbydau y mae'r Cynulliad yn berchen arnynt, a cherbydau wedi'u llogi | 31,949 | 15,803 | 16,512 | 16,705 | 13,003 |
| Dangosyddion Ariannol (£) | Gwariant ar deithio ar fusnes swyddogol | 349,775 | 328,532 | 337,805 | 301,200 | 246,101 [13] |

[10] Mae'r holl ddata teithio bellach yn cynnwys allyriadau presennol ac ôl-weithredol ffynnon i'r tanc ar gyfer defnyddio tanwydd.

[11] Ac eithrio teithio Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2020 oherwydd oedi gyda gofynion adrodd. Addaswyd blynyddoedd blaenorol wrth i hawliadau terfynol ar gyfer y blynyddoedd hynny gael eu prosesu.

[12] Ac eithrio teithio Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2020 oherwydd oedi gyda gofynion adrodd. Addaswyd blynyddoedd blaenorol wrth i hawliadau terfynol ar gyfer y blynyddoedd hynny gael eu prosesu.

[13] Ac eithrio teithio Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2020 oherwydd oedi gyda gofynion adrodd. Addaswyd blynyddoedd blaenorol wrth i hawliadau terfynol ar gyfer y blynyddoedd hynny gael eu prosesu.

Mae'r wybodaeth wedi'i datblygu ar gyfer ein Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon yn unol â Chanllawiau Trysorlys Ei Mawrhydi ynghylch Cyflwyno Adroddiadau ar Gynaliadwyedd ar gyfer blwyddyn ariannol 2019-20. Rydym hefyd yn defnyddio ffactorau trawsnewid DEFRA ar gyfer 2019 ar gyfer ffigurau cyfatebol carbon deuocsid (CO2e). Mae CO2e yn uned fesur gyffredinol sy'n ei gwneud yn bosibl cymharu potensial cynhesu byd-eang nwyon tŷ gwydr gwahanol. Caiff allyriadau eu hadrodd yn seiliedig ar y dull rheoli ariannol a ddefnyddir ar gyfer yr ystâd graidd weinyddol yn unig.

Ceir crynodeb llawn o'n perfformiad amgylcheddol yn yr Adroddiad Cynaliadwyedd Blynyddol, sydd ar gael ar ein gwefan.



# Adroddiad ar Ddangosyddion Perfformiad Allweddol Corfforaethol

Mae ein Hadroddiad ar Ddangosyddion Perfformiad Allweddol Corfforaethol yn ystyried perfformiad Comisiwn y Cynulliad yn ystod y cyfnod rhwng mis Ebrill 2019 a mis Mawrth 2020, yn ôl ei nodau strategol.

Yn dilyn sylwadau gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Phwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Comisiwn y Cynulliad, cynhaliwyd adolygiad o'n Dangosyddion Perfformiad Allweddol yn nechrau 2019 er mwyn canolbwyntio'n fanylach ar nodau a blaenoriaethau'r Comisiwn a'u gwneud yn fwy heriol.  Adroddir yma felly am y set newydd hon o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol.

Mae rhai o'r mesurau hyn yn statig, a byddant yn parhau hyd at weddill y Pumed Cynulliad, ond rydym hefyd wedi cynnwys set o fesurau 'ymestyn' er mwyn gwella perfformiad mewn nifer o feysydd a nodwyd, a bydd y rhain yn cael eu hadolygu'n flynyddol.

## Darparu cefnogaeth seneddol o'r radd flaenaf


### Cynnydd yn ystod y flwyddyn:


Cyflawnwyd holl dargedau'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol ar gyfer darparu cefnogaeth seneddol o'r radd flaenaf.


Perfformiad cyson uchel ar Gofnod y Trafodion gyda'r targedau cyhoeddi yn cael eu cyflawni 100% trwy gydol y flwyddyn.

Er y bu gostyngiad bach yng nghyfarfodydd y Cyfarfod Llawn a'r pwyllgorau a gynhaliwyd o fewn gofynion statudol o gymharu â blynyddoedd blaenorol, cwblhawyd y rhain serch hynny ymhell o fewn y targed.

Rydym wedi gweld cynnydd yn y sgôr cyfartalog o arolwg boddhad Aelodau'r Cynulliad a Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad o ran darparu cefnogaeth seneddol o'r radd flaenaf.








## Ymgysylltu â holl bobl Cymru a hyrwyddo'r Cynulliad

### Cynnydd yn ystod y flwyddyn:

Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi cymryd rhan mewn rhwydweithiau seneddol rhyngwladol perthnasol i wella proffil y Cynulliad a dangos ein gwaith i gynulleidfaoedd rhyngwladol. Yn ôl y disgwyl wrth gynllunio gwaith ymgysylltu o'r fath, arweiniodd rhai ffactorau allanol at ganslo nifer o ymrwymiadau ymgysylltu mewnol a gynlluniwyd, ond gwelsom gynnydd bach yn yr ymgysylltu allanol.

Yn ystod eleni, cynhaliwyd 483 o ddigwyddiadau a noddwyd gan Aelodau a chynhaliwyd 495 o deithiau ar yr ystâd. Rydym wedi cyflwyno nifer o fentrau ymgysylltu newydd â'r cyhoedd gan gynnwys Cynulliad Dinasyddion a Gŵyl GWLAD, ac rydym wedi cynnwys pobl mewn ymgynghoriadau pwyllgor. Rydym yn parhau i ymgysylltu â phobl ifanc trwy ddarparu sesiynau allgymorth mewn ysgolion, colegau a grwpiau ieuenctid, yn ogystal â chroesawu grwpiau i'n canolfan addysg. Mae'r gweithgareddau ymgysylltu hyn wedi arwain at gynnydd yn hyder, diddordeb a dealltwriaeth y cyhoedd o waith y Cynulliad.




## Ymgysylltu â holl bobl Cymru a hyrwyddo'r Cynulliad


### Cynnydd yn ystod y flwyddyn:


Yn y flwyddyn ariannol hon gwelwyd cynnydd o 11.7% mewn dilynwyr ar draws prif gyfrifon cyfryngau cymdeithasol y Cynulliad (prif dudalennau Facebook Cynulliad Cymru / Assembly Wales, sianeli Twitter, LinkedIn, Instagram a YouTube). Cynhaliwyd y gyfradd twf yn dda trwy gydol y flwyddyn gyda chynnydd yn gysylltiedig â digwyddiadau allweddol, er enghraifft y gweithgareddau dathlu 20 mlynedd o'r Cynulliad a chamau olaf y *Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru).*

Cafwyd ymdrech ar y cyd i ennyn diddordeb y cyfryngau yng ngwaith y pwyllgorau ac mae hyn wedi gweld peth llwyddiant gyda llanw a thrai dros y flwyddyn, fel arfer yn dilyn cylch tymor/blwyddyn y Cynulliad. Hydref 2019 oedd y mis prysuraf a mwyaf llwyddiannus gyda llawer o ymgyrchoedd cyfathrebu yn ymwneud â gwaith y pwyllgorau yn cyd-daro.

Oherwydd Covid-19, cafodd holl waith y pwyllgorau ei atal dros dro ym mis Mawrth 2020.




## Defnyddio adnoddau'n ddoeth


### Cynnydd yn ystod y flwyddyn:


Mae'r alldro gweithredol ar ddiwedd y flwyddyn o fewn targed cyllideb weithredol y Comisiwn a gymeradwywyd am y flwyddyn ariannol. Mae Adroddiad ISA260 yn cyd-fynd â'n cyfrifon diamod, a ardystiwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, ac mae'n cadarnhau na chodwyd unrhyw faterion arwyddocaol.

Rydym yn parhau i gael sgôr ymgysylltu uchel yn yr arolwg staff ac yn perfformio'n uwch na sgôr canolrif Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil o 58%. Bydd ein harolwg staff nesaf yn cael ei gynnal mewn partneriaeth â'n hachrediad Buddsoddwyr mewn Pobl yr ydym yn ei ddisgwyl ym mis Mawrth/Ebrill 2020.

Bu cynnydd o un flwyddyn i'r llall yn nifer cyfartalog y dysgwyr Cymraeg sydd wedi cofrestru ar bob lefel. Mae cyflwyno hyfforddiant Cymraeg Lefel Cwrteisi a lefelau sgiliau iaith wedi arwain at gynnydd yn y niferoedd sy'n dysgu a chael sesiynau gloywi iaith ar bob lefel.



Trosolwg

Dadansoddiad o berfformiad

Atebolrwydd

Datganiadau ariannol


## Dangosyddion 'Ymestyn'


### Cynnydd yn ystod y flwyddyn:

Mae gennym darged i gynyddu nifer y ceisiadau am swyddi a hysbysebir yn allanol gan unigolion sy'n nodi eu bod yn bobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (BAME) o un flwyddyn i'r llall am y 3 blynedd nesaf.

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf rydym wedi gweld cynnydd yn nifer y ceisiadau a dderbyniwyd gan bobl BAME o gymharu â 2016-2017. Fodd bynnag, mae hyn yn dal i fod yn ganran fach o'r ceisiadau a dderbyniwyd yn gyffredinol ac rydym yn gwneud gwaith i godi ymwybyddiaeth o'r Cynulliad fel cyflogwr o fewn cymunedau BAME.

Mae cyfraddau absenoldeb ar gyfer y 12 mis cyfartalog ar ddiwedd mis Mawrth 2020 wedi cynyddu ers y llynedd. Roedd achosion misol o absenoldeb wedi aros yn is na meincnod CIPD (3.8%) yn gyson ers mis Ebrill 2019. Yn anffodus mae cynnydd mawr ym mis Ionawr 2020 wedi arwain at gyfartaledd dreigl o 12 mis sy'n fwy na'r meincnod. Mae absenoldeb yn parhau i fod yn ffocws.




## Dangosyddion 'Ymestyn'


**Cynnydd yn ystod y flwyddyn:**


Yn 2019, gwelwyd cynnydd yn y sgôr boddhad cyfartalog yn arolwg boddhad Aelodau / Staff Cymorth Aelodau ar gyfer cefnogi Aelodau i weithio yn eu dewis iaith, o gymharu â 2018. Bydd yr arolwg boddhad nesaf yn cael ei gwblhau ym mis Medi 2020.

Er mwyn hwyluso gallu'r Aelodau i weithio yn eu dewis iaith yn y Cyfarfod Llawn a'r Pwyllgorau, ein nod yw cyflwyno 100% o bapurau'n ddwyieithog yn ôl yr amserlenni y cytunwyd arnynt. Er ein bod yn darparu canran uchel o bapurau i'r amserlenni y cytunwyd arnynt, mae gennym dipyn o ffordd i fynd cyn cyrraedd ein targed ar gyfer papurau'r pwyllgorau.

Ein targed yw lleihau cyfanswm ein hallyriadau carbon sy'n gysylltiedig â theithio busnes mewn ceir i fod yn is na llinell sylfaen 2017-2018 o 67%. Mae'r newid i gar trydan at ddefnydd pawb yn ystod 2018-2019 wedi arwain at ostyngiad yn ôl troed carbon y car at ddefnydd pawb (0.1% yn 2019-2020). Fodd bynnag, yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf gwelwyd gostyngiad yn y milltiroedd teithio awyr sydd, er yn gadarnhaol, wedi cynyddu canran gymharol y defnydd o geir.








## Dangosyddion 'Ymestyn'


### Cynnydd yn ystod y flwyddyn:

Yn ystod y flwyddyn rydym wedi gweld peth cynnydd a pheth gostyngiad yng nghanran gwariant y Comisiwn gyda chyflenwyr o Gymru ar gyfer nifer o wahanol sectorau. Ar y cyfan, rydym wedi gweld cynnydd bach, gyda 39% o'r gwariant ar gyfer 2019-2020 gyda chyflenwyr o Gymru. Rydym yn gwneud gwaith i annog tendrau gan fwy o gyflenwyr o Gymru lle bo hynny'n bosibl ac rydym yn gobeithio gweld y ganran hon yn cynyddu dros y flwyddyn nesaf.

Arweiniodd y gwaith hyrwyddo a gweithgareddau digidol at gynnydd yng nghyrhaeddiad y cyfryngau cymdeithasol yn sgil rhai ymgyrchoedd allweddol trwy gydol y flwyddyn. Dechreuodd y digwyddiadau dathlu 20 mlynedd ym mis Mai 2019 gydag ymgyrch ddigidol, gan gynnwys lansio gwefan bwrpasol, a gyrhaeddodd y nifer fisol uchaf o bobl. Ac ym mis Hydref - Tachwedd 2019 cyrhaeddodd cyrhaeddiad y cyfryngau cymdeithasol ar ddiwygio'r Cynulliad uchafbwynt wrth i'r *Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru)* fynd trwy broses ddeddfwriaethol y Cynulliad, cyn i'r Cynulliad ei basio ym mis Tachwedd 2019.




**Manon Antoniazzi**
Prif Weithredwr a Chlerc Senedd
Dyddiad: 15 Mehefin 2020





# ATEBOLRWYDD

# Llywodraethu corfforaethol

Mae'r adroddiad hwn, sydd wedi'i lofnodi gan y Prif Weithredwr a'r Clerc a hynny fel y Prif Swyddog Cyfrifyddu, yn unol â rheolau'r Trysorlys, yn cynnwys gwybodaeth am gydnabyddiaeth ariannol uwch-reolwyr a'r drefn archwilio.

## Adroddiad y Cyfarwyddwyr

**Y Comisiynwyr a deiliaid swyddi eraill**

Mae gwybodaeth am y Llywydd a'r Comisiynwyr wedi'i chynnwys ar dudalennau 14-15.

**Cynghorwyr Annibynnol**

Mae gwybodaeth am y Cynghorwyr Annibynnol ac aelodau annibynnol y pwyllgorau wedi'i chynnwys ar dudalennau 16-17.

**Yr uwch-reolwyr**

Mae gwybodaeth am gyfrifoldebau'r Prif Weithredwr a Chlerc a'r uwch-reolwyr o ran cyfarwyddo prif weithgareddau'r Comisiwn yn ystod y flwyddyn wedi'i chynnwys ar dudalennau 20-21.

**Buddiannau sylweddol sydd gan yr Aelodau**

Mae Cofrestr o Fuddiannau Ariannol a Buddiannau Eraill yr Aelodau ar gael yn **www.senedd.wales** a **www.senedd.cymru**.

## Digwyddiadau yn ymwneud â data personol

Roedd un achos o golli data personol lle roedd yn ofynnol rhoi gwybod i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020. Roedd pum achos o dorri rheolau data personol wedi'u hadrodd yn fewnol, a gafodd eu hymchwilio a'u rheoli'n fewnol. Gan fod y tebygolrwydd o niwed neu ofid i destun y data yn yr achosion hyn yn isel, barnwyd nad oedd angen cymryd camau pellach.

## Amrywiaeth, Cynhwysiant ac Ymgysylltu â Staff

Gellir gweld gwybodaeth am bolisïau a gweithgareddau'r Comisiwn yn ymwneud ag amrywiaeth, cynhwysiant ac ymgysylltu â staff yn yr Adroddiad Taliadau (tudalen 121 hyd 137.)

## Archwilydd

Archwilydd Cyffredinol Cymru sy'n archwilio cyfrifon Comisiwn y Senedd. Mae'r Adroddiad Archwilio i'w weld ar dudalen 143. Y gost amcangyfrifedig o archwilio'r datganiadau ariannol hyn yn allanol yw £57,958 (£55,900 yn 2018-19). Ni chynhaliwyd unrhyw waith archwilio anstatudol ychwanegol yn ystod 2019-20 (2018-19, dim).

## Datgelu gwybodaeth i Archwilydd Cyffredinol Cymru

Cyn belled ag y gwn:

- nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw ein harchwilydd yn ymwybodol ohoni; ac
- rwyf wedi cymryd yr holl gamau y dylwn fod wedi'u cymryd er mwyn sicrhau fy mod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol, ac i gadarnhau bod ein harchwilydd yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

## Y Cyfarwyddyd o ran Cyfrifon

Paratowyd y cyfrifon sydd i'w gweld rhwng tudalennau 138 a 153 yn unol â Chyfarwyddyd y Trysorlys a roddwyd o dan Adran 137 o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*. Mae'r datganiadau ariannol yn cydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adroddiadau Ariannol Trysorlys Ei Mawrhydi a cheir nodiadau esboniadol i gyd-fynd â hwy. Mae'r cyfrifon hyn yn nodi effaith ariannol penderfyniadau'r Comisiwn yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol a'r blynyddoedd ariannol blaenorol.

Mae gwybodaeth am y Senedd a'r Comisiwn hefyd ar gael ar wefan y Senedd: **www.senedd.wales** a **www.senedd.cymru**.

**Manon Antoniazzi**
Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd
Dyddiad: 15 Mehefin 2020

# Datganiad o gyfrifoldebau'r Comisiwn a'r Prif Swyddog Cyfrifyddu

## Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd, drwy rinwedd Adran 138 o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*, yw Prif Swyddog Cyfrifyddu'r Comisiwn.

Mae Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd wedi paratoi'r datganiad o gyfrifon yn unol â Chyfarwyddyd a roddir gan Drysorlys Ei Mawrhydi a'r egwyddorion cyfrifyddu a'r gofynion datgelu sydd wedi'u nodi yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth.  Paratoir y Cyfrifon Adnoddau ar sail cyfrifyddu croniadau. Maent yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y Comisiwn ar ddiwedd y flwyddyn ac alldro ei adnoddau net; yr adnoddau a ddyrannwyd i gyflawni amcanion; datganiad o'r gwariant net cynhwysfawr; datganiad o'r sefyllfa ariannol; llif arian, a datganiad o'r newidiadau i ecwiti trethdalwyr yn ystod y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd wedi:

- cydymffurfio â chyfarwyddyd Trysorlys Ei Mawrhydi o ran cyfrifon;
- cydymffurfio â'r gofynion perthnasol o ran cyfrifyddu a datgelu gwybodaeth, ac wedi bod yn gyson o ran gweithredu polisïau cyfrifyddu priodol;
- gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon rhesymol a gofalus;
- nodi a yw'r safonau cyfrifyddu priodol wedi'u dilyn, yn amodol ar unrhyw eithriadau a gaiff eu datgelu a'u hegluro yn y cyfrifon; a
- pharatoi'r cyfrifon ar sail busnes gweithredol.

Mae cyfrifoldebau perthnasol y Prif Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys y cyfrifoldeb dros gywirdeb a chysondeb cyllid y Comisiwn a thros gadw cofnod priodol, wedi'u nodi mewn memorandwm a gyhoeddwyd gan Drysorlys Ei Mawrhydi.

**Manon Antoniazzi**
Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd
Dyddiad: 15 Mehefin 2020

# Datganiad Llywodraethu

Mae'r datganiad hwn, sydd wedi'i lofnodi gan y Prif Weithredwr a'r Clerc fel y Prif Swyddog Cyfrifyddu, yn nodi'r ffordd y caiff y Comisiwn ei lywodraethu a'i reoli a sut y mae'n atebol am yr hyn y mae'n ei wneud. Mae'n amlinellu sicrwydd ynghylch effeithiolrwydd fframwaith llywodraethu'r Comisiwn o ran cyflawni ei nodau strategol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020.

## Y fframwaith llywodraethu

O dan delerau *Deddf Llywodraeth Cymru 2006*, mae'r Comisiwn yn dirprwyo ei swyddogaethau, gan gynnwys cyfrifoldeb am reoli staff, i'r Prif Weithredwr a'r Clerc (y Prif Weithredwr) yn ddarostyngedig i rai eithriadau ac amodau. Mae hyn yn cynnwys y trefniadau llywodraethu i hwyluso gweithrediad effeithiol y Comisiwn i gyflawni yn erbyn ei nodau strategol.

Mae'r fframwaith llywodraethu'n cynnwys y strwythurau, y systemau a'r prosesau, a'r diwylliant a'r gwerthoedd, sy'n cyfarwyddo ac yn rheoli'r Comisiwn.  Mae'n diffinio atebolrwydd, cysylltiadau a chyfrifoldeb ymysg y rheini sy'n gweithio yn y sefydliad a chydag ef, yn penderfynu ar y rheolau a'r gweithdrefnau a ddefnyddir i bennu nodau ac amcanion y Comisiwn, ac yn darparu'r dull o gyflawni'r amcanion hynny ac o fonitro perfformiad. Mae'r fframwaith yn mynd i'r afael â'r canlynol: cynllunio strategol a gweithredol; rheoli risg a pherfformiad; llywodraethu gwybodaeth; caffael; a rheolaeth ariannol. Mae polisïau a chodau ymddygiad corfforaethol yn sicrhau bod pawb sy'n gweithio yn y Comisiwn, neu gyda'r sefydliad, yn ymwybodol o'r angen i weithredu'n unol â'r safonau llywodraethu uchaf. Hefyd, ceir polisïau clir yn ymwneud â thwyll, llygredigaeth, llwgrwobrwyaeth, a chwythu'r chwiban.

## Cydymffurfio ag egwyddorion llywodraethu

Mae'r Comisiwn wedi mabwysiadu set o egwyddorion llywodraethu a darpariaethau ategol[14] ac mae'n cydymffurfio â hwy. Mae'r rhain yn cyd-fynd â chodau ymarfer Trysorlys EM a'r Cyngor Adrodd Ariannol, a'r Fframwaith Rhyngwladol: Llywodraethu Da yn y Sector Cyhoeddus. Mae adran sicrwydd y datganiad hwn (tudalen 113) yn disgrifio sut y casglwyd tystiolaeth o'r cydymffurfiad hwn drwy Fframwaith Sicrwydd y Comisiwn, sy'n cynnwys datganiadau sicrwydd gan uwch reolwyr.

## Y strwythur llywodraethu

### Y Comisiwn

Y Comisiwn yw'r corff corfforaethol sy'n gyfrifol am sicrhau bod eiddo, staff a gwasanaethau'n cael eu darparu i'r Senedd weithredu'n effeithiol.  Mae'n cynnwys y Llywydd, sy'n Gadeirydd arno, a phedwar Comisiynydd. Mae mwy o wybodaeth am y Comisiwn wedi'i chynnwys yn adran trosolwg yr Adroddiad Blynyddol.

Prif Swyddog Cyfrifyddu'r Comisiwn yw'r Prif Weithredwr a'r Clerc, sy'n atebol i'r Comisiynwyr am gyflawni ei nodau strategol a blaenoriaethau, ac yn atebol yn bersonol i'r Senedd am drefn ac ansawdd y gwaith rheoli yn y Comisiwn, gan gynnwys ei ddefnydd o arian cyhoeddus a sut y mae'n gwarchod ei asedau.  Cyflogeion y Comisiwn yw staff y Senedd.

### Pwyllgorau'r Comisiwn

Fel rhan o'r fframwaith llywodraethu, mae gan y Comisiwn Bwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a Phwyllgor Cynghori ar Daliadau, Ymgysylltu a'r Gweithlu. Mae manylion am eu haelodaeth ar gael yn adran trosolwg yr Adroddiad Blynyddol. Cyrff cynghori annibynnol yw'r rhain, heb bwerau gweithredol, ac maent yn llunio ac yn cyhoeddi eu hadroddiadau blynyddol eu hunain.[15]

Rôl y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yw adolygu pa mor gynhwysfawr, dibynadwy a chywir yw'r sicrwydd a geir ac a yw'n bodloni anghenion y Comisiwn a'r Swyddog Cyfrifyddu. Mae'n canolbwyntio ar adroddiadau archwilio mewnol ac allanol gan gynnwys gweithredu argymhellion;

[14] https://senedd.wales/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/comm-corporate-framework/Pages/governance_principles_supporting_provisions.aspx
[15] https://busnes.senedd.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=13291

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y Comisiwn; adroddiadau ar reoli risg; prosiectau mawr, a threfniadau llywodraethu a rheoli mewnol.

Mae'r Pwyllgor Cynghori ar Daliadau, Ymgysylltu a'r Gweithlu yn gwneud argymhellion ar faterion yn ymwneud â thaliadau a thelerau gwasanaeth y Prif Weithredwr ac uwch swyddi eraill, a materion sy'n gysylltiedig â dull gweithredu strategol y Comisiwn o ran ymgysylltu a datblygu'r gweithlu. Mae hyn yn cynorthwyo'r Comisiwn i sicrhau bod trefniadau tâl yn bodloni'r safonau uchaf o ran cywirdeb ac atebolrwydd am ddefnyddio arian cyhoeddus.

### Arall

Y tu hwnt i fframwaith llywodraethu'r Comisiwn, hefyd ceir Bwrdd Taliadau annibynnol sydd â swyddogaethau statudol i bennu'r cyflogau a'r cymorth ariannol arall sydd ar gael i'r Aelodau. Mae'r Bwrdd hwn yn llunio ac yn cyhoeddi ei adroddiad blynyddol ei hun.

## Gwneud penderfyniadau a rheoli busnes

Mae'r Comisiwn yn cwrdd yn rheolaidd i roi cyfeiriad ac i oruchwylio'r modd y cyflawnir nodau ac amcanion strategol y Comisiwn. Mae'r Comisiwn yn dirprwyo ei swyddogaethau rheoli o ddydd i ddydd i'r Prif Weithredwr. Mae'r dirprwyad ffurfiol[16] yn amlinellu eithriadau a meysydd y mae'n rhaid i'r Prif Weithredwr ymgynghori â'r Comisiwn yn eu cylch. Hefyd, mae system wedi'i sefydlu o awdurdodau dirprwyedig i ymdrin â rheoli adnoddau, sy'n cynnwys cyllid, staffio a chyfrifoldebau adnoddau eraill, fel caffael. Caiff y gwaith o weinyddu'r Comisiwn ei rannu'n dair Cyfarwyddiaeth:  Busnes; Adnoddau; ac Ymgysylltu a Chyfathrebu, gan adrodd i'r Prif Weithredwr. Mae'r Cyfarwyddwr Cyllid yn aelod o'r Gyfarwyddiaeth Adnoddau. Mae'r Cyfarwyddiaethau hynny wedi'u hisrannu wedyn yn wasanaethau, sy'n cael eu harwain gan y Penaethiaid Gwasanaeth.

Mae strwythur y Comisiwn ar gyfer gwneud penderfyniadau yn cynnwys Bwrdd Gweithredol a Thîm Arweinyddiaeth. Mae mwy o fanylion am y rhain i'w cael ar dudalen 22 yn adran trosolwg yr Adroddiad Blynyddol.

[16] https://senedd.wales/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/comm-corporate-framework/Pages/delegation_of_assembly_commission_functions.aspx

## Cynllunio a mesur perfformiad

Mae strategaeth y Comisiwn ar gyfer y Pumed Cynulliad, 2016-21[17], y cytunwyd arno ym mis Mehefin 2016, wedi cynnig cyfeiriad a chynllunio gwybodus ar lefel gorfforaethol a lefel gwasanaeth. Arweiniodd adolygiad o'r strategaeth hon yn ystod 2018-19, ochr yn ochr ag adolygiad trylwyr o gapasiti, at set ddiwygiedig o flaenoriaethau corfforaethol hyd at yr etholiad nesaf ym mis Mai 2021, fel yr amlinellwyd mewn dogfen 'Y Cynulliad ar Dudalen'.[18]

Ar ddiwedd 2019 a dechrau 2020, neilltuodd y Bwrdd Gweithredol amser i fwrw golwg ar y cynnydd yn erbyn y strategaeth a'r gwersi i'w dysgu o’r profiad. Fe wnaeth hyn ystyried ffactorau yn y dyfodol a allai lywio a dylanwadu ar gyfeiriad y sefydliad, a hynny er mwyn adolygu nodau a blaenoriaethau'r Chweched Senedd. Bydd angen i'r Bwrdd Gweithredol ailedrych ar flaenoriaethau’r sefydliad yng ngoleuni'r anghenion a'r senarios sy'n codi o bandemig y coronafeirws.

Mae'r Tîm Arweinyddiaeth yn cynnal adolygiadau rheolaidd ac mae’n craffu ar gynlluniau gwasanaeth a chapasiti. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod ein hadnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithiol ar gyfer gofynion y Comisiwn nawr ac yn y dyfodol. Mae adnoddau bellach yn cael eu trefnu o fewn ac ar draws cyfarwyddiaethau a gwasanaethau mewn ffordd barhaus, sy'n golygu bod modd symud staff yn gyflym wrth i flaenoriaethau a phwysau ddod i’r amlwg.

Mae Adroddiad Perfformiad Corfforaethol y Comisiwn yn cynnwys Dangosyddion Perfformiad Allweddol, sy'n dangos perfformiad y Comisiwn ar draws gwasanaethau. Arweiniodd adolygiad o fesurau perfformiad at gyflwyno mesurau mwy perthnasol a heriol, sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau.

[17] https://senedd.wales/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-commission/Pages/abt-commission.aspx
[18]https://senedd.wales/NAfW%20Documents/About%20the%20Assembly%20section%20documents/Commission-on-a-Page-cy.pdf

## Cynnydd a pherfformiad

Yn y Datganiad Llywodraethu y llynedd, nodwyd nifer o feysydd i ganolbwyntio arnynt a'u datblygu; amlinellir y cynnydd isod:

**Sicrhau ymgysylltiad gwleidyddol ac allanol effeithiol â rhanddeiliaid i gefnogi'r Llywydd a datblygiad y rhaglen ddiwygio, gan gynnwys *Bil y Senedd ac Etholiadau (Cymru)*;**

Ym mis Gorffennaf 2018, cytunodd y Comisiwn i ddilyn strategaeth dau gam, gan ystyried lle'r oedd consensws digonol i fwrw ymlaen a lle'r oedd gwaith pellach i'w wneud o hyd.

Roedd y cam diwygio cyntaf i'w gyflawni mewn pryd ar gyfer etholiadau 2021, a hynny drwy *Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru)*, a ddaeth i rym ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol ar 15 Ionawr 2020. Mae rhagor o wybodaeth am hyn i'w weld yn 35 yn yr Adroddiad Blynyddol.

Mae'r ail gam yn canolbwyntio ar gapasiti'r Senedd a'r system etholiadol. Ym mis Mehefin 2019, daeth y Comisiwn i'r casgliad na fyddai'n bosibl deddfu yn ystod y Senedd hon. Mae'r Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd, a sefydlwyd ym mis Medi 2019, yn ystyried adroddiad y Panel Arbenigol. Mae'r Pwyllgor yn bwrw ymlaen â gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid a'r cyhoedd mewn perthynas ag argymhellion 'cam 2' y Panel Arbenigol. Mae rhagor o wybodaeth am hyn i'w weld yn 35 yn yr Adroddiad Blynyddol.

Sefydlwyd Bwrdd Prosiect Diwygio'r Senedd, sy'n atebol i'r Prif Weithredwr, i oruchwylio'r gwaith o gynllunio a chyflawni strategaeth ddeddfwriaethol a rhaglen ddiwygio'r Comisiwn. Nid oedd ei gylch gwaith yn cynnwys goruchwylio'r gwaith o graffu ar y Bil. Mae'n cadw goruchwyliaeth strategol ar ymgysylltu â rhanddeiliaid, wedi'i lywio gan drafodaethau rheolaidd gyda'r Llywydd, er mwyn sicrhau bod yr elfennau o *Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru)* y mae'r Comisiwn yn gyfrifol amdanynt yn cael eu cyflawni'n effeithiol.

Mae Bwrdd Prosiect Diwygio'r Senedd yn gyfrifol am oruchwylio cefnogaeth i'r Llywydd a'r Comisiwn wrth iddynt ryngweithio â'r Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd.

Rhoddwyd Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar waith yn 2018 gyda Llywodraeth Cymru i lywio'r gwaith o baratoi elfennau pleidleisio yn 16 y Ddeddf. Bu hyn yn effeithiol o ran sicrhau fframwaith etholiadol cadarn ar

gyfer pleidleisio yn 16 yn etholiadau'r Senedd yng Nghymru, gan ragweld cyflwyno etholfraint cyfatebol fwy ar gyfer etholiadau llywodraeth leol hefyd, fel y cynigir ym Mil Llywodraeth Leol Llywodraeth Cymru. Sicrhaodd y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth fod y Llywydd a'r Comisiwn yn cael cyngor polisi, cyfreithiol a drafftio arbenigol yn ystod hynt y Bil mewn perthynas â chofrestru pleidleiswyr.

Mae swyddogion y Comisiwn yn mynychu Bwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru (BCEC) a Gweithgor Ymarferwyr Etholiadol Cymru. Mae Bwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru yn chwarae rhan allweddol wrth gydlynu'r gwaith o gynllunio digwyddiadau etholiadol Cymru gyfan, gweithgarwch, a moderneiddio a diwygio etholiadol. Mae'n hwyluso cydweithredu gwell rhwng swyddogion canlyniadau, swyddogion cofrestru etholiadol a phartneriaid allweddol yng Nghymru. Mae'r trafodaethau wedi helpu i lywio gwaith polisi a chynllunio'r gweithredu y Comisiwn. Fe wnaeth y Llywydd hefyd fynychu Bwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru yn ystod hynt y Bil.

Mae'r Comisiwn yn cyfrannu'n gadarnhaol i'r gwaith o godi ymwybyddiaeth pobl iau. Mae hyn yn cynnwys ymgysylltu'n uniongyrchol â phobl iau, gan gynnwys Aelodau'r Senedd Ieuenctid a gweithwyr addysg proffesiynol i sicrhau bod adnoddau'n effeithiol, a galluogi pobl iau i gyd-gynhyrchu'r adnoddau sy'n cael eu creu ar eu cyfer. Bydd yr adnoddau ar gael ym mis Mai 2020 ar y platfform Hwb.

Mae'r Comisiwn hefyd yn aelod o Grŵp Llywio Adnewyddu Democrataidd Llywodraeth Cymru ac mae'n rhan o'r is-grŵp pleidleisio yn 16. Mae'r grŵp hwn yn hwyluso cyfnewid gwybodaeth rhwng partneriaid allweddol ac ymgysylltu â rhanddeiliaid sy'n cynrychioli pobl ifanc, addysg a llywodraeth leol.

Mae diwygio'r Senedd yn sbardun pwysig i'r strategaeth gyfathrebu ar ei newydd wedd yn y cyfnod cyn etholiad 2021. Cytunodd y Comisiwn ar hyn ym mis Ionawr 2020.

**Cynllunio'n effeithiol i sicrhau trosglwyddiad llyfn a threfnus wrth newid enw y Cynulliad, sydd wedi'i drefnu ar gyfer mis Mai 2020 pe bai'r Bil yn cael ei basio;**

O dan gyfarwyddyd Bwrdd Prosiect Diwygio'r Senedd, sefydlwyd Tîm Integredig ar gyfer y Newid Enw i ddod â chynrychiolwyr ynghyd o

wasanaethau'r Comisiwn i gynllunio, cydlynu a gweithredu'r newid enw, ar draws y sefydliad a chyda phartneriaid allanol.

Bu'n gyfrifol am lunio arweiniad ar gyfer staff, Aelodau a'r cyhoedd. Mae wedi rhoi trefniadau llywodraethu syml ond effeithiol ar waith i lywio'r broses o gyflawni'r prosiect newid enw, gyda'r bwriad o alluogi gwaith craffu ôl-ddeddfwriaethol, fel y cytunodd y Comisiwn i'w wneud yn ystod y broses o graffu ar y Bil.

Mae'r tîm integredig wedi bod yn effeithiol wrth uwchgyfeirio risgiau a materion i'r bwrdd prosiect, ac wedi hynny i'r Bwrdd Gweithredol a'r Comisiwn benderfynu arnynt. Hefyd, lluniodd gynllun diwygiedig o ganlyniad i effaith y pandemig Covid-19, a hynny ddeufis cyn yr oedd y newid enw i fod i ddigwydd.

Bydd y newid enw yn digwydd ar 6 Mai 2020. Bydd gwerthusiad o'r prosiect a'r gwersi a ddysgwyd yn digwydd yn ystod 2020.

### Dechrau cynllunio sut y gall ein gwasanaethau gefnogi Aelodau yn y Chweched Senedd orau;

Fel y soniwyd, mae'r Bwrdd Gweithredol eisoes wedi ystyried ei flaenoriaethau ar gyfer y Chweched Senedd, a hyn wedi'i lywio gan ysgogwyr allweddol ar gyfer newid fel Brexit, awydd y cyhoedd am ymgysylltu gwleidyddol a senarios posibl sy'n deillio o Newid Cyfansoddiadol a Diwygio'r Senedd.

Mae sawl adolygiad o feysydd gwaith sydd naill ai ar y gweill neu'n dechrau cael eu cynllunio, a fydd yn llywio'r gwasanaethau a gaiff eu darparu i'r Aelodau yn y Chweched Senedd. Mae hyn yn cynnwys adolygiad o'n gwasanaethau cyfathrebu; y cymorth y mae'r tîm Cymorth Busnes i'r Aelodau yn ei ddarparu i'r Aelodau fel cyflogwyr, cymorth i Aelodau pwyllgorau; ac argymhellion Pwyllgor, gan gynnwys yr adolygiad sy'n cael ei gynnal gan y Pwyllgor Safonau Ymddygiad a'r Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd. Bydd y newidiadau hyn yn cael eu hwyluso gan rannau o'r Strategaeth Pobl, fel y system recriwtio newydd ac adolygiad o'r fframwaith cymhwysedd ar gyfer staff (gweler tudalen 69), a fydd yn ein galluogi i gael y sgiliau iawn yn y lle iawn.

Roedd ymarfer cynllunio'r Tîm Arweinyddiaeth ar gyfer 2021-22 i fod i gael ei gynnal ym mis Mawrth 2020 ond cafodd ei ohirio tan fis Ebrill 2020 oherwydd y pandemig Covid-19. Mae hyn wedi ein helpu i ail-osod

disgwyliadau ac ymgorffori syniadau newydd. Mae gallu'r sefydliad i addasu'n gyflym i ffyrdd newydd o weithio yn profi i fod yn gyfle dysgu rhagorol a fydd hefyd yn llywio strategaeth y dyfodol.

## Cwblhau ein hymateb i argymhellion y Pwyllgor Safonau Ymddygiad a gweithgareddau prif ffrwd ar draws y sefydliad i helpu i wreiddio diwylliant o urddas a pharch

Mae'r Comisiwn wedi ystyried holl argymhellion y Pwyllgor a gyfeiriwyd at y Comisiwn, ac mae nifer o newidiadau a gwelliannau wedi cael eu cyflwyno:

- Mae'r Comisiwn wedi darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth ar draws y sefydliad a'i wreiddio yn ein rhaglenni cynefino a datblygiad proffesiynol.
- Fe wnaethom ni gynnal ymgyrch lwyddiannus Hawl i Herio, ac fe wnaeth tua 100 o bobl, gan gynnwys gan Aelodau, eu staff a staff y Comisiwn, lofnodi'r addewid
- Drwy wneud gwaith archwilio dienw, mae gan y sefydliad y sicrwydd bod y tudalennau Urddas a Pharch yn hawdd eu defnyddio ac yn hygyrch.
- Mae ein Swyddogion Cyswllt yn darparu gwasanaeth pwysig y gellir ymddiried ynddo, gan roi cyngor, arweiniad a chefnogaeth emosiynol yn uniongyrchol i ddefnyddwyr lle bo angen.
- Mae cymorth allanol arbenigol ar gael i unrhyw achwynwyr ynghylch aflonyddu rhywiol neu ymddygiad rhywiol amhriodol.
- Mae Arolwg Urddas a Pharch yn cael ei gynnal bob blwyddyn sy'n cynnwys cyfres o gwestiynau ynghylch profiadau ac ymwybyddiaeth o'r gweithdrefnau a'r prosesau cwyno. Mae’n cael ei anfon at yr Aelodau, eu staff, a staff y Comisiwn.
- Mae'r arolwg cyfrinachol Buddsoddwyr mewn Pobl hefyd wedi rhoi cyfle cadarnhaol i gael mwy o adborth annibynnol.

Bydd gwaith yn y dyfodol yn cynnwys ymgyrch i gynyddu ymwybyddiaeth ymhellach, ochr yn ochr â'r adolygiad parhaus o'n polisïau a'n harferion i sicrhau bod diwylliant o urddas a pharch yn parhau i fod wedi'i wreiddio drwy'r sefydliad. Mae'r gwaith yn cynnwys lansio rhaglen e-ddysgu ynglŷn â rheoli ar gyfer yr holl Aelodau, eu staff cymorth a staff y Comisiwn.

Wrth i argymhellion yr adroddiad gael eu gweithredu, nododd y Pwyllgor Safonau Ymddygiad fod angen archwiliad mwy pellgyrhaeddol o'r drefn Safonau i sicrhau bod y broses yn deg ac yn gyfartal i bawb – dyma yw un o'r prif nodau yn adroddiad y Pwyllgor. Mae'r Pwyllgor wedi cychwyn archwiliad trylwyr o'r Cod Ymddygiad a gweithdrefnau cysylltiedig. Rhoddodd y Prif Weithredwr, fel y Swyddog Cyfrifyddu, dystiolaeth i'r Pwyllgor ar ddechrau'r ymchwiliad yn amlinellu'r meysydd yn y broses safonau sy'n peri pryder.

**Adolygu a datblygu gwaith y Senedd Ieuenctid, gan sicrhau arfer da parhaus mewn perthynas â diogelu a chysylltu'r gwaith yn effeithiol â gwaith y Senedd**

Cododd risgiau newydd a dros dro mewn perthynas â diogelu, ac fe'u nodwyd o wrth baratoi ar gyfer penwythnos preswyl Senedd Ieuenctid Cymru. Yn sgil gwaith gofalus o ran rheoli prosiectau, cynllunio a thrafodaethau traws-wasanaeth, cafodd mesurau rheoli eu rhoi ar waith i liniaru'r risgiau hyn.

Mae tîm y Senedd Ieuenctid Cymru wedi ymgymryd â hyfforddiant manwl, ac wedi ymdrin ag enghreifftiau o'r byd go iawn. Mae arbenigwyr allanol wedi canmol eu gwaith. Ar lefel gorfforaethol, mae'r sefydliad wedi gweithio i fynd i'r afael â'r holl risgiau diogelu a nodwyd ac i liniaru yn eu herbyn, ac mae wedi penodi Swyddog Diogelu penodedig yn yr adran Adnoddau Dynol i arwain ar yr holl faterion diogelu sy'n ymwneud â'r Senedd Ieuenctid Cymru a'r sefydliad ehangach a mynd i'r afael â hwy.

Yn ystod mis Mehefin 2019, cynhaliodd y Senedd Ieuenctid Cymru sesiwn ar y cyd ag Aelodau o'r Senedd. Mae mwy o fanylion am hyn a gwaith arall y Senedd Ieuenctid Cymru i'w gweld ar dudalen 60 yr Adroddiad Blynyddol hwn.

**Comisiynu adolygiad o recriwtio corfforaethol – edrych ar gylch bywyd cyfan y broses bresennol gyda'r nod o wella sut y gallwn fod yn fwy hyblyg wrth recriwtio yn y tymor hir. Bydd hyn yn rhedeg ochr yn ochr â (neu cyn) cyflwyno system recriwtio ar-lein newydd**

Cynhaliwyd yr adolygiad a gwnaeth nifer o argymhellion, a gyflwynwyd yn ystod y flwyddyn. Mae newid i frandio, gan ganolbwyntio ar ein pobl, eisoes wedi gweld cynnydd yn nifer ac amrywiaeth y ceisiadau. Gwnaed nifer o newidiadau i'r broses a lluniwyd canllawiau newydd ar gyfer paneli dethol.

Bydd y System Recriwtio ac Olrhain Ar-lein newydd, sydd i'w chyflwyno yn 2020, yn gwella'r broses i ymgeiswyr yn sylweddol. Yn ogystal â rhyddhau'r Tîm Recriwtio o dasgau gweinyddol dwys fel y gallant ddarparu cymorth ac arweiniad mwy rhagweithiol, bydd buddion eraill o'r system newydd hon o ran llywodraethu yn cynnwys: sicrhau cydymffurfiad â deddfwriaeth diogelu data (gan gynnwys GDPR); a gwella ystadegau ac adrodd. Bydd hyn yn darparu allbynnau mwy cadarn ac yn caniatáu inni fonitro gwariant yn well, mesur enillion ar fuddsoddiad a defnyddio ein cyllideb recriwtio yn fwy effeithlon.

## Rheolaeth ariannol a pherfformiad

Mae ein rheolaeth ariannol a pherfformiad yn adlewyrchu ethos gwelliant parhaus y Comisiwn. Rydym wedi parhau i wneud gwelliannau pellach o ran rheolaeth ariannol, adrodd a rhagweld i sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael.

Yn gynnar yn y flwyddyn, cynhaliwyd cyfres o ymarferion i flaenoriaethu cynigion buddsoddi. Rhoddodd hyn eglurder i'r Bwrdd Gweithredol ynghylch y flaenraglen waith a'r gronfa brosiectau. Ym mhob chwarter, caiff cyllidebau gwasanaethau a phrosiectau eu profi er mwyn sicrhau bod unrhyw newid yn lefel y cyllid sydd ei angen yn cael ei nodi'n brydlon a, lle bo hynny'n briodol, bod arian yn cael ei ailddyrannu.

Cynhaliwyd archwiliad mewnol ar asedau sefydlog yn yr hydref a chafwyd canlyniad cadarnhaol, lle aseswyd bod y trefniadau asedau sefydlog yn cynnig sicrwydd 'sylweddol'. Dyma'r lefel uchaf o sicrwydd, lle mae'r fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth yn ddigonol ac yn effeithiol.

Yn ystod y flwyddyn, mae nifer o fentrau wedi cael eu datblygu. Mae templed rheoli/rhagweld cyllidebau newydd wedi'i ddatblygu; mae hyn yn rhoi gwell syniad i ddeiliaid cyllidebau o'r gwariant gwirioneddol a'r gwariant a ragwelir, sydd yn ei dro yn galluogi gwell rheolaeth a chraffu mwy manwl. Cynhaliwyd ymarfer yn hydref 2019, ar draws pob gwasanaeth, i adolygu pob archeb prynu agored i gryfhau rheolaeth yn y maes hwn. Ymhellach, cynhaliwyd cyfres o sesiynau hyfforddi penodol ar gyfer gwasanaethau i wella dealltwriaeth, cydweithredu a chydymffurfiaeth.

Cafodd y ffaith bod gwaith rheoli ariannol effeithiol yn digwydd ei adlewyrchu yn y canlynol:

- archwiliad glân o gyfrifon 2018-19: adborth cadarnhaol gan Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a dim meysydd i'w gwella yn cael eu nodi gan Swyddfa Archwilio Cymru;
- gostyngiad yn y Ffi Archwilio ar gyfer 2018-19 am y bedwaredd flwyddyn yn olynol, gan adlewyrchu'r gwelliant mewn arferion gwaith a phapurau, yn gysylltiedig â dull archwilio o'r newydd sydd wedi arwain arwain at broses archwilio effeithlon ac esmwyth; a
- chanlyniad cadarnhaol o'r archwiliad mewnol.

Mae'r Prif Weithredwr a Bwrdd Gweithredol y Comisiwn yn croesawu craffu a throsolwg ar bob agwedd ar reolaeth ariannol. Rydym wedi parhau i gael ein herio gan y Comisiwn a'r Pwyllgor Cyllid ynghylch lefel a defnydd adnoddau'r Comisiwn. Ym mis Mai 2019, cyhoeddodd y Pwyllgor Ddatganiad o Egwyddorion[19] i gyrff a ariennir yn uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru i'w hystyried wrth lunio ceisiadau cyllidebol.

Mae'r adrannau Cyllid ac Adnoddau Dynol wedi arwain ar lunio gwybodaeth am y sefydliad, nifer y staff a chyllidebau, a chywirdeb y wybodaeth honno. Mae hyn wedi sicrhau buddion ledled y sefydliad wrth ddatblygu perchnogaeth o'r wybodaeth hon ar draws pob gwasanaeth, a fydd yn gweithio'n dda i ni at y dyfodol.

Mae'r tîm Cyllid wedi bod yn allweddol wrth ddatblygu opsiynau ar gyfer strategaeth a chyflwyno'r gyllideb yn y dyfodol, sy'n golygu bod y Comisiwn a'r Pwyllgor Cyllid wedi croesawu'r broses hon fel un dryloyw.

Mae dyfyniad o'r adroddiad craffu ar y gyllideb ddrafft ar gyfer 2020-21 gan y Pwyllgor Cyllid ym mis Hydref 2019 yn nodi:

> Nid yw'r Comisiwn bellach yn defnyddio unrhyw danwariant o'r gyllideb ar gyfer Penderfyniad y Bwrdd Taliadau er mwyn ariannu prosiectau Mae'r Pwyllgor yn croesawu gwahanu cyllidebau'r Bwrdd Taliadau a'r Comisiwn, fel yr argymhellwyd gan y Pwyllgor. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r tryloywder y mae hyn yn ei gynnig i'r Cynulliad pan ofynnir iddo gymeradwyo'r cyllid ar gyfer y Comisiwn.

## Nodi a rheoli risg

Mae'r system reolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus a ddyluniwyd i nodi, blaenoriaethu a mynd ati’n effeithiol i reoli'r risgiau o ran cyflawni nodau a blaenoriaethau strategol y Comisiwn, a chydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau.

Mae Bwrdd Gweithredol y Comisiwn yn cynnal adolygiadau o'i risgiau corfforaethol drwy gydol y flwyddyn. Mae'r Bwrdd Gweithredol hefyd yn gwneud gwaith rheolaidd i edrych tua’r gorwel ar gyfer risgiau sy'n codi, ac mae’n monitro’n agos ac yn adrodd ar y risgiau a nodir i sicrhau bod y rheolaethau'n ddigonol a bod cynnydd yn cael ei wneud ar gamau pellach i wella'r rheolaethau.

Ar ddechrau blwyddyn 2019-20, roedd y gofrestr risg gorfforaethol yn cynnwys rhai risgiau sylweddol sydd wedi aros ar y gofrestr oherwydd eu bod yn parhau i fod yn rhai difrifol, yn enwedig oherwydd eu heffaith bosibl, er gwaethaf ffocws craff ar gamau lliniaru.

Mae'r risgiau hyn yn ymwneud â'r materion a ganlyn:

- urddas a pharch (i'r Comisiwn ac i'r Aelodau);
- diwygio cyfansoddiadol;
- Brexit;
- seiberddiogelwch;
- cydymffurfio â'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR); a
- diogelu.

Codwyd risg newydd yn ystod y flwyddyn ynghylch y contract cymorth ar gyfer Legislative Workbench, sef cyfres o gymwysiadau rheoli deddfwriaethol sy'n caniatáu i'r Senedd a Llywodraeth Cymru reoli deddfwriaeth drwy gydol ei chylch bywyd. Tua diwedd y flwyddyn ariannol, ychwanegwyd risg arall ynghylch achosion y coronafeirws (Covid-19).

Mae seiberddiogelwch yn risg gorfforaethol a adolygir yn rheolaidd, gan gynnwys gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Mae'r bygythiad hwn yn parhau i fod yn uchel ac mae'r Comisiwn wedi ymateb drwy barhau i gyflwyno ystod o fesurau diogelu ac ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth.

Bydd seiberddiogelwch yn parhau i gael sylw craff yn y dyfodol a bydd yn parhau i fod yn rhan o'r cynllun archwilio mewnol blynyddol, gyda diweddariadau rheolaidd i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

Ymhlith y risgiau a gafodd eu dileu yn ystod y flwyddyn roedd: risgiau ynghylch capasiti'r Comisiwn i gyflawni yn erbyn nodau strategol y Comisiwn; a chapasiti adeiladau oherwydd y rheolaethau sydd ar waith i liniaru'r risgiau cymaint â phosibl; fodd bynnag, bydd y ddwy risg yn parhau i gael eu monitro ar lefel gwasanaeth. Mae newidiadau eraill i'r proffil risg yn cynnwys:

- dileu'r risg o ran diogelu'n benodol ynghylch y Senedd Ieuenctid, sydd bellach yn cael ei rheoli ar lefel gwasanaeth, ac yn lle hynny pennu risg ehangach o ran diogelu ar draws holl wasanaethau'r Comisiwn lle mae gweithgaredd yn ymwneud ag ymgysylltu â phobl ifanc;
- gwahanu'r risgiau o ran urddas a pharch i'r Comisiwn a safonau ymddygiad i'r Aelodau oherwydd y rheolaeth wahanol ar liniaru; ac
- asesu'r risg gyfansoddiadol ehangach, a fydd yn cynnwys Brexit.

Yn ogystal ag ystyried risgiau corfforaethol unigol yn fanwl a'u heffaith gronnus, mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg wedi cadw trosolwg ar effeithiolrwydd trefniadau rheoli risg. Croesawodd y Pwyllgor y gwaith asesu parhaus a gweledd risgiau a'r ffocws ar newid ac ansicrwydd a'r system newydd sy'n hwyluso'r broses o gofnodi, dadansoddi ac adrodd ar risg.

## Sicrwydd

### Fframwaith sicrwydd

Mae Fframwaith Sicrwydd y Comisiwn wedi parhau i fod yn ffordd effeithiol o gasglu tystiolaeth ynghylch lefelau sicrwydd i lywio datganiadau sicrwydd ar lefel gwasanaeth. Mae hyn yn ei dro wedi llywio datganiadau sicrwydd ar lefel cyfarwyddiaeth. Mae gwaith craffu a herio'r broses ar gyfer casglu tystiolaeth o sicrwydd a'r datganiadau sicrwydd gan Gadeirydd annibynnol Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg y Comisiwn yn ychwanegu haen arall o sicrwydd.

Mae hyn yn rhoi hyder bod egwyddorion llywodraethu da yn cael eu deall yn dda ac yn cael eu cymhwyso ar draws y Comisiwn, a bod gwaith yn digwydd i fynd i'r afael ag unrhyw feysydd o wendid cymharol.

## Archwilio mewnol

Yn ei rôl fel Pennaeth Archwilio Mewnol, mae Pennaeth Llywodraethu a Sicrwydd y Comisiwn yn darparu sicrwydd ar draws ystod o wasanaethau ac yn mynychu pob un o gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

Mae gwaith archwilio mewnol wedi cynnal y cydbwysedd archwiliadau ar draws gwasanaethau, gan gynnwys asedau sefydlog, rheoli absenoldeb a seiberddiogelwch. Mae'r achosion Covid-19 tuag at ddiwedd y flwyddyn ariannol wedi effeithio ar archwiliadau a drefnwyd ar gyfer y chwarter olaf. Adroddwyd ar y manylion hyn i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ac maent yn cael eu hadlewyrchu yn Adroddiad Blynyddol diwedd blwyddyn y Pennaeth Archwilio Mewnol.

Mae adroddiadau archwilio mewnol wedi nodi nifer o feysydd lle mae'r Comisiwn yn dangos arfer da o ran y systemau a'r rheolaethau sydd ar waith. Fodd bynnag, lle caiff gwendidau neu faterion eu nodi, mae'r rheolwyr yn parhau i gymryd camau cadarnhaol i fynd i'r afael ag argymhellion archwilio. Er enghraifft, mae'r Tîm Arweinyddiaeth wedi trafod canfyddiadau'r adroddiad rheoli absenoldeb yn fanwl ac wedi cytuno bod angen hyfforddi rheolwyr llinell ymhellach.

Mae Archwilio Mewnol ac Archwilio Cymru (fel archwilwyr allanol y Comisiwn) yn parhau i fod â pherthynas waith effeithiol yn unol â'r protocol gweithio ar y cyd. Mae Archwilio Cymru wedi ystyried y gwaith archwilio mewnol ar asedau sefydlog a chaffael.

Daw Barn ac Adroddiad Blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol 2019-20 i'r casgliad y gall y Swyddog Cyfrifyddu gymryd sicrwydd cymedrol bod y trefniadau i sicrhau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol wedi'u cynllunio a'u cymhwyso'n effeithiol yn effeithiol. Roedd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg o'r farn bod yr adroddiad yn asesiad da o'r gwaith a wnaed yn ystod y flwyddyn.

## Meysydd llywodraethu eraill

Lluniodd y Pennaeth Llywodraethu a Sicrwydd Adroddiad Blynyddol ar Dwyll, ac fe'i cyflwynodd i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ochr yn ochr â'i Farn ac Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2019-20. Ni chafodd unrhyw achosion o dwyll na chwythu'r chwiban eu nodi yn ystod 2019-20.

Dywedodd yr Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth fod un achos o golli data personol lle roedd yn ofynnol rhoi gwybod i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020. Mae'r Comisiwn yn parhau i ddefnyddio fframweithiau allanol a fframweithiau a safonau a gydnabyddir yn rhyngwladol i arwain ein gwaith llywodraethu a sicrwydd ynghylch seiber-ddiogelwch. Mae'r rhain yn ein helpu i barhau i ddatblygu a chryfhau ein rheolaethau seiber-ddiogelwch a sicrhau bod risgiau sy'n gysylltiedig â diogelwch gwybodaeth a data yn cael eu trin yn briodol.

Mae'r Comisiwn yn gwneud gwaith ffurfiol i fonitro cydymffurfiaeth yn erbyn rhwymedigaethau cyfreithiol a rheoliadol, a chaiff adroddiadau ar hyn eu cyhoeddi ar wefan y Comisiwn. Enghreifftiau o hyn yw'r Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol, yr Adroddiad Blynyddol ar Gydymffurfiaeth â'r Cynllun Ieithoedd Swyddogol, yr Adroddiad Amgylcheddol Blynyddol, ac Adroddiad Blynyddol yr Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth.

Mae'r Tîm Llywodraethu wedi datblygu modiwl llywodraethu penodol fel rhan o raglen Datblygu Rheolwyr y Comisiwn ac mae mewn cysylltiad â Phenaethiaid Gwasanaeth i dargedu a theilwra hyn ar gyfer timau penodol.

Mae cyfarfodydd rhwng y Tîm Llywodraethu a Phenaethiaid Gwasanaeth yn cael eu cynnal drwy gydol y flwyddyn ac, ochr yn ochr ag ymarfer y datganiad sicrwydd, maent yn helpu i nodi unrhyw feysydd sydd angen ffocws neu hyfforddiant pellach. Yna eir i'r afael â hyn drwy sesiynau briffio neu hyfforddiant pellach a ddarperir gan y Tîm Llywodraethu.

## Sicrwydd annibynnol

Mae Cynghorwyr Annibynnol anweithredol y Comisiwn[51] yn darparu cefnogaeth a her adeiladol i'r Comisiwn a'i waith. Eleni, mae trefniadau'r Cynghorwyr Annibynnol newydd wedi parhau i sefydlu eu hunain fel rhai sy'n ychwanegu gwerth i'r Comisiwn. Ar wahân i'w rolau pwysig ar y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a'r Pwyllgor Cynghori ar Daliadau, Ymgysylltu a'r Gweithlu, maent wedi helpu yn y gwobrau cydnabod staff cyntaf, wedi herio uwch reolwyr fel rhan o broses y Datganiad Sicrwydd ac wedi parhau i gynnig cefnogaeth yn ystod cyfnod anodd Covid-19.

Mae canlyniadau gweithgareddau cydnabyddiaeth allanol annibynnol hefyd yn bwysig i'r Comisiwn ac yn adlewyrchu'r diwylliant a'r amgylchedd cynhwysol y mae staff y Comisiwn yn gweithio ynddynt. Mae mwy o

wybodaeth am hyn i'w gweld yn adran defnyddio adnoddau'n ddoeth yr Adroddiad Blynyddol.

## Adolygiad o effeithiolrwydd y trefniadau rheoli a llywodraethu mewnol

Canolbwynt yr adolygiad o effeithiolrwydd y trefniadau llywodraethu oedd proses hunan-adolygu a herio a gwblhawyd gan y Bwrdd Rheoli ym mis Chwefror 2020.

Ystyriodd yr adolygiad hwn y datganiadau sicrwydd gan Gyfarwyddwyr a gafodd eu llunio gan ystyried datganiadau sicrwydd manwl gan bob Pennaeth Gwasanaeth. Mynychodd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg y cyfarfod i ddarparu her annibynnol.

Roedd yr adolygiad yn ymdrin â sicrwydd ynghylch y canlynol:

- y cynnydd o ran y llwyddiannau allweddol;
- ymwybyddiaeth o egwyddorion, rheolau a gweithdrefnau llywodraethu, a chydymffurfio â hwy, ac effeithiolrwydd y trefniadau llywodraethu;
- rheoli risgiau;
- y cynnydd o ran y meysydd a nodir i'w gwella; a
- meysydd i ganolbwyntio arnynt neu eu cryfhau.

## Effaith Covid-19

Aeth y Comisiwn ati'n gyflym i sefydlu trefniadau llywodraethu ynghylch ymateb y sefydliad i bandemig Covid-19. Mae'r prosesau ar gyfer gwneud penderfyniadau wedi esblygu wrth i ddifrifoldeb y sefyllfa ddod i'r amlwg.

Ddiwedd mis Chwefror, cafodd is-grŵp o'r Tîm Arweinyddiaeth, dan gadeiryddiaeth y Pennaeth Llywodraethu a Sicrwydd, ei greu i ganolbwyntio'n benodol ar drefniadau parhad busnes. Datblygodd y grŵp hwn fatrics helaeth o drothwyon, wrth i gyfnodau'r feirws fynd rhagddynt, a'r camau arfaethedig i'w cymryd yn deillio o hynny. Er enghraifft, roedd y trothwyon yn cynnwys yr achos cyntaf o'r feirws a gadarnhawyd yng Nghymru, yr achos cyntaf a gadarnhawyd yng Nghaerdydd, a'r achos cyntaf a gadarnhawyd yn y Comisiwn. Roedd y gweithredoedd yn cynnwys cyfyngu ar

nifer yr ymwelwyr, gohirio digwyddiadau ymgysylltu, cau'r ystâd yn llwyr a chyflwyno trefniadau gweithio gartref.

Cytunodd y Comisiynwyr ar y trothwyon a'r camau yn eu cyfarfod ar 16 Mawrth. Ymhlith y penderfyniadau a wnaed oedd gohirio ein holl weithgareddau ymgysylltu â'r cyhoedd a oedd ar y gweill, gan gynnwys Senedd Clwyd a oedd wedi'i drefnu ar gyfer mis Mehefin 2020. Hefyd, cytunodd y Comisiwn ar y cynnig y dylai'r Bwrdd Gweithredol (wedi'i ategu gan y Prif Gynghorydd Cyfreithiol ac uwch swyddogion cymorth y Llywydd) gymryd cyfrifoldeb gweithredol, gyda'r Llywydd yn bwynt uwchgyfeirio ar gyfer penderfyniadau gwleidyddol. Roedd y Bwrdd Gweithredol yn y ffurf hon yn cwrdd yn wythnosol i ddechrau ond newidiodd i gyfarfodydd dyddiol wrth i'r sefyllfa newid yn gyflym. Mae'r broses hon ar gyfer gwneud penderfyniadau wedi bod yn effeithiol.

Y peth pwysicaf yn ein holl waith cynllunio a gwneud penderfyniadau fu'r angen i sicrhau y gall yr Aelodau barhau i gwrdd i ymgymryd â busnes hanfodol, sef: busnes sy'n gysylltiedig â Covid-19, y rhaglen ddeddfwriaethol, a busnes arall y mae'n rhaid ei wneud o fewn amser penodol. Yn cyd-fynd â'r broses gorfforaethol ar gyfer gwneud penderfyniadau corfforaethol mae'r penderfyniadau a wnaed gan y Pwyllgor Busnes, gan gynnwys argymell nifer o Reolau Sefydlog dros dro, y cytunwyd arnynt yn y Senedd. Mae hyn wedi sicrhau bod modd i fusnes seneddol barhau, a llwyddwyd i gynnal y Cyfarfod Llawn rhithwir cyntaf erbyn 1 Ebrill 2020.

Roedd prosesau'r Pwyllgor Busnes ar gyfer gwneud penderfyniadau, ynghyd â chynllunio effeithiol a defnyddio adnoddau arbenigol i gefnogi'r fenter hon, yn golygu mai'r Senedd oedd y senedd gyntaf yn y DU (ac un o'r cyntaf yn y byd) i gynnal cyfarfod llawn rhithwir. Wrth i'r flwyddyn ariannol newydd ddechrau, mae cyfarfodydd llawn rhithwir wythnosol yn parhau ac mae Pwyllgorau hefyd wedi dechrau cyfarfod eto, hefyd ar ffurf rithwir.

Ers i'r cyfyngiadau symud ddod i rym ar 23 Mawrth, mae'r Bwrdd Gweithredol wedi parhau i arwain yn strategol ar ymateb y Comisiwn, ac mae'r Tîm Arwain llawn wedi cymryd lle cyfarfod yr is-grŵp. Mae'r ddau fforwm (y Bwrdd Gweithredol a'r Tîm Arweinyddiaeth) yn cwrdd ar ffurf rithwir. Rydym wedi addasu'n gyflym i'r dull rhithwir o weithredu ac nid yw hyn wedi amharu ar y broses o wneud penderfyniadau. Mae'r holl benderfyniadau a wnaed i fynd i'r afael â risgiau a materion sy'n gysylltiedig â'n hymateb i Covid-19 wedi'u cofnodi ac mae modd i bawb yn y Tîm Arwain gael mynediad atynt drwy Microsoft Teams. Mae'r log penderfyniadau hwn

eisoes yn profi ei werth fel cofnod a bydd yn fwy gwerthfawr yn y dyfodol fel proc i'r cof pan fyddwn yn edrych yn ôl ac yn dod i gasgliadau a'r hyn a ddysgwyd.

Fel rhagofal, mae trefniadau wedi'u rhoi ar waith a fyddai'n caniatáu i'r Cyfarwyddwr Adnoddau gael ei benodi'n Swyddog Cyfrifyddu Dros Dro fel trefniant wrth gefn, os na fydd y Swyddog Cyfrifyddu presennol yn gallu cyflawni ei rôl dros dro.

Mae Covid-19 yn parhau i fod yn fater byw y mae'r Comisiwn yn ei reoli o ddydd i ddydd. Rydym yn parhau i ddilyn cyngor diweddaraf y llywodraeth ac rydym hefyd wedi sefydlu rhwydwaith sylweddol gyda Senedd y DU a seneddau eraill ledled y byd.

## Meysydd ffocws a datblygu ar gyfer 2020-21

Mae'r sefydliad yn parhau i wynebu newid mawr yn y dyfodol. Mae cynlluniau'r Comisiwn ar gyfer diwygio etholiadol, goblygiadau Brexit ac agweddau eraill ar newid cyfansoddiadol a gweithrediad deddfwrfa fach gyda llwyth gwaith mawr sy'n cynyddu, yn golygu y bydd y Comisiwn yn parhau i weld pwysau sylweddol ar adnoddau y flwyddyn nesaf.

Y prif bryder strategol ar gyfer y flwyddyn i ddod o hyd yw ein gallu i barhau i gyflawni nodau a blaenoriaethau'r Comisiwn ar yr un pryd ag wynebu nifer o heriau digynsail: gan gynnwys goblygiadau ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd wrth i'r cyfnod trosglwyddo ddod i ben, a'r ansicrwydd a ddaw yn sgil effeithiau parhaus pandemig Covid-19.

Bydd y meysydd ffocws a datblygu penodol ar gyfer 2020-21 yn cynnwys:

- gwerthuso'r hyn a ddysgwyd ac effeithiau hirdymor y pandemig Covid-19;
- cynllunio'n effeithiol ar gyfer dechrau'r Chweched Senedd;
- gwaith parhaus ynghylch seiberddiogelwch ac adolygu diogelwch ffisegol i gadw i fyny â newid;
- gwerthuso sut rydym yn rheoli prosiectau a rhaglenni, gan gynnwys effeithiolrwydd y Swyddfa Rhaglen a Newid;
- sbarduno'r rhaglen cymorth i Bwyllgorau;

- ail-fywiogi ein hymdrechion ynghylch cydymffurfio â diogelu data / GDPR;
- adfywio ymwybyddiaeth o lywodraethu ar draws y sefydliad; a
- rhoi ffocws o’r newydd  i wasanaethau ynghylch ymgysylltu â'r cyhoedd, gyda chanlyniadau clir.

## Datganiad i gloi

I grynhoi, rwy'n hyderus bod y sefydliad yn dangos safon uchel iawn o ran llywodraethu. Mae cryfder hyn yn arbennig o bwysig wrth i'r Comisiwn barhau i wynebu heriau sylweddol. Rwy'n fodlon bod y gwendidau a nodwyd drwy ein prosesau sicrwydd wedi cael sylw, neu eu bod yn y broses o gael sylw. Rwyf hefyd yn fodlon, yn ystod y flwyddyn, bod y systemau a'r prosesau yn ein fframwaith llywodraethu wedi'u gweithredu a'u datblygu'n effeithiol.

**Manon Antoniazzi**
Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd
Dyddiad: 15 Mehefin 2020



# Staff a thaliadau

Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn nodi gwybodaeth ariannol a sylwebaeth am ddeiliaid swyddi yn y Comisiwn, staff ac eraill a delir gan y Comisiwn.

## Y Polisi Taliadau

Y Bwrdd Taliadau annibynnol (y Bwrdd), a sefydlwyd gan Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010, sy'n gyfrifol am bennu Cyflogau a Lwfansau'r Aelodau.  Daeth y Bwrdd yn weithredol ym mis Medi 2010.  Mae'r Fonesig Dawn Primarolo wedi cadeirio'r Bwrdd ers mis Medi 2015.

Mae'r Cadeirydd yn cael ei thalu ar raddfa o £333 y diwrnod. Caiff pedwar aelod arall y Bwrdd (Ronnie Alexander, y Fonesig Jane Roberts, Trevor Reaney a Michael Redhouse) £267 y diwrnod. Fel Bwrdd annibynnol, mae'n cyhoeddi ei Adroddiad Blynyddol ei hun. Roedd y Penderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau'r Aelodau, a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2019, yn pennu cyflog sylfaenol o £67,649 (£66,847 yn 2018-19) i Aelodau ar gyfer blwyddyn ariannol 2019–20. Roedd gan ddeiliaid y swyddi canlynol hawl i gael cyflogau ychwanegol fel a ganlyn:

| Swydd | O 1 Ebrill 2019 | O 1 Ebrill 2018 |
|---|---|---|
| Y Llywydd | £43,338 | £42,824 |
| Y Dirprwy Lywydd | £22,197 | £21,934 |
| Comisiynwyr y Senedd | £13,741 | £13,578 |
| Cadeiryddion pwyllgorau (uwch) [20] | £13,741 | £13,578 |
| Cadeiryddion pwyllgorau (is) [21] | £9,154 | £9,045 |
| Aelod o'r Pwyllgor Busnes | £9,154 | £9,045 |

Mae'r tabl hwn yn destun archwiliad

O fis Ebrill 2019, cafodd arweinydd grŵp gwleidyddol nad oes ganddo swyddogaeth weithredol lwfans deiliad swydd ychwanegol wedi'i gyfrifo gan ddefnyddio lefel sylfaenol o £13,741 (£13,578 yn 2018-19) a £1,057 (£1,044 yn 2018-19) ychwanegol am bob aelod o'r grŵp hyd at uchafswm cyflog o £38,052 (£37,601 yn 2018-19).

Nid yw'r Comisiwn yn rhoi buddion mewn nwyddau. Mae'r Aelodau o'r Senedd yn aelodau o Gynllun Pensiwn Aelodau o'r Senedd chaiff cyfrifon blynyddol eu cyhoeddi ar wahân ar gyfer y cynllun hwn ar wefan y Senedd [22].

Mae'r Comisiwn yn talu cyflogau a chostau cysylltiedig Gweinidogion Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol ac maent yn cael eu codi ar gyfrifon adnoddau'r Comisiwn er hwylustod gweinyddol. Mae Cyfrifon Adnoddau Cyfunol Llywodraeth Cymru yn cynnwys gwybodaeth am y datgeliad.

## Deiliaid swyddi yn y Comisiwn

Sefydlwyd y Comisiwn ym mis Mai 2007 o dan Adran 27 o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* (Deddf 2006). Mae'r Comisiwn yn cynnwys pum Comisiynydd: y Llywydd, sy'n cadeirio'r Comisiwn, a phedwar arall o Aelodau

[20] Y pwyllgorau oedd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg; y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig; y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol; y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu; Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau; y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau; y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol; y Pwyllgor Cyllid; y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus. Sefydlwyd pwyllgor newydd, sef y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd, ar 18 Medi 2019.

[21] Y pwyllgorau oedd: y Pwyllgor Deisebau; y Pwyllgor Safonau Ymddygiad. O 1 Mawrth 2020, talwyd Cadeirydd y Pwyllgor Safonau Ymddygiad ar y gyfradd uwch.

[22] www.senedd.cymru

o'r Senedd a benodir gan y Senedd. Rhestrir y Comisiynwyr a wasanaethodd yn ystod 2019–20 ar dudalennau 14-15.

Nid yw manylion eu pensiwn wedi'u cynnwys isod gan mai dim ond rhan o'u tâl sy'n berthnasol i'w gwaith fel Comisiynwyr. Ni all eu pensiwn cronedig a'u Gwerthoedd Trosglwyddo sydd Gyfwerth ag Arian Parod (CETV) fel Comisiynwyr gael eu gwahanu o'r cyfansymiau a gronnwyd.

Mae costau cyflogau'r Llywydd a'r Dirprwy Lywydd[23] yn cael eu talu'n uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru ac nid ydynt yn cael eu talu o gyfrifon adnoddau'r Comisiwn.

***Tabl 1: Cyfanswm tâl mewn ffigurau sengl***

| Enw a theitl | Cyflog | | Buddion Pensiwn[24 25] | | Cyfanswm | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2019-20 £'000 | 2018-19 £'000 | 2019-20 £'000 | 2018-19 £'000 | 2019-20 £'000 | 2018-19 £'000 |
| Elin Jones AS - Y Llywydd | 110-115 | 105-110 | 31 | 33 | 140-145 | 140-145 |
| Ann Jones AS - Y Dirprwy Lywydd | 85-90 | 85-90 | 33 | 35 | 120-125 | 120-125 |

Mae'r tabl hwn yn destun archwiliad.

[23] https://senedd.wales/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-presiding-officer/Pages/abt_us-deputy-presiding-officer.aspx

[24] Mae gwerth y buddion pensiwn a gronnwyd yn ystod y flwyddyn yn cael ei gyfrifo fel (y cynnydd gwirioneddol yn y pensiwn wedi'i luosi ag 20) namyn (y cyfraniadau a wnaed gan yr unigolyn). Nid yw'r cynnydd gwirioneddol yn cynnwys cynnydd oherwydd chwyddiant neu unrhyw gynnydd neu ostyngiadau yn sgil trosglwyddo hawliau pensiwn. (Dangosir y buddion pensiwn i'r £1,000 agosaf).

[25] Gall rhai aelodau orfod talu treth Lwfans Blynyddol o ganlyniad i groniad pensiwn yn ystod y cyfnod cyfrifyddu.

***Tabl 2: Y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd - buddion pensiwn***

| Enw a theitl | Gwir gynnydd mewn pensiwn £'000 | Cyfanswm y pensiwn cronedig £'000 | CETV ar 31 Mawrth 2020 £'000 | CETV ar 31 Mawrth 2019 £'000 | Gwir gynnydd mewn CETV £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Elin Jones AS - Y Llywydd | 0-2.5 | 40-45 | 774 | 717 | 17 |
| Ann Jones AS - Y Dirprwy Lywydd | 0-2.5 | 35-40 | 747 | 715 | 31 |

Mae'r tabl hwn yn destun archwiliad.

Clerc y Senedd (a benodir o dan Adran 26 o Ddeddf 2006) yw Prif Weithredwr y Comisiwn a'i Brif Swyddog Cyfrifyddu. Yn ymarferol, mae'r Comisiwn wedi dirprwyo'i gyfrifoldebau gweithredol i'r Prif Weithredwr a'r Clerc, gyda rhai eithriadau. Mae ei staff yn cael eu penodi o dan baragraff 3 o Atodlen 2 i Ddeddf 2006. Mae'r Comisiwn yn annibynnol ar Weinidogion Llywodraeth Cymru.

Mae gan y Comisiwn ddyletswydd i sicrhau bod y Senedd yn cael yr eiddo, y staff a'r gwasanaethau sydd eu hangen arni i ymgymryd â'i rhwymedigaethau statudol. Mae hyn yn sicrhau y gall y Senedd a'i phwyllgorau gynnull. Mae hefyd yn annog ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r broses ddemocrataidd ac yn hybu ymgysylltiad â'r broses honno, ac mae'n cefnogi'r uchelgais o wneud y Senedd yn gorff seneddol hygyrch ac effeithiol sy'n ennyn hyder pobl Cymru.

## Cynghorwyr Annibynnol ac aelodau pwyllgorau

Mae Comisiwn y Senedd yn penodi Cynghorwyr Annibynnol i sicrhau y caiff Comisiynwyr ac uwch dîm rheoli'r Senedd eu cynorthwyo a'u herio mewn modd adeiladol wrth eu gwaith. Rhestrir y Cynghorwyr Annibynnol a wasanaethodd yn ystod 2019–20 ar dudalennau 16-17.

## Uwch-aelodau o staff y Comisiwn

Penodir staff y Comisiwn, yn unol ag amodau a thelerau a bennir gan y Comisiwn, yn ôl teilyngdod ar sail cystadleuaeth deg ac agored. Mae'r dull hwn yn unol â threfniadau'r gwasanaeth sifil. Nid yw staff yn aelodau o'r Gwasanaeth Sifil ond mae ganddynt hawl i fuddion o dan drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil.

Dangosir uwch-aelodau o staff y Comisiwn yn y tabl isod. Cytunwyd ar y swyddi cyfarwyddwyr hyn yn unol ag Offeryn Dirprwyo'r Comisiwn. Mae'r

Cyfarwyddwyr wedi dweud nad oes ganddynt unrhyw fuddiannau trydydd parti arwyddocaol a allai wrthdaro â'u dyletswyddau.

Mae'r uwch-reolwyr y mae'r adroddiad hwn yn berthnasol iddynt yn cael eu penodi am gyfnod penagored. Os terfynir eu cyflogaeth yn gynnar am unrhyw reswm ac eithrio camymddygiad neu ymddiswyddiad, bydd yr unigolyn yn cael iawndal, fel y nodir yng Nghynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil.

| Enw | Teitl a phresenoldeb mewn cyfarfodydd |
|---|---|
| Manon Antoniazzi | Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd<br>Roedd Manon Antoniazzi yn bresennol mewn saith allan o saith cyfarfod y Comisiwn, pedwar allan o bedwar cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a phedwar allan o bedwar cyfarfod y Pwyllgor Cynghori ar Daliadau, Ymgysylltu a Gweithlu. |
| Siwan Davies | Cyfarwyddwr Busnes y Senedd<br>Roedd Siwan Davies yn bresennol mewn saith allan o saith cyfarfod y Comisiwn a dau allan o bedwar cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. |
| Dave Tosh | Cyfarwyddwr Adnoddau'r Senedd<br>Roedd Dave Tosh yn bresennol mewn pump allan o saith cyfarfod y Comisiwn, pedwar allan o bedwar cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a phedwar allan o bedwar cyfarfod y Pwyllgor Cynghori ar Daliadau, Ymgysylltu a Gweithlu. |
| Craig Stephenson - hyd at 13 Medi 2019 | Cyfarwyddwr Ymgysylltu<br>Roedd Craig Stephenson yn bresennol mewn tri allan o dri chyfarfod y Comisiwn. |
| Arwyn Jones - o 9 Medi 2019 | Cyfarwyddwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu y Senedd<br>Roedd Arwyn Jones yn bresennol mewn pedwar allan o bedwar cyfarfod y Comisiwn, dau allan o ddau gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a dau allan o ddau gyfarfod y Pwyllgor Cynghori ar Daliadau, Ymgysylltu a Gweithlu. |
| Elisabeth Jones - hyd at 31 Mai 2019 | Prif Gynghorydd Cyfreithiol |

Heblaw Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd, nid yw'r cyfarwyddwyr yn mynd i bob un o gyfarfodydd y Comisiwn a'i Bwyllgorau. Mae'r cyfarwyddwyr yn bresennol mewn cyfarfodydd sy'n cyfateb i'w cyfrifoldebau unigol.

***Tabl 3: Cyfanswm cydnabyddiaeth mewn ffigurau sengl***

| Enw | Cyflog (£'000) | | Buddion pensiwn (i'r £1,000 agosaf) [26] | | Cyfanswm (£'000) | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **2019-20** | **2018-19** | **2019-20** | **2018-19** | **2019-20** | **2018-19** |
| **Manon Antoniazzi** | 135-140 | 130-135 | 54 | 51 | 190-195 | 180-185 |
| **Siwan Davies** o 4 Chwefror 2019 ymlaen | 90-95 | 10-15 | 35 | 6 | 125-130 | 15-20 |
| **Adrian Crompton** hyd at 20 Gorffennaf 2018 | - | 35-40 | - | 8 | - | 45-50 |
| **Dave Tosh** | 110-115 | 110-115 | 47 | 38 | 155-160 | 145-150 |
| **Craig Stephenson** hyd at 13 Medi 2019 | 45-50 | 100-105 | 22 | 92 | 65-70 | 190-195 |
| **Arwyn Jones** O 9 Medi 2019 ymlaen | 45-50 | - | 19 | - | 65-70 | - |
| **Elisabeth Jones** hyd at 31 Mai 2019 | 10-15 | 80-85 | 22 | 16 | 35-40 | 95-100 |

Mae'r tabl hwn yn destun archwiliad.

Mae "cyflog" yn cynnwys cyflog gros, tâl goramser a lwfansau recriwtio a chadw.

Nid yw Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd na'r Cyfarwyddwyr yn cael taliadau bonws na buddion mewn nwyddau.

Y cyflog cyfwerth â blwyddyn lawn 2019-20 i Elisabeth Jones oedd £101,346, i Craig Stephenson oedd £101,346 ac i Arwyn Jones oedd £86,228. Y cyflog cyfwerth â blwyddyn lawn yn 2018-19 i Adrian Crompton oedd £124,953 ac i Siwan Davies oedd £89,817.

Gadawodd Elisabeth Jones Gomisiwn y Senedd ar 31 Mai 2019 o dan delerau y cytunwyd arnynt a darparwyd ar gyfer y gost o £115-120,000 o fewn cyfrifon 2018-19 ac fe'u talwyd yn 2019-20. Gadawodd Craig Stephenson Gomisiwn y Senedd ar 13 Medi 2019 o dan delerau y cytunwyd arnynt a darparwyd ar

[26] Mae gwerth y buddion pensiwn a gronnwyd yn ystod y flwyddyn yn cael ei gyfrifo fel (y cynnydd gwirioneddol yn y pensiwn wedi'i luosi ag 20) namyn (y cyfraniadau a wnaed gan yr unigolyn). Nid yw'r cynnydd gwirioneddol yn cynnwys cynnydd oherwydd chwyddiant neu unrhyw gynnydd neu ostyngiadau yn sgil trosglwyddo hawliau pensiwn.

gyfer y gost o £125-130,000 o fewn cyfrifon 2018-19 ac fe'u talwyd yn 2019-20. Roedd y taliadau hyn yn rhan o Gynllun Ymadael Gwirfoddol ehangach y manylir arno yn nodyn 2D o'r cyfrifon hyn.

Mae swydd y Prif Gynghorydd Cyfreithiol, a ddaliwyd yn flaenorol gan Elisabeth Jones, wedi bod yn wag ers 31 Mai 2019. Darperir cyngor cyfreithiol i'r Comisiwn ar hyn o bryd gan Huw Williams ar sail ymgynghoriaeth dros dro. Yn ystod mis Mehefin a mis Gorffennaf 2019 darparwyd y gwasanaeth hwn i'r Comisiwn ar sail secondiad gan Huw Williams drwy Geldards LLP ar gost o £19,000. Rhwng 1 Awst 2019 a 31 Mawrth 2020, darparwyd y gwasanaeth hwn i'r Comisiwn gan Huw Williams ar sail ymgynghoriaeth ar gost o £80,000.

## Cyflogau staff y Comisiwn

Datgelir y berthynas rhwng canolbwynt taliadau'r cyfarwyddwr sydd ar y cyflog uchaf yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020 a thaliad canolrifol staff y Comisiwn yn y tabl a ganlyn. Cyflogau yw tâl blynyddol amser llawn cyfatebol yr holl staff (gan gynnwys staff asiantaeth a staff dros dro) fel ar 31 Mawrth 2020. Nid yw'n cynnwys cyfraniadau Yswiriant Gwladol na Blwydd-daliad y Cyflogwr.  Nid oes unrhyw fuddion mewn nwyddau na bonysau sy'n gysylltiedig â pherfformiad yn daladwy yn 2019-20 nac yn 2018-19.

| Mesur | 2019-20 Cyflog £ | 2019-20 Cyflog £ |
|---|---|---|
| Band y cyfarwyddwr sydd ar y cyflog uchaf | 135,000 - 140,000 | 130,000 - 135,000 |
| Cyfanswm taliad canolrifol | 37,647 | 34,315 |
| Cymhareb | 3.65 | 3.86 |

Mae'r tabl hwn yn destun archwiliad.

Y prif ffactor sy'n cyfrannu at y cynnydd o oddeutu deg y cant yn y cyflog canolrifol yw'r canolbwynt cyflog yn symud o un pwynt cyflog i'r llall.  Mae'r gymhareb ei hun wedi gostwng tua phump y cant, gan fod cyflog y Cyfarwyddwr ar y cyflog uchaf hefyd wedi symud i fyny un band.

Yn 2019-20, ac yn 2018-19, ni roddwyd unrhyw daliadau a oedd yn fwy na chyflog y cyfarwyddwr a oedd ar y cyflog uchaf. Roedd y taliadau yn amrywio

o £18,000, a oedd yn sicrhau bod gweithwyr yn cael Cyflog Byw, i £138,000 (£18,000 i £132,000 yn 2018-19).

Mae cyfanswm y tâl yn cynnwys cyflog. Nid yw'n cynnwys taliadau diswyddo, cyfraniadau pensiwn y cyflogwr na gwerth trosglwyddo pensiynau sy'n gyfwerth ag arian parod.

## Pensiynau

***Tabl 4: Uwch-reolwyr – buddion pensiwn***

| Gwir gynnydd mewn pensiwn [27] £'000 | Cyfanswm y pensiwn cronedig [28] £'000 | CETV ar 31 Mawrth 2020 [29] £'000 | CETV ar 31 Mawrth 2019 £'000 | Gwir gynnydd mewn CETV £'000 |
|---|---|---|---|---|
| ***Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd:*** *Manon Antoniazzi* | | | | |
| 2.5-5.0 | 15-20 | 257 | 206 | 31 |
| ***Cyfarwyddwr Busnes y Senedd:*** *Adrian Crompton – hyd at 20 Gorffennaf 2018* | | | | |
| Amherthnasol | Amherthnasol | Amherthnasol | 891 | Amherthnasol |
| ***Cyfarwyddwr Busnes y Senedd:*** *Siwan Davies* | | | | |
| 0-2.5 | 0-5 | 28 | 4 | 18 |
| ***Cyfarwyddwr Adnoddau'r Senedd****: Dave Tosh* | | | | |
| 2.5-5.0 | 45-50 | 701 | 633 | 32 |
| ***Cyfarwyddwr Gwasanaethau'r Comisiwn:*** *Craig Stephenson – hyd at 13 Medi 2019* | | | | |
| 0-2.5 ynghyd â chyfandaliad o 0-2.5 | 45-50 ynghyd â chyfandaliad o 140-145 | 1,059 | 1,033 | 14 |
| ***Cyfarwyddwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu:*** *Arwyn Jones - o 9 Medi 2019* | | | | |
| 0-2.5 | 0.5 | 10 | - | 6 |
| ***Prif Gynghorydd Cyfreithiol:*** Elisabeth Jones | | | | |
| 0-2.5 | 40-45 | 884 | 856 | 23 |

Mae'r tabl hwn yn destun archwiliad.

[27] Gwir gynnydd yn y pensiwn a'r cyfandaliad cysylltiedig ar oedran pensiwn.

[28] Cyfanswm y pensiwn cronedig ar oedran pensiwn, a chyfandaliad cysylltiedig ar 31 Mawrth 2020 ar gyfer deiliaid swyddi cyfredol, ac ar y dyddiad y gwnaethant roi'r gorau i ddal swydd ar gyfer deiliaid swyddi blaenorol.

[29] Mae gwerth y buddion pensiwn a gronnwyd yn ystod y flwyddyn yn cael ei gyfrifo fel (y cynnydd gwirioneddol yn y pensiwn wedi'i luosi â 20) plws (y cynnydd gwirioneddol mewn unrhyw gyfandaliad) namyn (y cyfraniadau a wnaed gan yr unigolyn). Nid yw'r cynnydd gwirioneddol yn cynnwys cynnydd oherwydd chwyddiant neu unrhyw gynnydd neu ostyngiadau yn sgil trosglwyddo hawliau pensiwn.

## Pensiynau'r Gwasanaeth Sifil

Darperir buddion pensiwn i staff y Senedd drwy drefniadau Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. O 1 Ebrill 2015 cyflwynwyd cynllun pensiwn newydd ar gyfer gweision sifil – sef y Cynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill neu alpha, sy'n darparu buddion ar sail gyrfa ar gyfartaledd gydag oedran pensiwn arferol sy'n hafal i Oedran Pensiwn y Wladwriaeth yr aelod (neu 65 oed os yw'n uwch). O'r dyddiad hwnnw, ymunodd yr holl weision sifil newydd eu penodi a mwyafrif y rhai a oedd eisoes yn gweithio yn y gwasanaeth ag alpha. Cyn y dyddiad hwnnw, roedd gweision sifil yn cymryd rhan ym Mhrif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Mae pedair adran i Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil: tair adran sy’n darparu buddion ar sail cyflog terfynol (sef y cynlluniau classic, premium, classic plus) gydag oedran pensiwn arferol o 60; ac un adran sy’n darparu buddion ar sail gyrfa gyfan (nuvos) gydag oedran pensiwn arferol o 65.

Ni chaiff y trefniadau statudol hyn eu hariannu a chaiff costau’r buddion eu talu o swm o arian y bydd Senedd y DU yn pleidleisio arno bob blwyddyn. Bydd pensiynau sy’n daladwy o dan y cynlluniau classic, premium, classic plus, nuvos ac alpha yn cynyddu’n flynyddol yn unol â deddfwriaeth yn ymwneud â Chynyddu Pensiynau.  Arhosodd aelodau presennol y PCSPS a oedd o fewn 10 mlynedd i'w hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 yn y PCSPS ar ôl 1 Ebrill 2015. Bydd y rhai a oedd rhwng 10 mlynedd a 13 mlynedd a 5 mis i’w hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 yn newid i alpha rywbryd rhwng 1 Mehefin 2015 a 1 Chwefror 2022. Mae pob aelod sy'n newid i alpha wedi bancio eu buddion o PCSPS, gyda'r rhai sydd â buddion cynharach yn un o adrannau cyflog terfynol PCSPS yn cael y buddion hynny yn seiliedig ar eu cyflog terfynol pan fyddant yn gadael alpha (Mae'r ffigurau pensiwn a ddyfynnir ar gyfer swyddogion yn dangos pensiwn a enillwyd ym Mhrif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) neu’r cynllun alpha – fel y bo'n briodol. Os oes gan swyddog fuddion yn y PCSPS ac alpha, y ffigur a ddyfynnir yw gwerth cyfun ei fuddion yn y ddau gynllun.)

Gall yr aelodau a ymunodd o fis Hydref 2002 ddewis naill ai’r trefniant â buddion wedi’u diffinio priodol neu bensiwn cyfranddeiliaid ‘prynu arian’ gyda chyfraniad gan y cyflogwr (cyfrif pensiwn partnership).

Mae cyfraniadau gweithwyr yn gysylltiedig â chyflog ac maent yn amrywio rhwng 4.6 y cant ac 8.05 y cant o enillion pensiynadwy ar gyfer aelodau y

cynlluniau classic, premium, classic plus, nuvos ac alpha. Mae buddion yn y cynllun classic yn crynhoi ar gyfradd o 1/80 o gyflog pensiynadwy terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal â hyn, telir cyfandaliad sy'n gyfwerth â'r tair blynedd cyntaf o bensiwn pan fydd rhywun yn ymddeol. Mae buddion yn y cynllun premium yn crynhoi ar gyfradd o 1/60 o gyflog pensiynadwy terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth.  Yn wahanol i gynllun classic, nid oes cyfandaliad awtomatig.  Yn ei hanfod, cyfuniad yw'r cynllun classic plus, gyda'r buddion sy'n gysylltiedig â gwasanaeth cyn 1 Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo'n fras fel y gwneir yn y cynllun classic a'r buddion am wasanaeth o fis Hydref 2002 ymlaen wedi'u cyfrifo fel y gwneir yn y cynllun premium.  Gyda chynllun nuvos, mae aelod yn cronni pensiwn yn seiliedig ar ei gyflog pensiynadwy yn ystod y cyfnod y bu'n aelod o'r cynllun.  Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth), telir 2.3 y cant o gyflog pensiynadwy'r aelod yn ystod blwyddyn y cynllun i'w gyfrif pensiwn a chaiff y pensiwn cronedig ei uwchraddio yn unol â deddfwriaeth yn ymwneud â Chynyddu Pensiynau.  Mae buddion cynllun alpha yn cronni mewn ffordd debyg i gynllun nuvos, heblaw bod y gyfradd gronni yn 2.32 y cant. Ym mhob achos, gall aelodau ddewis ildio pensiwn am gyfandaliad hyd at y terfynau a nodir yn *Neddf Cyllid 2004*.

Trefniant pensiwn cyfranddeiliaid yw'r cyfrif pensiwn partnership.  Mae'r cyflogwr yn talu cyfraniad sylfaenol o rhwng 8 y cant a 14.75 y cant (yn dibynnu ar oedran yr aelod) i gynnyrch pensiwn cyfranddeiliaid a ddewisir gan y cyflogai gan y darparwr penodedig – sef Legal & General. Nid oes yn rhaid i'r cyflogai gyfrannu ond, os bydd yn gwneud hynny, bydd y cyflogwr yn rhoi cyfraniad cyfatebol hyd at derfyn o 3 y cant o gyflog pensiynadwy (yn ychwanegol at gyfraniad sylfaenol y cyflogwr).  Mae cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.5 y cant ychwanegol o gyflog pensiynadwy i dalu cost yswiriant budd risg a ddarperir yn ganolog (marwolaeth mewn swydd ac ymddeoliad oherwydd salwch).

Y pensiwn cronedig a ddyfynnir yw'r pensiwn y bydd hawl gan yr aelod i'w gael pan fydd yn cyrraedd oedran pensiwn, neu yn union ar ôl iddo beidio â bod yn aelod gweithredol o'r cynllun os yw eisoes wedi cyrraedd oedran pensiwn neu os yw'n hŷn na hynny.  Oedran pensiwn aelodau cynlluniau classic, premium a classic plus yw 60 oed, a 65 yw'r oed ar gyfer aelodau cynllun nuvos, a'r oedran uchaf, sef 65 oed, neu Oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar gyfer aelodau o alpha.  (Mae'r ffigurau pensiwn a ddyfynnir ar gyfer uwch-aelodau o staff yn dangos pensiwn a enillwyd ym Mhrif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) neu'r cynllun alpha – fel y bo'n briodol. Os

oes gan y swyddog fuddion yn y PCSPS ac alpha, y ffigur a ddyfynnir yw'r gwerth cyfunol o'i fuddion yn y ddau gynllun, ond noder y gallai cyfran o'r pensiwn hwnnw fod yn daladwy o wahanol oedrannau).

Ceir rhagor o fanylion am drefniadau Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar y wefan **www.civilservicepensionscheme.org.uk**

## Y gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod (CETV)

Y Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod (CETV) yw gwerth cyfalaf buddion'r cynllun pensiwn a gronnwyd gan aelod ar adeg benodol yn ôl asesiad yr actwari.  Y budd–daliadau a gaiff eu prisio yw buddion cronedig yr aelod ac unrhyw bensiwn amodol i briod sy'n daladwy o'r cynllun.  Taliad yw CETV a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn i ddiogelu buddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddion a gronnwyd eisoes yn ei gynllun blaenorol.  Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn nodi'r buddion a gronnwyd gan yr unigolion o ganlyniad i gyfanswm cyfnod ei aelodaeth o'r cynllun pensiwn, nid dim ond ei wasanaeth mewn swydd uwch sy'n destun datgeliad.

Mae'r ffigurau yn cynnwys gwerth unrhyw fuddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r unigolyn wedi'i drosglwyddo i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddion pensiwn ychwanegol a gronnwyd i'r aelod oherwydd iddynt brynu buddion pensiwn ychwanegol ar eu cost eu hunain. Cyfrifir CETV yn unol â *Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygio) 2008* ac nid yw'n ystyried unrhyw ostyngiad gwirioneddol na phosibl mewn buddion o ganlyniad i'r Dreth Lwfans Gydol Oes a all fod yn ddyledus pan hawlir buddion pensiwn.

## Gwir gynnydd mewn CETV

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn CETV a ariennir gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys cynnydd yn y pensiwn cronedig oherwydd chwyddiant, cyfraniadau sy'n cael eu talu gan y gweithiwr (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall) ac mae'n defnyddio ffactorau prisio cyffredin y farchnad ar ddechrau ac ar ddiwedd y cyfnod.

## Rhwymedigaethau pensiwn

Mae'r modd yr ymdrinnir â rhwymedigaethau pensiwn a manylion y cynlluniau pensiwn perthnasol wedi'u nodi yn y Datganiad o Bolisïau Cyfrifyddu yn y cyfrifon hyn.

## Cynllun Ymadael Gwirfoddol

Gellir gweld manylion y rhwymedigaethau sy'n codi o ganlyniad i Gynllun Ymadael Gwirfoddol 2018-19 yn Nodyn 2 D (ar dudalen 173).

## Nifer y staff

Niferoedd staff yn ôl categori

Mae'r holl uwch-reolwyr a'r holl staff yn cael eu cyflogi gan y Comisiwn. Roedd nifer cyfartalog y staff cyfwerth ag amser llawn a gyflogwyd gan y Comisiwn yn ystod y flwyddyn (gan gynnwys uwch-reolwyr) fel a ganlyn:

***Tabl 5: Nifer gyfartalog y staff cyfwerth ag amser llawn***

| Categori | 2019-20 | 2018-19 |
|---|---|---|
| Staff a gyflogwyd | 434.72 | 432.49 |
| Staff ar secondiad | 4.65 | 2.29 |
| Staff dros dro / achlysurol | 14.02 | 8.01 |
| **Cyfanswm** | **453.39** | **442.79** |

Mae'r tabl hwn yn destun archwiliad.

Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, roedd y Comisiwn yn cyflogi 459 o staff cyfwerth ag amser llawn (454 ar 31 Mawrth 2019).

***Tabl 6: Cyfansoddiad staff yn ôl rhywedd a band cyflog****

| **Categori** | **31 Mawrth 2020** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Menywod | Dynion | Anneuaidd | Hunaniaeth Rhywedd Arall | **Cyfanswm** |
| Cyfarwyddwyr | 2 | 2 | 0 | 0 | **4** |
| Staff | 245 | 234 | 0 | 0 | **479** |
| **Cyfanswm** | **247** | **236** | **0** | **0** | 483 |

| **Categori** | **31 Mawrth 2019** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Menywod | Dynion | Anneuaidd | Hunaniaeth Rhywedd Arall | **Cyfanswm** |
| Cyfarwyddwyr | 3 | 2 | 0 | 0 | **5** |
| Staff | 241 | 232 | 0 | 0 | **473** |
| **Cyfanswm** | **244** | **234** | **0** | **0** | **478** |

*Yn y tablau uchod caiff staff a gyflogir eu nodi fel niferoedd cyfwerth ag amser llawn. Fodd bynnag, nodir fod y dadansoddiad o ran rhywedd yn niferoedd gwirioneddol.

Nid yw cynghorwyr annibynnol wedi'u cynnwys yn y ffigurau cyfwerth ag amser llawn na'r dadansoddiad rhywedd uchod.

## Data absenoldeb salwch

Y gyfradd absenoldeb salwch gyffredinol am y flwyddyn oedd 4.00 y cant (3.66 y cant yn 2018-19), neu 8.80 (7.75 yn 2018-19) diwrnodau gwaith cyfartalog y pen. Mae'r Comisiwn yn cadw ffocws strategol ar reoli absenoldeb ac mae'n cefnogi yn hyn o beth drwy gymorth rheolwyr llinell, yr Adran Adnoddau Dynol ac Iechyd Galwedigaethol. Mae absenoldeb sy'n gysylltiedig â materion iechyd meddwl a lles bellach i gyfrif am 29% o'r absenoldeb (yn is na'r 35% yn 2018-19). Rydym yn parhau i ganolbwyntio ar sut y gallwn gefnogi staff er mwyn gwella eu llesiant.

Rydym wedi parhau â'n gwaith ar gynlluniau i gefnogi a gwella iechyd a llesiant. Eleni, darparwyd amrywiaeth o sesiynau ymwybyddiaeth ar ganser, dementia, a'r menopos, ac rydym yn parhau i ganolbwyntio ar iechyd meddwl, ac yn darparu sesiynau hyfforddiant ar reoli emosiynau, straen a deall iechyd meddwl a llesiant ar gyfer rheolwyr.

Buom yn canolbwyntio hefyd ar les dynion, a dathlwyd Diwrnod Rhyngwladol Iechyd Dynion gyda brecwast a thrafodaeth banel am faterion iechyd meddwl dynion ac am ganser y prostad a chanser y coluddyn. Cafwyd nifer o weithgareddau drwy gydol mis Tachwedd, fel MOT iechyd dynion gyda'r Ymgynghorydd Iechyd Galwedigaethol, i gefnogi'r diwrnod hwnnw.

Cynhaliwyd arolwg lles hefyd, â'r nod o ddeall y meysydd yr oedd staff yn teimlo a oedd yn bwysig o ran llesiant, fel bod modd i ni ganolbwyntio ar y gweithgareddau hynny fel rhan o strategaeth llesiant ar ei newydd wedd. Rydym o'r farn y bydd y gwaith hwn yn cefnogi ac yn gwella lles gweithwyr, ac yn arwain at leihad parhaus o ran lefelau absenoldeb.

## Anabledd

Mae gennym gamau ar waith i gefnogi gweithwyr sy'n nodi bod ganddynt anabledd. Mae ein Polisi Llenwi Swyddi Gwag yn cyfeirio at ein harfer o roi cyfweliad i ymgeiswyr sy'n diwallu gofynion sylfaenol y rôl, ac mae hyn hefyd yn berthnasol yn fewnol i weithwyr sydd am gael dyrchafiad.

Gwneir addasiadau rhesymol, lle bynnag y bo hynny'n bosibl, yn dilyn trafodaethau rhwng gweithwyr a rheolwyr ar gyfer gweithwyr mewn swydd neu sy'n dychwelyd i'r gwaith yn dilyn anaf neu ddatblygiad salwch a allai gael effaith ar eu gallu i wneud eu gwaith.

## Perthynas â'r undebau llafur

Mae Fforwm Partneriaeth Comisiwn y Senedd yn gorff sy'n cynnwys rheolwyr a chynrychiolwyr Ochr yr Undebau Llafur. Arweiniodd adolygiad diweddar o Gytundeb y Bartneriaeth at greu cyfarfod partneriaeth strategol, a chyfarfod partneriaeth gweithredol, i sicrhau bod cyfle i drafod materion eang ar draws y Comisiwn, ac mae'r ddau yn cwrdd bob chwarter. Gall y naill ochr a'r llall godi pynciau i'w trafod; yn gyffredinol, maent yn bynciau sy'n cael effaith ar draws Comisiwn y Senedd.  Mae gan bob un o'r tri undeb swyddogol (PCS, FDA a Prospect) eu cynrychiolwyr eu hunain ond mae'r tri yn gweithio gyda'i gilydd yn rheolaidd i gynrychioli holl aelodau eu hundebau.

## Amrywiaeth a chynhwysiant

Un o flaenoriaethau'r Comisiwn ar gyfer y cyfnod hwn o'r Senedd yw y gall yr holl Aelodau, staff ac ymwelwyr weithio mewn amgylchedd diogel sy'n rhoi ystyriaeth i urddas a pharch. Felly mae'n bwysig bod y Senedd yn parhau i fod yn hygyrch i bobl Cymru a thu hwnt: gan ei gwneud yn berthnasol, yn hawdd ac yn ystyrlon i bobl ryngweithio â'i gwaith a chyfrannu ato. Mae'n bwysig hefyd ein bod yn gyflogwr cynhwysol, sy'n galluogi ein holl staff i gyflawni eu potensial llawn.

Mae rhagor o wybodaeth i'w chael yn yr Adroddiad Blynyddol ar Amrywiaeth a Chynhwysiant.

**Manon Antoniazzi**
Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd
Dyddiad: 15 Mehefin 2020

# Atebolrwydd ac archwilio

## Datganiad am gyflenwad y Senedd a nodiadau ategol

### a) Crynodeb o Alldro Adnoddau 2019-20

| | | Cyllideb | Alldro | 2019-20 | 2018-19 |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Cyfanswm £'000 | Cyfanswm £'000 | Cyfanswm alldro net o'i gymharu â'r gyllideb: tanwariant / (gorwariant) £'000 | Alldro £'000 |
| Adnoddau i'w defnyddio gan Gomisiwn y Senedd | Nodyn SOS 01 | 40,291 | 39,818 | 473 | 38,216 |
| Adnoddau mewn perthynas â phenderfyniadau'r Bwrdd Taliadau | Nodyn SOS 01 | 15,697 | 14,956 | 741 | 14,731 |
| Gwariant a reolir yn flynyddol | Nodyn SOS 01 | 1,650 | 1,562 | 88 | 1,418 |
| | | **57,638** | **56,336** | **1,302** | **54,365** |

Mae'r tabl hwn yn destun archwiliad.

Ceir eglurhad o'r gwahaniaeth rhwng y gyllideb a gymeradwywyd a'r alldro yn SOS 01 ac yn yr Adroddiad ar Berfformiad.

**Mae'r nodiadau ar dudalennau 154 i 182 yn rhan o'r Cyfrifon hyn**

## b) Gofyniad arian parod net 2019-20

| | | Cyllideb | Alldro | 2019-20 | 2018-19 |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | **Cyfanswm alldro net o'i gymharu â'r gyllideb: tanwariant / (gorwariant)** | **Alldro** |
| | | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Gofyniad arian parod net | Nodyn SOS 03 | 54,088 | 53,482 | 606 | 50,156 |

Mae'r tabl hwn yn destun archwiliad.

Mae SOS 03 i'w weld yn yr Atodiad – adrodd ar reoleidd-dra, tudalen 183.

# Nodiadau i gyd-fynd â'r Cyfrifon Adnoddau

**(Datganiad am gyflenwad y Senedd)**

***SOS 01. Dadansoddiad o'r alldro adnoddau net 2019-20***

| Gwariant Refeniw | Alldro £'000 | Dadansoddiad o'r gyllideb a gymeradwywyd £'000 | Alldro o'i gymharu â'r gyllideb a gymeradwywyd £'000 | Dadansoddiad o'r gyllideb ddiwygiedig £'000 | Alldro o'i gymharu â'r gyllideb ddiwygiedig £'000 | Alldro 2018-19 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyflogau staff a chostau cysylltiedig | 23,596 | 23,784 | 188 | 24,749 | 1,153 | 23,507 |
| Costau nad ydynt yn ymwneud â staff | 15,795 | 15,262 | (533) | 15,262 | (533) | 14,712 |
| **Gwariant refeniw gros** | **39,391** | **39,046** | **(345)** | **40,011** | **620** | **38,219** |
| Incwm refeniw gros wedi'i gymhwyso | (220) | (220) | 0 | (220) | 0 | (181) |
| **Gwariant refeniw net** | **39,171** | **38,826** | **(345)** | **39,791** | **620** | **38,038** |
| Gwariant cyfalaf | 647 | 500 | (147) | 500 | (147) | 178 |
| **Alldro adnoddau net (gwariant y Comisiwn)** | **39,818** | **39,326** | **(492)** | **40,291** | **473** | **38,216** |
| Cyflogau a Lwfansau Aelodau a chostau cysylltiedig | 14,956 | 16,197 | 1,241 | 15,697 | 741 | 14,731 |
| **Alldro adnoddau** | **54,774** | **55,523** | **749** | **55,988** | **1,214** | **52,947** |
| Costau Cyllid Pensiwn yr Aelodau | 1,562 | 1,500 | (62) | 1,650 | 88 | 1,418 |
| **Cyfanswm alldro adnoddau net** | **56,336** | **57,023** | **687** | **57,638** | **1,302** | **54,365** |

Mae'r tabl hwn yn destun archwiliad

**Mae'r nodiadau ar dudalennau 154 i 182 yn rhan o'r Cyfrifon hyn**

## Dadansoddiad o alldro adnoddau net – Sylwebaeth reoli

Yr alldro adnoddau, cyn costau cyllid pensiwn, ar gyfer 2019-20 oedd £54.8 miliwn yn erbyn cyllideb o £56.0 miliwn gan arwain at danwariant cyffredinol o £1.2 miliwn (2.2 y cant).

Yn y blynyddoedd blaenorol mae Comisiwn y Senedd wedi adleoli adnoddau nas defnyddiwyd o'r gyllideb Cyflogau a Lwfansau Aelodau er mwyn ariannu gofynion blaenoriaeth yn hytrach na gorfod gofyn am Gyllideb Atodol.

O 2019-20 mae'r Comisiwn wedi sefydlu cronfa Prosiect fel bod cyllidebau'r Comisiwn a'r Bwrdd Taliadau yn cael eu cadw ar wahân. Roedd tanwariant o oddeutu 5 y cant yn erbyn adnoddau'r Bwrdd Taliadau, yn bennaf oherwydd lefel uchel o drosiant ymhlith staff cymorth Aelodau o'r Senedd.

Roedd y tanwariant gweithredol ar adnoddau i'w defnyddio gan y Comisiwn yn £0.5 miliwn neu 1.2 y cant. Daw'r tanwariant o fewn targedau'r Comisiwn, ond mae'n uwch nag y byddai wedi bod heb yr amhariad a ddeilliodd yn sgil y pandemig Covid-19 yn chwarter olaf y flwyddyn. Yn ystod 2019-20, aethpwyd ymlaen â nifer o feysydd buddsoddi. Roedd y rhain yn cynnwys digwyddiadau i nodi 20 mlynedd o ddatganoli, datblygu gwefan newydd, gwaith seilwaith yn Nhŷ Hywel, ailosod offer TGCh yn raddol, sef systemau clyweledol a systemau darlledu yn benodol, a thechnoleg i gefnogi'r Cyfarfod Llawn, y pwyllgorau a gwaith ymchwil. Roedd cyflogau staff a chostau cysylltiedig wedi'u tanwario o oddeutu pump y cant yn erbyn y gyllideb o ganlyniad i lefel uchel o drosiant staff. Defnyddiwyd y tanwariant hwn i ariannu'r gronfa brosiect.

O ran cyllideb Gwariant a Reolir yn Flynyddol y Comisiwn, mae hi'n gyllideb ar gyfer yr addasiad cyfrifyddu nad yw'n arian parod mewn perthynas â rhwymedigaeth ariannol Cynllun Pensiwn Aelodau'r Senedd yn y dyfodol. Gosodwyd y gyllideb ar gyfer 2019-20 ym mis Tachwedd 2018 a gwnaed yr amcangyfrif a oedd yn ofynnol ar gyfer gwariant a reolir yn flynyddol o £1.5 miliwn ar sail data a oedd ar gael ar y pryd.

Ym mis Mehefin 2019 cafodd y Comisiwn amcangyfrifon wedi'u diweddaru gan gynghorwyr proffesiynol. Roedd y cyfrifiadau newydd yn adlewyrchu newidiadau hysbys i'r newidynnau sy'n effeithio ar yr amcangyfrif o rwymedigaethau'r cynllun, ac a arweiniodd at amcangyfrif diwygiedig o oddeutu £1.65 miliwn ar gyfer 2019-20.

**Mae'r nodiadau ar dudalennau 154 i 182 yn rhan o'r Cyfrifon hyn**

Cyflwynodd y Comisiwn gyllideb atodol gwariant a reolir yn flynyddol o £1.65 miliwn er mwyn sicrhau bod digon wrth gefn i ymdopi ag unrhyw amrywiad o'r amcangyfrif yn y ffigurau diwedd blwyddyn terfynol.  Y ffigur diwedd blwyddyn a gadarnhawyd oedd £1.56 miliwn a oedd yn golygu bod tanwariant o £0.1 miliwn. Dychwelodd y gyllideb atodol hefyd £0.5 miliwn o danwariant rhagamcanol yng nghyllideb Cyflogau a Lwfansau'r Aelodau.

***SOS 02. Cysoni'r alldro â'r gwariant gweithredu net.***

| | Noder | 2019-20 £000 | 2018-19 £'000 |
|---|---|---|---|
| Alldro Adnoddau Net | SOS 01 | 56,336 | 54,365 |
| Gwariant cyfalaf | 4 | (647) | (178) |
| Taliadau uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru | | 761 | 728 |
| Incwm sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru | SOS 05 | - | - |
| **Gwariant gweithredu net** | | **56,450** | **54,915** |

Mae'r tabl hwn yn destun archwiliad

Mae'r taliadau uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru, sef £761,220 (£728,112 yn 2018-19) yn deillio o gostau cyflogau'r Llywydd, y Dirprwy Lywydd, Archwilydd Cyffredinol Cymru, ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, ac o gostau cyflogau a threuliau y Comisiynydd Safonau, y Comisiynydd Safonau Dros Dro a Chadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru. Caiff y cyflogau a'r treuliau hyn eu talu gan y Comisiwn ond, gan eu bod yn daliadau uniongyrchol o'r Gronfa, ni chânt eu cynnwys yn yr alldro adnoddau net.

## Tystysgrif ac adroddiad archwilydd annibynnol Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Senedd

## Adroddiad ar archwilio'r datganiadau ariannol

### Barn

Rwy'n ardystio fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Comisiwn y Senedd (a alwyd Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru hyd 5 Mai 2020) am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020 o dan *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*. Mae'r rhain yn cynnwys Datganiad Cyflenwad, Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, y Datganiad Llif Arian, y Datganiad o'r Newidiadau yn Ecwiti'r Trethdalwyr a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o bolisïau cyfrifyddu arwyddocaol. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y polisïau cyfrifyddu a nodir ynddynt. Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd wrth eu paratoi yw cyfraith berthnasol a Llawlyfr Adroddiadau Ariannol Trysorlys EM yn seiliedig ar y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRSs) fel y'u mabwysiadwyd gan yr Undeb Ewropeaidd.

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Comisiwn Senedd ar 31 Mawrth 2020, a'r gofyniad arian parod net, yr alldro adnoddau net, a'r costau gweithredu net, ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys Ei Mawrhydi a gyhoeddwyd o dan *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*.

### Sail dros y farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (ISAs (UK)). Disgrifir fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny ymhellach yn yr adran ar gyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio datganiadau ariannol yn fy adroddiad. Rwy'n annibynnol ar y corff yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adroddiadau Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio a gefais yn ddigonol ac yn briodol i fod yn sail i'm barn.

### Mater i'w bwysleisio

Tynnwn eich sylw at Nodyn 04 yn y datganiadau ariannol, sy'n disgrifio'r ansicrwydd perthnasol o ran pris yng nghyd-destun y pris a roddir ar adeiladau'r Senedd a'r Pierhead yn sgil y pandemig COVID-19 presennol. Nid yw ein barn ar y mater hwn wedi newid.

### Casgliadau sy'n ymwneud â busnes gweithredol

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd mewn perthynas â'r materion a ganlyn y mae'r Safonau Archwilio Rhyngwladol yn y DU yn ei gwneud yn ofynnol i mi roi gwybod i chi amdanynt:

- nid yw'r defnydd o'r sail busnes gweithredol o ran cyfrifyddu wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol; neu
- nid yw'r Prif Swyddog Cyfrifyddu wedi datgelu yn y datganiadau ariannol unrhyw ansicrwydd o bwys a all achosi amheuaeth sylweddol ynghylch gallu'r corff i barhau i fabwysiadu'r sail busnes gweithredol o ran cyfrifyddu am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o'r dyddiad y caiff y datganiadau ariannol eu hawdurdodi i'w cyhoeddi.

## Gwybodaeth arall

Nid yw deddfwriaeth a chyfarwyddyd a roddwyd i Gomisiwn y Senedd yn manylu ar gynnwys na ffurf y wybodaeth arall sydd i'w chyflwyno gyda'r datganiadau ariannol.  Y Prif Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall yn yr adroddiad blynyddol a'r datganiadau ariannol . Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth sydd yn yr adroddiad blynyddol ac eithrio'r datganiadau ariannol a'm hadroddiad archwilio arnynt. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, ar wahân i'r graddau a nodir yn benodol yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd yn hyn o beth.

Mewn cysylltiad â'm gwaith archwilio o'r datganiadau ariannol, fy nghyfrifoldeb i yw i ddarllen y wybodaeth arall er mwyn nodi unrhyw anghysondebau o bwys yn y datganiadau ariannol a archwiliwyd ac i nodi unrhyw wybodaeth arwyddocaol sy'n ymddangos yn anghywir, a hynny ar sail y wybodaeth a gaf wrth gynnal yr archwiliad, neu oherwydd unrhyw anghysondeb o bwys a welaf rhwng y datganiadau a'r wybodaeth a gaf. Os byddaf yn gweld unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau o bwys, byddaf yn ystyried goblygiadau hynny ar gyfer fy adroddiad.

## Barn am reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob ffordd berthnasol, mae'r gwariant a'r incwm yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan Senedd ac mae'r trafodion ariannol yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

## Adrodd ar ofynion eraill

### Barn am faterion eraill

Gan nad yw deddfwriaeth a chyfarwyddyd a roddwyd i Gomisiwn y Senedd yn manylu ar gynnwys a ffurf y wybodaeth arall sydd i'w chyflwyno gyda'r datganiadau ariannol, ni allaf gadarnhau fod y wybodaeth arall o fewn yr Adroddiad Blynyddol (ac eithrio'r datganiadau ariannol) wedi'i pharatoi yn briodol.

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad, mae'r wybodaeth a roddir yn yr Adroddiad Blynyddol yn gyson â'r datganiadau ariannol.

Er nad oes gofynion deddfwriaethol i lunio Adroddiad Taliadau, mae Comisiwn y Senedd wedi paratoi adroddiad o'r fath, ac yn fy marn i mae'r rhan honno y mae'n arferol iddi gael ei archwilio wedi'i pharatoi yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EM.

### Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt fel eithriad

Yng ngoleuni'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth o'r corff a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi camddatganiadau o bwys yn yr Adroddiad Blynyddol na'r Datganiad Llywodraethu.

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau ar y materion a ganlyn, y cyflwynaf adroddiad i chi arnynt os, yn fy marn i:

- nad yw cofnodion cyfrifyddu priodol wedi cael eu cadw;
- nad yw'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Taliadau sydd i'w harchwilio yn gytûn â'r cofnodion a'r adroddiadau cyfrifyddu;
- nad yw gwybodaeth a nodir yn benodol gan Drysorlys Ei Mawrhydi am daliadau a thrafodion eraill wedi cael ei datgelu; neu

- nad wyf wedi cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

### Adroddiad

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

## Cyfrifoldebau

### Cyfrifoldebau'r Prif Swyddog Cyfrifyddu am y datganiadau ariannol

Fe yr eglurir yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Prif Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Prif Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am baratoi'r a'r datganiadau ariannol, yn unol â *Deddf Llywodraeth Cymru 2006* a chyfarwyddiadau Trysorlys EM a wnaed o dani, am sicrhau eu bod yn rhoi darlun cywir a theg, ac am unrhyw reolaeth fewnol y mae'r Prif Swyddog Cyfrifyddu yn penderfynu sy'n angenrheidiol i sicrhau bod modd paratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd o gamddatganiadau o bwys, boed hynny oherwydd twyll neu wall.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r Prif Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am asesu gallu'r corff i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu materion sy'n berthnasol i fusnes gweithredol fel y bo'n briodol, a defnyddio'r sail busnes gweithredol o ran cyfrifyddu oni bai y bernir ei fod yn amhriodol.

### Cyfrifoldebau'r Archwilydd dros archwilio'r datganiadau ariannol

Fy amcanion i yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn gyffredinol yn rhydd o gamddatganiadau o bwys, boed hynny oherwydd twyll neu wall, ac i gyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn i. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â Safonau Rhyngwladol Archwilio yn y DU bob amser yn canfod camddatganiad o bwys pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau godi o ganlyniad i dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn rhai o bwys os gellir yn rhesymol ddisgwyl iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol ar gael ar wefan y Cyngor Adroddiadau Ariannol: **www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities**. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o fy adroddiad archwilio.

## Cyfrifoldebau am reoleidd-dra

Y Prif Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am sicrhau rheoleidd-dra trafodion ariannol.

Mae'n ofynnol i mi gael tystiolaeth ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

**Anthony J Barrett**
Archwilydd Cyffredinol Cynorthwyol Cymru
17 Mehefin 2020

24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

Cyfrifoldeb y Swyddog Cyfrifyddu yw cynnal a chadw a sicrhau cywirdeb gwefan Senedd Cymru; nid yw'r gwaith y mae Archwilwyr yn ymgymryd ag ef yn ystyried y materion hyn ac, oherwydd hyn, nid yw Archwilwyr yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw newidiadau a allai fod wedi'u gwneud i'r datganiadau ariannol ers iddynt gael eu cyflwyno am y tro cyntaf ar y wefan.

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi ardystio ac adrodd ar y cyfrifon hyn yn y ffurf y cawsant eu drafftio'n wreiddiol. Cyfieithiad o'r fersiwn Saesneg wreiddiol yw'r fersiwn hon. Senedd Cymru sy'n gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad, nid yr Archwilydd Cyffredinol.



# DATGANIADAU ARIANNOL

# Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr:

***Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020***

| **Incwm o weithrediadau** | **Noder** | **2019-20 £'000** | **2018-19 £'000** |
|---|---|---|---|
| Incwm o werthu nwyddau a gwasanaethau | SOS 05 | 220 | 181 |
| **Cyfanswm yr incwm gweithredu** | | **220** | **181** |
| **Gwariant gweithredu** | | | |
| Costau cyflogau Aelodau, deiliaid swyddi a staff | 2a | 30,604 | 28,432 |
| Costau eraill yr Aelodau | 2b | 8,709 | 8,592 |
| Costau cyllid pensiwn yr Aelodau | 2a a 9 | 1,562 | 1,418 |
| Dibrisiant a thaliadau amhariad | 3 | 2,213 | 2,319 |
| Costau gweinyddol eraill | 3 | 13,582 | 14,335 |
| **Cyfanswm y gwariant gweithredu** | | **56,670** | **55,096** |
| **Gwariant gweithredu net** | | **56,450** | **54,915** |
| **Gwariant net am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth** | | **56,450** | **54,915** |
| **Gwariant net cynhwysfawr arall** | | | |
| Eitemau na fyddant yn cael eu hailddosbarthu i gostau gweithredu net: | | | |
| Enillion net ar ailbrisio eiddo, offer a chyfarpar | 4 | (4,639) | - |
| (Enillion)/ colled actwaraidd ar rwymedigaethau'r cynllun pensiwn | 2a a 9 | (159) | 1,631 |
| **Gwariant net cynhwysfawr am y flwyddyn** | | **51,652** | **56,546** |

Mae'r holl weithgareddau'n parhau.

Nid oes unrhyw enillion na cholledion sylweddol heblaw'r rhai sydd wedi'u cynnwys yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.

**Mae'r nodiadau ar dudalennau 154 i 182 yn rhan o'r Cyfrifon hyn**

# Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol

***Ar 31 Mawrth 2020***

| Asedau anghyfredol: | Noder | 31 Mawrth 2020 £'000 | 31 Mawrth 2019 £'000 |
|---|---|---|---|
| Eiddo, offer a chyfarpar | 4 | 63,059 | 59,986 |
| Asedau anniriaetrhol | 5 | - | - |
| **Cyfanswm yr asedau anghyfredol** | | **63,059** | **59,986** |
| **Asedau cyfredol:** | | | |
| Stoc | | 10 | 13 |
| Symiau masnachol a symiau i'w derbyn | 6 | 1,878 | 1,724 |
| Arian parod ac eitemau sy'n cyfateb i arian parod | 7 | 60 | 292 |
| **Cyfanswm yr asedau cyfredol** | | **1,948** | **2,029** |
| **Cyfanswm yr asedau** | | **65,007** | **62,015** |
| **Rhwymedigaethau cyfredol:** | | | |
| Symiau masnachol a symiau taladwy eraill | 8 | (3,876) | (4,929) |
| **Cyfanswm y rhwymedigaethau cyfredol** | | **(3,876)** | **(4,929)** |
| **Cyfanswm asedau llai rhwymedigaethau cyfredol** | | **61,131** | **57,086** |
| **Rhwymedigaethau anghyfredol:** | | | |
| Darpariaethau | 9 | (19,602) | (18,148) |
| **Cyfanswm y rhwymedigaethau anghyfredol** | | **(19,602)** | **(18,148)** |
| **Cyfanswm asedau llai cyfanswm rhwymedigaethau** | | **41,529** | **38,938** |
| **Ecwiti trethdalwyr a chronfeydd wrth gefn eraill** | | | |
| Y gronfa gyffredinol | | 40,699 | 41,344 |
| Y gronfa bensiwn wrth gefn | 9 | (19,431) | (18,028) |
| Y gronfa ailbrisio wrth gefn | | 20,261 | 15,622 |
| **Cyfanswm ecwiti** | | **41,529** | **38,938** |

**Manon Antoniazzi**
Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd
Dyddiad: 15 Mehefin 2020

**Mae'r nodiadau ar dudalennau 154 i 182 yn rhan o'r Cyfrifon hyn**

Trosolwg

Dadansoddiad o berfformiad

Atebolrwydd

Datganiadau ariannol

## Datganiad Llif Arian

***Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020***

| | Nodyn | 2019-20 £'000 | 2018-19 £'000 |
|---|---|---|---|
| Llif arian o weithgareddau gweithredu | | | |
| Gwariant gweithredu net | SOS 02 | (56,450) | (54,915) |
| Addasiadau ar gyfer trafodion nad ydynt yn rhai arian parod: | | | |
| Dibrisiad, amorteiddiad ac amhariad | 4 a 5 | 2,213 | 2,319 |
| Gostyngiad o ran stoc | | 3 | 6 |
| (Cynnydd)/gostyngiad mewn symiau masnachol a symiau i'w derbyn | 6 | (154) | 21 |
| (Gostyngiad)/cynnydd mewn symiau masnachol a symiau taladwy eraill | 8 | (1,053) | 664 |
| Cynnydd/(gostyngiad) mewn symiau taladwy sy'n ymwneud ag eitemau nad ydynt wedi'u cynnwys yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr | | 232 | (219) |
| (Defnyddio) / creu darpariaethau | | 51 | - |
| Costau cyllid pensiynau | 9 | 1,562 | 1,418 |
| **All-lif arian net o weithgareddau gweithredu** | | **(53,596)** | **(50,706)** |
| Llif arian o weithgareddau buddsoddi | | | |
| Prynu eiddo, offer a chyfarpar | 4 | (647) | (178) |
| **All-lif arian net o weithgareddau buddsoddi** | | **(647)** | **(178)** |
| Llif arian o weithgareddau cyllido | | | |
| O Gronfa Gyfunol Cymru (cyflenwad) | | 53,542 | 50,448 |
| O Gronfa Gyfunol Cymru (taliadau uniongyrchol) | | 761 | 728 |
| Taliadau i Gronfa Gyfunol Cymru | | (292) | (73) |
| **Mewnlif arian net o weithgareddau cyllido** | | **54,011** | **51,103** |
| (Gostyngiad)/cynnydd net mewn arian parod ac eitemau sy'n cyfateb i arian parod | SOS 03 | (232) | 219 |
| Arian parod ac eitemau sy'n cyfateb i arian parod ar ddechrau'r flwyddyn | 7 | 292 | 73 |
| **Arian parod ac eitemau sy'n cyfateb i arian parod ar ddiwedd y flwyddyn** | **7** | **60** | **292** |

**Mae'r nodiadau ar dudalennau 154 i 182 yn rhan o'r Cyfrifon hyn**

# Datganiad o'r Newidiadau yn Ecwiti'r Trethdalwyr

***Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020***

| | Nodyn | Y gronfa gyffredinol £'000 | Y gronfa a ilbrisio wrth Gefn £'000 | Y gronfa bensiwn wrth gefn £'000 | Ecwiti'r trethdalwyr £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| **Balans ar 31 Mawrth 2018** | | **43,957** | **15,622** | **(14,979)** | **44,600** |
| Gwariant net cynhwysfawr am y flwyddyn | | (54,915) | - | (1,631) | (56,546) |
| Trosglwyddo rhwng cronfeydd wrth gefn | | 1,418 | - | (1,418) | - |
| Cronfa Gyfunol Cymru | | | | | |
| ▪ Cyflenwad (awdurdodedig) | | 51,538 | - | - | 51,538 |
| ▪ Cyflenwad (heb ei dynnu) | | (1,090) | - | - | (1,090) |
| ▪ Taliadau uniongyrchol | | 728 | - | - | 728 |
| Swm sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru | | | | | |
| ▪ Cyflenwad | | (292) | - | - | (292) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2019** | | **41,344** | **15,622** | **(18,028)** | **38,938** |
| Gwariant net cynhwysfawr am y flwyddyn | | (56,450) | 4,639 | 159 | (51,652) |
| Trosglwyddo rhwng cronfeydd wrth gefn | 9 | 1,562 | | (1,562) | - |
| Cronfa Gyfunol Cymru | | | | | |
| ▪ Cyflenwad (awdurdodedig) | SOS 03 | 54,088 | - | - | 54,088 |
| ▪ Cyflenwad (heb ei dynnu) | SOS 03 | (546) | - | - | (546) |
| ▪ Taliadau uniongyrchol | | 761 | - | - | 761 |
| Swm sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru | | | | | |
| ▪ Cyflenwad | | (60) | - | - | (60) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2020** | | **40,699** | **20,261** | **(19,431)** | **41,529** |

**Mae'r nodiadau ar dudalennau 154 i 182 yn rhan o'r Cyfrifon hyn**

# Nodiadau sy'n cyd-fynd â'r Cyfrifon

## 01. Datganiad ar y polisïau cyfrifyddu

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn ar sail cyfrifyddu croniadau yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol (FReM) 2019-20 a addaswyd mewn modd priodol ar gyfer cyfansoddiad Senedd Cymru a'r Comisiwn fel y nodir yn *Neddf Llywodraeth Cymru 2006*. Mae'r polisïau cyfrifyddu a geir yn y Llawlyfr Adroddiadau Ariannol yn dilyn y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) i'r graddau eu bod yn ystyrlon ac yn briodol i'r sector cyhoeddus.

Pan fo'r Llawlyfr Adroddiadau Ariannol yn caniatáu dewis polisi cyfrifyddu, dewiswyd y polisi cyfrifyddu mwyaf priodol ar gyfer amgylchiadau penodol y Comisiwn er mwyn cyflwyno darlun cywir a theg. Cafodd polisïau cyfrifyddu'r Comisiwn eu cymhwyso'n gyson wrth ymdrin ag eitemau yr ystyriwyd eu bod yn berthnasol i'r cyfrifon. Yn ogystal â'r datganiadau a baratowyd o dan y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol, mae'r Llawlyfr Adroddiadau Ariannol hefyd yn ei gwneud yn ofynnol bod y Comisiwn yn paratoi dau ddatganiad cyflenwad ychwanegol.

### Adolygiad o safonau newydd

Cwblhawyd adolygiad o bob safon a dehongliad newydd a gyhoeddwyd ac a ddaeth i rym yn 2019-20 gan y Bwrdd Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol (IASB) a'r Pwyllgor Dehongli Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol (IFRIC) yn ystod y flwyddyn.

Roedd y safonau a'r dehongliadau / diwygiadau a ganlyn, nad ydynt wedi'u cymhwyso yn y datganiadau ariannol hyn, wedi eu cyhoeddi ond nid ydynt wedi dod i rym eto:

- IFRS 16 Prydlesau;
- Diwygiadau i IAS 1 - Dosbarthiad rhwymedigaethau fel rhai cyfredol neu anghyfredol;
- Diwygiadau i IAS 3 - Diffiniad o fusnes;
- Diwygiadau i IAS 1 ac IAS 8 - Menter ddatgelu - Diffiniad o ddeunydd; ac

- IFRS 17 Contractau Yswiriant.

Nid yw'r Comisiwn yn disgwyl y byddai mabwysiadu'r safonau a'r dehongliadau uchod yn cael effaith sylweddol ar y datganiadau ariannol mewn cyfnodau yn y dyfodol, heblaw am IFRS 16.

**IFRS 16 - Prydlesau**

Mae IFRS 16 - Prydlesau yn darparu model cyfrifyddu prydlesau sengl, sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddeiliaid prydlesau gydnabod asedau o dan brydles a'r rhwymedigaethau sy'n cynrychioli'r hawl i ddefnyddio'r eitem ar brydles a'r taliadau priodol am y brydles yn y dyfodol.

Caiff y gost rhent o ran prydlesi gweithredol a gydnabuwyd o'r blaen yn y datganiad incwm ei ddisodli gan dâl dibrisiant a thâl cyllid. Bydd hyn yn berthnasol i bob prydles berthnasol oni bai bod cyfnod y brydles yn llai na 12 mis neu os oes gwerth isel i'r ased sylfaenol. Mae'r Comisiwn wedi mabwysiadu lefel de minimis o £5,000.

Mae IFRS 16 yn rhoi diffiniad mwy cyfyng o brydles nag IAS 17 ac IFRIC 4 ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i asedau a rhwymedigaethau gael eu cydnabod i ddechrau yn ôl gwerth gostyngedig isafswm taliadau'r brydles, ac y caiff yr asedau, sydd i'w disgrifio fel asedau 'hawl i'w defnyddio', eu cyflwyno o dan eiddo, offer a chyfarpar. Felly, bydd gweithredu IFRS 16 yn cynyddu gwerth asedau eiddo, offer a chyfarpar a gwerth rhwymedigaethau prydles. Mae'r Comisiwn wedi dewis peidio â chymhwyso IFRS 16 i asedau anniriaethol.

**Effaith ar gyfrifon 20-21**

Ar gyfer prydlesau a lofnodwyd ar 31 Mawrth 2021 (dyddiad y cais cychwynnol), yr adroddir arnynt ar hyn o bryd o dan Nodyn 10, byddai effaith mabwysiadu'r safon newydd yn cynyddu'r ased eiddo, offer a chyfarpar oddeutu £112 miliwn a bydd gwerth rhwymedigaethau'r brydles hefyd yn cynyddu oddeutu £112 miliwn.

Codir Costau Dibrisiant a Chostau Cyllid, sy'n cymryd lle taliadau rhenti, ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr (SoCNE). Codir taliadau rhent ar rwymedigaeth y brydles yn y dyfodol.

Bydd mabwysiadu IFRS 16 yn arwain at ostyngiad o tua £2.8 miliwn yn yr all-lif arian parod net o weithgareddau gweithredu, wedi'i wrthbwyso gan gynnydd cyfatebol o ran all-lif arian parod net sy'n deillio o weithgareddau

cyllido. Fodd bynnag, ni fydd effaith o ran llif arian cyffredinol yn deillio o fabwysiadu'r safon newydd.

### Confensiwn cyfrifyddu

Paratowyd y cyfrifon hyn o dan y confensiwn cost hanesyddol, a addaswyd i ystyried ailbrisio asedau sefydlog yn unol â'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol.

### Eiddo, offer a chyfarpar

Y lefel sylfaenol ar gyfer cyfalafu ased diriaethol yw £5,000 gan gynnwys TAW na ellir ei adennill.

Caiff tir ac adeiladau eu prisio gan gwmni proffesiynol bob tair blynedd o leiaf.  Ni chaiff asedau diriaethol eraill eu hailbrisio, ond cedwir hwy ar werth teg, gan na fyddai'r symiau dan sylw yn arwyddocaol, ym marn y Comisiwn.

### Amhariad asedau

Caiff eiddo, offer a chyfarpar eu hadolygu bob blwyddyn i sicrhau na phriodolir gwerth uwch i asedau na'r symiau y gellid eu hadennill.  Os yw'r symiau hyn yn llai na gwerth llyfr net yr asedau, fe'i nodir yn golled amhariad yn y Datganiad Gwariant Net.

### Asedau sy'n cael eu hadeiladu

Caiff gwerth asedau sy'n cael eu hadeiladu ei nodi yn seiliedig ar gost hanesyddol gan yr ystyrir bod hyn yn cyfateb mewn modd derbyniol â gwerth teg. Pan ddechreuir defnyddio'r ased, fe'i trosglwyddir i'r categori priodol a chaiff ei chynnwys mewn adolygiadau ailbrisio ac amhariad dilynol.

### Asedau anniriaethol

Caiff trwyddedau meddalwedd eu cyfalafu fel asedau sefydlog anniriaethol a'u hamorteiddio ar sail llinell syth dros oes ddisgwyliedig yr ased.

### Asedau a gafwyd yn rhodd

Caiff asedau a gafwyd yn rhodd eu cyfalafu yn ôl eu gwerth cyfredol wrth eu derbyn, ac fel rheol cânt eu hailbrisio yn yr un modd ag asedau a brynwyd. Mae gwerth asedau a gafwyd yn rhodd yn cael ei gredydu â gwerth y rhodd gwreiddiol ac ailbrisiadau dilynol. Caiff gwerth asedau a gafwyd yn rhodd ei

gynnwys yn y Gronfa wrth Gefn Gyffredinol yn unol â phenderfyniad Trysorlys Ei Mawrhydi o dan y Rhaglen Clear Line of Sight.

## Dibrisiant

Nid yw asedau sy'n cael eu hadeiladu yn cael eu dibrisio. Cyfrifir dibrisiant ar gyfradd a fydd yn lleihau gwerth adeiladau ac asedau diriaethol eraill drwy randaliadau cyfartal dros gyfnod eu hoes ddefnyddiol amcangyfrifedig. Caiff asedau eu dadansoddi yn ôl eu helfennau perthnasol i adlewyrchu eu hoes economaidd amrywiol. Ni chânt eu dibrisio yn ystod y flwyddyn y cawsant eu caffael.

Isod, rhestrir oes arferol asedau:

| Ased | Oes ased |
|---|---|
| Tir ac Adeiladau: | 50 mlynedd neu gyfnod arall a bennir gan brisiwr cymwysedig (RICS) |
| Offer sefydlog: | 10 mlynedd, neu gyfnod arall a bennir gan y cyflenwr pan gaiff ei brynu neu ei brisio. |
| Dodrefn a gosodiadau: | Pump i ddeng mlynedd |
| Offer TGCh, cyfarpar clyweledol a darlledu: | Pedair i chwe blynedd |
| Seilwaith TGCh: | 10 mlynedd |
| Asedau anniriaethol (meddalwedd): | Pum mlynedd |
| Cerbydau modur: | Pedair blynedd |
| Asedau a gafwyd yn rhodd: | I'w hasesu ar ôl eu cael |

## Yr elfen ddibrisiant a wireddir o'r gronfa ailbrisio wrth gefn

Bydd gwerth asedau ar ôl eu hailbrisio yn destun dibrisiant. Gall elfen o'r dibrisiant ddod i law felly oherwydd cynnydd yn y prisiad, a byddai'n fwy na'r dibrisiant a fyddai'n cael ei gyfrifo o ddefnyddio cost hanesyddol yr asedau. Byddai'r swm sy'n ymwneud â gormodedd o'r fath yn elw a wireddir ar y prisiad, ac mae i'w drosglwyddo o'r Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn i'r Gronfa Gyffredinol, pan gaiff yr ased ei werthu.

## Cydrannau asedau

Caiff asedau eiddo eu hadolygu drwy'r prisiadau proffesiynol bob tair blynedd i gadarnhau a oes unrhyw ran o'r asedau sydd ag oes ddefnyddiol

sylweddol wahanol. Lle bo hyn yn wir, bydd yr ased yn cael ei rhannu'n gydrannau a bydd y rhannau gwahanol yn cael eu dibrisio dros eu hoes ddefnyddiol briodol. Caiff asedau a brynwyd yn y cyfnod interim eu hadolygu gan y tîm Cyllid a Rheolwyr Asedau.

Mae asedau TGCh wedi'u "grwpio" gyda TGCh; offer clyweledol a darlledu; seilwaith TGCh, ac asedau anniriaethol. Bydd y gwahanol rannau yn cael eu dibrisio dros gyfnod eu hoes ddefnyddiol briodol.

## Datganiad o wariant cynhwysfawr

Mae incwm a chostau gweithredu yn ymwneud yn uniongyrchol â gweithgareddau gweithredu'r Comisiwn. Mae incwm yn cynnwys taliadau am nwyddau a gwasanaethau a ddarperir ar sail cost lawn i gwsmeriaid allanol. Dangosir incwm a chostau heb gynnwys TAW os gellir ei adennill.

Mae'r Comisiwn yn ad-dalu Aelodau mewn cysylltiad â threuliau neu gostau yr eir iddynt ym mhob blwyddyn ariannol yn unol â'r Penderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau'r Aelodau, yn ddarostyngedig i'r cyfyngiadau amrywiol ar dreuliau neu gostau a nodir yn y Penderfyniad.

## Stoc

Nodir y stoc, gan gynnwys nwyddau i'w hailwerthu yn siop y Comisiwn, yn ôl y gost neu'r pris gwerthadwy net, pa un bynnag yw'r isaf.

## Cyfnewid arian tramor

Caiff trafodion mewn arian cyfred tramor eu trosi i sterling yn ôl y cyfraddau cyfnewid sydd mewn grym ar ddyddiad y trafodion dan sylw.

## Arian parod ac eitemau sy'n cyfateb i arian parod

Mae arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod yn cynnwys arian mewn llaw a balansau cyfredol gyda Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth a gyda banciau masnachol y gellir ei drosi'n hawdd yn symiau penodol o arian parod ac nad oes risg sylweddol y bydd eu gwerth yn newid.

## Prydlesau

Asedau ar brydles: Caiff prydlesau tir ac eiddo sy'n trosglwyddo'n sylweddol yr holl risgiau a gwobrau a ddaw yn sgil perchnogaeth eu dosbarthu fel prydlesau cyllid. Caiff yr asedau ar brydles eu mesur i ddechrau ar swm sy'n

gyfartal â'r gwerth isaf eu gwerth teg a gwerth presennol y taliadau prydles isaf. Yn dilyn y gydnabyddiaeth gychwynnol, caiff yr asedau eu hailbrisio, yn unol â'r polisi cyfrifyddu ar gyfer tir ac adeiladau.

Caiff asedau a ddelir o dan brydlesau eraill eu dosbarthu fel prydlesau gweithredu ac nid ydynt yn cael eu cydnabod yn y datganiad o'r sefyllfa ariannol.

Taliadau prydles: Caiff rhenti sy'n daladwy o dan les weithredol eu cynnwys yn y datganiad o wariant cynhwysfawr yn y cyfnod y maent yn berthnasol iddo.

## Cyflwyno adroddiadau fesul rhan

Mae'r rheolwyr yn fodlon nad oes gan y sefydliad, o dan ofynion IFRS 8, unrhyw ddatgeliad ychwanegol i'w wneud.

## Buddion i weithwyr

Mae cyflogau, taliadau a chost yr holl fuddion sy'n ymwneud â chyflogaeth, gan gynnwys rhwymedigaethau sy'n gysylltiedig â gwyliau blynyddol nad ydynt yn cael eu hawlio, yn cael eu cydnabod yn ystod cyfnod gwasanaeth staff.

## Pensiynau

### Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil ac Eraill

Mae staff a gyflogir yn uniongyrchol gan y Comisiwn a staff a secondiwyd i'r Comisiwn yn gymwys i fod yn aelodau o'r Cynllun. Cynllun buddion diffiniedig nas ariennir sy'n cynnwys nifer o gyflogwyr yw hwn ac felly ni all y Comisiwn nodi ei gyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau sylfaenol. Cwblhawyd prisiad y Cynllun fel yr oedd ym mis Mawrth 2016 ar 26 Chwefror 2019. Codir symiau sy'n daladwy i'r Cynllun ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr pan fyddant yn ddyledus.

Ceir y manylion yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet: Cyfrifon Blwydd-dal Sifil (**https://www.civilservicepensionscheme.org.uk/about-us/resource-accounts/**).

## Cynllun Pensiwn Aelodau o'r Senedd

Sefydlwyd cynllun pensiwn i Aelodau o'r Senedd yn wreiddiol o dan *Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998* ac mae'n parhau i fod mewn grym o dan *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*. Cynllun â buddion wedi'u diffinio yw, ac mae'n gymwys i gyflogau'r Aelodau a chyflog deiliaid swyddi. Telir cost pensiynau Aelodau o'r Senedd drwy gyfrwng taliadau a gyfrifir ar sail gronnus, a chaiff y rhwymedigaeth i dalu buddion yn y dyfodol ei rhoi ar gyfrifon y Cynllun. Byddai unrhyw ddyledion yn y gronfa sy'n codi oherwydd diffyg o ran asedau yn cael eu talu drwy gynyddu'r swm y mae'r Comisiwn yn ariannu. Wrth gyflwyno adroddiad ar asedau a rhwymedigaethau'r Cynllun, mae'r Comisiwn wedi cadw at Safon Ryngwladol Cyfrifo 19. Yn unol â'r safon honno, mae gofyn i Ymddiriedolwyr y Cynllun gynnal dadansoddiad sensitifrwydd ar gyfer pob rhagdybiaeth actwaraidd sylweddol ar ddiwedd y cyfnod adrodd, gan ddangos sut yr effeithir ar rwymedigaeth ddiffiniedig o ran buddiant gan newidiadau yn y rhagdybiaeth actwaraidd berthnasol ar y dyddiad hwnnw.

Mae Cynllun Pensiwn Aelodau o'r Senedd yn paratoi ei Gyfrifon Blynyddol ei hun, sydd ar wahân i Gyfrifon y Comisiwn, ac mae'r rhain i'w gweld ar wefan y Senedd[30].

## Treth ar Werth

Caiff y Comisiwn ei drin fel un o Gyrff y Goron at ddibenion *Deddf Treth ar Werth 1994* a, chan hynny, at ddibenion Adran 41 o'r Ddeddf honno (cymhwyso i'r Goron), caiff ei drin fel un o adrannau'r llywodraeth, a gall y TAW ar nwyddau a gwasanaethau a gyflenwir i'r Senedd fod yn adferadwy. Codir TAW ar y Comisiwn yn ôl y gyfradd safonol yng nghyswllt ei weithgareddau masnachol, fel siop y Senedd.

## Darpariaethau

Er mwyn paratoi'r datganiadau ariannol mae angen gwneud amrywiaeth o amcangyfrifon a thybiaethau sy'n effeithio ar y modd y cymhwysir polisïau cyfrifyddu a'r symiau a nodir. Mae'r Comisiwn yn cydnabod darpariaeth yn llawn yn y flwyddyn y bu'r digwyddiad. Mae pob amcangyfrif a dyfarniad o'r fath yn cael eu hadolygu yn barhaus a chaiff unrhyw ddiwygiadau i amcangyfrifon cyfrifyddu eu cydnabod yn y cyfnod y caiff yr amcangyfrif ei

[30] https://senedd.wales/cy/memhome/pay-expenses-financial-interests-standards/Pages/mem-pay.aspx

ddiwygio ynddo ac mewn unrhyw gyfnod yr effeithir arnynt yn y dyfodol. Y meysydd mwyaf arwyddocaol o amcangyfrifon a dyfarniadau allweddol yw:

- **Cynllun Pensiwn Aelodau o'r Senedd** Mae manylion am y rhagdybiaethau actwaraidd yn Nodyn 02.A ac yn yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon ar gyfer y Cynllun Pensiwn.

- **Dadfeilio.** Mae'r Comisiwn o'r farn, yn gyffredinol, nad oes angen gwneud darpariaeth ar gyfer dadfeilio o ystyried lefel isel yr ôl-groniad o ran gwaith cynnal a chadw, yr adolygiad blynyddol, a chytuno ar y flaenraglen waith 10 mlynedd. Gofynnir am gyngor ynghylch materion penodol a gwneir darpariaeth lle bernir ei bod yn briodol

## 02. A - Costau sy'n gysylltiedig ag Aelodau a staff

Mae gwybodaeth am nifer yr Aelodau a staff (a datgeliadau perthnasol eraill) i'w chael yn yr Adran Atebolrwydd – Adroddiad ar Daliadau a Staff.

### Costau sy'n gysylltiedig ag Aelodau a staff

***Tabl 7: Mae costau staff yn cynnwys***

| Categori | Staff £'000 | Aelodau a deiliaid swyddi £'000 | Cyfanswm 2019-20 £'000 | Cyfanswm 2018-19 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| **Cyflogau** | | | | |
| Staff Parhaol, Aelodau a deiliaid swyddi | 16,997 | 5,289 | 22,286 | 21,512 |
| Staff dros dro a staff asiantaeth | - | - | - | 9 |
| Staff ar secondiad | 227 | - | 227 | 85 |
| **Costau nawdd cymdeithasol** | | | | |
| Staff parhaol, Aelodau a deiliaid swyddi | 1,839 | 667 | 2,506 | 2,427 |
| Staff dros dro a staff asiantaeth | - | - | - | 1 |
| Staff ar secondiad | 15 | - | 15 | 10 |
| **Costau pensiwn eraill** | | | | |
| Staff parhaol, Aelodau a deiliaid swyddi | 4,590 | 1,052 | 5,642 | 4,478 |
| Staff dros dro a staff asiantaeth | - | - | - | 1 |
| Staff ar secondiad | 26 | - | 26 | 16 |
| Is-gyfanswm costau cyflogau Aelodau, deiliaid swyddi a staff | 23,694 | 7,008 | 30,702 | 28,539 |
| Namyn yr adenillion am y secondiadau allanol | (98) | - | (98) | (107) |
| **Cyfanswm costau cyflogau Aelodau, deiliaid swyddi a staff** | **23,596** | **7,008** | **30,604** | **28,432** |

Mae'r Comisiwn yn talu cyflogau a chostau cysylltiedig Gweinidogion Cymru, fel yr esbonnir yn yr Adroddiad Taliadau yn y cyfrifon hyn.  Caiff y symiau a delir i Weinidogion Cymru eu datgelu yng nghyfrifon adnoddau cyfunol Llywodraeth Cymru. Ar 31 Mawrth 2020, roedd 60 Aelod o'r Senedd mewn swydd. Ar ddiwedd y flwyddyn roedd 42 o ddeiliaid swyddi, yr oedd 14 ohonynt yn y Cabinet: un Prif Weinidog, un Gweinidog sydd hefyd yn Gwnsler

Cyffredinol, saith Gweinidog, un Dirprwy Weinidog a Phrif Chwip a phedwar Dirprwy Weinidog.

## Trefniadau Pensiwn y Gwasanaeth Sifil

Ar gyfer 2019-20 roedd cyfraniadau cyflogwr o £4.567miliwn (£3.443 miliwn yn 2018-19) yn daladwy ar un o bedair cyfradd yn yr ystod 26.6 y cant i 30.3 y cant o dâl pensiynadwy, yn seiliedig ar fandiau cyflog. Bydd actiwari'r cynllun yn adolygu cyfraniadau'r cyflogwr bob pedair blynedd yn dilyn proses brisio lawn. Mae'r cyfraddau cyfrannu yn adlewyrchu'r buddion wrth iddynt gronni, yn hytrach na phryd y telir y costau, ac maent yn adlewyrchu profiadau'r cynllun yn y gorffennol.

Caiff cyflogeion newydd ers 1 Ebrill 2015 ymuno naill ai â chynllun alpha neu'r cynllun partnership. Cynllun pensiwn cyfartaledd gyrfa â buddion wedi'u diffinio yw alpha; cynllun pensiwn cyfraniadau diffiniedig yw'r cynllun partnership.

Trefniant pensiwn cyfranddeiliaid yw'r cyfrif pensiwn partnership. Ar y dyddiad y paratowyd y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, roedd y cyfraniadau i ddarparwyr y pensiwn partnership yn £23,455 (£16,318 yn 2018-19). Nid oedd unrhyw gyfraniadau wedi'u rhagdalu bryd hynny.

Ceir rhagor o fanylion am drefniadau Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar y wefan **www.civilservicepensionscheme.org.uk**

## Cynllun Pensiwn Aelodau o'r Senedd

Mae'r Senedd yn darparu cynllun â buddion wedi'u diffinio, a lywodraethir gan adran 18 o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998*. Mae Adran 20(4) o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* ac Atodlen 11 i'r Ddeddf honno yn rhoi dilyniant i'r Cynllun. Nid yw *Deddf Llywodraeth Cymru 2006* wedi effeithio ar statws cyfreithiol y Cynllun.

Mae'r Cynllun yn darparu buddion i Aelodau'r Senedd a deiliaid swyddi. Mae pob Aelod o'r Senedd yn aelodau o'r Cynllun o'r dyddiad y maent yn ymuno â'r Senedd, oni bai eu bod yn benodol yn dewis peidio â gwneud hynny.

Cyflwynodd y Bwrdd Taliadau fel rhan o'i Benderfyniad ar gyfer y Pumed Senedd gynllun pensiwn cyfartalog gyrfa newydd ar gyfer Aelodau. Cymeradwywyd y Cynllun gan Drysorlys EM yn unol â *Deddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013* a'i gyflwyno i ddod i rym o 6 Mai 2016. Mae

Aelodau a oedd yn 55 oed neu'n hŷn ar 1 Ebrill 2012 yn cael 'Diogelwch Trosiannol' ac yn parhau i gael eu buddion  wedi'u cyfrifo ar sail cyflog terfynol am bum mlynedd arall tan 5 Mai 2021.

Mae gan y Cynllun gyfradd gronnus o 1/50fed ac mae'r oedran pensiwn yn gysylltiedig ag Oedran Pensiwn y Wladwriaeth. Y gyfradd cyfraniadau aelodau yw 10.5 y cant ar gyfer aelodau newydd a'r rhai a symudodd i'r cynllun pensiwn cyfartalog gyrfa newydd ar 6 Mai 2016. Mae Aelodau a oedd yn 55 oed neu'n hŷn ar 1 Ebrill 2012 yn cael 'Diogelwch Trosiannol' ac yn parhau i gael eu buddion wedi'u cyfrifo ar sail cyflog terfynol am bum mlynedd arall tan 5 Mai 2021. Bydd yr aelodau hyn yn parhau i gyfrannu ar eu cyfradd gyfredol o naill ai 10 y cant neu 6 y cant ar gyfer croniad 40fed neu 50fed yn y drefn honno. Cyfradd cyfraniadau'r cyflogwr ar hyn o bryd yw 19.9 y cant ac mae'n destun cap. Bydd prisiad actwaraidd nesaf y Cynllun yn digwydd fel ag yr oedd ar 31 Mawrth 2020.

Caiff yr Oedran Ymddeol Arferol ei gysylltu ag Oedran Pensiwn y Wladwriaeth (neu 65 oed, pa un bynnag sydd uchaf). Bydd unrhyw bensiwn Cyflog Terfynol a gronnir cyn 6 Mai 2021 yn parhau i fod yn daladwy ar oedran ymddeol arferol, sef 65 mlwydd oed.

Caiff asedau'r Cynllun eu cadw ar wahân i asedau Comisiwn y Senedd, gan Mobius Life Limited, a chânt eu rheoli gan bedwar rheolwr buddsoddi . Mae'r Ymddiriedolwyr yn buddsoddi mewn cronfa Twf Amrywiol ("DGF"), cronfa Enillion Real Cynaliadwy, cronfa Enillion Absoliwt, cronfa Marchnadoedd Preifat, cronfa Mynegai Ecwiti moesegol, cronfa Eiddo ynghyd â chronfa Mynegai Cysylltiedig â Giltiau. Yn ystod y flwyddyn, gwnaeth yr Ymddiriedolwyr benderfyniad i symud yr arian a fuddsoddwyd yn flaenorol yng nghronfa Enillion wedi'u Targedu Byd-eang Invesco Perpetual i gronfa Enillion Real Cynaliadwy BNY Mellon.

Bwrdd Taliadau'r Senedd yw'r corff annibynnol sy'n gyfrifol am bennu cyflogau, pensiynau a lwfansau Aelodau o'r Senedd a'u staff. Mae manylion y cyflogau a'r lwfansau wedi'u cynnwys yn nogfen Penderfyniad y Bwrdd a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2019.

Y prif amcan cyllido yw cynnal cronfa o asedau y disgwylir iddi fod yn ddigonol i ddarparu'r buddion a addawyd i aelodau a'u buddiolwyr. Mae'r amcan hwn yn unol â chyngor Ymddiriedolwyr y Cynllun, gan ystyried cyngor gan yr Actiwari. Y nod yw sicrhau bod buddion cronnus yn cael eu talu yn ystod cyfranogiad aelodau o Gynllun Pensiwn Aelodau o'r Senedd a bod y

taliadau sy'n cael eu talu gan y Senedd ar gyfer buddion cronnus yn rhesymol sefydlog dros amser. Ymdrinnir â'r amcanion hyn drwy bennu cyfradd cyfrannu a fynegir fel canran lefel o gyflog pensiynadwy o'r enw Cyfradd Cyfraniad Safonol. Mae'r gyfradd safonol hon yn golygu y byddai'n ddigonol i gyllido'r buddion o dan y Cynllun, cyhyd â bod y profiad hwnnw yn unol â'r tybiaethau actwaraidd a wnaethpwyd. Gan ddibynnu ar faint y gronfa gronnus a phrofiad gwirioneddol y Cynllun fel y'i datgelir gan y prisiadau actwaraidd bob tair blynedd, efallai y bydd yn rhaid talu cyfraniadau mwy neu daliadau llai am gyfnod i ganiatáu, yn benodol, ar gyfer amorteiddio'r symiau dros ben neu'r diffygion.

Sefydlwyd y Cynllun Pensiwn ym 1999 ac mae'n anaeddfed, gydag incwm cyfraniadau yn dal i fod yn fwy na gwariant rheolaidd ar fuddion. Mae hyd cyfnod cyfartalog rhwymedigaethau'r cynllun, wedi'i bwysoli, oddeutu 20 mlynedd.

***Tabl 8: Mae'r symiau a gydnabuwyd yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol fel a ganlyn***

| | Noder | 31 Mawrth 2020 £'000 | 31 Mawrth 2019 £'000 |
|---|---|---|---|
| Gwerth cyfredol rhwymedigaethau'r cynllun | | (54,679) | (55,178) |
| Gwerth teg asedau'r cynllun | | 35,248 | 37,150 |
| **Rhwymedigaeth net** | | **(19,431)** | **(18,028)** |
| Swm yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol | | | |
| Rhwymedigaethau | | (19,431) | (18,028) |
| Asedau | | - | - |
| **Rhwymedigaeth net** | **9** | **(19,431)** | **(18,028)** |

***Tabl 9: Dadansoddiad o'r swm a godwyd ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr***

| | 2019-20 £'000 | 2018–19 £'000 |
|---|---|---|
| Cost cyfredol y gwasanaeth | 2,090 | 1,974 |
| Llog ar rwymedigaeth pensiwn | 1,347 | 1,304 |
| Llog ar asedau'r cynllun | (915) | (909) |
| | **2,522** | **2,369** |
| Dyrannwyd yn y cyfrifon fel a ganlyn: | | |
| Costau pensiwn eraill | 960 | 951 |
| Costau cyllid pensiynau | 1,562 | 1,418 |
| | **2,522** | **2,369** |

***Tabl 10: Dadansoddiad o'r swm a gydnabuwyd yn y Datganiad o'r Newidiadau yn Ecwiti'r Trethdalwyr (SCITE)***

| | 2019-20 £'000 | 2018-19 £'000 |
|---|---|---|
| Gwir enillion heb gynnwys llog ar asedau'r cynllun | (3,220) | 388 |
| Enillion a cholledion profiad sy'n codi ar rwymedigaethau pensiwn | (635) | (370) |
| Newidiadau mewn tybiaethau | 4,014 | (1,649) |
| **(Colledion)/enillion actwaraidd net a gydnabyddir yn SCITE** | **159** | **(1,631)** |

***Tabl 11: Newidiadau yng ngwerth y rhwymedigaethau yn ystod y flwyddyn***

| | 31 Mawrth 2020 £'000 | 31 Mawrth 2019 £'000 |
|---|---|---|
| Rhwymedigaethau ar 1 Ebrill | 55,178 | 50,385 |
| Cost presennol y gwasanaeth (heb gynnwys cyfraniadau'r Aelodau) | 2,090 | 1,974 |
| Cyfraniadau'r Aelodau (gan gynnwys symiau net a drosglwyddwyd i mewn) | 502 | 497 |
| Buddion a dalwyd yn ystod y flwyddyn | (1,059) | (1,001) |
| Llog ar rwymedigaeth pensiwn | 1,347 | 1,304 |
| Colledion/(enillion) actwaraidd | (3,379) | 2,019 |
| **Rhwymedigaethau ar 31 Mawrth** | **54,679** | **55,178** |

***Tabl 12: Newidiadau mewn asedau yn ystod y flwyddyn***

| | 31 Mawrth 2020 £'000 | 31 Mawrth 2019 £'000 |
|---|---|---|
| Asedau ar 1 Ebrill | 37,150 | 35,406 |
| Llog ar asedau'r cynllun | 915 | 909 |
| Gwir enillion heb gynnwys llog ar asedau'r cynllun | (3,220) | 388 |
| Cyfraniadau'r cyflogwr | 960 | 951 |
| Cyfraniadau gan yr Aelodau (gan gynnwys symiau net a drosglwyddwyd i mewn) | 502 | 497 |
| Buddion a dalwyd a threuliau | (1,059) | (1,001) |
| **Gwerth teg asedau'r cynllun wrth gau'r cyfrifon ar 31 Mawrth** | **35,248** | **37,150** |

Mae'r Comisiwn yn disgwyl cyfrannu £996,470 at Gynllun Pensiwn yr Aelodau yn 2020-21.

Dyma brif gategorïau asedau'r cynllun fel canran o holl asedau'r cynllun:

***Tabl 13: prif gategorïau asedau'r cynllun fel canran o holl asedau'r cynllun***

| | 2019–20 | 2018–19 |
|---|---|---|
| Ecwitïau | 38% | 45% |
| Buddsoddiadau amgen | 20% | 5% |
| Eiddo | 9% | 9% |
| Llog Sefydlog ac Arian Parod | 33% | 41% |
| | **100%** | **100%** |

Cynhaliodd y Bwrdd Pensiwn adolygiad o strategaeth fuddsoddi'r Cynllun yn 2019. O ganlyniad i'r adolygiad, buddsoddodd asedau'r Cynllun mewn amrywiaeth o gronfeydd gwahanol fel a ganlyn:

- Baillie Gifford Diversified Growth
- BNY Mellon Sustainable Real Return
- Legal & General Investment Management ("LGIM") Managed Property
- Partners Group Generations

- LGIM Ethical Global Equity Index
- LGIM Over 5 Year Index-Linked Gilt

Rhagwelir y bydd y strategaeth hon yn sicrhau lefel debyg o enillion disgwyliedig i strategaeth fuddsoddi flaenorol y Cynllun.

Er gwaethaf y camau i reoli arallgyfeirio ac anwadalrwydd y mae'r Bwrdd wedi'u cyflwyno yn ystod y blynyddoedd diwethaf, sicrhaodd portffolio buddsoddi'r Cynllun enillion o oddeutu –12% dros y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2020. Y gwir enillion o asedau'r cynllun yn 2019-2020 oedd colled o £2.2 miliwn (£1.420 miliwn o enillion yn 2018-19). Effaith y feirws Covid-19 ar y marchnadoedd ariannol yn ystod chwarter olaf y flwyddyn oedd yn gyfrifol am yr enillion negyddol. Fodd bynnag, perfformiodd y strategaeth fuddsoddi yn gymharol dda o'i chymharu â'r marchnadoedd ecwiti dros yr un cyfnod, a oedd oddeutu -20% yn llai.

## Y prif dybiaethau actwaraidd ar ddyddiad paratoi'r Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol:

*Tabl 14: Y prif dybiaethau actwaraidd ar ddyddiad paratoi'r Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol*

| Tybiaethau | 31 Mawrth 2020 | 31 Mawrth 2019 |
|---|---|---|
| Cyfradd y disgownt | 2.25% | 2.45% |
| Cynnydd mewn enillion yn y dyfodol – yn fwy na'r gyfradd ddisgownt | -1.75% | -1.90% |
| Cynnydd mewn enillion yn y dyfodol – yn fwy na'r gyfradd ddisgownt | 0.25% | 0.10% |
| Hyd oes ddisgwyliedig ar ôl 65 oed (blynyddoedd): | | |
| Dynion | 23.7 | 24.5 |
| Menywod | 25.1 | 25.9 |
| Gweddwon | 23.9 | 24.6 |

## Sensitifrwydd i'r prif ragdybiaethau

Pe bai cyfradd wirioneddol yr elw sy'n uwch na'r enillion yn newid 0.5 y cant y flwyddyn, byddai cyfanswm y rhwymedigaeth actwaraidd yn newid tua 2.5 y cant, a byddai newid o tua £1.4 miliwn yng nghyfanswm y rhwymedigaethau.

Pe bai cyfradd wirioneddol yr elw sy'n uwch na'r pensiwn yn newid 0.5 y cant, byddai cyfanswm y rhwymedigaeth actwaraidd yn newid tua 9 y cant, a byddai newid o tua £4.9 miliwn yng nghyfanswm y rhwymedigaethau.

Os rhagdybir bod yr hirhoedledd ar ôl ymddeol yn fwy o ddwy flynedd, byddai hyn yn cynyddu cyfanswm y rhwymedigaeth actwaraidd tua 6 y cant, a byddai'n cynyddu cyfanswm y rhwymedigaethau tua £3.3 miliwn.

Mae'r symiau ar gyfer y cyfnod cyfredol a'r pedwar cyfnod blaenorol fel a ganlyn:

***Tabl 15: Y symiau ar gyfer y cyfnod cyfredol a'r pedwar cyfnod blaenorol***

| | 31 Mawrth 2020 £'000 | 31 Mawrth 2019 £'000 | 31 Mawrth 2018 £'000 | 31 Mawrth 2017 £'000 | 31 Mawrth 2016 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Rhwymedigaeth buddion diffiniedig | 54,679 | 55,178 | 50,385 | 49,456 | 38,352 |
| Asedau'r cynllun | 35,248 | 37,150 | 35,406 | 33,713 | 29,669 |
| Rhwymedigaeth net | (19,431) | (18,028) | (14,979) | (15,743) | (8,683) |
| Enillion a cholledion profiad sy'n codi ar rwymedigaethau pensiwn | (635) | (370) | 297 | 160 | 338 |
| Gwir enillion heb gynnwys llog ar asedau'r cynllun | (3,220) | 388 | 669 | 3,615 | (1,041) |

Mae rhagor o wybodaeth am Gynllun Pensiwn Aelodau o'r Senedd[31] ar gael yn Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y cynllun am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020.

[31] https://senedd.wales/cy/memhome/pay-expenses-financial-interests-standards/Pages/mem-pay.aspx

## 02. B - Costau eraill yr Aelodau

Mae Costau Eraill yr Aelodau, sef £8.709 miliwn (£8.592 miliwn yn 2018-19), yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr yn cynnwys:

| Categori | 2019–20 £'000 | 2018–19 £'000 |
|---|---|---|
| Costau Swyddfa | 889 | 982 |
| Costau ychwanegol | 244 | 272 |
| Cyfanswm staff yr Aelodau | 7,370 | 7,119 |
| Costau teithio | 206 | 219 |
| **Cyfanswm costau eraill yr Aelodau** | **8,709** | **8,592** |

Mae costau staff yr Aelodau yn cynnwys saith taliad ymadael, sef cyfanswm o £35,907 a wnaed yn 2019-20, (yn 2018-19, un taliad gwerth £2,859).

Mae gan y Senedd gynllun rhanddeiliaid grŵp (cyfraniad diffiniedig) gydag AVIVA y mae'r Comisiwn yn gwneud cyfraniad misol o 10 y cant iddo o'r cyflog gros ar gyfer staff cymorth Aelodau o'r Senedd. Hefyd, gall gweithwyr ddewis gwneud cyfraniad misol rheolaidd. Roedd y Cynllun yn cydymffurfio â deddfwriaeth ar gofrestru awtomatig a dyddiad ail-gyflwyno'r Cynllun oedd 1 Ionawr 2020. Y cyfraniadau pensiwn cyflogwr a dalwyd yn 2019-20 oedd £700,461 (£681,557 yn 2018-19).

Yn ystod y flwyddyn, cynhaliodd Grŵp Llywodraethu'r Cynllun yn fewnol ("y Grŵp") adolygiad o Aviva, fel darparwr y Cynllun, a chytunodd y Grŵp fod Aviva yn parhau i fod yn addas at y diben fel darparwr y Cynllun.

## 02. C - Y Comisiynydd Safonau

Yn unol â thelerau Mesur Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2009, y Comisiwn sy'n talu cyflog y Comisiynydd ac unrhyw gostau cysylltiedig y mae'n eu hysgwyddo. Y Comisiwn sy'n gyfrifol am sicrhau bod y cyflogau a'r lwfansau y cytunwyd arnynt yn y telerau ac amodau sy'n gysylltiedig â phenodi'r Comisiynydd, ac unrhyw rwymedigaethau rhesymol a ysgwyddir wrth iddo ymgymryd â'i ddyletswyddau, yn cael eu codi ar gyfrif Cronfa Gyfunol Cymru.

Y Comisiynydd Safonau oedd Syr Roderick Evans o 1 Rhagfyr 2016 hyd fis Tachwedd 2019. Ym mis Tachwedd 2019 ymddiswyddodd Syr Roderick o'i swydd a phenodwyd Douglas Bain yn Gomisiynydd Dros Dro.  Mae rhagor o wybodaeth am Douglas Bain a'i waith fel Comisiynydd Safonau Dros Dro ar gael yn **http://comisiynyddsafonaucymru.org/**

### Cymorth Staffio

Ers mis Tachwedd 2018 cefnogir y swyddfa gan ddau aelod o staff y Comisiwn sydd ar secondiad ar sail amser cyflawn i gynorthwyo gyda'r cynnydd yn y gwaith achos sy'n cael ei ystyried, i ddarparu gwasanaeth i gwsmeriaid ac i sicrhau bod y swyddfa'n cael ei chynnal yn effeithiol. Yn 2019-20 nodir costau staff ar gyfer blwyddyn lawn o'r trefniadau secondiad o'i gymharu â chostau rhan-amser a chost secondiad am ran o'r flwyddyn yn y flwyddyn flaenorol.

### Oriau a chostau staffio

| Natur y gost | 2019-20 | | 2018-19 | |
|---|---|---|---|---|
| | Oriau | Costau | Oriau | Costau |
| Oriau'r Comisiynydd | 220 | - | 336 | - |
| Costau Comisiynwyr | - | £17,900 | - | £26,105 |
| Oriau Comisiynydd dros dro | 171 | - | 81 | - |
| Costau Comisiynydd dros dro | - | £12,898 | - | £5,481 |
| Oriau staff cymorth | 2,995 | - | 1,333 | - |
| Costau staff cymorth | - | £123,630 | - | £44,798 |
| **Cyfanswm Oriau / Costau** | **3,386** | **£154,428** | **1,750** | **£76,384** |

## 02. D – Y Cynllun Ymadael Gwirfoddol (VES)

Lansiodd Comisiwn y Senedd Gynllun Ymadael Gwirfoddol ar gyfer pob gwasanaeth ar 22 Tachwedd 2018. Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau oedd 18 Ionawr 2019. Rhoddwyd cymeradwyaeth i ymadael i gyfanswm o 24 o bobl.

Ar 31 Mawrth 2019 nid oedd yr un o'r staff y rhoddwyd cymeradwyaeth iddynt wedi gadael ac roedd rhwymedigaeth ar y Comisiwn i wneud taliadau i 24 aelod o staff yn ystod 2019-20. Cyfanswm cost y rhwymedigaeth hon ar 31 Mawrth 2019 oedd £1,104,000. Gadawodd pob un o'r 24 aelod o staff y Comisiwn a chael eu taliadau yn ystod 2019-20. Nid oes dim rhwymedigaeth yn weddill ar 31 Mawrth 2020.

| Band cost y pecyn ymadael | Cyfanswm nifer y pecynnau ymadael yn ôl band cost 2018-19 |
|---|---:|
| £0 - £20,000 | 5 |
| £20,001 - £40,000 | 5 |
| £40,001 - £60,000 | 8 |
| £60,001 - £80,000 | 3 |
| £80,001 - £100,000 | 1 |
| £100,000 - £150,000 | 2 |
| Cyfanswm nifer y pecynnau ymadael | 24 |
| **Cyfanswm y gost adnoddau (£000s)** | **1,104** |

Ni wnaed dim taliadau diswyddo i staff y Comisiwn yn 2019-20, (dim yn 2018-19) yn ychwanegol at y Cynllun Ymadael Gwirfoddol.

Mae dau Gyfarwyddwr wedi'u cynnwys yn nifer y pecynnau ymadael a ddangosir uchod ac felly datgelir y manylion yn yr adroddiad ar Daliadau a Staff.

## 03. Costau gweinyddol eraill

Mae'r costau gweinyddol eraill gwerth £15.8 miliwn (£16.7 miliwn yn 2018-19) yn y Datganiad o Wariant Cynhwysfawr yn cynnwys:

| | 2019–20 £'000 | 2018–19 £'000 |
|---|---|---|
| Prydlesau – adeiladau | 2,794 | 2,800 |
| Prydlesau – eraill | 75 | 102 |
| Costau adeiladau a chyfleusterau | 5,669 | 5,342 |
| Costau TGCh | 2,705 | 2,786 |
| Treuliau gweinyddol | 1,737 | 1,629 |
| Costau cysylltiedig â staff | 602 | 1,676 |
| **Costau gweinyddol eraill** | **13,582** | **14,335** |
| Dibrisiant, amorteiddiad a thaliadau amhariad | 2,213 | 2,319 |
| **Cyfanswm y costau gweinyddol eraill** | **15,795** | **16,654** |

Y gost amcangyfrifedig o archwilio'r datganiadau ariannol hyn yn allanol oedd £57,958 (£55,900 yn 2018-19). Ni chynhaliwyd dim gwaith archwilio anstatudol ychwanegol yn ystod 2019-20 (2018-19, dim).

## 04. Eiddo, offer a chyfarpar

| | Tir ac adeiladau £'000 | TGCh £'000 | Dodrefn a gosodiadau [32] £'000 | Asedau sy'n cael eu hadeiladu £'000 | 2018-19 Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cost neu brisiad** | | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2019** | **61,641** | **6,817** | **1,376** | **12** | **69,846** |
| Ychwanegiadau | - | 349 | 131 | 167 | 647 |
| Ailddosbarthu | - | - | 12 | (12) | - |
| Ailbrisiad | (510) | - | - | - | (510) |
| **Ar 31 Mawrth 2020** | **61,131** | **7,166** | **1,519** | **167** | **69,983** |
| **Dibrisiant** | | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2019** | **(3,432)** | **(5,628)** | **(800)** | **-** | **(9,860)** |
| Costau yn ystod y flwyddyn | (1,717) | (413) | (83) | - | (2,213) |
| Ailbrisiad | 5,149 | - | - | - | 5,149 |
| **Ar 31 Mawrth 2020** | **-** | **(6,041)** | **(883)** | **-** | **(6,924)** |
| **Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2020** | **61,131** | **1,125** | **636** | **167** | **63,059** |
| **Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2019** | **58,209** | **1,189** | **576** | **12** | **59,986** |

Gwerth llyfr y tir a'r adeiladau a ddelir o dan drefniadau prydles ar 31 Mawrth 2020 yw £4.250 miliwn (£3.803 miliwn ar 31 Mawrth 2019).

Cynhaliwyd yr ailbrisiad diweddaraf o'r tir a'r adeiladau gan DS Gibbon FRICS o Avison Young (UK) Cyf, fel ar 31 Mawrth 2020, yn unol â Safonau Prisio Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig. Cafodd y Senedd a'r Pierhead eu hailbrisio ar gost adnewyddu dibrisiedig (DRC) fel procsi ar gyfer y gwerth cyfredol. Roedd dull y prisiwr yn cynnwys cyfrifo cost codi adeiladau cyfatebol modern a dibrisio'r gost i gyfrif am oes a bywyd economaidd yr adeiladau yn y dyfodol.

Mae'r prisiwr wedi datgelu'r wybodaeth a ganlyn mewn ymateb i'r ansicrwydd posibl sy'n gysylltiedig â phandemig COVID-19:

> Mae'r Coronafeirws Newydd (COVID-19), a gafodd ei ddisgrifio fel pandemig byd-eang gan Sefydliad Iechyd y Byd ar 11 Mawrth 2020, wedi effeithio ar farchnadoedd ariannol ledled y byd. Mae nifer o wledydd wedi cyflwyno cyfyngiadau teithio.

[32] Mae dodrefn a gosodiadau yn cynnwys 'asedau a gafwyd yn rhodd', gan gynnwys y byrllysg a gafwyd gan Senedd De Cymru Newydd pan agorwyd y Senedd.

Gwelwyd effaith ar weithgarwch y farchnad mewn nifer o sectorau. Fel ar ddyddiad y prisiad, credwn y gallwn roi llai o bwyslais ar dystiolaeth flaenorol o'r farchnad fel cymhariaeth i roi barn ar werth. Yn wir, mae'r ymateb presennol i COVID-19 yn golygu ein bod yn wynebu set ddigyffelyb o amgylchiadau fel sail ar gyfer llunio barn.

Felly, caiff ein prisiadau eu hadrodd ar sail ansicrwydd perthnasol ynghylch y pris ('material valuation uncertainty'), fel yn VPS 3 a VPGA 10 o'r RICS Red Book Global. O ganlyniad, dylid bod yn llai sicr - ac yn fwy gofalus – wrth ymdrin â'n prisiad nag mewn amgylchiadau arferol

Ni nododd yr adolygiadau amhariadau unrhyw arwyddion o amhariad ar 31 Mawrth 2020 ac felly ni nodwyd unrhyw amhariadau.

| | Tir ac adeiladau £'000 | TGCh £'000 | Dodrefn a gosodiadau [33] £'000 | Cerbydau £'000 | Asedau sy'n cael eu hadeiladu £'000 | 2018–19 Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cost neu brisiad** | | | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2018** | **61,641** | **15,147** | **1,701** | **80** | **-** | **78,569** |
| Ychwanegiadau | - | - | 166 | - | 12 | 178 |
| Gwarediadau | - | (8,330) | (491) | (80) | - | (8,901) |
| **Ar 31 Mawrth 2019** | **61,641** | **6,817** | **1,376** | **-** | **12** | **69,846** |
| **Dibrisiant** | | | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2018** | **(1,716)** | **(13,448)** | **(1,211)** | **(80)** | **-** | **(16,455)** |
| Costau yn ystod y flwyddyn | (1,716) | (510) | (80) | - | - | (2,306) |
| Wedi'i ryddhau wrth ei waredu | - | 8,330 | 491 | 80 | - | 8,901 |
| **Ar 31 Mawrth 2019** | **(3,432)** | **(5,628)** | **(800)** | **-** | **-** | **(9,860)** |
| **Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2019** | **58,209** | **1,189** | **576** | **-** | **12** | **59,986** |
| **Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2018** | **59,925** | **1,699** | **490** | **-** | **-** | **62,114** |

[33] Mae dodrefn a gosodiadau yn cynnwys 'asedau a gafwyd yn rhodd', gan gynnwys y byrllysg a gafwyd gan Senedd De Cymru Newydd pan agorwyd y Senedd.

## 05. Asedau anniriaethol

Mae'r asedau anniriaethol yn cynnwys meddalwedd a thrwyddedau meddalwedd ar gyfer y prif systemau a ddefnyddir gan y Comisiwn:

| | Meddalwedd £'000 | Cyfanswm 2020 £'000 |
|---|---|---|
| **Cost neu brisiad** | | |
| **Ar 1 Ebrill 2019 ac ar 31 Mawrth 2020** | **884** | **884** |
| **Amorteiddiad** | | |
| **Ar 1 Ebrill 2019 ac ar 31 Mawrth 2020** | **(884)** | **(884)** |
| **Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2019 a 2020** | **-** | **-** |

| | Meddalwedd £'000 | Cyfanswm 2019 £'000 |
|---|---|---|
| **Cost neu brisiad** | | |
| **Ar 1 Ebrill 2018** | **2,317** | **2,317** |
| Gwaredu | (1,433) | (1,433) |
| **Ar 31 Mawrth 2019** | **884** | **884** |
| **Amorteiddiad** | | |
| **Ar 1 Ebrill 2018** | **(2,304)** | **(2,304)** |
| Costau yn ystod y flwyddyn | (13) | (13) |
| Gwaredu | 1,433 | 1,433 |
| **Ar 31 Mawrth 2019** | **(884)** | **(884)** |
| **Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2019** | **-** | **-** |
| Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2018 | 13 | 13 |

## 06. Symiau masnachol a symiau i'w derbyn

| | 31 Mawrth 2020<br>£'000 | 31 Mawrth 2019<br>£'000 |
|---|---|---|
| Symiau sy'n ddyledus cyn pen blwyddyn: | | |
| Symiau masnachol i'w derbyn | 115 | 87 |
| Symiau eraill i'w derbyn | 21 | 22 |
| Rhagdaliadau | 1,485 | 1,290 |
| TAW y gellir ei hadennill | 257 | 325 |
| | **1,878** | **1,724** |

Nid oedd unrhyw symiau i'w derbyn gan ddyledwyr ar ôl mwy na blwyddyn.

## 07. Arian parod ac eitemau sy'n cyfateb i arian parod

| | 2020<br>£'000 | 2019<br>£'000 |
|---|---|---|
| Balans ar 1 Ebrill | 292 | 73 |
| Newid net mewn balansau arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod | (232) | 219 |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **60** | **292** |
| Balansau ar 31 Mawrth a oedd yn cael eu cadw gan: | | |
| Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth | 44 | 204 |
| Banciau masnachol ac arian parod mewn llaw | 16 | 88 |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **60** | **292** |

## 08. Symiau masnachol taladwy a rhwymedigaethau cyfredol eraill

| | 31 Mawrth 2020 £'000 | 31 Mawrth 2019 £'000 |
|---|---|---|
| Symiau sy'n ddyledus cyn pen blwyddyn: | | |
| TAW | 15 | 15 |
| Trethi eraill a nawdd cymdeithasol | 805 | 773 |
| Symiau masnachol taladwy | 1,083 | 735 |
| Croniadau | 1,913 | 3,114 |
| Symiau sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru | 60 | 292 |
| | **3,876** | **4,929** |

Nid oedd unrhyw symiau'n daladwy gan ddyledwyr ar ôl mwy na blwyddyn.

## 09. Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau

| | Cynllun pensiwn Aelodau o'r Senedd £'000 | Darpariaeth dadfeilio £'000 | 2019-20 Cyfanswm £'000 | 2018-19 Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|
| **Balans ar 1 Ebrill** | **18,028** | **120** | **18,148** | **15,099** |
| (Gostyngiad) / cynnydd yn y ddarpariaeth | (159) | 51 | (108) | 1,631 |
| Costau cyllid pensiynau | 1,562 | - | 1,562 | 1,418 |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **19,431** | **171** | **19,602** | **18,148** |

O dan IAS 19, cydnabyddir atebolrwydd o £19.431 miliwn ar gyfer Cynllun Pensiwn Aelodau o'r Senedd. Darperir rhagor o wybodaeth am hyn yn Nodyn 02.A. Gellir dod o hyd i wybodaeth ychwanegol am y darpariaethau dadfeilio yn adran y darpariaethau, Nodyn 01 – Datganiad o bolisïau cyfrifyddu.

O'r cyfanswm darpariaeth o £19.602 miliwn (£18.148 miliwn yn 2018-19), ni ddisgwylir i unrhyw swm grisialu o fewn blwyddyn (£0 miliwn yn 2018-19).

## 10. Ymrwymiadau o dan brydlesau

### (a) Prydlesau gweithredol

Yn y tabl isod, nodir yr ymrwymiadau o dan brydlesau gweithredol i dalu rhenti yn ystod y flwyddyn ar ôl y cyfnod ariannol hwn, wedi'u dadansoddi yn ôl y cyfnod yr achosir y taliadau.

| Categori | 31 Mawrth 2020 £'000 | 31 Mawrth 2019 £'000 |
|---|---|---|
| Tir ac adeiladau: | | |
| Dim hwyrach na blwyddyn | 2,796 | 2,777 |
| Yn hwyrach na blwyddyn ond cyn pen pum mlynedd | 11,156 | 11,040 |
| Yn hwyrach na phum mlynedd | 19,389 | 22,149 |
| | **33,341** | **35,966** |
| Eraill – car, argraffwyr a chopiwyr: | | |
| Dim hwyrach na blwyddyn | 14 | 31 |
| Yn hwyrach na blwyddyn ond cyn pen pum mlynedd | 9 | 6 |
| | **23** | **37** |

### (b) Prydlesau ariannol

Nid oes unrhyw rwymedigaethau o dan brydlesau ariannol ar hyn o bryd.

## 11. Ymrwymiadau cyfalaf ac eraill

Nid oedd unrhyw ymrwymiadau cyfalaf o dan gontract ar 31 Mawrth 2020 nac ar 31 Mawrth 2019.

## 12. Ymrwymiadau ariannol eraill

Mae gan y Comisiwn gontractau eraill sy'n cyfeirio at derfynu contractau'n gynnar ond nid oes taliadau wedi'u pennu ar gyfer hynny. Byddai'r Comisiwn yn mynd yn groes i gontract pe bai'n ei derfynu'n gynnar, a gallai'r contractwr hawlio iawndal am yr elw y byddai wedi'i ennill pe bai'r contract wedi parhau am y cyfnod llawn.  Gan fod y ffigur hwn yn amrywio ar gyfer pob contract, nid yw'r contractau hyn wedi'u cynnwys yn y nodyn hwn.

## 13. Offerynnau Ariannol

Nid yw'r Comisiwn yn cyhoeddi nac yn masnachu mewn offerynnau ariannol fel rhoi benthyciadau ac nid yw wedi benthyca arian gan neb arall. Mae'n dibynnu'n bennaf ar gyllid o Gronfa Gyfunol Cymru am ei ofynion arian parod ac, felly, nid yw'n agored i risgiau hylifedd. Hefyd, nid oes ganddo adneuon arwyddocaol, ac mae'r holl asedau a'r rhwymedigaethau perthnasol mewn sterling, felly nid yw'n agored i risg cyfradd llog na risg arian cyfred.

## 14. Trafodion â phartïon cysylltiedig

Mae'r Comisiwn yn ymgymryd â nifer o drafodion gyda Llywodraeth Cymru ac adrannau eraill y llywodraeth a chyrff cyhoeddus eraill, gan gynnwys Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi. Yn ogystal, mae trafodion rheolaidd yn digwydd gydag Chynllun Pensiwn Aelodau'r Senedd (gweler yr adroddiad ar Daliadau a staff, tudalen 121). Yn ôl Rheolau Sefydlog y Senedd, mae'n ofynnol i'r Senedd, ar sail cynnig gan y Comisiwn, ethol Ymddiriedolwyr i Gynllun Pensiwn yr Aelodau.

Gall y Senedd roi cyfarwyddyd arbennig neu gyffredinol i'r Comisiwn at ddibenion arfer swyddogaethau Comisiwn y Senedd, neu yng nghyswllt hynny.

Nid yw'r Comisiwn wedi cael unrhyw drafodion perthnasol uniongyrchol â Chomisiynwyr, uwch-reolwyr nac unrhyw aelodau agos o'u teuluoedd nag unrhyw sefydliad lle mae gan Gomisiynwyr, uwch-reolwyr neu unrhyw aelodau agos o'u teuluoedd swydd sy'n eu galluogi i reoli neu ddylanwadu ar benderfyniadau.

Roedd Caroline Jones, un o Gomisiynwyr y Pumed Senedd, yn ymddiriedolwr Cynllun Pensiwn Aelodau o'r Senedd o 25 Ionawr 2018. Ymddiswyddodd Caroline Jones fel ymddiriedolwr ar 5 Mehefin 2018.

Daeth Bob Evans, sydd hefyd yn Gynghorydd annibynnol i Bwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Comisiwn y Senedd yn gynrychiolydd y Comisiwn i'r Bwrdd Pensiwn ar 20 Rhagfyr 2018.

Sefydlwyd Bwrdd Taliadau annibynnol gan Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010. Y Bwrdd Taliadau sy'n pennu cyflogau a lwfansau holl Aelodau a deiliaid swyddi'r Senedd. Gall Aelodau gyflogi aelodau o'r teulu fel eu staff cymorth. Fodd bynnag, caniateir hyn yn unig pan na fydd yr Aelod o'r

Senedd yn chwarae unrhyw ran yn y broses ddethol deg ac agored, a gaiff ei chynnal gan staff y Comisiwn ar eu rhan.

Y Comisiwn sy'n penderfynu ar y polisïau ar gyflogau ac amodau staff y Comisiwn. Nid oes cyfyngiadau ar gyflogi aelodau o deuluoedd Comisiynwyr neu uwch-reolwyr i weithio i'r Comisiwn.

Mae'r Cyfarwyddwyr wedi dweud nad oes ganddynt unrhyw fuddiannau trydydd parti arwyddocaol a allai wrthdaro â'u dyletswyddau. Mae Cofrestr o Fuddiannau Ariannol a Buddiannau Eraill Aelodau o'r Senedd ar gael yn **www.senedd.wales** a **www.senedd.cymru**.

## 15. Digwyddiadau dilynol

Ar 6 Mai 2020 daeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn Senedd Cymru neu Welsh Parliament, ac fe gyfeirir at y sefydliad yn gyffredin fel y Senedd. Roedd y ddeddfwriaeth a oedd yn cyflwyno'r enw newydd hefyd yn diwygio termau allweddol eraill, gan gynnwys Comisiwn y Cynulliad, a ddaeth, o 6 Mai 2020 yn Gomisiwn y Senedd.

# Atodiad - adrodd ar reoleidd-dra

## Adrodd ar reoleidd-dra

Caiff cyllideb Comisiwn y Senedd ei hawdurdodi gan y Senedd drwy gynigion cyllideb ffurfiol. Mae'r cynigion hyn yn awdurdodi gwariant cyfalaf a refeniw y Comisiwn, yn ogystal ag incwm y ceir ei gadw a'r swm y gellir ei dynnu o Gronfa Gyfunol Cymru.

Paratowyd y Datganiad a'r nodiadau ategol yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol 2019-20 y Llywodraeth (FReM) a addaswyd mewn modd priodol ar gyfer cyfansoddiad Senedd Cymru a'r Comisiwn fel y nodir yn *Neddf Llywodraeth Cymru 2006*.

### SOS 03 Cysoni'r gofyniad arian parod net â'r (gostyngiad)/cynnydd mewn arian parod

| | 31 Mawrth 2020 £'000 | 31 Mawrth 2019 £'000 |
|---|---|---|
| Gofyniad arian parod net | (53,482) | (50,156) |
| O'r Gronfa Gyfunol (cyflenwad) – y flwyddyn gyfredol | 54,088 | 51,538 |
| Symiau sy'n ddyledus o Gronfa Gyfunol Cymru sydd heb eu defnyddio | (546) | (1,090) |
| Symiau a dalwyd i'r Gronfa Gyfunol | (292) | (73) |
| (Gostyngiad)/ cynnydd mewn arian parod | (232) | 219 |

Mae'r tabl hwn yn destun archwiliad.

## SOS 04 Cysoni Canlyniad Adnoddau Net â'r Gofyniad Arian Parod Net 2019-20

| | Noder | Cyllideb £'000 | Alldro £'000 | Cyfanswm alldro net o'i gymharu â'r gyllideb: tanwariant / (gorwariant) £'000 | Alldro 2018-19 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Alldro Adnoddau Net | SOS 01 | 57,638 | 56,336 | 1,302 | 54,365 |
| Addasiadau croniadol | | | | | |
| Eitemau nad ydynt yn arian parod | Gweler isod | (3,900) | (3,775) | (125) | (3,737) |
| Newidiadau mewn cyfalaf gweithio ar wahân i arian parod | | 350 | 921 | (571) | (472) |
| **Gofyniad Arian Parod Net** | | **54,088** | **53,482** | **606** | **50,156** |

| *Eitemau nad ydynt yn arian parod* | Noder | Cyllideb £'000 | Alldro £'000 | Alldro o'i gymharu â'r gyllideb 2019-20 £'000 | Alldro 2018-19 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Dibrisiant ac amorteiddiad a dadgydnabod | 4 a 5 | (2,250) | (2,213) | (37) | (2,319) |
| Cost Cyllid Pensiynau IAS 19 a newidiadau eraill mewn darpariaeth | | (1,650) | (1,562) | (88) | (1,418) |
| | | **(3,900)** | **(3,775)** | **(125)** | **(3,737)** |

Mae'r tabl hwn yn destun archwiliad.

## SOS 05 Dadansoddiad o'r incwm sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru

| | Cyllideb 2019-20 £'000 | Alldro 2019-20 £'000 | Alldro 2018-19 £'000 |
|---|---|---|---|
| Incwm gweithredu y gellir ei gadw | 220 | 220 | 181 |
| Is-gyfanswm | 220 | 220 | 181 |
| Swm a gadwyd | 220 | 220 | 181 |
| **Swm sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru** | - | - | - |

Ni chafwyd unrhyw incwm gweithredu arall yn 2019–20 (dim yn 2018-19).

Mae'r tabl hwn yn destun archwiliad.

Senedd Cymru
**Comisiwn y Senedd**

# Amrywiaeth a Chynhwysiant: Adroddiad Blynyddol 2019-20

Mehefin 2020





www.senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.Senedd.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:


Senedd Cymru, Bae Caerdydd, CF99 1SN

0300 200 6565

Cysylltu@senedd.cymru

www.senedd.cymru

SeneddCymru

SeneddCymru

Senedd



**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2020**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Comisiwn y Senedd**

# **Amrywiaeth a Chynhwysiant:** Adroddiad Blynyddol 2019-20

Mehefin 2020



# Cynnwys


**Rhagair** ........ 6

**Uchafbwyntiau'r flwyddyn** ........ 9

**Ein Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant** ........ 10

**Allgymorth, ymgysylltiad a chyfranogiad democrataidd** ........ 19

**Amrywiaeth a chynhwysiant yn ein gwaith** ........ 27

**Atodiad: Cynnydd ar sail Amcanion ein Strategaeth a Chynllun Gweithredu at y Dyfodol** ........ 31

**Beth nesaf?** ........ 42

# Rhagair

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am weithgareddau sy'n ymwneud ag amrywiaeth a chynhwysiant rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020.

***Ar 6 Mai newidiwyd enw'r Cynulliad yn Senedd Cymru. Pan gafodd Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 Gydsyniad Brenhinol ym mis Ionawr, roedd yn benllanw proses hir a chymhleth i'r nifer fawr o gydweithwyr yn y Comisiwn a fu'n rhan o'i thaith ddeddfwriaethol.***

***Serch hynny, fe welwch fod y ddogfen hon yn cyfeirio'n bennaf at y sefydliad fel y Cynulliad; mae hyn yn adlewyrchiad o'r ffaith ein bod yn edrych yn ôl ar y 12 mis diwethaf cyn i'r Cynulliad newid ei enw.***

---

Yn 2019, roedd y Cynulliad yn dathlu ei ben-blwydd yn ugain oed. Yn y cyfnod hwnnw, rydym wedi cymryd camau breision tuag at hybu amrywiaeth a chynhwysiant, ac i sicrhau bod yr egwyddorion hyn wrth wraidd yr hyn a wnawn fel Senedd.

Yn ei blwyddyn gyntaf, penderfynodd Senedd Ieuenctid Cymru mai un o'i blaenoriaethau fyddai hybu cymorth iechyd emosiynol ac iechyd meddwl i blant a phobl ifanc yng Nghymru, gan ddatblygu arolwg ar eu cyfer hwy yn ogystal ag ar gyfer oedolion (rhieni, gwarcheidwaid a gweithwyr proffesiynol). Rydym wedi penodi Cynghorydd Iechyd a Diogelu newydd i gefnogi gwaith parhaus y Senedd Ieuenctid. Mae'n cynnig cyngor a chymorth ar ddiogelu i dîm Senedd Ieuenctid Cymru, yn seiliedig ar anghenion ac amgylchiadau unigol Aelodau'r Senedd Ieuenctid.

Cawsom gynllun Prentisiaeth hynod lwyddiannus eleni gyda mwy o ymgeiswyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol nag erioed o'r blaen.

Rydym wedi ymgynghori'n helaeth ar gynigion i ddiwygio'r Cynulliad, ac mae'r cyhoedd wedi cymryd rhan flaenllaw yn y gwaith hwnnw. Mae gwaith Pwyllgorau'r Cynulliad yn ehangu o hyd, ac mae'n cynnwys safbwyntiau cynulleidfaoedd sy'n gynyddol amrywiol.

Roeddem hefyd yn falch iawn o dderbyn cydnabyddiaeth unwaith eto gan Stonewall am ein hagwedd at gynhwysiant LHDT a dathlu llwyddiant ein prentis BAME cyntaf i ennill Prentis y Flwyddyn.

Rydym yn edrych ymlaen at adeiladu ar ein llwyddiannau wrth i ni baratoi ar gyfer y chweched Senedd.  Rydym yn gwbl ymrwymedig i fwrw ymlaen i gyflawni'r nodau yn ein Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant, a chyflawni ein cyfrifoldebau o ran Deddf Cydraddoldeb 2010.

Fel bob amser, byddem yn croesawu eich adborth ar yr adroddiad hwn, ac o ran sut y gallem ystyried gwneud pethau'n wahanol yn y dyfodol.



**Manon Antoniazzi**
Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad



**Joyce Watson**
Comisiynydd y Cynulliad sy'n gyfrifol am gyflogeion a chydraddoldeb



# Uchafbwyntiau'r flwyddyn

Fe wnaethom nodi 20 mlynedd o ddatganoli gyda digwyddiad i'r holl staff a dathlu ein gwerthoedd trwy gyfrwng cynllun newydd i gydnabod gwaith y staff. Hefyd, cyhoeddwyd cylchgrawn mewnol arbennig, "Llechen", i nodi'r achlysur.

Lansiwyd Ymgyrch Hawl i Herio lwyddiannus a oedd yn adeiladu ar y cynnydd yr ydym wedi'i wneud gyda'n hymrwymiad Urddas a Pharch, gan rymuso pawb i wneud rhywbeth os ydynt yn dyst i ymddygiad amhriodol yn ein gweithle.

Ategwyd ein hymrwymiad i ddatblygu ein prentisiaid gyda llwyddiant Mahima Khan, ein prentis BAME cyntaf, yn ennill Gwobr Prentis y Flwyddyn y Cynghrair Sgiliau Ansawdd. Mae'r cynllun prentisiaeth eleni wedi denu mwy o geisiadau nag erioed.

Cawsom ein dyfarnu yn weithle gorau Cymru ar gyfer gweithwyr LHDTQ+ ac rydym hefyd yn cadw ein lle ar restr 10 Uchaf y DU am y chweched flwyddyn yn olynol. Eleni dyfarnwyd Canmoliaeth Uchel i'n Grŵp Rhwydwaith hefyd.

Mae ein hymateb i Barhad Busnes yn ystod Covid-19 wedi cymryd amrywiaeth a chynhwysiant i ystyriaeth. Rydym wedi deall yr anghenion busnes ac wedi cydbwyso'r rhain â'r anghenion a'r cymorth unigol sy'n ofynnol gan ein Haelodau Cynulliad a'n cydweithwyr, i sicrhau eu bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf, a'u bod yn ddiogel.

Rydym wedi bod yn gweithio gyda phartneriaid i ddarparu hyfforddiant newydd ar Amrywiaeth a Chynhwysiant wyneb yn wyneb ac ar-lein i holl staff cymorth Aelodau'r Cynulliad.

# Ein Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant

Mae'n bwysig ein bod yn parhau i fod yn hygyrch i bobl Cymru a thu hwnt: a bod y Senedd yn berthnasol, yn hawdd ac yn ystyrlon i bobl ryngweithio â hi a chyfrannu at ei gwaith. Mae hefyd yn bwysig ein bod yn gyflogwr cynhwysol, gan alluogi ein holl staff i wireddu eu llawn botensial.

Mae ein blaenoriaethau a'n hamcanion i'w gweld yn **Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant 2016-21**.

## Urddas a pharch

Rydym wedi ymrwymo i ddarparu diwylliant cynhwysol sy'n rhydd o aflonyddu, a disgwyliwn i bawb, gan gynnwys ymwelwyr, Aelodau'r Cynulliad, staff yr Aelodau a staff Comisiwn y Cynulliad, gael eu trin ag urddas a pharch. Bob mis Mai, rydym yn cynnal Arolwg Urddas a Pharch, gan sicrhau ein bod yn parhau i gyflwyno unrhyw newidiadau angenrheidiol i adeiladu ar y diwylliant cywir.







**PARCH**

Rydym yn gynhwysol ac yn garedig, ac rydym yn gwerthfawrogi cyfraniadau ein gilydd wrth ddarparu gwasanaethau rhagorol

**ANGERDD**

Rydym yn bwrpasol wrth gefnogi democratiaeth, gan dynnu ynghyd i wneud gwahaniaeth i bobl Cymru

**BALCHDER**

Rydym yn arddel arloesedd ac yn dathlu ein llwyddiannau fel tîm

# UN TÎM YDYM NI

# Ein pobl

## Rhwydweithiau cydraddoldeb yn y gweithle

Rydym yn gwerthfawrogi'r cyfraniad y mae ein rhwydweithiau cydraddoldeb yn ei wneud i'n gweithle a'r cyngor arbenigol a'r ddealltwriaeth y maent yn eu darparu i ni o ran llunio polisïau cynhwysol, hyrwyddo gweithle cynhwysol a'n helpu i wireddu'r uchelgeisiau a nodwyd gennym yn ein Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant. Mae'r rhwydweithiau'n cymryd rhan mewn gweithgareddau trwy gydol y flwyddyn:

**MINDFUL**
Ein Rhwydwaith Cefnogi Iechyd Meddwl

**REACH**
Ein Rhwydwaith Hil, Ethnigrwydd a Threftadaeth Ddiwylliannol

**INSPIRE**
Ein rhwydwaith cydraddoldeb yn y gweithle i fenywod

**PLWS**
Ein rhwydwaith cydraddoldeb yn y gweithle i bobl LGBTQ+

**TEULU**
Ein Rhwydwaith Gofalwyr a Rhieni sy'n Gweithio

**EMBRACE**
Ein rhwydwaith cydraddoldeb yn y gweithle i bobl anabl

REACH – Canolbwyntiodd y rhwydwaith ar ddarparu sesiynau i ddatblygu sgiliau a hyder yr aelodau, ac ymunodd llawer o wynebau newydd â'r rhwydwaith eleni. Nododd y rhwydwaith Fis Hanes Pobl Dduon, fel arfer, ac eleni darparodd sesiynau *Dewch i Ni Siarad am Hil* ac *Ymwybyddiaeth Ddiwylliannol* ar gyfer y staff. Dangosodd y rhwydwaith hefyd ryseitiau o'r llyfr coginio Ymwybyddiaeth Ddiwylliannol.

MINDFUL – Gan adeiladu ar y flwyddyn ddiwethaf, mae mwy o aelodau nag erioed wedi cael hyfforddiant mewn Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl, gan hybu eu sgiliau fel hyrwyddwyr Llesiant Iechyd Meddwl. Mae'r rhwydwaith yn parhau i hyrwyddo gweithgareddau llesiant ar y safle, a chyflwynodd y 'daith gerdded llesiant wythnosol' gan

annog staff i gymryd seibiant go iawn o'u desgiau a mynd am dro gyda chydweithwyr. Mae Mindful wedi cynorthwyo i ddatblygu gwefan bwrpasol ar gyfer llesiant, a gweminarau gwytnwch a llesiant i gefnogi staff syn gweithio gartref yn ystod pandemig Covid-19. Bu traws-rwydweithio diwyd dan arweiniad y rhwydwaith ar ddeall a chefnogi'r Menopos.

INSPIRE – Yn dilyn y casgliad llwyddiannus a gafwyd y llynedd tuag at dlodi mislif, mae'r rhwydwaith wedi symud ei ffocws tuag at gefnogi staff trwy'r menopos. Gan weithio gydag arbenigwyr, datblygodd y rhwydwaith sesiynau codi ymwybyddiaeth i wella dealltwriaeth a lleihau stigma, a chyhoeddi canllawiau i staff. Mae'r ddogfen hon, a lansiwyd ar Ddiwrnod Rhyngwladol y Menywod 2020, yn rhoi cyngor i fenywod sy'n dioddef o symptomau'r menopos ar y ffordd orau o reoli'r symptomau hynny yn y gwaith, ac mae'n cynnig cyngor i reolwyr llinell wrth gefnogi eu timau.



PLWS – Newidiodd y rhwydwaith LHDT+, a elwid gynt yn OUT-NAW, ei enw i PLWS. Cymerodd aelodau a chyfeillion ran yng ngorymdaith Pride Cymru trwy ganol y ddinas i ddathlu digwyddiad Pride blynyddol a mwyaf Cymru. Trefnodd a chynhaliodd y rhwydwaith drafodaeth banel hefyd gyda siaradwyr gwadd o wahanol agweddau ar y gymuned LHDT+ i drafod yr hyn a ddysgwyd ers y mudiad hawliau sifil modern, a gafodd ei sbarduno yn Stonewall, UDA (1969). Mae'r rhwydwaith arobryn yn parhau i weithio'n agos gyda Stonewall Cymru. Mae wedi cyflwyno canllawiau newydd ar gyfer y gweithle ynghylch rhagenwau a sut i'w cynnwys mewn llofnodion e-bost.

Mae hefyd yn diweddaru ac yn ailgyhoeddi canllawiau a chymorth LHDT+ yn rheolaidd i'r holl staff.




EMBRACE – Cynhaliodd y rhwydwaith ddigwyddiad cyntaf Abledd Cymru, a oedd yn agored i bawb. Roedd y digwyddiad yn gyfle gwych i rwydweithio a dod o hyd i ffyrdd o gefnogi ein gilydd, ac i lywio datblygiad polisi, a holiaduron llesiant.  Mae'r rhwydwaith yn canolbwyntio ar weithio gyda rhwydweithiau eraill ar godi ymwybyddiaeth o faterion allweddol trwy nodi dyddiadau pwysig yn y Calendr Amrywiaeth a Chynhwysiant, fel y Diwrnod Rhyngwladol ar gyfer Pobl ag Anableddau, ac archwilio themâu sy'n ymwneud â hawliau gofalwyr ac anableddau cudd.

TEULU – Fel un o'r cyflogwyr gorau ar gyfer Teuluoedd sy'n Gweithio, mae'r rhwydwaith wedi parhau i ddatblygu ein hymrwymiadau i ofalwyr a rhieni. Rydym yn cyflwyno Cyfraith Jack i'n polisïau absenoldeb rhiant, gyda gwelliant yn unol â'n polisïau absenoldeb rhiant presennol. Yn ystod amser digynsail y Coronafeirws, er mwyn cefnogi gweithwyr, darparwyd cefnogaeth

i'r holl staff ni waeth beth oedd eu hanghenion, ond rydyn ni wedi ceisio cefnogi'r staff hynny ag anghenion ychwanegol yn ystod cyfnod o gynnydd yn yr anghenion gofalu. Mae hyn wedi cynnwys diwygio polisïau, ailddosbarthu gwaith, offer, canllawiau a chyfeirio at gefnogaeth ychwanegol, a chyfathrebu rheolaidd a chydnabyddiaeth gan Uwch-arweinwyr.

**Rhwydwaith Ymgysylltu –** Mae'r rhwydwaith hwn yn wahanol i'n rhwydweithiau eraill gan ei fod yn cynnwys ein holl weithwyr. Fe'i cynlluniwyd i helpu staff i gymryd rhan mewn prosiectau, rhaglenni sydd o ddiddordeb iddyn nhw, ac i ddarparu adborth a all arwain at welliannau. Mae gweithgareddau yn ystod 19/20 wedi cynnwys nodi pen-blwydd 20 mlynedd y Cynulliad, diwygio'r Adolygiad Datblygu Perfformiad (PDR), adolygu'r broses recriwtio o'r brig i'r bôn, gwelliannau i gyfathrebu mewnol, a datblygu cynllun Gwobrau Cydnabod.

## Cynllun Prentisiaeth 2019

Rydym wedi parhau i adeiladu ar lwyddiant Cynllun Prentisiaeth 2018, gan ddatblygu ymhellach ein hagwedd at allgymorth, meini prawf cymhwysedd, datblygu staff mewnol a phrofiad prentisiaid. Rydym wedi parhau i ganolbwyntio ar feithrin perthnasoedd â sefydliadau cyn-recriwtio trwy allgymorth: fe wnaethom ni ymgysylltu â disgyblion ysgol, cymunedau lleol, rhwydweithiau a sefydliadau a chymunedau trydydd sector i sicrhau bod ein cynllun prentisiaeth yn hygyrch i bawb, yn enwedig cyrraedd ymgeiswyr o gymunedau mwy ymylol a heb gynrychiolaeth ddigonol.

Cyrhaeddodd ein hymgyrch recriwtio gynhwysol, fwy hygyrch, 21,258 o bobl. Bu'r diwrnod agored teilwredig yn llwyddiant, gyda phob sedd wedi'i chymryd, ac yn sgil proses ymgeisio symlach bu cynnydd o 70 y cant yn y ceisiadau a chynnydd o 43 y cant yn y ceisiadau gan ymgeiswyr BAME. Mae'r cynllun newydd yn parhau i gael ei deilwra yn dilyn adborth gan brentisiaid gan gynnwys y cyfle a'r adnoddau i ddatblygu sgiliau yn y gwaith sy'n arwain at Ddiploma Lefel 3 mewn Gweinyddu Busnes.

## ASTUDIAETH ACHOS

### Enillydd Gwobr Prentis y Flwyddyn y Cynghrair Sgiliau Ansawdd – Mahima Khan

Rydym yn falch iawn o gyhoeddi bod Mahima Khan, ein Swyddog Cefnogi Pwyllgorau, nid yn unig wedi ennill y wobr Gweinyddu Busnes yng Ngwobrau Prentisiaeth 2020 y Cynghrair Sgiliau Ansawdd (QSA), ond hefyd wedi ennill prentis y flwyddyn QSA. Cafodd ei dewis o blith pob un o’r enillwyr categori fel y prentis yr oedd ei chyflawniadau yn adlewyrchu gwerthoedd QSA orau.

Consortiwm o ddarparwyr dysgu yn y gwaith yw QSA sy'n cynnwys 23 partner ac isgontractwyr. Mae'r gwobrau'n dathlu rhagoriaeth a chyflawniad ac mae Mahima Khan yn enillydd teilwng. Mae hi wedi dangos rhagoriaeth, gan ychwanegu gwerth at bob math o brosiectau gyda'i brwdfrydedd i gymryd rhan. Mae wedi mynd yr ail filltir gan herio ei hun yn barhaus ac mae wedi bod yn gaffaeliad go iawn i'r Cynulliad.

“A dweud y gwir, rwy’n dal wedi fy syfrdanu ar ôl clywed fy mod wedi ennill y wobr. Ni feddyliais y byddwn yn cyrraedd y rhestr fer, heb sôn am ennill!

Rwy’n teimlo’n wylaidd iawn o gael cydnabyddiaeth am y gwaith yr wyf wedi’i wneud yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae aelodau gwych o staff wedi fy ngwthio i fynd y filltir ychwanegol, a rhoddodd hynny hyder imi wthio fy hun ymhellach a goresgyn unrhyw ofnau y credais y byddai’n fy rhwystro rhag datblygu fy hun yma.

Rwyf wedi cael blwyddyn ddadlennol fel Prentis yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru, gan ddechrau gyda lansio Senedd Ieuenctid Cymru, wedyn cael cydnabyddiaeth am fy nghefnogaeth i’r digwyddiad i groesawu tîm Criced Bangladesh a hefyd bod yn rhan o ddathliadau camp lawn cystadleuaeth y Chwe Gwlad yn y Senedd, lle cefais gyfarfod â thîm Rygbi Cymru. Diolch ichi am roi cymaint o groeso imi ac edrychaf ymlaen at y blynyddoedd sydd i ddod!” – Mahima Khan



## Dysgu a Datblygu

Mae'r Comisiwn wedi darparu mwy o hyfforddiant eleni nag erioed o'r blaen, ac mae cysyniadau amrywiaeth a chynhwysiant yn sail i'n darpariaeth dysgu a datblygu. Rydym wedi cyflwyno ystod o hyfforddiant ffurfiol ac anffurfiol, gan gynnwys hyfforddiant wyneb yn wyneb, gweithdai, a chanllawiau ac adnoddau ar-lein gan sicrhau bod amrywiaeth yn cael ei hybu mewn modd ystyrlon a hygyrch. Yn ystod y cyfnod hwn, mae cydweithwyr wedi cael amrywiaeth o hyfforddiant sy'n cynnwys deall iechyd meddwl, urddas a pharch, ymwybyddiaeth o'r menopos, iechyd meddwl plant, cefnogi cyflogeion sydd â chanser, ymwybyddiaeth o awtistiaeth, ymwybyddiaeth o ddementia a hyfforddiant ym maes rhagfarn ddiarwybod. Rydym yn parhau i ehangu ein dulliau gweithredu i sicrhau y gall staff gael mynediad at hyfforddiant o bell ac rydym yn parhau i gefnogi ein rhwydweithiau staff i helpu i ennyn cefnogaeth yn unol â'n gwerthoedd.

### Hyrwyddo cynhwysiant drwy godi ymwybyddiaeth yn fewnol

#### Wythnos Amrywiaeth a Chynhwysiant: 1-5 Gorffennaf 2019

Bob blwyddyn, rydym yn cynnal Wythnos Amrywiaeth a Chynhwysiant sy'n canolbwyntio ar weithgareddau codi ymwybyddiaeth, darparu gwybodaeth yn y gweithle, ac ymgyrch cyfryngau cymdeithasol sydd â ffocws allanol. Manon Antoniazzi, y Prif Weithredwr a'r Clerc, agorodd yr wythnos gyda blog yn amlinellu ymrwymiad y sefydliad i Amrywiaeth a Chynhwysiant.



## Data amrywiaeth o ran y gweithlu, recriwtio a chyflogau

Mae ein data am y gweithlu a recriwtio, a'n hadroddiadau ar gyflogau cyfartal a'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn cael eu cyhoeddi yn y drefn honno fel dogfennau ategol i'r adroddiad hwn er mwyn sicrhau mynediad rhwydd at y wybodaeth.

Fel y llynedd, mae'r **data am y gweithlu a recriwtio** yn dangos ein bod yn parhau i ddenu a recriwtio amrywiaeth eang o bobl. Rydym wedi recriwtio pobl o ystod o oedrannau, pobl a chanddynt anableddau, a phobl o hiliau, crefydd a chyfeiriadedd rhywiol gwahanol. Rydym yn parhau â'n gwaith i gynyddu amrywiaeth ein gweithlu er mwyn cynrychioli'n well y cymunedau rydym ni'n eu gwasanaethu. Mae ein hadolygiad o recriwtio, y pecyn ymgeiswyr newydd, a'r defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol ar gyfer recriwtio wedi ein galluogi i nodi rhagor o gyfleoedd i leihau rhwystrau ac annog ystod amrywiol o ymgeiswyr.

Mae ein **data am gyflogau cyfartal** yn gadarnhaol ac mae'r bwlch sydd rhwng dynion a menywod o ran cyflogau cyfartal wedi lleihau ers y llynedd. Dyma gam cadarnhaol tuag at gyflogau cyfartal rhwng y rhywiau, sy'n dangos bod y duedd a welwyd dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf yn parhau. Er bod rhagor o waith i'w wneud, heb os, mae ein tueddiadau data wedi gwella yn ystod y cyfnod monitro hwn.

# Allgymorth, ymgysylltiad a chyfranogiad democrataidd

Un o'n hamcanion parhaus yw ymgysylltu â holl bobl Cymru a hyrwyddo gwaith y Cynulliad. Fel corff seneddol, mae'n bwysig bod y Cynulliad yn cynrychioli holl bobl Cymru a bod gan bawb fynediad at ein gwaith, ein hadeiladau a'n gwybodaeth.

## Trosolwg o'r gweithgaredd ymgysylltu â'r cyhoedd

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi ymgysylltu â phobl o bob rhan o Gymru, mewn cymunedau ar draws y wlad, ac ar ein hystâd. Yn ystod y cyfnod hwn mae pobl ledled Cymru wedi ymgysylltu â ni drwy weithdai, cyflwyniadau, digwyddiadau a gweithgarwch ymgysylltu sy'n gysylltiedig ag ymgyngoriadau pwyllgorau.Gweler isod  enghreifftiau gwych o'n gwaith ymgysylltu a rhai o uchafbwyntiau'r flwyddyn.

## Senedd Ieuenctid Cymru

Mae wedi bod yn flwyddyn gyntaf brysur i Senedd Ieuenctid Cymru. Cynhaliwyd deuddeg cyfarfod rhanbarthol mewn gwahanol leoliadau ledled Cymru, digwyddiadau rhanbarthol ar Sgiliau Bywyd yn y Cwricwlwm yng ngogledd a de Cymru, ac ymgynghoriad ac adroddiad cyntaf Senedd Ieuenctid Cymru ar Sgiliau Bywyd yn y Cwricwlwm.

Yn ystod y cyfarfodydd rhanbarthol mae Aelodau Senedd Ieuenctid Cymru wedi bod yn datblygu eu rhaglen waith mewn tri maes allweddol: Cymorth Iechyd Emosiynol ac Iechyd Meddwl, Sbwriel a Gwastraff Plastig, a Sgiliau Bywyd yn y Cwricwlwm. Maen nhw hefyd wedi cael hyfforddiant amrywiol i ddatblygu eu sgiliau ac wedi ymgysylltu ag ystod o fusnes y Cynulliad.



## Sesiynau Ymgysylltu â'r Gymuned

Cynhaliodd ein Tîm Ymgysylltu â'r Gymuned 35 o Sesiynau Cymunedol ar gyfer 876 o gynrychiolwyr eleni, yn ymwneud ag amrywiaeth o grwpiau a oedd yn cynnwys Mind Cymru, Cymdeithas Awtistiaeth Genedlaethol Cymru, Canolfan Merched Gogledd Cymru, Gingerbread a Mantell Gwynedd. Mae'r sesiynau hyn yn cyflwyno dinasyddion i waith y Cynulliad, fel yr hyn a wnawn wrth ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif, sut y gall dinasyddion ymgysylltu â'u Haelodau Cynulliad a chymryd rhan mewn ymgyngoriadau a deisebau.

## Hyrwyddo amrywiaeth a chynhwysiant

Fel rhan o'n hymrwymiad i fod yn sefydliad cynhwysol, rydym yn parhau i hyrwyddo amrywiaeth a chynhwysiant i'r cyhoedd drwy ddigwyddiadau, y cyfryngau cymdeithasol ac ymgyrchoedd. Rydym yn mynd ati i annog ystod eang o bobl o Gymru a thu hwnt i gymryd rhan yng ngwaith y Cynulliad ac i ystyried y Cynulliad yn ddarpar gyflogwr mewn sawl ffordd:

## Arddangosfeydd

Rydym wedi cynnal amrywiaeth o arddangosfeydd ar ystâd y Cynulliad. Dyma rai o'r uchafbwyntiau:

- **Nifer o Leisiau, Un Genedl**
  Comisiynwyd yr arddangosfa hon gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru fel rhan o ddigwyddiadau a gweithgareddau drwy gydol 2019/20 i nodi'r 20 mlynedd gyntaf o ddatganoli yng Nghymru. Mae'r arddangosfa deithiol hon yn defnyddio ffotograffiaeth a chyfryngau lens i archwilio gobeithion a dyheadau ar gyfer Cymru a'i dyfodol. Nod yr arddangosfa yw cloriannu cyfoeth ac amrywiaeth daearyddol, diwylliant a chymdeithas Cymru, a lle bo modd, annog y cyhoedd i gymryd rhan. Yn dilyn ymddangosiad cyntaf llwyddiannus yn y Cynulliad ym mis Medi 2019, mae'r arddangosfa bellach wedi teithio i Aberystwyth a Merthyr Tudful a bydd yn dod i ben yn y Galeri yng Nghaernarfon ym mis Mehefin 2020.

- **BeLonging**
  Arddangosfa yn dathlu Mis Hanes Pobl Dduon ym mis Hydref 2019 oedd hon. Roedd Be/Longing yn canolbwyntio ar ddinasyddion y Gymanwlad a deithiodd i Gymru ar ôl yr Ail Ryfel Byd i ymuno â phobl eraill o ynysoedd y Caribî a oedd wedi ymgartrefu yng Nghymru ymhell cyn hynny. Roedd y gosodiadau a'r ffotograffau yn seiliedig ar fywydau'r genhedlaeth hŷn hon a'r nod oedd rhoi cipolwg ar rai o arferion bob dydd pobl sydd â'u gwreiddiau yr un mor ddwfn ym mhridd Cymru ag yn eu hynysoedd genedigol.

- **Modelau Rôl Cymunedol Balchder Cymru**
  Cafwyd arddangosfa gan Pride Cymru ar goridor staff a oedd yn dathlu 15 o bobl o'n cymuned LHDT+ sydd wedi gwneud gwahaniaeth cadarnhaol yng Nghymru, gyda cydweithwyr a chyn-gydweithwyr yn eu plith. Mae'r bobl ysbrydoledig hyn wedi cynyddu gwelededd ac amlygrwydd y gymuned LHDT+ yng Nghymru, gan sefyll a gweithio i wneud newid cadarnhaol.

- **Everywoman**
  Gan nodi Diwrnod Rhyngwladol y Menywod 2020, mae'r arddangosfa hon yn dathlu gwaith menywod na fyddent fel arall, o bosibl, yn cael sylw. Mae’r holl arddangoswyr yn aelodau o grŵp ffotograffiaeth PHRAME ac yn canolbwyntio ar hyrwyddo a chefnogi gwaith ffotograffwyr benywaidd sy'n dod i'r amlwg yn ardal de Cymru.

## Ymwelwyr, teithiau a digwyddiadau

Rydym yn hyrwyddo'r Cynulliad fel atyniad i ymwelwyr drwy gysylltiadau â Grŵp lleol Partneriaid Glannau Bae Caerdydd, y cyfryngau cymdeithasol, ein gwaith allgymorth a thrwy Euan's Guide, gwefan o restrau ac adolygiadau sy'n helpu pobl anabl a'u teuluoedd i wybod pa leoliadau sy'n hygyrch.

Rydym wedi gwneud addasiadau i alluogi ymwelwyr i gymryd rhan mewn teithiau drwy addasu cyflymder teithiau a chymhlethdod yr iaith a ddefnyddir.

Rydym wedi cynnal amrywiaeth helaeth o ddigwyddiadau sy’n gysylltiedig â chynhwysiant trwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys digwyddiadau i nodi:

- Baha'ullah;
- Allgymorth – digwyddiad unigrwydd ieuenctid;
- Gwobrau Gwaith Cymdeithasol BASW Cymru 2019;
- Anelu am Aur ar gyfer Diwrnod Awtistiaeth y Byd 2019;
- Heneiddio a Gofal Traws yng Nghymru, cydweithrediad â’r Rhwydwaith Trawsrywedd Unique a Rhwydwaith LHDT Pobl Hŷn Cymru, Age Cymru;
- Newid Adferol – dod â thrais domestig i ben;
- Cynhadledd Sipsiwn, Roma a Theithwyr LHDT+;
- Digwyddiad ymgysylltu gwleidyddol – cydnabod sgiliau pobl ifanc ag anableddau;

- Lansiad Swyddogol Mis Hanes Pobl Dduon a Gwobrau Ieuenctid Cenedlaethol Hanes Pobl Dduon.

## Hyrwyddo cynhwysiant y tu hwnt i Gymru

### ASTUDIAETH ACHOS

### 64ain Cynhadledd Seneddol y Gymanwlad, Wganda

Arweiniodd y Dirprwy Lywydd, Ann Jones AC, ddirprwyaeth y Cynulliad i Gynhadledd Flynyddol 2019 Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad (CPA) yn Kampala, Uganda. Chwaraeodd Ann Jones AC ran weithredol ac arweiniol yn y gynhadledd a fynychwyd gan dros 500 o Seneddwyr o bob rhan o'r Gymanwlad. Roedd hyn yn cynnwys cadeirio gweithdy ar “Rôl Seneddwyr wrth Hwyluso Pobl ag Anableddau fel Etholwyr, Ymgeiswyr a Deddfwyr” lle roedd hi'n gallu cyfeirio at ei phrofiad personol ei hun, yn ogystal ag arddangos yr arfer seneddol orau yma yng Nghymru.

## Ehangu cyrhaeddiad gwaith Pwyllgorau'r Cynulliad

Mae Pwyllgorau'r Cynulliad yn gweithio'n galed i sicrhau eu bod yn clywed gan yr ystod ehangaf a mwyaf amrywiol o bobl er mwyn llywio eu gwaith. Ar gyfer pob ymchwiliad, bydd y pwyllgorau’n ystyried pa fathau o ymgysylltu ac allgymorth fydd fwyaf priodol. Mae materion cynhwysiant yn cael eu hystyried fel mater o flaenoriaeth bob amser ar gyfer y rhain. Mae’r pwyllgorau yn parhau i chwilio am ffyrdd newydd ac arloesol o ymgysylltu ac maen nhw’n parhau i wneud addasiadau er mwyn sicrhau y gall cyfranogwyr gymryd rhan yn y ffordd sy'n gweithio orau iddyn nhw, boed hynny drwy ddefnyddio fforymau trafod ar-lein, grwpiau ffocws, neu drwy ei gwneud yn haws i bobl gyflwyno tystiolaeth mewn lleoliad ffurfiol.

### Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Yn ystod ymchwilliad y Pwyllgor i Addysg Heblaw yn yr Ysgol, bu Aelodau’r Cynulliad yn ymweld â thri lleoliad o’r fath sy’n cefnogi plant a phobl ifanc. Creodd y Pwyllgor arolygon ar-lein i gasglu profiadau teuluoedd sy'n cymryd rhan mewn addysg heblaw yn yr ysgol, ac i gasglu safbwyntiau staff. Cynhaliodd y Pwyllgor hefyd nifer o sesiynau bord gron gyda rhanddeiliaid i

gasglu tystiolaeth fel rhan o'i waith craffu ar y Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru). Gan gydnabod sensitifrwydd y mater a'r teimladau cryf yn ei gylch, creodd y Pwyllgor borth ar-lein fel rhan o'i ymgynghoriad cyhoeddus i'w gwneud hi'n haws i bobl roi tystiolaeth i ymchwiliad ffurfiol.

## Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

Ail-ymwelodd y Pwyllgor â'i waith ar gysgu ar y stryd yn ystod haf 2019. Roedd y Pwyllgor wedi cyhoeddi adroddiad ym mis Ebrill 2018 a oedd yn cynnwys cyfres eang o argymhellion i Lywodraeth Cymru. Wrth fynd ar drywydd yr argymhellion hynny, penderfynodd ganolbwyntio ar ymgysylltu â'r rhai sydd â phrofiad o gysgu ar y stryd. Yn aml iawn, gall hynny gynnwys pobl sy'n ymwneud leiaf â busnes y Cynulliad. Cynhaliodd y Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion nifer o grwpiau ffocws ym mhob rhan o Gymru yn ystod yr haf. Daeth hyn i ben gyda sesiwn pwyllgor anffurfiol gydag Aelodau'r Pwyllgor a phobl a oedd â phrofiad o gysgu ar y stryd. Un o'r materion a gododd dro ar ôl tro oedd y cymorth i bobl sy'n cysgu ar y stryd a oedd â phroblemau camddefnyddio sylweddau yn ogystal â phroblemau iechyd meddwl. Arweiniodd hyn at adroddiad y Pwyllgor a oedd yn cynnwys argymhellion i Lywodraeth Cymru ar gyfer gwella gwasanaethau. Trafodwyd yr adroddiad yn y Cynulliad ym mis Ionawr 2020.

## Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

Fel rhan o'i ymchwiliad i iechyd a gofal cymdeithasol yng ngharchardai Cymru, ymwelodd y Pwyllgor â nifer o garchardai ledled Cymru ac achubodd ar y cyfle i drafod yr ymchwiliad gyda grwpiau o garcharorion. Cynhaliodd y pwyllgor ddigwyddiad rhanddeiliaid bord gron hefyd i glywed gan wahanol weithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol, yn ogystal â'r rhai sy'n cynrychioli carcharorion, am hygyrchedd ac ansawdd gwasanaethau yng ngharchardai Cymru.

## Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

Roedd yr adroddiad 'Minnau hefyd!' yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ei gwneud yn ofynnol i'r holl gyrff celfyddydau a diwylliannol sy'n cael cyllid cyhoeddus nodi eu hamcanion ar gyfer mynd i'r afael â thlodi ac allgáu

cymdeithasol yn eu cynlluniau strategol. Roedd yr adroddiad hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyrff hynny nodi sut y byddant yn cyd-ddylunio gweithgareddau creadigol a chynnwys gyda'r cynulleidfaoedd targed hyn a chynyddu mynediad at brentisiaethau.

## Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

Fel rhan o'i ymchwiliad i dlodi tanwydd yng Nghymru, cynhaliodd y Pwyllgor gyfres o grwpiau ffocws gyda phobl mewn tlodi tanwydd, neu mewn perygl o dlodi tanwydd, a hefyd gyda darparwyr gwasanaethau cynghori a chymorth. Cynhaliwyd pedair sesiwn ledled Cymru, gyda chyfranogwyr o dri o ranbarthau'r Cynulliad. Daeth y cyfranogwyr o amryw fudiadau gan gynnwys Age Cymru, Sefydliad Bevan, Cyngor ar Bopeth, Anabledd Cymru, Tai Pawb, Ymddiriedolaeth Trussell a Phrifysgolion Cymru. Defnyddiwyd allbwn y grwpiau ffocws i lywio adroddiad y Pwyllgor.

## Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

Fel rhan o'i ymchwiliad i newidiadau i'r rheolau rhyddid i symud ar ôl Brexit, cynhaliodd y Pwyllgor grwpiau ffocws a oedd yn cynnwys dinasyddion yr UE, ac unigolion sy'n gweithio i sefydliadau ac elusennau sy'n eu cynrychioli. Mae'r sefydliadau hyn yn cefnogi'n uniongyrchol grwpiau a dinasyddion agored i niwed â nodweddion gwarchodedig, fel anabledd, oedran a rhyw.

## Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad (Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol gynt)

Fel rhan o'r gwaith craffu Cyfnod 1 ar y Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru), casglodd y Pwyllgor farn pobl ifanc ledled Cymru ar ostwng yr oedran pleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol i 16 a'r angen am unrhyw addysg wleidyddol a dinasyddiaeth i ategu hynny. Casglwyd safbwyntiau trwy fwrdd trafod ar-lein o'r enw Senedd Dialogue ac yn ystod sesiynau grŵp ffocws gydag ysgolion a grwpiau ieuenctid.

# Amrywiaeth a chynhwysiant yn ein gwaith

Rydym yn cefnogi staff Comisiwn y Cynulliad i gynnwys amrywiaeth a chynhwysiant yn eu gwaith er mwyn sicrhau bod penderfyniadau, trefniadau cynllunio a darparu gwasanaethau, a mynediad i'n hystâd yn gynhwysol, a thrwy sicrhau bod amrywiaeth a chynhwysiant yn cael eu hystyried wrth brynu nwyddau a gwasanaethau.Rydym  hefyd yn cynorthwyo Aelodau'r Cynulliad i ystyried amrywiaeth a chynhwysiant yn eu rolau fel cyflogwyr, fel darparwyr gwasanaeth, ac yn eu gwaith fel gweithwyr achos, craffwyr a deddfwyr, a thrwy ymgysylltu â phobl Cymru.

## Biliau nad ydynt yn rhai'r Llywodraeth

Cyflwynwyd Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 ym mis Chwefror 2019, ynghyd â Memorandwm Esboniadol, a oedd yn cynnwys amrywiaeth o asesiadau effaith manwl, gan gynnwys yr effaith ar gydraddoldeb, yr effaith ar hawliau plant a'r effaith ar ieithoedd swyddogol. Yn dilyn yr arfer gorau, nod yr asesiadau effaith oedd gwerthuso effeithiau'r Ddeddf ar yr holl grwpiau o bobl, nid y rhai yr effeithir arnynt yn gadarnhaol yn unig. Er enghraifft, ystyriwyd effaith y Ddeddf ar blant a phobl ifanc na fydd ganddynt yr hawl i bleidleisio, yn ogystal â'r rhai a fydd â'r hawl, a'r mesurau lliniaru sydd ar waith mewn perthynas â hynny.

Darparwyd diweddariadau i'r asesiadau effaith ym mis Tachwedd 2019 a mis Mawrth 2020 i adlewyrchu effaith gwelliannau a wnaed i'r Ddeddf yn ystod ei thaith ddeddfwriaethol, gan gynnwys rhoi'r etholfraint i ddinasyddion tramor cymhwysol fel y gallant bleidleisio yn etholiadau'r Senedd. Cafodd y Ddeddf Gydsyniad Brenhinol ar 15 Ionawr 2020, gan ostwng yr oedran pleidleisio ar gyfer etholiadau'r Senedd i 16 oed o 2021 ymlaen. Nodir ystod o fanteision posibl yn sgil y newid hwn ym Memorandwm Esboniadol y Ddeddf, gan gynnwys:

- cryfhau atebolrwydd democrataidd, drwy alluogi rhan ehangach o'r gymuned i gael rôl uniongyrchol yn etholiadau'r Senedd;
- galluogi mwy o ymgysylltiad o ran pleidleisio dros y tymor hwy (ar y sail y gallai profiad cynharach o bleidleisio annog unigolion i barhau i bleidleisio).

## Ystâd hygyrch

Rydym yn adolygu hygyrchedd ein hystâd yn rheolaidd, gan gynnal archwiliadau cynnal a chadw misol, yn ogystal â gweithredu ar adborth a mabwysiadu'r arfer gorau. Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, rydym wedi gwneud rhagor o waith i wella hygyrchedd ffisegol ein hystâd, gan gynnwys:

- ystyried gofynion mynediad ar gyfer yr holl waith adnewyddu a wnaed a chwblhau Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn ôl yr angen;
- gosod system rheoli mynediad newydd ar draws ystâd Bae Caerdydd;
- gosod arwyddion toiledau ychwanegol yn ardal caffi cyhoeddus y Cynulliad;
- parhau â'r rhaglen o osod goleuadau LED i wella gweledEdd yn y Cynulliad ac ardaloedd eraill ar draws yr ystâd, gan gynnwys gosod goleuadau LED newydd yn nerbynfa Tŷ Hywel;
- gweithredu argymhellion yn dilyn archwiliad Cymdeithas Alzheimer Cymru o'r Cynulliad gan gynnwys ail-leoli'r arwyddion presennol a gosod arwyddion mewnol ychwanegol;
- cynnal archwiliad allanol ynghylch y gwasanaeth dolen sain a ddarperir mewn ystafelloedd cyfarfod a mannau cyffredin drwy'r holl ystâd, gan weithredu'r argymhellion.

## Ymchwil a gwybodaeth ar gyfer Aelodau'r Cynulliad

Ymgorfforir materion cydraddoldeb a hawliau dynol yn y gwaith ymchwil a dadansoddi a roddir i gefnogi Aelodau'r Cynulliad a'r pwyllgorau yn eu gwaith. Roedd gweithgareddau'r flwyddyn ddiwethaf yn cynnwys y canlynol:

- Cyhoeddi erthyglau blog yn rheolaidd ar amrywiaeth eang o faterion cydraddoldeb megis: cydraddoldeb rhywiol, cydlyniant cymunedol a hiliaeth, hawliau dynol, ac asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb (ymhlith eraill);

- Diweddaru dangosyddion cydraddoldeb rhywiol i Gymru am y drydedd flwyddyn, a darparu sylwebaeth i helpu Aelodau'r Cynulliad graffu ar bolisïau, deddfwriaeth a chyllidebau o safbwynt rhywedd. Cyhoeddir hyn bob blwyddyn i gyd-fynd â dadl yn y Cynulliad ar Ddiwrnod Rhyngwladol y Menywod;

- Darparu awgrymiadau ar gyfer cwestiynau ar gydraddoldeb i bob pwyllgor yn ystod gwaith craffu ar y gyllideb ddrafft;

- Sicrhau bod cydraddoldeb yn cael ei integreiddio wrth ddrafftio cylch gorchwyl posibl ar gyfer ymchwiliadau pwyllgorau (fel gwaith y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ar graffu ôl-ddeddfwriaethol ar y Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, hawliau pleidleisio i garcharorion, a'r cynllun Bathodyn Glas yng Nghymru, ac ymchwiliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i hawliau plant;

- Arwain yr ymchwiliad cydamserol arloesol gan y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a'r Pwyllgor Cyllid i graffu ar ddull Llywodraeth Cymru o asesu effaith ei chyllideb ar gydraddoldeb a hawliau plant, a

- Darparu dadansoddiad o'r Bil Coronafeirws brys mewn perthynas â hawliau dynol.

## Datblygiad Proffesiynol Parhaus

Yn ystod y flwyddyn, mae nifer o Aelodau'r Cynulliad a'u Staff Cymorth wedi manteisio ar gyfleoedd datblygu i'w helpu i ymdrin â materion sy'n peri pryder i'w hetholwyr, i fynd i'r afael â sefyllfaoedd heriol wrth gyflawni eu dyletswyddau, neu i sicrhau eu bod yn rheoli eu staff yn dda.

Roedd y gweithgareddau'n cynnwys: Rheoli Gwaith Achos, Rhagfarn Ddiarwybod, Atal Hunanladdiad, Ymwybyddiaeth o Iechyd Meddwl a Chymorth Cyntaf Iechyd Meddwl, Datblygu Rheoli, Ymdrin â Sefyllfaoedd

Heriol, Meithrin Cydnerthedd Personol, Arferion y Gweithle Modern, ac Urddas a Pharch yn y Gweithle.

## Y Bwrdd Taliadau

Mae amrywiaeth a chynhwysiant yn ganolog i waith y Bwrdd Taliadau. Mae’r bwrdd yn ystyried effaith ei holl benderfyniadau ar y nodweddion gwarchodedig ym mhob cam o’r broses.

Mae'r Bwrdd wedi ymrwymo i sicrhau bod yr amrywiaeth ehangaf bosibl o ymgeiswyr yn gallu cynnig eu henwau i sefyll etholiad yng Nghymru. Yng ngoleuni ymchwil a gomisiynwyd gan y Bwrdd i nodi'r rhwystrau a'r cymhellion i sefyll etholiad yng Nghymru, mae wedi cyflwyno cynigion ar gyfer ymgynghori fel rhan o'i adolygiad o'r Penderfyniad ar gyfer y Chweched Senedd.

Wrth baratoi ei Benderfyniad drafft i ymgynghori yn ei gylch, mae'r Bwrdd wedi canolbwyntio ar gael gwared ar rwystrau posibl rhag sefyll etholiad i'r Senedd fel ffordd o helpu i ddenu ystod amrywiol o ymgeiswyr i sefyll etholiad. Gwneir penderfyniad ar y cynigion yn ystod 2020-21 pan fydd yr ymgynghoriad wedi dod i ben.

# Atodiad: Cynnydd ar sail Amcanion ein Strategaeth a Chynllun Gweithredu at y Dyfodol

## Amcan Un: Meithrin arweinyddiaeth gynhwysol a diwylliant cynhwysol yn y gweithle

### Sicrhau atebolrwydd ar lefel uwch ac arweinyddiaeth gynhwysol

- Llofnodwyd y Siarter Hil yn y Gwaith. Mae’r Siarter yn helpu busnesau i wella cydraddoldeb hil yn y gweithle ac mae’n cynnwys pum galwad i weithredu ar gyfer arweinwyr a sefydliadau ar draws pob sector.
- Ymgysylltwyd â Busnes yn y Gymuned i ymgymryd a Phecyn Diagnostig ar gyfer ein Harweinyddiaeth.
- Datblygwyd Rhaglen Ddatblygu Weithredol bwrpasol ar gyfer ein Tîm Arweinyddiaeth.
- Adolygwyd ein system rheoli perfformiad i bwysleisio rôl a chyfrifoldeb rheolwyr llinell i fod yn fodelau rôl ac arddangos arweinyddiaeth mewn perthynas ag amrywiaeth a chynhwysiant a sut mae hyn, yn ei dro, yn dylanwadu ar ymddygiad eu staff.
- Bu ein Partneriaid Busnes Adnoddau Dynol yn gweithio gyda'n Penaethiaid Gwasanaeth i ddatblygu cynlluniau gweithredu yn seiliedig ar ganlyniadau ein harolwg staff.
- Cyflwynwyd catalog e-ddysgu Amrywiaeth a Chynhwysiant newydd sy'n cynnwys modiwlau sy'n canolbwyntio ar ddysgu Arweinyddiaeth (megis Arweinyddiaeth Gynhwysol, Datblygu Sgiliau Arweinyddiaeth, Cyflwyniad i Hyfforddi, Deallusrwydd Emosiynol, Arfarnu Perfformiad, Gwneud y mwyaf o'r potensial trwy ddatblygu cryfderau, a llawer mwy).

## Cefnogi a datblygu ein Rhwydweithiau Cydraddoldeb yn y Gweithle

- Rydym wedi croesawu Cadeiryddion a Chyd-gadeiryddion newydd i arwain ein Rhwydweithiau, ac mae mwy o gyfeillion ac aelodau wedi ymuno â'r rhwydweithiau nag erioed o'r blaen.
- Rydym wedi mynd ati i annog yr holl rwydweithiau i weithio'n agosach trwy nodi themâu cyffredin yn y calendr Amrywiaeth a Chynhwysiant.
- Rydym wedi darparu hyfforddiant pwrpasol ar gyfer ein rhwydweithiau; roedd hyn yn cynnwys Hyfforddiant ar gyfer Cadeiryddion, Meddwl Gwydn, a Hyder a Chyflwyno, er mwyn sicrhau bod gan aelodau a chadeiryddion y sgiliau a'r hyder i arwain eu rhwydwaith.
- Ailddiffiniwyd rôl, cyfrifoldeb ac atebolrwydd ein cydgysylltydd Rhwydwaith Cydraddoldeb yn y Gweithle.
- Treialwyd trefn o bennu amser i Gadeiryddion ar fore Gwener er mwyn iddyn nhw allu canolbwyntio ar brosiectau rhwydwaith penodol, a bu hynny'n llwyddiannus.
- Anogwyd y rhwydweithiau i wneud gwell defnydd o'n hadnoddau a sefydlu ffyrdd o gyfathrebu'n ddigidol, gan gynnwys trwy gyfrwng Yammer a Teams.

## Amcan Dau: Adeiladu ar ein dull o ddatblygu'r sefydliad

### Canfod a chwalu rhwystrau rhag cynhwysiant

- Rydym wedi adolygu ein gwefan recriwtio i'w gwneud yn fwy hygyrch ac yn haws ei llywio. Rydym wedi canolbwyntio ar Werthoedd y Sefydliad a'r Gweithle Cynhwysol gan ddangos yr amrywiaeth o fuddion sydd gennym, y rhwydweithiau cydraddoldeb yn y gweithle a'r gydnabyddiaeth allanol a gawsom. Bydd y wefan yn cael ei lansio yn 2020-21.
- Yn sgil ein hymrwymiad i ehangu cynhwysiant trwy'r prosesau recriwtio, fe wnaethom gynnwys ymgeiswyr, rhai llwyddiannus ac aflwyddiannus, yn ein hadolygiad o'r arferion recriwtio. Mae hyn wedi arwain at frandio newydd, mwy cynhwysol, a phrosesau cliriach i wneud profiad yr ymgeiswyr yn un gwell, ac rydym yn gweithio ar wella hyn fwy fyth yn ystod y misoedd nesaf.
- Rydym wedi caffael System Recriwtio ac Olrhain Ar-lein (ORATs) newydd i symleiddio taith yr ymgeiswyr. Bydd hefyd yn darparu Gwybodaeth Reoli gywirach inni, a fydd yn helpu ein gwaith i gynyddu nifer y staff o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol.
- Rydym wedi dechrau adolygiad o'n prosesau cynefino corfforaethol, a fydd yn cael ei lansio y flwyddyn nesaf.
- Rydym wedi mynd ati i godi ymwybyddiaeth trwy ddigwyddiadau a hyfforddiant, fel wythnos Amrywiaeth a Chynhwysiant, Brecwast Iechyd Meddwl Dynion, trafodaeth panel LHDT+ a mwy (mae rhagor o fanylion yn yr adroddiad atodedig).

## Meincnodi a chydnabyddiaeth allanol

Mae'r rhain yn cynnwys:

- Un o'r deg cyflogwr gorau o staff LHDT yn y DU am y chweched flwyddyn yn olynol, a'r gorau yng Nghymru ym Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle Stonewall.
- Gwobr Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus PinkNews (2018-2019) am ein hymrwymiad parhaus i fod yn fodel rôl yn creu a chynnal amgylchedd cynhwysol ar gyfer aelodau staff LHDTQ+.
- Yn Hyrwyddwr Cyflogwyr sy'n Gadarnhaol o ran Oed, gan ddangos ein hymrwymiad i sicrhau nad oes gennym unrhyw arferion gwahaniaethol o ran oedran yn ein prosesau recriwtio a/neu gadw gweithwyr.
- Statws Cyflogwr Hyderus o ran Anabledd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau.
- Un o'r 30 Cyflogwr Gorau ar gyfer Teuluoedd sy'n Gweithio am arfer da o ran darparu amgylchedd gwaith sy'n caniatáu cydbwysedd cadarnhaol rhwng bywyd a gwaith.
- Gwobr Awtistiaeth Gyfeillgar y Gymdeithas Awtistiaeth Genedlaethol.
- Safon Aur Buddsoddwyr mewn Pobl, cydnabyddiaeth gan y marc rhyngwladol ar gyfer rhagoriaeth fyd-eang.
- Ymgymryd â'r meincnod Busnes yn y Gymuned ar gyfer hil, rhywedd a llesiant.

## Dysgu a datblygu

- Fe wnaethom ni gynnig 78 o gyrsiau mewnol gwahanol i aelodau o staff, ac o'r cyrsiau hynny mae 200 sesiwn wedi'i chyflwyno.
- Cyflwynwyd hyfforddiant ffurfiol ac anffurfiol i sicrhau bod amrywiaeth yn cael ei hybu mewn ffordd ystyrlon, gan gynnwys hyfforddiant wyneb yn wyneb, gweithdai ac adnoddau ar-lein. Ymhlith yr enghreifftiau mae Deall Iechyd Meddwl ar gyfer rheolwyr llinell, Urddas a Pharch, Ymwybyddiaeth o'r Menopos, Iechyd Meddwl Plant, Cefnogi Gweithwyr â Chanser, Ymwybyddiaeth Awtistiaeth, Ymwybyddiaeth Dementia a hyfforddiant Rhagfarn Ddiarwybod.
- Rydym wedi datblygu ymhellach a chynhyrchu cyfres o daflenni ffeithiau, fideos a hyfforddiant ar-lein yn canolbwyntio ar Amrywiaeth a Chynhwysiant.
- Rydym wedi ehangu a diweddaru'r ddarpariaeth e-Ddysgu i sicrhau y gall staff gael mynediad at hyfforddiant yn y swyddfa a/neu gartref, ac rydym wedi parhau i gefnogi ein rhwydweithiau staff i helpu i ennyn cefnogaeth a gwella a herio ymddygiad amhriodol yn unol â'n gwerthoedd.

## Polisïau cynhwysol ar gyfer y gweithle

- Rydym wedi datblygu a chyflwyno Canolbwynt Polisi newydd sy'n sicrhau bod yr holl bolisïau wedi'u lleoli mewn un lle. Mae'r Canolbwynt hefyd yn sicrhau bod polisïau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd a bod Asesiadau Effaith Cydraddoldeb yn cael eu cynnal.
- Rydym wedi cytuno i gynnwys adran well ar Gyfraith Jack sy'n ymwneud ag absenoldeb arbennig (hawl i 4 wythnos o dâl llawn os yw'ch plentyn yn marw adeg ei eni neu ar ôl 24 wythnos o feichiogrwydd).
- Rydym wedi lansio ein canllawiau yn ymwneud â'r menopos.
- Rydym wedi ychwanegu at y Canllawiau Gweithio'n Hyblyg i addasu i heriau'r Coronafeirws, gan sicrhau nad oes unrhyw grŵp penodol dan anfantais yn ystod y cyfnod hwn.

Amcan Tri: Cynorthwyo Aelodau’r Cynulliad a'u staff i gynnwys amrywiaeth yn eu gwaith.

## Cynorthwyo Aelodau’r Cynulliad a'u staff i gynnwys amrywiaeth a chynhwysiant yn eu rolau fel cyflogwyr a darparwyr gwasanaeth ac yn eu gwaith fel gweithwyr achos, craffwyr a deddfwyr

- Cyflwyno Sesiynau Cynefino Amrywiaeth a Chynhwysiant i Aelodau a'u staff.
- Cefnogi Datblygiad Proffesiynol yr Aelodau a’u Staff drwy ddarparu hyfforddiant sy’n canolbwyntio ar amrywiaeth gan gynnwys Rheoli Gwaith Achos, Rhagfarn Ddiarwybod, Atal Hunanladdiad, Ymwybyddiaeth o Iechyd Meddwl a Chymorth Cyntaf Iechyd Meddwl, Datblygu Rheoli, Ymdrin â Sefyllfaoedd Heriol, Meithrin Cydnerthedd Personol, Arferion y Gweithle Modern, ac Urddas a Pharch yn y Gweithle.
- Ryd wedi cynnal tudalen fewnrwyd i’r Aelodau sy'n cynnwys y wybodaeth a’r canllawiau diweddaraf i sicrhau bod Aelodau'r Cynulliad a'u staff yn gallu cael gwybodaeth am gydraddoldeb yn rhwydd.
- Rydym wedi darparu Cronfa Cydraddoldeb a Mynediad.
- Mae gwaith wedi cychwyn i baratoi ar gyfer Penderfyniad y Bwrdd Taliadau yn nhymor nesaf y Cynulliad, sy'n canolbwyntio ar gael gwared ar rwystrau posibl i sefyll etholiad fel modd o helpu i ddenu ystod amrywiol o ymgeiswyr.
- Mae adrannau'r Comisiwn yn darparu ystod o gefnogaeth barhaus i alluogi’r Aelodau i ddarparu gwasanaethau cynhwysol, gan gynnwys Cymorth Busnes i’r Aelodau, Ymchwil, Cyfreithiol, Adnoddau Dynol, Cyfarfodydd Llawn a Phwyllgorau, TGCh, ac ati.

## Ymgysylltu â phobl Cymru

- Ymgysylltu â phobl o bob rhan o Gymru, mewn cymunedau ledled y wlad, ac ar ein hystâd trwy weithdai, cyflwyniadau, digwyddiadau a gweithgareddau ymgysylltu sy'n gysylltiedig ag ymgyngoriadau pwyllgorau. Dyma rai enghreifftiau:

- Cynhaliodd ein Tîm Ymgysylltu â'r Gymuned 35 o Sesiynau Cymunedol ar gyfer 876 o gynrychiolwyr eleni, yn ymwneud ag amrywiaeth o grwpiau a oedd yn cynnwys Mind Cymru, Cymdeithas Awtistiaeth Genedlaethol Cymru, Canolfan Merched Gogledd Cymru, Gingerbread a Mantell Gwynedd.
- Mae ein tîm Addysg ac Ymgysylltu â Phobl Ifanc wedi cynnwys, hysbysu a grymuso plant a phobl ifanc i ymgysylltu â Busnes y Cynulliad drwy ein canolfan addysg fewnol ac mewn ysgolion, colegau a lleoliadau y tu allan i'r ysgol ar hyd a lled Cymru. Mae'r tîm wedi cyflwyno 294 o sesiynau ac wedi ymgysylltu â rhai grwpiau am y tro cyntaf erioed. Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, mae 10,000 o bobl ifanc wedi ymgysylltu â ni yn ystod sesiynau addysgol a drefnwyd.
- Bu Aelodau Senedd Ieuenctid Cymru yn bresennol mewn amryw ddigwyddiadau yng Nghymru, megis Eisteddfod yr Urdd, Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru, yr Eisteddfod Genedlaethol a gorymdaith PRIDE. Yn ystod y digwyddiadau hyn, cafodd Aelodau'r Senedd Ieuenctid gyfle i ymgysylltu â phobl ifanc eraill a hyrwyddo eu gwaith a'u hymgyngoriadau.
- Rydym wedi hyrwyddo amrywiaeth a chynhwysiant yn fewnol ac i'r cyhoedd trwy ddigwyddiadau, cyfryngau cymdeithasol ac ymgyrchoedd gan gynnwys Mis Hanes Pobl Dduon, IDAHOBIT, ymwybyddiaeth o awtistiaeth, Diwrnod Rhyngwladol y Menywod, diwrnod Mynediad i'r Anabl.
- Ymwelwyr, Teithiau a Digwyddiadau (gweler yr adroddiad atodedig am fanylion).
- Arddangosfeydd (gweler yr adroddiad atodedig am fanylion).

## Amcan Pedwar: Cynorthwyo Staff Comisiwn y Cynulliad i gynnwys amrywiaeth a chynhwysiant yn eu gwaith

## Gwneud penderfyniadau, cynllunio a darparu gwasanaethau mewn modd cynhwysol

- Rydym yn parhau i ystyried cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant fel rhan o'n gwaith parhaus, wrth ddatblygu polisïau, gwasanaethau a gwneud newidiadau i'n hystâd drwy ei gwneud yn ofynnol bod Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn cael eu cynnal.
- Mae'r tîm Amrywiaeth a Chynhwysiant a'r Rhwydweithiau Cydraddoldeb yn y Gweithle wedi darparu cyngor arbenigol ac wedi adolygu Polisïau a Gweithdrefnau yn feirniadol, yn ogystal â chefnogi datblygiad Asesiadau Effaith Cydraddoldeb ar gyfer digwyddiadau cyhoeddus, er mwyn sicrhau bod amrywiaeth a chynhwysiant yn cael eu hystyried a bod unrhyw rwystrau yn cael eu nodi a'u lliniaru.
- Adolygwyd cynlluniau'r meysydd gwasanaeth yn rheolaidd er mwyn rhoi sylw i ystyriaethau amrywiaeth a chynhwysiant.
- Mae ein hystâd yn cael ei hadolygu'n barhaus i sicrhau ei bod yn hygyrch i bawb. Dyma rai  enghreifftiau or hyn a wnaed eleni:
- gosod arwyddion toiledau ychwanegol yn ardal y caffi cyhoeddus yn y Senedd.
- gweithredu argymhelliad archwiliad allanol gan ddarparu gwasanaeth dolen sain mewn ystafelloedd cyfarfod a mannau cyffredin drwy'r holl ystâd.

## Ystyried amrywiaeth a chynhwysiant wrth brynu nwyddau a gwasanaethau

- Caffi cydraddoldeb ei gynnwys fel rhan o'n hasesiadau o risg cynaliadwyedd ar ddechrau'r broses gaffael. Mae hefyd yn rhan o'n hymarfer cyn-gymhwyso ar gyfer cyflenwyr. Ni chaiff cyflenwyr sy'n methu â dangos eu hymrwymiad i gydraddoldeb eu gwahodd i dendro.
- Ar ôl dyfarnu contractau, rydym ni'n cynnal cyfarfodydd i'w hadolygu'n rheolaidd gyda'n cyflenwyr, ac un o'r eitemau rheolaidd ar yr agenda yw cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol. Mae gennym hefyd gymalau cydraddoldeb yn ein telerau ac amodau.

- Rydym yn gyflogwr cyflog byw achrededig ac yn sicrhau bod y cyflog byw yn cael ei dalu i'n contractwyr mewnol. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau arferion cyflogaeth teg a thryloyw drwy gydol y gadwyn gyflenwi. O ganlyniad i hynny, rydym yn anelu at weithio gyda'n cyflenwyr i fonitro a sicrhau arferion cyflogaeth teg a, chan weithredu'n rhesymol, rydym yn cadw'r hawl i ofyn am newidiadau i unrhyw un o'r arferion hynny yr ydym o'r farn eu bod yn annheg.

- Anogir pob un o'n Contractwyr i ymuno â'n Rhwydweithiau Cydraddoldeb yn y Gweithle a bod yn bresennol yn eu digwyddiadau.

## Amcan Pump: Ymddwyn fel Cyflogwr Cynhwysol sy'n denu ac yn cadw'r gronfa ehangaf o dalent lle mae pob aelod o staff yn cael cyfle i wireddu ei botensial llawn.

### Cefnogi ein gweithlu talentog

- Mae gennym Fodelau Rôl LHDT sydd ar gael i staff siarad â nhw'n gyfrinachol.
- Rydym ni wedi hyrwyddo cynhwysiant trwy godi ymwybyddiaeth yn fewnol trwy gynnal digwyddiadau fel Wythnos Llesiant Meddwl; Diwrnod Cofio'r Holocost, Lansiad Abledd Cymru, brecwast Iechyd Meddwl Dynion, Mis Hanes LHDT, Diwrnod Mynediad i'r Anabl; Mis Hanes Pobl Dduon; Diwrnod Rhyngwladol ar gyfer Pobl Anabl, Urddas a Pharch yn y Cynulliad; Diwrnod Gweledfedd Trawsrywedd; Cynghreiriaid y Rhwydwaith a blogiau ar gyfer diwrnod Rhyngwladol y Menywod.
- Fe wnaethom ni gynnal Wythnos Amrywiaeth a Chynhwysiant, a oedd yn cynnwys gweithdai, hyfforddiant amrywiaeth a chynhwysiant, blogiau mewnol ac allanol ac erthyglau ar dudalen newyddion y staff.

### Cydnabod tangynrychiolaeth yn ein gweithlu a mynd i'r afael â hynny

- Rydym wedi ymgysylltu â Busnes yn y Gymuned (BITC) a sefydliadau allanol eraill i nodi camau gweithredu i gefnogi gyrfa pobl BAME a staff anabl. Rydym wedi cwblhau Offer Diagnostig BITC, a fydd, ar ôl eu hasesu, yn ein helpu i ddatblygu ein cynlluniau gweithredu ymhellach.
- Buom yn gweithio gyda'r Tîm Recriwtio i gyrraedd cymunedau BAME fel rhan o'n gweithgareddau allgymorth recriwtio er mwyn cynyddu ceisiadau gan y grŵp hwn sydd heb gynrychiolaeth ddigonol.
- Dechreuwyd ar waith gyda'r Gymdeithas Genedlaethol Plant Byddar i ddatblygu rhaglen beilot 'Safonau sy'n Gyfeillgar i Bobl Fyddar'
- Arweiniodd ein gwaith allgymorth ar gyfer Cynllun Prentisiaeth 2019 at gynnydd yn y ceisiadau o 79 yn 2018-19 i 135 yn 2019-20 a chynnydd o 43 y cant yn y ceisiadau gan ymgeiswyr BAME.
- Rydym wedi ymrwymo i Gompact Swyddi Cymunedol Citizens Cymru Wales, sef cynllun sy'n ceisio dod â phobl leol a chyflogwyr at ei gilydd i fynd i'r afael â thlodi, diweithdra a thangynrychiolaeth yn y gweithlu.

## Casglu a defnyddio data amrywiaeth i nodi a mynd i'r afael ag anghydraddoldeb

- Mae ein data am y gweithlu a recriwtio a'n hadroddiadau ar gyflogau cyfartal a'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn cael eu cyhoeddi yn y drefn honno fel dogfennau ategol i'r adroddiad hwn er mwyn sicrhau mynediad rhwydd at y wybodaeth.
- Fel y llynedd, mae'r data am y gweithlu a recriwtio yn dangos ein bod yn parhau i ddenu a recriwtio amrywiaeth eang o bobl. Rydym wedi recriwtio pobl o ystod o oedrannau, pobl a chanddynt anableddau, a phobl o hiliau, crefydd a chyfeiriadedd rhywiol gwahanol. Rydym wedi cynnal mwy o recriwtio allanol er mwyn cynyddu cynrychiolaeth o fewn ein gweithlu. Yn sgil hyn bu cynnydd yn y ceisiadau gan ymgeiswyr o gefndir Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME) a phobl ag anableddau, ar draws gwahanol grwpiau oedran a chyfeiriadedd rhywiol. Mae mwy o ymgeiswyr y cynigiwyd cyflogaeth iddynt wedi datgan eu bod yn anabl, a derbyniodd y Cynllun Prentisiaeth eleni y nifer fwyaf o geisiadau erioed.
- O ran y data am gyflogau cyfartal, mae'n dangos bod y bwlch sydd rhwng dynion a menywod o ran cyflogau cyfartal wedi gostwng ers y llynedd. Mae hyn yn gam cadarnhaol tuag at gyflogau cyfartal rhwng y rhywiau ac mae'r duedd a welwyd dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf yn parhau. Er bod rhagor o waith i'w wneud, heb os, mae ein tueddiadau data wedi gwella ar draws yr holl nodweddion gwarchodedig yn ystod y cyfnod monitro hwn.

# Beth nesaf?


## Camau gweithredu ar gyfer 2020-21

- Cynnig strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant newydd trwy ymgynghori.
- Cynyddu amrywiaeth y gynrychiolaeth ar bob lefel trwy ddenu a thrwy hyrwyddiadau mewnol ac allanol a chynlluniau mentora.
- Hyrwyddo a dathlu ein diwylliant amrywiol a chynhwysol trwy weithio gyda thimau eraill i gyrraedd grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol.
- Cynyddu effeithiolrwydd ein Rhwydweithiau Cydraddoldeb yn y Gweithle a'n hyfforddiant Amrywiaeth a Chynhwysiant.
- Parhau i fonitro a gweithio tuag at leihau ein bylchau o ran cyflogau, rhywedd ac ethnigrwydd.  Byddwn yn paratoi ar gyfer newidiadau yn y dyfodol i ddeddfwriaeth newydd.

Senedd Cymru
**Comisiwn Y Senedd**

# Cynllun Ieithoedd Swyddogol:
## Adroddiad Blynyddol 2019-20

Mehefin 2020





www.senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:


Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

0300 200 6565

Cysylltu@senedd.cymru

www.senedd.cymru

SeneddCymru

SeneddCymru

Senedd



**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2020**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Comisiwn Y Senedd**

# Cynllun Ieithoedd Swyddogol:
## Adroddiad Blynyddol 2019-20

Mehefin 2020


SENEDD
IEUENCTID
CYMRU
WELSH
YOUTH

# Cynnwys

**Rhagair** ........ **6**

**Ein perfformiad** ........ **8**

Ein huchelgais a'n hymrwymiad ........ 8

Safonau Gwasanaeth ........ 9

Gwybodaeth ystadegol ........ 12

**Themâu ar gyfer cyfnod gweithredol y Cynllun** ........ **25**

**Thema 1: Recriwtio** ........ **25**

**Thema 2: Sgiliau Iaith** ........ **28**

**Thema 3: Cynllunio Ieithyddol** ........ **31**

**Thema 4: Trafodion** ........ **33**

**Thema 5: Datblygu ethos dwyieithog y sefydliad** ........ **35**

Ymwybyddiaeth ........ 35

Technoleg ........ 36

Monitro a Chydymffurfio ........ 38

Gwybodaeth ar ein gwefan ........ 38

Tabl cwynion ........ 40

# Rhagair

Mae'n bleser gennyf gyflwyno adroddiad blynyddol Comisiwn y Senedd ar ei Gynllun Ieithoedd Swyddogol. Eleni, mae llawer o'n gwaith wedi canolbwyntio ar gynllunio ieithyddol, gan gynnwys cynnal arolwg sgiliau iaith Gymraeg a dehongli'r canlyniadau. Mae penaethiaid gwasanaethau eisoes yn defnyddio'r canlyniadau i'w cynorthwyo wrth gynllunio capasiti ar draws timau, ac wrth adolygu eu cynlluniau iaith gwasanaeth.

Eleni hefyd, rydym wedi troedio tir newydd gyda'n gwaith ar Ddeddf Senedd ac Etholiadau Cymru (2020) gan gynnwys gostwng yr oedran pleidleisio ar gyfer y sefydliad hwn i 16, ac wrth gwrs, newid ein henw. Ar 6 Mai 2020 newidiodd enw Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Senedd Cymru neu Welsh Parliament, ac fe'i gelwir yn Senedd yn gyffredinol. Er bod y newid wedi digwydd y tu allan i gyfnod cwmpas yr adroddiad hwn, ni fyddai'n briodol peidio â chyfeirio at y digwyddiad hanesyddol hwn. Mae'r Senedd heddiw yn sefydliad gwahanol iawn i'r un a sefydlwyd ym 1999. Bellach, mae ganddo bwerau deddfu a'r gallu i amrywio trethi, ac mae'r enw newydd yn cyfleu ei statws cyfansoddiadol fel senedd genedlaethol.

Ni fyddai'n briodol chwaith i mi beidio â chrybwyll y sefyllfa o ran pandemig Covid.19 gyda'r cyfyngiadau ar symud yn dod i rym gyda diwedd cyfnod yr adroddiad hwn. Unwaith eto, rydym wedi manteisio ar dechnoleg er mwyn bod ar flaen y gad yn ein gwaith ac o ran darparu gwasanaethau dwyieithog o'r radd flaenaf. Wrth i'r adroddiad hwn gael ei ddrafftio, roedd Senedd Cymru eisoes ymysg y deddfwrfeydd cyntaf yn rhyngwladol i gynnal cyfarfodydd rhithwir cwbl ddwyieithog, gyda chyrff a sefydliadau cyhoeddus a phreifat yn dilyn ein gwaith ac yn manteisio ar ein cyngor a'n profiad yn y

maes. Byddwn yn sicr yn defnyddio'r profiadau er mwyn dysgu sut y gallwn ymgorffori technoleg ymhellach i'n darpariaeth gwasanaethau dwyieithog.

Wrth edrych tua'r dyfodol, byddwn yn canolbwyntio dros y misoedd nesaf ar gynllunio ar gyfer y Chweched Senedd. Byddwn yn dechrau ar y gwaith o adolygu'r Cynllun Ieithoedd Swyddogol presennol, a pharatoi ar gyfer cyflwyno Cynllun newydd i'r Chweched Senedd rhwng nawr a diwedd y Pumed Senedd.

Yn olaf, hoffwn ddiolch i fy rhagflaenydd, Siân Gwenllian AS am ei harweiniad a'i gweledigaeth yn ystod ei chyfnod fel Comisiynydd. Edrychaf ymlaen at adeiladu ar y seiliau cadarn a osodwyd er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni ein huchelgais i fod yn sefydliad gwirioneddol ddwyieithog.

Rhun ap Iorwerth AS

Comisiynydd y Cynulliad â chyfrifoldeb dros ieithoedd swyddogol


shop



# EIN PERFFORMIAD

# Ein perfformiad

## Ein huchelgais a’n hymrwymiad

> “Ein huchelgais yw dod yn sefydliad gwirioneddol ddwyieithog lle y gall Aelodau’r Senedd, y cyhoedd a'r staff ddewis gweithio neu gyfathrebu'n naturiol drwy ddefnyddio’r ddwy iaith neu’r naill iaith swyddogol neu’r llall, lle caiff y defnydd o’r ddwy iaith ei annog a’i hwyluso yn frwd, a lle y caiff ein gwasanaethau dwyieithog rhagorol eu hehangu a’u gwella yn barhaus.”

Mae ymrwymiad Comisiwn y Senedd i ddwyieithrwydd yn sail gadarn ar gyfer cyflawni ein huchelgais. Mae ein gwerthoedd, ein strategaethau a’r gwasanaethau a ddarperir gennym yn adlewyrchu statws cyfartal ein dwy iaith swyddogol.

Rydym yn sefydliad sy’n gweithredu ar sail ein gwerthoedd, ac mae’r gwerthoedd hynny yn adlewyrchu’r ymrwymiad i sicrhau amrywiaeth ar draws y sefydliad ac i werthfawrogi ac annog amrywiaeth o fewn ein gweithlu. Gwerthfawrogir ein holl staff, pa mor ddwyieithog bynnag ydynt, am eu hymrwymiad i’r Senedd a’u harbenigedd proffesiynol a seneddol. Mae egwyddorion y polisi urddas a pharch wrth wraidd popeth a wnawn. Rydym yn disgwyl i bob aelod o staff fod yn ymroddedig i ddarparu cymorth a gwasanaethau seneddol o’r radd flaenaf i Aelodau, eu staff cymorth a’r cyhoedd a hynny yn ein dwy iaith swyddogol.

**EIN GWERTHOEDD**

**PARCH**
Rydym yn gynhwysol ac yn garedig, ac rydym yn gwerthfawrogi cyfraniadau ein gilydd wrth ddarparu gwasanaethau rhagorol

**ANGERDD**
Rydym yn bwrpasol wrth gefnogi democratiaeth, gan dynnu ynghyd i wneud gwahaniaeth i bobl Cymru

**BALCHDER**
Rydym yn arddel arloesedd ac yn dathlu ein llwyddiannau fel tîm

**UN TÎM** YDYM NI

## Safonau Gwasanaeth

Mae ein gwaith dros y flwyddyn ddiwethaf wedi canolbwyntio yn bennaf ar yr arolwg sgiliau iaith, adolygu a diweddaru cynlluniau iaith gwasanaeth a chynllunio capasiti. Prif nod y gwaith oedd deall mwy am sgiliau iaith yr holl staff a'n cynorthwyo i sicrhau bod y sgiliau iaith angenrheidiol wedi eu lleoli o fewn y timau priodol. Mae hyn golygu bod gweithio dwyieithog yn rhan naturiol o fywyd pob dydd . Mae canlyniadau'r gwaith hwn i'w gweld ar draws y sefydliad, gyda thimau yn meddwl yn wahanol am sgiliau, a rhannu arbenigedd. Mae'r gwaith hwn yn arbennig o bwysig os ydym am wireddu ein huchelgais i fod yn sefydliad gwirioneddol ddwyieithog sy'n arwain y ffordd yng Nghymru a thu hwnt. Yn ystod y flwyddyn hefyd, mae'r Prif Weithredwr a Chlerc, ar ran Comisiwn y Senedd wedi llofnodi memorandwm cyd-ddealltwriaeth â Chomisiynydd y Gymraeg. Oherwydd ein natur unigryw o dan Ddeddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd Swyddogol) 2012, nid yw Comisiwn y Senedd yn ddarostyngedig i Safonau'r Gymraeg nac yn atebol i Gomisiynydd y Gymraeg. Fodd bynnag, mae'r Cynllun Ieithoedd Swyddogol yn nodi bod ein safonau gwasanaeth yn cymharu'n ffafriol â'r safonau hynny, ac yn mynegi na fyddai Comisiwn y Senedd yn dymuno mynd islaw ysbryd y safonau o gwbl. Mae'r Memorandwm yn cryfhau'r berthynas rhwng y ddau sefydliad, sy'n ein galluogi i gyfnewid syniadau a rhannu arferion gorau. Bydd swyddogion o'r ddau sefydliad yn cyfarfod o dro i dro, a chynhaliwyd y cyfarfod cyntaf fis Mawrth 2020.

## Adborth gan Aelodau a'u staff cymorth

Mae darparu gwasanaethau pwrpasol i Aelodau a'u staff cymorth, er mwyn eu galluogi i weithio'n effeithiol yn eu dewis iaith yn holl bwysig. Er mwyn gwneud hyn, mae'n hanfodol ein bod yn deall eu hanghenion unigol, ac yn sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir yn bwrpasol a'u bod ar gael yn ddiofyn. Byddwn yn defnyddio unrhyw adborth i gynllunio a blaenoriaethu adnoddau er mwyn cynnal y safonau uchaf posibl.

Mae adborth gan Aelodau a'u staff cymorth i'r ddarpariaeth wedi bod yn bositif ar y cyfan, ac er na chynhaliwyd arolwg swyddogol, rydym yn manteisio ar gyfleoedd drwy gydol y flwyddyn i drafod ein gwasanaethau gyda'r Aelodau a'u staff. Mae aelodau timau integredig y pwyllgorau yn trafod yn rheolaidd gydag Aelodau ac yn gweithredu yn ôl yr angen er mwyn

newid prosesau, teilwra ein darpariaeth a gwella trefniadau. Pan fydd aelodaeth pwyllgor yn newid, bydd y tîm integredig yn edrych eto ar y ddarpariaeth ac yn sicrhau bod y ddarpariaeth yn briodol. Mae'r grŵp gweithredol ar gyfer staff cymorth Aelodau yn cwrdd yn rheolaidd. Mae cyfarfodydd y grŵp yn gyfle i gasglu adborth gan Benaethiaid Staff y pleidiau, a hefyd i rannu negeseuon am wasanaethau newydd. Mae'r drefn Cyfeillion Cyswllt yn parhau. Mae'r cyfeillion yn casglu adborth gan Aelodau pan fyddant yn dod i gysylltiad â hwy.

## Rhannu arbenigedd

Unwaith eto eleni, mae nifer o sefydliadau allanol wedi cwrdd â ni i drafod y Cynllun Ieithoedd Swyddogol gan gynnwys:

- The Chartered Institute of Housing Cymru,
- Senedd Awstria
- Tŷ'r Arglwyddi
- Canolfan Mileniwm Cymru
- Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre
- Cwmni Dŵr Hafren Dyfrdwy

Ymysg y pynciau trafod oedd recriwtio, y matrics sgiliau iaith, cynllunio ieithyddol, y Tîm Sgiliau Iaith a'n defnydd o dechnoleg.

Mae'r Tîm Sgiliau Iaith wedi cymryd rhan mewn sawl sesiwn hyfforddi a rhannu arferion da gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol gan gynnwys y gynhadledd flynyddol, ac mae'r Rheolwr-Diwtor yn aelod o Fwrdd Ymgynghorol y Ganolfan.  Rydym yn parhau i gynorthwyo gyda'r gwaith o beilota cyrsiau Cymraeg Gwaith newydd yn ôl yr angen. Byddwn yn parhau i feithrin cysylltiadau er mwyn rhannu arferion gorau a dysgu oddi wrth eraill.

## Cynllunio'r gweithlu a pheuoedd iaith

Mae gan Senedd Cymru ddwy iaith weinyddol fewnol, sef Cymraeg a Saesneg. Yn unol â'r drefn recriwtio a sefydlwyd ddwy flynedd yn ôl, mae sgiliau iaith yn cael eu hystyried bob tro y bydd swydd yn wag, neu swydd newydd yn cael ei chyflwyno. Bydd aelod o'r Tîm Ieithoedd Swyddogol yn rhan o'r broses awdurdodi unrhyw hysbyseb swydd er mwyn sicrhau bod y sgiliau iaith a ddynodwyd yn cyd-fynd â'r hyn a amlinellwyd yng nghynllun iaith y gwasanaeth dan sylw, neu yn cynghori ar unrhyw newidiadau i'r lefelau sgiliau a ddynodwyd.

Fel y nodwyd yn y gorffennol, mae'r gwaith hwn wedi arwain yn naturiol at ddatblygu peuoedd ar draws y sefydliad gydag aelodau timau yn gweithio'n bennaf trwy gyfrwng un iaith swyddogol. Gwneir hyn trwy bennu gofynion sgiliau iaith amrywiol ar gyfer gwahanol swyddi o fewn timau, ac mae'n gallu creu ethos sy'n annog ac yn cynorthwyo dysgwyr i wella eu sgiliau trwy eu defnyddio yn ddyddiol gyda chydweithwyr a chwsmeriaid. Eleni mae Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth wedi sicrhau mai'r Gymraeg yw prif gyfrwng gweithio o ddydd i ddydd – ar lafar ac yn ysgrifenedig – y tîm sy'n cefnogi'r Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu.

Ynghyd â'r gwaith o sicrhau bod y sgiliau priodol gan aelodau staff allweddol i gefnogi cadeiryddion pwyllgorau yn eu dewis iaith bydd yr esblygiad hyn yng ngwaith y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu yn sicrhau bod unrhyw un sy'n cymryd rhan mewn trafodion yn teimlo'n gyfforddus i wneud hynny yn eu dewis iaith swyddogol.

## Gwybodaeth ystadegol

Mae'r wybodaeth ystadegol a gesglir yn ein cynorthwyo i flaenoriaethu ein gwaith ar y themâu dros gyfnod y Cynllun, ac i fesur llwyddiant unrhyw waith neu syniadau newydd. Mae'r cymariaethau dros gyfnod o dair blynedd yn dangos tueddiadau yn datblygu, a bydd hyn yn werthfawr ar gyfer y gwaith o gynllunio ar gyfer y Chweched Senedd. Eleni, rydym wedi cynnwys data a gasglwyd fel rhan o'r arolwg sgiliau iaith er mwyn dangos yr ystod o sgiliau sydd gan ein staff.

## Recriwtio

Eleni yw'r tro cyntaf i ni weld data ar gyfer cyfnod o 12 mis o recriwtio. Wrth wneud cymhariaeth, mae'n bwysig nodi bod yr ystadegau ar gyfer y llynedd yn ymwneud â'r cyfnod 16 Gorffennaf 2019 (sef dyddiad rhoi'r system recriwtio newydd ar waith) hyd 31 Mawrth 2019 (sef diwedd y cyfnod adrodd). Yn y flwyddyn flaenorol, roedd gofyniad 'Cymraeg yn hanfodol' ynghlwm wrth 35% o'r swyddi a hysbysebwyd. Mae'r ystadegau isod yn fodd o fonitro a sicrhau bod ein dulliau recriwtio yn addas, ac yn arwain at y newidiadau ym mhatrwm sgiliau iaith y sefydliad a fwriadwyd wrth gyflwyno'r system yn 2019.

Tabl 1: Nifer y swyddi a hysbysebwyd ar lefel Cymraeg Cwrteisi, neu gyda gofyniad sgiliau iaith uwch.

Allanol

| | Swyddi a hysbysebwyd | Lefel Cwrteisi | Cyfuniad o sgiliau | Lefel 1-5 |
|---|---|---|---|---|
| **2018-19** | 54 | 35 | | 19 |
| 2019-20 | 49 | 28 | 3 | 18 |

Mewnol

| | Swyddi a hysbysebwyd | Lefel Cwrteisi | Cyfuniad o sgiliau | Lefel 1-5 |
|---|---|---|---|---|
| 2018-19 | 18 | 11 | | 7 |
| 2019-20 | 22 | 16 | 1 | 5 |

Cyfanswm

| | Swyddi a hysbysebwyd | Lefel Cwrteisi | Cyfuniad o sgiliau | Lefel 1-5 |
|---|---|---|---|---|
| 2018-19 | 72 | 46 | | 26 |
| 2019-20 | 71 | 44 | 4 | 23 |

Canrannau

| | Swyddi lefel cwrteisi | Cyfuniad o sgiliau | Swyddi lefel 1 - 5 |
|---|---|---|---|
| 2018-19 | 64% | | 36% |
| 2019-20 | 62% | 6% | 32% |

## Busnes y Senedd

Mae'r ystadegau hyn yn rhoi amlinelliad o'r ffordd y caiff busnes ei gyflwyno. Nid yw'r ffigyrau isod yn cynnwys manylion cynigion a gwelliannau a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru gan eu bod bob amser yn cael eu cyflwyno'n ddwyieithog.

Tabl 2: Canran y busnes a gyflwynwyd yn Gymraeg fesul eitem

| Blwyddyn | Cwest Llafar | Cwest Ysg | Cynigion | Gwelliannau | Dat Barn | Cwest Amserol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 2017-18 | 13% | 7% | 2% | 7% | 2% | 10% |
| 2018-19 | 11% | 10% | 3% | 14% | 5% | 15% |
| 2019-20 | 8% | 8% | 4% | 4% | 0% | 9% |

Tabl 3: Dogfennau a osodwyd

| Blwyddyn | Nifer y dogfennau a osodwyd | Nifer y dogfennau na osodwyd yn ddwyieithog | Canran |
|---|---|---|---|
| 2017-18 | 431 | 109 | 25% |
| 2018-19 | 1187 | 310 | 26% |
| 2019-20 | 808 | 141 | 17.5% |

Caiff holl ddogfennau'r Comisiwn eu gosod yn ddwyieithog. Mae dogfennau'n cael eu paratoi yn ddwyieithog cyn eu gosod. Unwaith eto eleni, Llywodraeth Cymru osododd y rhan helaethaf o'r dogfennau boed yn femoranda esboniadol yn ddogfennau sy'n gysylltiedig ag is-ddeddfwriaeth ac yn cynnwys dogfennau a osodir ar ran cyrff eraill. Wedi derbyn unrhyw ddogfen unieithog, bydd y Swyddfa Gyflwyno yn gwirio a oes fersiwn ddwyieithog ohoni ar gael. Mater i'r sawl sy'n cyflwyno'r ddogfen, nid y Swyddfa Gyflwyno yw barnu a yw dogfen yn cydymffurfio â'r eithriadau a nodir yn y Rheolau Sefydlog. Mae'r Senedd yn disgwyl i sefydliadau a chyrff sy'n ddarostyngedig i safonau iaith neu gynlluniau iaith gydymffurfio â'r gofynion hynny pan fyddant yn gosod dogfennau. Gofynnir i gyrff nad ydynt yn ddarostyngedig i safonau neu gynlluniau iaith, weithredu yn ysbryd y Cynllun Ieithoedd Swyddogol ac i barchu hawl Aelodau o'r Senedd i weithio yn eu dewis iaith.

Mae arfer Llywodraeth Cymru o gyflwyno dogfennau yn uniaith Saesneg, yn enwedig pan fo'r dogfennau hynny yn ymwneud â deddfwriaeth, a fydd yn destun craffu gan Aelodau o'r Senedd yn groes i ysbryd y Cynllun Ieithoedd Swyddogol. Er mwyn i Aelodau baratoi ar gyfer trafodion, a chraffu ar y dogfennau hynny yn effeithiol mae angen iddynt fod ar gael yn ddwyieithog. Ers cyhoeddi ein hadroddiad blynyddol y llynedd, datganodd Llywodraeth Cymru ei bwriad i gyflwyno system newydd ar gyfer blaenoriaethu cyfieithiadau o ddogfennau yn ymwneud ag is-ddeddfwriaeth. Mae tystiolaeth (gweler y data uchod) fod y system hon wedi arwain at ychydig o gynnydd o ran cyflwyno dogfennau yn ddwyieithog. Byddwn yn monitro'r sefyllfa dros y flwyddyn nesaf, ac yn gobeithio gweld gwelliant pellach erbyn diwedd y Pumed Senedd.

## Trafodion

Gall Aelodau o'r Senedd ddewis cyfrannu at drafodion y cyfarfod llawn a holl fusnes swyddogol y Senedd yn y naill iaith neu'r llall. Mae sawl ffactor yn dylanwadu ar ddewis iaith cyfranogwyr, ac rydym wedi ymrwymo i gefnogi Aelodau i weithio yn eu dewis iaith bob amser. Mae'r Tîm Sgiliau Iaith yn darparu hyfforddiant rheolaidd i Aelodau, a gall y Tiwtoriaid, neu'r Cyfeillion Cyswllt eu cynorthwyo i baratoi ar gyfer gwneud cyfraniadau yn Gymraeg.

Mae'r holl ddogfennau ar gyfer busnes swyddogol ar gael yn ddwyieithog, ac mae gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael yn ddiofyn. Bydd tystion yn cael eu briffio ymlaen llaw am natur ddwyieithog ein busnes, ac mae cymorth ar gael mewn cyfarfodydd pwyllgorau i ymgyfarwyddo â'r offer cyfieithu ar y pryd.

Tabl 4: Canran y cyfraniadau Cymraeg

| Math o gyfraniad | Canran y cyfraniadau Cymraeg 2017-18 | Canran y cyfraniadau Cymraeg 2018-19 | Canran y cyfraniadau Cymraeg 2019-20 |
|---|---|---|---|
| Trafodion y Cyfarfod Llawn | 20% | 18% | 16% |
| Trafodion Pwyllgorau | 8% | 7% | 6% |

Eleni, cafwyd gostyngiad pellach yn nefnydd y Gymraeg yn nhrafodion y Cyfarfod Llawn a'r Pwyllgorau. Fodd bynnag, dros y flwyddyn ddiwethaf, mae nifer o Aelodau o'r Senedd wedi cyfrannu at drafodion neu wedi gwneud cyfweliadau ar y cyfryngau yn Gymraeg am y tro cyntaf. Mae'n bwysig ein bod yn cydnabod yr ymroddiad a'r ymdrech sylweddol gan yr Aelodau hyn i ddysgu neu i wella eu sgiliau i'r fath raddau fel eu bod yn hyderus i'w defnyddio yn gyhoeddus, ac yn sicrhau ein bod yn parhau i ddathlu llwyddiannau o'r fath.

Fel rhan o'n paratoadau ar gyfer y Chweched Senedd, byddwn yn ystyried ein darpariaeth ar gyfer cefnogi Aelodau i baratoi ar gyfer a chymryd rhan mewn trafodion, ac yn edrych ar unrhyw wersi y gellir eu dysgu o ran cynnal a hwyluso cyfarfodydd rhithwir yn ddwyieithog. Ymhellach i'n gohebiaeth beth amser yn ôl gyda'r BBC am y defnydd o gyfraniadau Cymraeg ac is-deitlo, byddwn yn ystyried a oes mwy y gellir ei wneud i annog darlledwyr i ddefnyddio cyfraniadau gael Aelodau Cynulliad yn y ddwy iaith.

## Pwyllgorau

Yn yr un modd, mae hwyluso gallu Aelodau o'r Senedd i baratoi ar gyfer cyfrannu at gyfarfodydd Pwyllgorau yn hanfodol. Mae'r holl bapurau a baratoir gan Gomisiwn y Senedd ar gael yn ddwyieithog. Wrth alw am dystiolaeth ar gyfer ymchwiliadau bydd timau'r pwyllgorau yn pwysleisio'r angen i dystiolaeth gael ei chyflwyno yn ddwyieithog, ac yn unol ag unrhyw ofynion statudol sydd ar gyrff sy'n ymgysylltu â ni. Rydym yn cydnabod nad yw'n bosibl bob amser i unigolion neu fudiadau gwirfoddol ddarparu deunydd dwyieithog. Caiff tystiolaeth a gyflwynir yn uniaith ei gyhoeddi yn yr iaith y'i cyflwynir. Mae pob pwyllgor yn gwneud trefniadau unigryw ar gyfer briffio aelodau, gan gynnwys pryd ac ar ba ffurf y caiff y papurau briffio eu darparu. Bydd hyn yn seiliedig ar anghenion a dymuniadau aelodau'r pwyllgor. Mae'r timau integredig yn trafod yn barhaus gydag aelodau pwyllgorau i sicrhau eu bod yn hapus gyda'r trefniadau o ran papurau, ac yn naturiol yn adolygu'r trefniadau pan fo aelodaeth pwyllgor yn newid.

Tabl 5: Papurau a gyhoeddwyd gan bwyllgorau'r Senedd yn Gymraeg yn unig

| | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 |
|---|---|---|---|
| Papurau a baratowyd yn fewnol | 0 | 0 | 0 |
| Ymatebion a gyflwynwyd i ymgynghoriadau | 13 | 51 | 1* |
| Ysgrifennydd Gwladol Cymru a Llywodraeth y DU | 0 | 0 | 0 |
| Llywodraeth Cymru | 0 | 0 | 0 |
| Aelodau unigol | 0 | 0 | 0 |
| Unigolion neu sefydliadau allanol | 9 | 21 | 22 |

* Nid yw'r data ar ymatebion i ymgynghoriadau bellach yn cael ei gadw oherwydd newid yn y dull o gyhoeddi'r ymatebion

Tabl 6: Papurau a gyhoeddwyd gan bwyllgorau'r Senedd yn Saesneg yn unig

| | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 |
|---|---|---|---|
| Papurau a baratowyd yn fewnol | 40** | 96** | 13 |
| Ymatebion a gyflwynwyd i ymgynghoriadau | 438 | 628 | * |
| Ysgrifennydd Gwladol Cymru a Llywodraeth y DU | 23 | 52 | 13 |
| Llywodraeth Cymru | 174 | 263 | 218 |
| Aelodau unigol | 3 | 3 | 5 |
| Unigolion neu sefydliadau allanol | 659 | 727 | 804 |

**Ymatebion uniongyrchol i ohebiaeth a dderbyniwyd yn Saesneg. Yn unol â'r Cynllun, caiff unrhyw ymatebion ysgrifenedig i ohebiaeth gan unigolion neu sefydliadau eu drafftio a'u cyhoeddi yn newis iaith y sawl sy'n derbyn yr ohebiaeth gennym.

Tabl 7: Papurau a gyhoeddwyd gan bwyllgorau'r Senedd yn ddwyieithog

| | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 |
|---|---|---|---|
| Papurau a baratowyd yn fewnol | 1172 | 781 | 864 |
| Ymatebion a gyflwynwyd i ymgynghoriadau | 218 | 131 | |
| Ysgrifennydd Gwladol Cymru a Llywodraeth y DU | 8 | 7 | 4 |
| Llywodraeth Cymru | 580 | 993 | 898 |
| Aelodau unigol | 6 | 11 | 4 |
| Unigolion neu sefydliadau allanol | 337 | 361 | 243 |

## Sgiliau Iaith

Eleni, cynhaliwyd arolwg sgiliau iaith Gymraeg staff Comisiwn y Senedd. Ein nod yw cynnal arolwg unwaith bob Senedd hyd nes y bydd yn bosibl diweddaru'r system Adnoddau Dynol a Chyflogres fel y bydd yn gallu casglu'r wybodaeth a darparu adroddiadau ar y wybodaeth yn flynyddol. Llenwodd 398 o aelodau staff yr arolwg, sef 90% o'r cyfanswm o 444 aelod staff oedd yn gweithio ac yn gymwys i ymateb. Casglwyd y wybodaeth trwy arolwg ar-lein syml, a gofynnwyd i staff hunan asesu. Roedd y Tîm Ieithoedd Swyddogol ar gael i gynnig cymorth i unrhyw un oedd yn ansicr o lefel eu sgiliau, a bwriedir datblygu rhagor o adnoddau yn ystod y flwyddyn nesaf er mwyn cefnogi staff i hunan asesu.

Tabl 8 – Canlyniadau'r arolwg

| Lefel | Gwrando | Siarad | Darllen | Ysgrifennu |
|---|---|---|---|---|
| **0** | 32 | 38 | 49 | 64 |
| Cwrteisi | 84 | 92 | 79 | 81 |
| **1** | 53 | 54 | 40 | 39 |
| **2** | 27 | 19 | 31 | 32 |
| **3** | 19 | 25 | 27 | 31 |
| **4** | 47 | 60 | 50 | 63 |
| **5** | 136 | 110 | 122 | 88 |

Rhannwyd y canlyniadau i 3 grŵp hefyd, er mwyn rhoi syniad o'r canrannau o staff ar wahanol lefelau. Defnyddiwyd y grwpiau canlynol:

- Lefel 0/cwrteisi (staff â sgiliau sylfaenol)
- Lefel1-3 (dysgwyr)
- Lefel 4/5 (rhugl)

Mae'r canlyniadau yn galonogol iawn, gyda 46% o'r sawl a ymatebodd yn nodi bod rhywfaint o sgiliau Cymraeg ganddynt, a 42% yn nodi eu bod yn rhugl. Dim ond 11% o'r staff oedd yn teimlo nad oedd unrhyw sgiliau Cymraeg o gwbl ganddynt. Gellir priodoli'r rhesymau dros nodi nad oes sgiliau o gwbl i nifer o ffactorau a byddwn yn defnyddio'r system Adolygu a Datblygu Perfformiad i sicrhau bod y staff cyfan yn hyderus yn ei sgiliau. Bydd rheolwyr llinell yn defnyddio'r cyfarfodydd rheolaidd i drafod anghenion hyfforddiant unigolion a'u hannog i fod yn hyderus i ddefnyddio'r sgiliau sydd ganddynt. Dros y flwyddyn sydd i ddod, byddwn yn ymchwilio i'r

ddarpariaeth sydd eisoes ar gael o ran adennill hyder a defnyddio sgiliau iaith sydd ac yn cynllunio ar gyfer darpariaeth debyg yn y Chweched Senedd.

Tabl 9 – Canlyniadau fel canrannau

| Lefel | Gwrando | Siarad | Darllen | Ysgrifennu | Cyfartaledd |
|---|---|---|---|---|---|
| **4-5** | 46% | 43% | 43% | 38% | 42% |
| **1-3** | 25% | 25% | 25% | 26% | 25% |
| **Cwrteisi** | 21% | 23% | 20% | 20% | 21% |
| **0** | 8% | 10% | 12% | 16% | 11% |





# THEMÂU AR GYFER CYFNOD Y CYNLLUN



# Themâu ar gyfer cyfnod gweithredol y Cynllun

## Thema 1: Recriwtio

Mae'r system recriwtio bellach wedi ymsefydlu, ac eleni am y tro cyntaf, bydd y wybodaeth ystadegol yn cynnwys data blwyddyn gyfan. Gellir gweld o ganlyniadau'r arolwg sgiliau iaith a gynhaliwyd eleni bod staff Comisiwn y Senedd wedi dechrau ymgyfarwyddo â'r disgrifiadau a ddefnyddir yn y matrics sgiliau iaith. Caiff sgiliau iaith eu hystyried hefyd fel rhan annatod o'r broses o gadarnhau pob swydd a hysbysebir, gyda'r broses o gadarnhau swyddi yn cynnwys gwirio'r lefelau a ddynodwyd ar gyfer y swydd yn erbyn cynllun iaith y gwasanaeth dan sylw ac ystyried a yw'r lefel yn parhau yn briodol, neu a oes angen ei newid.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Tîm Adnoddau Dynol wedi caffael system recriwtio ar-lein newydd. Roedd aelod o'r Tîm Ieithoedd Swyddogol yn aelod o'r grŵp oedd yn dewis y system fel rhan o'r broses gaffael, ac mae gwaith yn mynd rhagddo bellach i addasu'r system at ddibenion unigryw y Senedd. Fel rhan o'r broses o gyflwyno'r system ar-lein, byddwn yn adolygu ein dulliau asesu sgiliau iaith er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn addas i'r diben. Bydd hyn yn golygu ailystyried cynnwys ac amseru'r asesiad Cymraeg lefel Cwrteisi, ac ystyried a oes modd datblygu neu ddefnyddio dulliau safonol wrth asesu sgiliau iaith ar lefel 1-3 gan gynnwys dulliau ar-lein. Byddwn yn ymgynghori â'r Tîm Arwain, y Bwrdd Gweithredol, staff y Comisiwn a'r Undebau Llafur cyn cyflwyno unrhyw newidiadau.

## Matrics sgiliau iaith Cymraeg

## Cwrteisi

- ynganu enwau Cymraeg, ateb y ffôn, cyfarch pobl neu gyflwyno pobl i'w gilydd yn ddwyieithog;
- deall ymadroddion cyfarwydd bob dydd a mynd ati i'w defnyddio; a
- deall testunau byr iawn lle mae pobl yn rhoi gwybodaeth sylfaenol amdanynt eu hunain neu am bobl eraill mewn gohebiaeth ac ar ffurflenni, neu
- ddehongli cynnwys drwy ddefnyddio'r dechnoleg sydd ar gael.

## Matrics sgiliau iaith Gymraeg

| | Lefel 1 | Lefel 2 | Lefel 3 | Lefel 4 | Lefel 5 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gwrando** | Yn deall ymadroddion cyfarwydd bob dydd os yw pobl yn siarad yn araf ac yn glir. | Yn deall brawddegau neu gyfarwyddiadau pan fydd pobl yn siarad yn araf am faterion cyfarwydd sy'n ymwneud â gwaith. | Yn deall y rhan fwyaf o drafodaethau a chyfarwyddiadau arferol ac anarferol sy'n ymwneud â gwaith. | Yn deall trafodaethau a chyfarwyddiadau, hyd yn oed ynglŷn â phynciau anghyfarwydd. | Yn deall pob sgwrs Gymraeg lafar, gan gynnwys trafodaethau cymhleth. |
| **Siarad** | Yn gallu rhyngweithio gan ddefnyddio ymadroddion bob dydd, a holi ac ateb cwestiynau sylfaenol am bynciau cyfarwydd. | Yn gallu cynnal sgwrs gyda rhywun arall am faterion cyfarwydd sy'n ymwneud â gwaith. | Yn gallu cynnal sgwrs estynedig gyda siaradwr rhugl am y rhan fwyaf o faterion arferol ac anarferol sy'n ymwneud â gwaith. | Yn gallu siarad a chymryd rhan mewn trafodaeth am gyfnod hir, yn hyderus a heb anogaeth. | Yn gallu siarad yn helaeth am faterion cymhleth, cyflwyno dadleuon ac arwain trafodaethau, hyd yn oed am bynciau anghyfarwydd. |
| **Darllen** | Yn deall testun byr a sylfaenol iawn. | Yn deall testun arferol ac ystyr sylfaenol testun anarferol am faterion cyfarwydd sy'n ymwneud â gwaith. | Yn deall y rhan fwyaf o destun arferol ac anarferol sy'n ymwneud â gwaith os defnyddir iaith safonol. | Yn deall gohebiaeth, erthyglau papur newydd ac adroddiadau wedi'u hanelu at siaradwyr Cymraeg rhugl. | Yn deall pob math o destun. |
| **Ysgrifennu** | Yn gallu trosglwyddo neges syml, gwneud ceisiadau syml neu lenwi ffurflenni syml gyda gwybodaeth sylfaenol. | Yn gallu ysgrifennu testunau byr am faterion cyfarwydd sy'n ymwneud â gwaith. | Yn gallu ysgrifennu testun arferol ac anarferol sy'n ymwneud â gwaith. | Yn gallu ysgrifennu gwahanol fathau o destunau mewn arddulliau sy'n briodol i'r darllenydd sydd mewn golwg. | Yn gallu ysgrifennu'n rhugl ac yn gywir, gan addasu'r arddull yn ôl y gynulleidfa. |

# Thema 2: Sgiliau Iaith

Mae gwaith y Tîm Sgiliau Iaith wedi parhau'n gryf dros y flwyddyn ddiwethaf, gyda'r tîm yn chwilio am ffyrdd arloesol a hyblyg o ddarparu hyfforddiant. Gall Aelodau a'u staff cymorth, a staff y Comisiwn dderbyn hyfforddiant sgiliau iaith gan gynnwys hyfforddiant gloywi iaith ar gyfer y sawl sy'n dymuno gwella eu Cymraeg ysgrifenedig neu adennill hyder i ddefnyddio eu sgiliau ysgrifenedig yn y gweithle.

Unwaith eto eleni, mae sawl dysgwr wedi manteisio ar ddarpariaeth cwrs preswyl yn Nant Gwrtheyrn, y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a gyllidir gan Lywodraeth Cymru. Mae'r nifer mwyaf erioed o ddysgwyr Comisiwn y Senedd wedi cofrestru ar gyfer arholiadau Cymraeg ail iaith CBAC eleni, gydag 16 o ddysgwyr yn sefyll arholiadau ar lefelau Mynediad, Sylfaen a Chanolradd. Mae'r cynnydd hyn yn dangos llwyddiant y tîm o ran denu dysgwyr a sicrhau bod y dysgwyr hynny yn gwneud cynnydd rheolaidd. Nid yw'n ofynnol i'n dysgwyr sefyll arholiadau, ac rydym yn dathlu llwyddiant pob dysgwr trwy ddarparu adborth rheolaidd i'w rheolwyr llinell fel y gall y cynnydd a wneir gael ei gofnodi yn yr adolygiadau datblygu perfformiad unigol.

Mae'r Tîm Sgiliau Iaith wedi datblygu'r ddarpariaeth dysgu anffurfiol sy'n hanfodol i sicrhau bod aelodau staff sy'n dysgu Cymraeg yn gallu ymarfer eu sgiliau iaith. Dros y flwyddyn cynhaliwyd sawl gweithgaredd i ddysgwyr, gan gynnwys cwisiau, bingo, sesiwn ar yr anthem, taith gerdded, boreau coffi a the bach prynhawn. Trwy annog dysgwyr i ddefnyddio eu sgiliau mewn sefyllfaoedd y tu allan i'r ystafell ddosbarth, bydd eu hyder yn cynyddu ac yn ei dro bydd yn creu ethos lle mae pawb yn gyfforddus i ddefnyddio'u Cymraeg waeth beth yw lefel eu sgiliau.

Ers mis Chwefror, mae'r Tîm Sgiliau Iaith hefyd wedi bod yn treialu gwiriwr lefel iaith y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Mae'r gwiriwr yn asesu lefel sgiliau unigolion ar gyfer siarad, gwrando, darllen ac ysgrifennu. Mae'n arf arbennig o ddefnyddiol i helpu unigolyn sydd wedi dysgu Cymraeg yn yr ysgol, neu mewn swyddi blaenorol i ddeall eu lefel ac i gofrestru ar gyfer y

gwersi cywir gyda'r tîm. Er mwyn cynorthwyo staff y Comisiwn, mae'r tîm hefyd wedi mapio lefelau'r cyrsiau Cymraeg mewn perthynas â'n matrics sgiliau iaith. Mae hyn yn rhoi syniad i'n dysgwyr at ba lefel y dylent geisio ymgyrraedd, ac yn eu cynorthwyo i bennu targedau realistig yn ystod eu hadolygiad datblygu perfformiad..

Yn ystod cyfnod digynsail Covid.19, mae'r Tîm Sgiliau Iaith wedi manteisio ar dechnoleg i barhau gyda'r ddarpariaeth hyfforddiant. Mae'r dysgwyr wedi ymuno â'u gwersi arferol ar-lein, ac mae'r tiwtoriaid wedi addasu'r ddarpariaeth i sicrhau bod pawb yn derbyn hyfforddiant addas wedi'i deilwra ar gyfer yr unigolyn. Ar gyfer y staff hynny nad ydynt yn gallu ymuno â gwersi ar-lein, mae'r tîm wedi datblygu adnoddau y gellir eu hargraffu ac wedi cyfeirio'r dysgwyr at adnoddau y gellir eu defnyddio ar eu ffonau symudol. Rydym hefyd wedi annog y mentoriaid i barhau'r cyfarfodydd rheolaidd ar-lein os oes modd er mwyn i'r dysgwyr barhau i ymarfer eu Cymraeg.

Yn ystod y flwyddyn sydd i ddod, byddwn yn ystyried ein darpariaeth ar gyfer aelodau staff sy'n dychwelyd i'r gwaith wedi hyfforddiant preswyl, ac ar ein darpariaeth adennill hyder. Bydd y tîm hefyd yn gwerthuso'r ddarpariaeth dros gyfnod Covid.19 er mwyn dysgu gwersi o ran yr hyn sy'n gweithio'n dda wrth ddysgu o bell. Bydd unrhyw adnoddau pwrpasol a ddatblygir hefyd yn gallu cael eu defnyddio wrth i ni ystyried datblygu darpariaeth o bell ar gyfer y Chweched Senedd.

# Astudiaeth achos – Cynllun Prentisiaeth

Penderfynwyd gosod gofyniad lefel iaith Cwrteisi ar ein prentisiaethau eleni.

Fel rhan o'r broses recriwtio, cynhaliwyd diwrnod agored i ddarpar brentisiaid. Roedd naws y diwrnod yn adlewyrchu ethos dwyieithog y sefydliad, a chafwyd cyflwyniad yn egluro beth yw asesiad Cymraeg lefel Cwrteisi a sesiwn blasu gan un o Diwtoriaid y Tîm Sgiliau Iaith. Wedi hynny, rhoddwyd cyfle i ddarpar brentisiaid gael eu hasesu er mwyn ennill tystysgrif  Cymraeg lefel Cwrteisi.

Wedi'r broses recriwtio, penodwyd 4 prentis ac fel rhan o'n darpariaeth hyfforddiant ni fel sefydliad, cawsant eu cofrestru ar gyfer gwersi Cymraeg. Mae'r 4 prentis yn derbyn gwersi wythnosol. Maent yn mwynhau'r cyfle i adennill eu hyder o ran y sgiliau oedd ganddynt eisoes ers eu cyfnod yn yr ysgol, ac i wella'r sgiliau hynny fel rhan o'u prentisiaeth.

Dyfyniad Asad Afzal (Prentis):

*Ers dechrau gwersi Cymraeg yma yn y Senedd, rydw i'n teimlo fy mod wedi gwneud cynnydd da. Pe bai rhywun wedi dweud wrthyf y byddwn i'n gweithio i Senedd Cymru, yn mynd i wersi Cymraeg yn rheolaidd ac yn mwynhau'r gwersi, ni fyddwn i wedi eu credu nhw. Mae dysgu Cymraeg yn hwyl!*



# Thema 3: Cynllunio Ieithyddol

Mae'r camau a gymerwyd ers cyflwyno'r Cynllun Ieithoedd Swyddogol ar gyfer y pumed Cynulliad yn 2017 yn anochel wedi arwain at newidiadau yng nghapasiti dwyieithog y sefydliad. Mae cynllunio ieithyddol yn rhan hanfodol o'r system recriwtio, ac mae'r ddarpariaeth hyfforddiant sgiliau iaith yn golygu bod lefelau sgiliau ar draws y sefydliad yn newid yn gyson. Roeddem wedi ymrwymo i gynnal arolwg sgiliau iaith staff Comisiwn y Senedd er mwyn deall mwy am y newidiadau hyn, ac er sicrhau ein bod yn gweld canlyniadau cadarnhaol i'r gwaith a wnaed i gynyddu lefel y sgiliau iaith Gymraeg sylfaenol ar draws y sefydliad. Mae'n bwysig hefyd ein bod yn ymwybodol o lefelau sgiliau ein holl aelodau staff er mwyn sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau o'r sgiliau hynny.

Casglwyd y wybodaeth trwy ffurflen ar-lein, a phenderfynwyd gwneud hynny fesul gwasanaeth gyda'r Pennaeth Gwasanaeth yn dosbarthu linc i'r arolwg yn y lle cyntaf. Roedd Cyd-gysylltwyr y gwasanaethau, a'r Tîm Ieithoedd Swyddogol ar gael i gynnig cyngor a chymorth yn ystod cyfnod yr arolwg, ac i annog cydweithwyr i ymateb. Caniatawyd cyfnod oddeutu mis i bob gwasanaeth ymateb, a chafwyd ymateb cadarnhaol iawn gyda 90% yn darparu manylion eu sgiliau. Mae'r Tîm Ieithoedd Swyddogol wedi dadansoddi'r data, ac wedi darparu adroddiadau manwl i bob Pennaeth Gwasanaeth fel eu bod yn gallu defnyddio'r wybodaeth wrth adolygu eu Cynlluniau Iaith Gwasanaeth. Bydd y wybodaeth yn cynorthwyo Penaethiaid Gwasanaeth i ddeall natur y timau o fewn gwasanaethau ac yn cyfrannu at eu cynlluniau capasiti a pharhad busnes.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae pob Pennaeth Gwasanaeth wedi adolygu a diweddaru eu Cynlluniau Iaith er mwyn ymgorffori'r wybodaeth o'r arolwg sgiliau iaith. Mae pob cynllun yn wahanol, a hynny er mwyn adlewyrchu'r amrywiaeth eang yn natur a gwaith y gwasanaethau. Mae'r cynlluniau hefyd yn nodi unrhyw drefniadau rhwng gwasanaethau o ran rhannu capasiti dwyieithog a darparu gwasanaethau dwyieithog.

Eleni, yn unol â'r targedau ar gyfer cyfnod y Cynllun hwn rydym wedi adolygu ein Strategaeth Sgiliau Dwyieithog. Fel rhan o'r adolygiad, ystyriwyd y modd y caiff cynnydd a buddsoddiad ein dysgwyr ei gydnabod, yn ogystal â gwaith y Tîm Sgiliau Iaith a chyfraniad rheolwyr llinell. Wedi i'r Tîm Sgiliau Iaith gyflwyno ac addasu system contract y dysgwyr a'r adborth i reolwyr llinell canfuwyd nad oedd angen strategaeth ar gyfer yr elfen hon gan bod y system yn gweithio cystal. Yn wir, mae'r targedau sydd wedi eu cynnwys yn y Cynllun yn rhai heriol, ac ar y cyd â'r gwaith parhaus ar gynllunio capasiti a chynlluniau iaith y gwasanaethau unigol, maent yn cynnig strategaeth gadarn ar gyfer sgiliau dwyieithog ar draws y Senedd. Cafwyd trafodaeth hefyd gyda swyddogion Comisiynydd y Gymraeg er mwyn sicrhau nad ydym yn disgyn islaw ysbryd y Safonau a osodir gan Swyddfa'r Comisiynydd ar gyrff a reoleiddir ganddi.

# Thema 4: Trafodion

Mae'r gwaith o sicrhau bod modd i Aelodau baratoi ar gyfer trafodion a chymryd rhan ynddynt yn eu dewis iaith wedi parhau eleni. Mae'r Aelodau yn derbyn eu papurau briffio yn unol â'u dewis iaith ac mae cyfieithu ar y pryd ar gael yn ddiofyn. Bydd dysgwyr hefyd yn derbyn cymorth wedi'i deilwra er mwyn paratoi ar gyfer gwneud cyfraniadau i drafodion. Os bydd aelodaeth pwyllgorau yn newid, bydd y timau integredig yn sicrhau bod trefniadau ar waith i gefnogi'r Aelod yn eu dewis iaith.

Eleni, mae Comisiwn y Senedd wedi gwneud gwaith arloesol o ran dwyieithrwydd a'r defnydd o dechnoleg yn ystod pandemig Covid-19. Er mwyn sicrhau bod Aelodau yn gallu parhau â'r gwaith hollbwysig o graffu ar ddeddfwriaeth a dal Llywodraeth Cymru i gyfrif ar adeg pan nad oedd modd iddynt fod yn bresennol yn y Senedd, roedd angen cymryd camau brys. Ymchwiliodd staff i'r dechnoleg oedd ar gael i gynnal cyfarfodydd ar-lein ar gyfer nifer fawr o bobl, a hynny yn ddwyieithog. Penderfynwyd defnyddio meddalwedd *Zoom*. Ar 1 Ebrill 2020 cynhaliwyd cyfarfod rhithiol cyntaf y Senedd Frys a hynny yn gwbl ddwyieithog. Mae'r Senedd wedi derbyn llawer o glod yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, ac rydym wrthi bellach yn cynghori sawl corff cyhoeddus ac awdurdodau lleol ynghylch cynnal cyfarfodydd rhithiol gan ddefnyddio cyfieithu ar y pryd.



Y Llywydd Elin Jones AS yn cadeirio cyfarfod Zoom]

# Astudiaeth achos – Casglu tystiolaeth gan Blant a Phobl Ifanc

Fel rhan o ymchwiliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i hawliau plant yng Nghymru, darparodd y Pwyllgor adnodd 'Cyfarfod mewn bocs' i athrawon, gweithwyr ieuenctid ac arweinwyr gweithgareddau ieuenctid er mwyn iddynt gynnal sesiwn gweithdy am hawliau plant er mwyn casglu barn plant a phobl Ifanc. Nod y pecyn adnoddau dwyieithog hwn, sydd ar gael yn ddigidol neu ar ffurf copi caled, oedd galluogi plant a phobl Ifanc i rannu eu barn ar hawliau plant. Roedd yr hwyluswyr yn gallu cofnodi'r sylwadau trwy arolwg byr, er mwyn rhannu'r wybodaeth gydag aelodau'r Pwyllgor, er mwyn cyfrannu at yr ymchwiliad.

Roedd iaith yn elfen hollbwysig o ran sicrhau ein bod yn gwneud y gorau o'r cyfle i ymgysylltu ag amrediad mor eang â phosibl o blant. Trwy ddarparu pecyn adnoddau dwyieithog a defnyddio pobl oedd yn gyfarwydd â'r plant i gyflwyno sesiynau, roedd modd cyflwyno a thrafod y pwnc mewn iaith ac ar lefel oedd yn addas i'r grwpiau unigol.

Roedd yr adnodd hwn yn golygu bod modd clywed gan amrediad eang o blant Cymru er mwyn sicrhau bod y Pwyllgor yn ymgynghori ymhellach na'r grwpiau sydd eisoes yn gyfarwydd â materion yn ymwneud â hawliau plant. Cafodd yr adnodd ei gynllunio fel bod modd ei ddefnyddio mewn lleoliad oedd yn addas i'r rhai oedd yn cymryd rhan yn y sesiwn, ac roedd yn cynnwys gweithgareddau ar lefelau amrywiol o ran eu dealltwriaeth o hawliau plant, gwaith y Pwyllgor a'r Cynulliad. Cafodd y canlyniadau eu crynhoi mewn dogfen a gyhoeddwyd ar dudalen yr ymholiad ar ein gwefan. Cafodd y canlyniadau eu hystyried hefyd gan Aelodau'r Pwyllgor fel rhan o'r broses o gasglu tystiolaeth. Cafodd llawer o'r canfyddiadau, a dyfyniadau gan y plant, pobl Ifanc a'r hwyluswyr eu defnyddio yn adroddiad y Pwyllgor fel enghreifftiau o farn cyfranddeiliaid am hawliau plant yng Nghymru.



# Thema 5: Datblygu ethos dwyieithog y sefydliad

## Ymwybyddiaeth

Yn ystod y flwyddyn, cynhaliwyd digwyddiadau i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg, gan gynnwys Diwrnod Shwmae – Su'mae, Dydd Miwsig Cymru, Dydd Santes Dwynwen a Dydd Gŵyl Dewi. Fel rhan o wythnos Shwmae eleni, darlledodd Radio Cymru wythnos o raglenni yn dathlu cyfraniad dysgwyr. Yn ystod yr wythnos cafodd y Dirprwy Lywydd, Ann Jones AS ei chyfweld gan Shân Cothi ar raglen Bore Cothi Radio Cymru. Roedd y cyfweliad yn gyfle i drafod ei thaith fel dysgwr a'r ddarpariaeth sydd ar gael iddi wrth ei gwaith yn y Senedd. Mae'r Tîm Ieithoedd Swyddogol bob amser yn chwilio am gyfleoedd i gydweithio â thimau eraill ac eleni, cafwyd cyfle i weithio gyda rhwydwaith *Mindful*, sef rhwydwaith iechyd meddwl y staff. Cynhyrchwyd mat diod ar y cyd ar gyfer Dydd Gŵyl Dewi yn seiliedig ar yr ymgyrch "Amser i Siarad" a oedd yn annog pobl i wneud pethau bychain i helpu cydweithwyr siarad Cymraeg. Datblygwyd brawddegau dwyieithog i staff ddefnyddio gyda chydweithwyr a'u cyhoeddi ar y matiau ar gyfer Dydd Gŵyl Dewi. Cafwyd derbyniad da i'r ymgyrch.



Mae'r gwaith o sicrhau bod pob aelod newydd o staff (boed yn staff Comisiwn y Senedd, neu yn staff cymorth i Aelodau) yn derbyn gwybodaeth am ein ethos dwyieithog, y gwasanaethau a ddarperir, a'r hyn sy'n ddisgwyliedig ohonynt yn parhau. Mae aelod o'r Tîm Ieithoedd Swyddogol, ac aelod o'r Tîm Sgiliau Iaith yn darparu sesiwn gynefino ar gyfer newydd ddyfodiaid, sy'n cynnwys gwybodaeth am y Cynllun, ein ethos dwyieithog, a gwers blasu gan diwtor. Rydym hefyd, yn sgil penodi Cyfarwyddwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu newydd, wedi dechrau ar y gwaith o ddiweddaru ac ail recordio'r fideo ymwybyddiaeth ar gyfer staff newydd Comisiwn y Senedd. Byddwn yn lansio'r fideo yn fuan.

## Technoleg

Eleni, mae Comisiwn y Senedd wedi cymryd rhan yng nghynllun *Common Voice* Mozilla i helpu i ddysgu peiriannau batrymau siarad pobl. Mae'r platfform ar-lein yn torfoli recordiadau o bobl yn siarad mewn gwahanol ieithoedd gan gynnwys y Gymraeg. Y bwriad yw troi'r recordiadau yn ffynhonnell ar gyfer datblygu technoleg llais-i-destun Cymraeg. Yn ystod y flwyddyn, cynhaliodd Comisiwn y Senedd sawl digwyddiad i gasglu recordiadau ac i annog pobl i gyfrannu at y prosiect yn barhaus. Cynhaliwyd diwrnod arbennig i godi ymwybyddiaeth o'r prosiect, gydag Aelodau, Staff Cymorth a Staff y Comisiwn, gan gynnwys y Llywydd, a'r Prif Weithredwr yn eu plith yn cyfrannu eu lleisiau. Byddwn yn monitro datblygiadau technoleg llais-i-destun, a'r datblygiadau diweddaraf o ran theori a chymhwyso technoleg, ac yn cynnal ein perthynas â Microsoft er mwyn sicrhau ein bod ar flaen y gad yn y maes.

Fel rhan o strategaeth ymgysylltu newydd Comisiwn y Senedd, mae'r Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi wedi dechrau cyflwyno sgiliau is-deitlo i'r staff. Mae sawl aelod o staff bellach wedi derbyn hyfforddiant ac mae'r gwasanaeth yn broses o fuddsoddi mewn meddalwedd. Ar y cyd â'r Gwasanaeth Cyfathrebu bydd hyn yn ategu gallu'r timau i gynhyrchu clipiau fideo byr o ansawdd uchel yn amserol.



# Astudiaeth achos – Banc terminoleg, brawddegau ac e-byst dwyieithog

Mae'r tîm Gwasanaethau Ymwelwyr a Lleoliadau Seneddol yn ymdrin â llawer o ymholiadau e-bost sy'n debyg iawn yn ddyddiol. Yn unol â chynllun iaith y gwasanaeth, mae cyfuniad o sgiliau iaith ar draws y tîm, ac nid yw pob aelod yn hyderus i ddrafftio ymatebion Cymraeg neu ddwyieithog heb gymorth. Roedd y tîm yn teimlo bod modd defnyddio sgiliau'r siaradwyr Cymraeg rhugl i gefnogi eu cydweithwyr llai hyderus. Penderfynwyd felly i ddatblygu banc o dermau, brawddegau safonol a thempledi e-bost er mwyn cynorthwyo'r tîm i gyfathrebu â chwsmeriaid ar faterion cyffredin yn gyflym ac yn effeithlon.

Trwy ddefnyddio cyfuniad o'u sgiliau iaith Gymraeg, technoleg a'r banc termau a brawddegau, mae cwsmeriaid yn derbyn ymateb i ymholiadau yn eu dewis iaith heb unrhyw oedi. Mae'r system hefyd yn golygu bod yr un aelod o'r tîm yn gallu ymdrin ag ymholiad o'r dechrau i'r diwedd heb orfod trosglwyddo i gydweithiwr, gan gynnig gwasanaeth gwell i'r cwsmer.

## Monitro a Chydymffurfio

Caiff unrhyw gwynion neu achosion o fethu â chydymffurfio â gofynion y Cynllun eu cofnodi gan y Tîm Ieithoedd Swyddogol. Mae modd gwneud cwyn am y ddarpariaeth trwy'r drefn gwyno neu trwy gysylltu'n uniongyrchol â Rheolwr y Cynllun Ieithoedd Swyddogol. Gall Aelodau neu eu staff cymorth gysylltu â'u Cyfeillion Cyswllt er mwyn darparu adborth ar ein gwasanaethau dwyieithog. Y Cydgysylltwyr Ieithoedd Swyddogol sydd yn gyfrifol am nodi ac ymdrin ag unrhyw achosion o fethu â chydymffurfio â'r Cynllun yn y lle cyntaf, gyda chefnogaeth y Tîm Ieithoedd Swyddogol yn ôl yr angen. Bydd unrhyw gamau a gymerwyd a'r gwersi a ddysgwyd yn cael eu cofnodi fel bod modd eu rhannu yn yr adroddiad blynyddol hwn.

Ar adegau yn ystod y flwyddyn, rydym wedi methu â chyrraedd y safonau uchel rydym yn eu gosod, neu wedi methu â chwrdd â disgwyliadau'r sawl sy'n dod i gysylltiad â ni. Daeth nifer o gwynion i law eleni, a llwyddwyd i ymdrin â'r rhan fwyaf ohonynt drwy'r broses anffurfiol, heb yr angen iddynt gael eu hystyried o dan y broses gwyno ffurfiol. Ceir manylion y cwynion isod:

## Gwybodaeth ar ein gwefan

Fel y llynedd, derbyniwyd ambell i gŵyn am lincs Cymraeg yn arwain at ddogfennau Saesneg, neu lincs wedi torri. Bob tro mae hyn yn digwydd, rydym yn ailystyried ein prosesau er mwyn ceisio cynnwys elfennau mwy manwl o ran gwirio cyn cyhoeddi. Trafodir y broblem gyda'r timau perthnasol, gan gynnig hyfforddiant neu gymorth iddynt yn ôl yr angen, ac i bwysleisio'r angen i wirio bod dogfennau yn gywir yn y ddwy iaith bob amser.

### Galwadau ffôn

Derbyniwyd un gŵyn ynghylch diffyg siaradwr Cymraeg i ymdrin â galwad ffôn eleni. Wedi trafod y mater gyda'r tîm, roedd mater staffio wedi golygu nad oedd y swyddogion arferol ar gael i ymdrin â'r alwad. Fodd bynnag, mae trefniadau wedi eu gwneud bellach i sicrhau bod siaradwr Cymraeg wastad ar gael i ymateb.

## Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol

Derbyniwyd cwyn ynghylch y ffaith fod Llywodraeth Cymru wedi gosod Memorandwm Esboniadol ar gyfer rheoliadau yn ymwneud â Safonau'r Gymraeg yn uniaith Saesneg, a chodwyd y mater mewn Cwestiwn Llafar i'r Comisiwn hefyd. Ail ddatganwyd ein disgwyliadau o ran cydymffurfio â'r gofynion statudol yn Safonau'r Gymraeg a'r Cynllun Ieithoedd Swyddogol a'r Rheolau Sefydlog. Nodwyd fodd bynnag bod yr unigolyn wedi cyflwyno cwyn i Lywodraeth Cymru, ac mai'r ymateb i'r gŵyn honno fyddai'n egluro'r rhesymau pam nad oedd fersiwn dwyieithog ar gael.

## Materion yn ymwneud ag Aelodau

Eleni am y tro cyntaf, derbyniwyd ambell gŵyn gan Aelodau o'r Cyhoedd am Aelodau yn methu â chydymffurfio â gofynion y Cynllun Ieithoedd Swyddogol. Nodwyd ar yr achlysuron hynny, nad yw'r Cynllun yn cwmpasu Aelodau'n cyfathrebu â'u hetholwyr, ond bod yn rhaid i unrhyw ddeunyddiau a gyllidir gan y Comisiwn neu'r Bwrdd Taliadau gael eu cynhyrchu'n ddwyieithog. Rhoddwyd manylion y gefnogaeth sydd ar gael i Aelodau gyfathrebu â'u hetholwyr yn eu dewis iaith hefyd.


## Tabl cwynion

| Natur y gŵyn | Ymateb/Datrysiad |
|---|---|
| Linc i'r Adroddiad Blynyddol ar y Cynllun Ieithoedd Swyddogol ar y rhestr dogfennau a osodwyd wedi torri. | ▪ Trwsio'r linc a rhoi gwybod i'r achwynydd;<br>▪ Gwirio bod y lincs eraill i'r adroddiad yn gweithio. |
| Templedi a dogfennau Cymraeg ar gyfer y system Adolygu Perfformiad a Datblygiad newydd heb eu llwytho i'r system ar yr un pryd â'r dogfennau Saesneg. | ▪ Llwytho'r fersiynau Cymraeg;<br>▪ Rhoi gwybod i'r sawl oedd wedi gwneud cwyn;<br>▪ Addasu prosesau cyhoeddi'r tîm er mwyn sicrhau na fyddai'r un peth yn digwydd eto. |
| Aelod o'r cyhoedd yn anhapus gyda'r gefnogaeth sydd ar gael i Aelodau o'r Senedd ymateb i ymholiadau yn eu dewis iaith. | ▪ Trafod gyda'r unigolyn i egluro'r gefnogaeth sydd ar gael i Aelodau;<br>▪ Egluro i'r unigolyn nad yw Aelodau Cynulliad yn ddarostyngedig i'r Cynllun o ran gohebiaeth;<br>▪ Cysylltu gyda thîm yr Aelod i wirio eu bod yn ymwybodol o'r gefnogaeth sydd ar gael ar gyfer gweithio'n ddwyieithog. |
| Dim staff ar gael i ymateb i alwad ffôn yn Gymraeg. | ▪ Trafod y mater gyda'r tîm o dan sylw;<br>▪ Cadarnhau'r trefniadau ar gyfer ymateb i alwadau yn Gymraeg;<br>▪ Sicrhau bod y tîm yn ymwybodol o'r broses ar gyfer ymdrin â galwadau yn Gymraeg. |
| Dogfennau Saesneg ar ochr Gymraeg y Wefan. | ▪ Cywiro'r camgymeriad a chyhoeddi fersiynau Cymraeg y dogfennau;<br>▪ Atgoffa'r timau priodol am yr angen i wirio lincs wrth gyhoeddi ar y wefan. |

Senedd Cymru
**Comisiwn y Senedd**

# **Cynaliadwyedd :** Adroddiad Blynyddol 2019-20

Mehefin 2020





www.senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:


Senedd Cymru, Bae Caerdydd, CF99 1SN

0300 200 6565

Cysylltu@senedd.cymru

www.senedd.cymru

SeneddCymru

SeneddCymru

Senedd



**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2020**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Comisiwn y Senedd**

# Cynaliadwyedd : Adroddiad Blynyddol 2019-20

Mehefin 2020



Ar 6 Mai, newidiom i ddod yn Senedd Cymru. Ym mis Ionawr, pan rod-dwyd Cydsyniad Brenhinol i Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020, gwelwyd penllanw proses hir a chymhleth i'r nifer helaeth o staff y Comisiwn a oedd yn rhan o hynt y Ddeddf.

Serch hynny, fe welwch fod y ddogfen hon yn cyfeirio'n bennaf at y sefydliad fel y Cynulliad; mae hyn yn adlewyrchiad o'r ffaith ein bod yn edrych yn ôl ar y 12 mis diwethaf cyn i'r Cynulliad newid ei enw.

# Cynnwys

**Cyflwyniad** ........ 7

**Crynodeb o berfformiad** ........ 3

**Cynnydd yn ôl ein targedau** ........ 6

**Ynni** 8

**Gwastraff** ........ 10

**Dŵr** 11

**Teithio** ........ 13

**Bioamrywiaeth** ........ 15

**Caffael ac Adeiladu Cynaliadwy** ........ 17

**Rheoli Amgylcheddol** ........ 18

**Effeithiau** ........ 19

**Atal llygredd** ........ 21

**\Y flwyddyn sydd i ddod** ........ 22

**Atodiad A: Data Amgylcheddol** ........ 24

**Atodiad B: Meincnodi** ........ 25

**Atodiad C: Polisi Amgylcheddol** ........ 26


Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales
Senedd

# Cyflwyniad



**Manon Antoniazzi**
Prif Weithredwr a Chlerc



**David Rowlands AC**
Comisiynydd Diogelwch ac Adnoddau

## Ym mlwyddyn olaf ein strategaeth lleihau carbon gyfredol, rydym yn falch iawn o nodi gostyngiad o 49 y cant mewn allyriadau ynni.

Rydym wedi parhau i wneud gwelliannau i'n hystâd a'r ffordd yr ydym yn ei defnyddio, er mwyn lleihau ein galw am gyfleustodau. Mae boeleri newydd, goleuadau LED, a lefel uwch o awtomeiddio i gyd o gymorth i leihau ein galw am adnoddau cyfyngedig.

Mae gwelliannau bach o amgylch yr ystâd eleni wedi dangos y gallwn, hyd yn oed mewn amgylchedd trefol, wneud ein safle yn fwy addas ar gyfer amrywiaeth o flodau a phlanhigion.

Wrth inni symud i flwyddyn olaf ein strategaeth garbon gyfredol, rydym wedi datblygu ein cynllun tymor hwy newydd, a fydd yn parhau o 2021 hyd at 2030. Fel senedd sydd newydd ei henwi, ein nod yw parhau i osod y safon uchaf bosibl fel corff sector cyhoeddus er mwyn ymateb i'r argyfwng hinsawdd.



# Crynodeb o berfformiad

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf hon, rydym wedi gweithredu nifer o fentrau amgylcheddol sy'n gysylltiedig â'n hadeiladau a'n hystâd ehangach, i leihau ein defnydd o gyfleustodau ac i ddarparu cynefin mwy croesawgar ar gyfer blodau a phlanhigion. Mae'r ymdrechion hyn, ynghyd â gwneud grid trydan y DU yn fwy gwyrdd, wedi helpu i leihau ein hôl troed ynni i bron hanner lefel ein blwyddyn waelodlin saith mlynedd yn ôl. Wrth inni symud i flwyddyn olaf ein strategaeth garbon gyfredol, mae ein ffocws bellach yn troi at strategaeth newydd a fydd yn mynd â ni o 2021 i 2030.

Mae crynodeb o'r gwelliannau a wnaed i'r ystâd a'r ffordd yr ydym yn gweithredu yn cynnwys y canlynol:

- Rydym wedi disodli'r prif foeleri gwresogi yn Nhŷ Hywel gydag unedau cyddwyso mwy effeithlon. Gosodwyd y boeleri blaenorol pan agorwyd yr adeilad gyntaf, ac roeddent wedi cyrraedd diwedd eu hoes weithredol. Mae'r unedau newydd yn gallu gweithredu'n llawer mwy hyblyg a dylent ein helpu i sicrhau arbedion nwy sylweddol.
- Yn dilyn ymlaen o hyn, gwnaethom osod pympiau newydd wedi'u gyrru gan wrthdröydd i symud dŵr poeth o amgylch yr adeilad. Maent yn cymedroli eu cyflymder llif yn well ac felly'n gwella effeithlonrwydd.
- Gosodwyd synwyryddion PiR a microdon newydd mewn amrywiaeth o leoliadau er mwyn lleihau'r defnydd o oleuadau.
- Gosodwyd rhagor o oleuadau LED mewn sawl lleoliad o amgylch yr ystâd, gan gynnwys yr ardaloedd parcio, ac mae hynny'n cynnig rhagor o arbedion.

- Cafodd y damperi lefel uchel yn y Senedd eu hadnewyddu. Mae'r unedau newydd yn cynnig gwell rheolaeth ac yn lleihau drafftiau yn yr adeilad.
- Gwnaethom uwchraddio rhai o'r rheolyddion gwresogi i wella effeithlonrwydd a chysur thermol, yn ogystal â rhai o'r unedau trosglwyddo aer (AHUs) sy'n sicrhau bod digon o awyr iach o fewn ein gofod swyddfa.
- Gwnaethom sawl newid i leihau risg llygredd, gan gynnwys ailosod tanc storio disel a'r trap saim ar gyfer ein elifiant arlwyo.
- Roedd ychydig o'n boeleri dŵr te yn dal heb amseryddion arnynt, felly cafodd y rhain eu hôl-osod i leihau nifer yr oriau y maent yn gweithredu.
- Gwnaethom gynnal archwiliad o'n mannau arlwyo ac arwerthu i greu ciplun o ble y mae plastig untro yn parhau i gael ei gyflenwi.
- Gwnaethom welliannau o ran bioamrywiaeth, gan gynnwys gosod pwll dŵr bach yng ngardd Tŷ Hywel a phlannu rhai bylbiau yn ein llain blodau gwyllt.
- Rydym wedi dechrau cynllunio strategaeth lleihau carbon newydd, i roi cyfeiriad o'r adeg y daw ein targedau cyfredol i ben yn 2021.

Er nad yw'r Senedd wedi'i rhestru fel corff cyhoeddus at ddibenion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, rydym yn ymwybodol o'r 7 nod cynaliadwyedd yng Nghymru ac mae'r adroddiad hwn yn rhoi tystiolaeth o'r cynnydd a wnaed gennym o ran lleihau'r defnydd o blastig untro a rheoli ein heffaith amgylcheddol.

Mae ein gwaith amgylcheddol yn parhau o dan faner system reoli wedi'i hardystio'n ffurfiol sy'n cynnwys archwiliad blynyddol gan gorff a achredir gan UKAS yn ôl gofynion ISO14001.

# Cynnydd yn ôl ein targedau

## Gyda blwyddyn yn weddill o'n strategaeth lleihau carbon gyfredol, rydym wedi rhagori ar y targed gwreiddiol, sef gostyngiad o 30 y cant mewn allyriadau ynni; gan ein bod yn nodi cwymp o 49 y cant dros gyfnod ein blwyddyn waelodlin.

Mae gwelliannau sylweddol i'r ystâd, ynghyd â gostyngiad parhaus yng nghynnwys carbon trydan grid y DU, wedi arwain at ein bod yn adrodd ar bron hanner yr ôl troed a gynhyrchwyd gennym yn 2012/13.

Mae effeithlonrwydd o ran teithio busnes hefyd wedi parhau i wella. Mae darpariaethau ar gyfer gwefru trydan ar yr ystâd wedi helpu i annog staff i newid i gerbydau trydan (EVs), ac mae ein car trydan at ddefnydd pawb hefyd wedi gweithredu fel sbardun i'r rhai sy'n ystyried newid i gerbyd trydan. Rydym wedi rhagori ar ein targed ar gyfer effeithlonrwydd teithio busnes hefyd, gyda chyflwyno'r car trydan at ddefnydd pawb a dirwyn y gwasanaeth ceir swyddogol i ben gan y Llywydd presennol, yn ogystal â gwneud cynnydd o ran effeithlonrwydd cerbydau preifat aelodau staff.

Rydym wedi parhau â'n gwaith i leihau plastig untro ar yr ystâd, ac rydym yn edrych ymlaen at ragor o welliannau yn y maes hwn yn y flwyddyn sydd i ddod.

***Tabl 11: Cynnydd yn ôl targedau***

| Amcanion | Targedau | Cynnydd |
|---|---|---|
| Lleihau ôl-troed carbon | Lleihau allyriadau ynni 30 y cant arall erbyn 2020/21 (yn seiliedig ar y waelodlin 2012/13) | **Cyflawnwyd. 49 y cant yn is na'r flwyddyn waelodlin. Gostyngiad o 10 y cant ar ffigwr y llynedd.** |
| | Gwella effeithlonrwydd teithio mewn car ar gyfer busnes 10 y cant erbyn 2020/21 (yn seiliedig ar waelodlin 2013/14) | **Cyflawnwyd. 32 y cant yn fwy effeithlon na'r flwyddyn waelodlin.** |
| **Lleihau effaith gwastraff** | Peidio ag anfon dim gwastraff i safleoedd tirlenwi erbyn 2020/21 | **Cyflawnwyd. Nawr yn gweithredu ar sail anfon dim gwastraff i safleoedd tirlenwi** |
| | Trosglwyddo o reoli gwastraff i reoli adnoddau'n gynaliadwy erbyn 2020/21 | **Y gwaith yn mynd rhagddo. Mae'r gwaith ar becynnau plastig yn parhau.** |
| **Defnyddio llai o ddŵr** | Defnyddio 5 y cant yn llai o ddŵr yfadwy ar draws yr ystâd erbyn 2020/21 (yn seiliedig ar waelodlin 2014/15) | **Mae'r galw cyhoeddus yn dylanwadu'n bennaf ar y defnydd, ac eleni gwnaethom brofi rhai problemau cynnal a chadw. O ganlyniad, rydym wedi gweld cynnydd o 1.6 y cant dros y flwyddyn waelodlin.** |

# Ynni

## Fel y dengys y tablau data, roedd lleihad sylweddol yn y defnydd o ynni eleni, yn enwedig trydan. Mae’r defnydd o nwy hefyd wedi lleihau, er gwaethaf cyfnod gwresogi hirach na’r llynedd. Rydym yn falch o nodi gostyngiad o 49 y cant mewn allyriadau ynni ers ein blwyddyn waelodlin.

Mae sawl ffactor wedi cyfrannu at ôl troed ynni llai eleni eto, gan gynnwys sicrhau bod grid trydan y DU yn fwy gwyrdd yn barhaus wrth i ragor o ddulliau adnewyddadwy o gynhyrchu ynni gael eu gosod, yn ogystal â chamau ymarferol yr ydym wedi’u cymryd ar y safle i leihau ein galw am ynni.

Mae gosod boeleri nwy mwy effeithlon newydd yn ein prif adeilad yn Nhŷ Hywel wedi talu ar ei ganfed o ran gwrthbwyso cyfnod gwresogi'r gaeaf, a ddechreuodd yn gynharach ac a orffennodd yn hwyrach nag y gwnaeth yn 2018-19 yn ôl ein dadansoddiad o *raddfa’r defnydd*.

Gellir priodoli llai o alw am drydan, ac yn wir rhai o’r arbedion o ran nwy, i’r mesurau effeithlonrwydd a osodwyd drwy gydol y flwyddyn ddiwethaf. Roedd y rhain yn cynnwys goleuadau a rheolyddion mwy effeithlon, ynghyd â gwelliannau effeithlonrwydd o ran y systemau gwresogi ac oeri, defnyddio gwresogyddion isgoch mwy effeithlon a disodli unedau aerdymheru sydd wedi dod i ddiwedd eu hoes â rhai mwy effeithlon. Rydym hefyd wedi cyflwyno rhagor o fecanweithiau rheoli amser ar ffynonellau gwres a boeleri dŵr.


Mae sgorau Tystysgrif Ynni Arddangos (DEC) ar gyfer ein hadeiladau yn adlewyrchu’r gwelliannau hyn hefyd (asesiad o'r defnydd o ynni yn ôl arwynebedd llawr mewn adeiladau masnachol), oherwydd roedd sgôr adeiladau’r Senedd yn well eleni, a chyflawnodd Tŷ Hywel sgôr ‘D’ am y tro cyntaf. Mae ein Tystysgrif Ynni Arddangos i’w gweld yn nerbynfeydd ein hadeiladau a chaiff ei chyhoeddi ar dudalen cynaliadwyedd ein gwefan.

Mae llai o ddefnydd o nwy a thrydan wedi’i wrthbwyso gan un o’r codiadau mwyaf mewn costau cyfleustodau yr ydym wedi’u profi yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Cododd prisiau trydan tua 16 y cant eleni, a chododd prisiau nwy 20 y cant. O ystyried natur ein gweithrediadau, trydan yw’r gydran fwyaf o’n galw am gyfleustodau o bell ffordd, ac o’r herwydd mae’r costau wedi cynyddu er gwaethaf ein hymdrechion i leihau defnydd o drydan. Rydym yn parhau i gaffael ynni drwy

Wasanaeth Caffael Cenedlaethol (NPS) Llywodraeth Cymru; i sicrhau'r prisiau gorau posibl ar y cyd â gweddill y sector cyhoeddus yng Nghymru.

Byddwn yn parhau i chwilio am gyfleoedd newydd gwell i leihau ein defnydd o ynni yn ystod y flwyddyn sydd i ddod, a hynny gan gynnwys mesurau corfforol a rhagor o waith monitro a dadansoddi i nodi opsiynau ar gyfer defnyddio ynni'n fwy effeithlonrwydd. Byddwn yn parhau i wneud y defnydd gorau o fiomas yn y Senedd; mae mwy na hanner anghenion gwresogi'r adeilad yn cael eu diwallu gan y ffynhonnell tanwydd hon sy'n niwtral o ran carbon. Byddwn hefyd yn ceisio disodli rhagor o'n hunedau goleuo â rhai LED, a chynyddu swm y switshis awtomatig sydd ar gael ar gyfer goleuadau.

***Ffigur 1: Allyriadau Ynni (tCO2e)***




# Gwastraff

Yn ystod 2019, mewn ymateb i newid o ran gofynion gweithredol, gwnaethom newid contractwyr ar gyfer ein darpariaeth rheoli gwastraff ac wrth wneud hynny llwyddwyd i leihau cost y gwasanaeth yn sylweddol.  Mae rhywfaint o gyfnod addasu cychwynnol wrth adrodd yn golygu bod ein ffigurau yn is na'r llynedd, ond credwn y cynhyrchwyd swm tebyg o wastraff, er bod rhagor yn mynd i'r cyfleuster adfer ynni.  Rydym wedi gweithio gyda'r contractwr i wella hyder o ran cywirdeb adroddiadau, a gallwn gadarnhau nad oes dim o'n gwastraff yn cael ei anfon i safleoedd tirlenwi.

Rydym yn parhau â'n hymdrechion, ochr yn ochr â'n contractwr arlwyo, i leihau plastig untro ar yr ystâd.   Fe wnaethom roi'r gorau i ddarparu cwpanau coffi untro sawl blwyddyn yn ôl, a lle bo modd, rydym wedi disodli cynwysyddion a chyllyll a ffyrc tafladwy gyda dewisiadau amgen bio-ddiraddiadwy. Fe wnaethom gymryd rhan yn y fenter Gorffennaf Di-blastig, ac rydym bron wedi rhoi'r gorau i'w ddefnyddio yn ein gwasanaeth arlwyo.  Mae archwiliad diweddar o'r plastig sy'n weddill yn ein mannau arlwyo ac arwerthu wedi helpu i nodi lle rydym yn parhau i brynu eitemau wedi'u pecynnu mewn plastig, megis melysion.  Dros y flwyddyn i ddod, byddwn yn gweithio gyda'n cyflenwyr i ddod o hyd i ddewisiadau amgen.

Yn ystod y flwyddyn sydd i ddod byddwn yn gobeithio cael gwared ar blastig o'n siopau adwerthu lle bynnag y bo modd, yn ogystal â gweithio gyda Phwyllgor Sbwriel a Gwastraff Plastig y Senedd Ieuenctid. Byddwn hefyd yn gweithio gyda'n contractwr arlwyo i leihau'r arfer o drin pecynnau lle bynnag y bo modd, gan gynnwys treialu pecynnau y gellir eu hailddefnyddio

***Ffigur 2: Cyfanswm ein cynnyrch gwastraff, a'r ganran a ddargyfeirir o safleoedd tirlenwi***




# Dŵr

## Er mai dim ond elfen fach o'n heffaith carbon yw dŵr, mae'n parhau i fod yn adnodd naturiol pwysig. Nid ydym wedi cyrraedd ein targed ar gyfer y cyfleustod hwn hyd yn hyn, ond rydym wedi newid y ffordd yr ydym yn adrodd arno, er mwyn gwella cywirdeb.

Defnyddir dŵr yn bennaf ar draws yr ystâd at ddibenion domestig, yn ogystal â ffreutur y staff, ym mannau arlwyo'r Senedd, ac yn y gegin fach yn y Pierhead. Gyda mwyafrif y staff wedi'u lleoli yn Nhŷ Hywel, mae problemau gyda'r mesurydd dŵr yn ystod y blynyddoedd diwethaf wedi arwain at anghysondeb sylweddol rhwng biliau a defnydd.  Mae hyn bellach wedi gwella, ond er mwyn sicrhau cymariaethau hirdymor a dibynadwyedd ein data, rydym yn adrodd ar ddarlleniadau dynol o fesuryddion ar gyfer yr adeilad hwn er mwyn sicrhau cywirdeb ac atal unrhyw broblemau gyda'r mesurydd rhag effeithio ar ein ffigyrau.


Mae'r defnydd o ddŵr yn y Senedd a'r Pierhead, fel adeiladau sy'n hygyrch i'r cyhoedd yn parhau i amrywio gyda nifer yr ymwelwyr ac amlder a phoblogrwydd digwyddiadau ym Mae Caerdydd, er y caiff y galw am ddefnyddio dŵr ei

wrthbwyso'n rhannol gan system cynaeafu dŵr glaw y Senedd. Fe wnaethom hefyd osod rhagor o dapiau taro yn ystafelloedd ymolchi'r Pierhead yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, eto i leihau'r defnydd o ddŵr o'r prif gyflenwad.

Rydym wedi profi cynnydd yn y dŵr a ddefnyddir ar yr ystâd eleni, yn benodol ar gyfer adeilad y Senedd, a chredir fod hyn yn gysylltiedig â mater cynnal a chadw o ran y tanc cynaeafu dŵr glaw.  Er bod y system cynaeafu dŵr glaw fel arfer yn cyfateb yn effeithlon i'n galw am ddŵr, mae unrhyw broblem o ran cynnal a chadw yn ei gwneud yn ofynnol i'r tanciau gael eu gwagio, eu glanhau a'u hail-lenwi.

Ar ôl canolbwyntio rhagor ar allyriadau ynni a thrafnidiaeth, mae lle i welliannau o hyd o ran defnyddio dŵr, a dyma un o'n meysydd ffocws ar gyfer blwyddyn olaf ein strategaeth gyfredol.  Bydd y gwaith yn cynnwys cynnal archwiliad o'r defnydd o ddŵr ar yr ystâd, yn ogystal â gosod camau arbed dŵr lle bydd hynny'n bosibl.

***Ffigur 3: Defnyddio dŵr o'r prif gyflenwad ar ystâd y Cynulliad***



# Teithio

## Rydym wedi rhagori ar ein targed ar gyfer gwella effeithlonrwydd teithio busnes; rydym bellach yn gweithredu ar gyfartaledd o tua 90gCO2/km (o waelodlin o 135g), yn rhannol o ganlyniad i gyflwyno'r car trydan at ddefnydd pawb, yn ogystal â therfynu gwasanaeth car swyddogol y Llywydd yn gynharach yn y cyfnod targed.

Yn ddiweddar rydym hefyd wedi cynnal ein harolwg teithio bob dwy flynedd, a hynny drwy gydol mis Mawrth 2020. Mae hyn yn rhoi diweddariad gwerthfawr inni wrth gyfrifo ôl troed carbon teithio busnes a chymudo, yn ogystal â gweithredu fel ffynhonnell adborth ar ein cyfleusterau. Rydym yn gofyn amrywiaeth o gwestiynau i staff, gan gynnwys pa mor bell maen nhw'n cymudo a chan ddefnyddio pa ddull, yn ogystal â cheisio cyfleoedd i wella ein cynigion a'n cyfleusterau teithio. O hyn, roeddem hefyd yn gallu cyfrifo gwelliant yn effeithlonrwydd cerbydau aelodau staff eu hunain (y fflyd lwyd), a gyfrannodd at y ffaith ein bod ni wedi cyrraedd ein targed o ran effeithlonrwydd teithio.


Nid ein teithio ni ein hunain yn unig yr ydym yn ei annog i fod mor gynaliadwy â phosibl, ond hefyd teithio ein contractwyr a'n tenantiaid. Rydym wedi gweithio gyda Llywodraeth Cymru i osod pwyntiau gwefru newydd ar gyfer cerbydau trydan (EV) ar yr ystâd eleni er mwyn galluogi rhagor o'u cerbydau swyddogol i newid i fodelau allyriadau isel iawn. Mae ein contractwr cyfleusterau hefyd yn defnyddio fan drydan ar gyfer gwaith o amgylch y safle, yn ogystal â chasglu cyflenwadau ac i ateb galwadau allan.

Rydym yn parhau i wneud gwelliannau i gyfleusterau ar gyfer beicwyr, yn ogystal â'r rhai sy'n defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus i deithio i'r gwaith. Fe wnaethom ychwanegu rhagor o le storio ar gyfer beiciau yn 2019 wrth i feicio i weithio ym mhrif ddinas Cymru barhau i fod yn fwy poblogaidd nag erioed, yn ogystal â hyrwyddo cynigion sydd ar gael i staff sy'n prynu tocynnau tymor ar gyfer teithio i'r gwaith gan ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus.


Datblygwyd rhai o'r cynigion hyn drwy ein cysylltiad â'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer ardal Caerdydd. Er nad oes rheidrwydd arnom o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, rydym yn parhau i fod yn aelod gweithgar o'r grŵp gwerthfawr hwn, lle rhennir arfer gorau ar gyfer teithio iach a chynaliadwy.

Byddwn yn parhau i hyrwyddo opsiynau teithio cynaliadwy dros y flwyddyn nesaf, gan gynnwys y cynigion trafnidiaeth gyhoeddus a'r cyfleuster beiciau at ddefnydd pawb. Byddwn yn troi canlyniadau ein harolwg teithio yn gynllun teithio wedi'i ddiweddaru, a bydd hwn yn cyfrannu at ein strategaeth lleihau carbon hirdymor newydd a fydd ar waith o 2021.

***Ffigur 4: Cyfansoddiad ôl-troed carbon teithio ar fusnes y Cynulliad yn 2019/2020***




***Ffigur 5: Pellter cymudo ar gyfartaledd ar gyfer taith yn ôl ac ymlaen i'r gwaith drwy wahanol ddulliau i bobl sy'n gweithio yn ystâd Bae Caerdydd***



# Bioamrywiaeth

## Rydym wedi partneru eleni gyda RSPB a Bug Life, fel rhan o'u menter Urban Buzz, i wneud ein hystâd ym Mae Caerdydd yn enghraifft o'r hyn y gellir ei gyflawni mewn amgylchedd trefol heb lawer o le.

Fe wnaethon ni gyflwyno cynefin ar gyfer rhagor o graeaduriaid di-asgwrn-cefn, gan gynnwys pwll dŵr bach, a phlannu planhigion mwy cyfeillgar i beillwyr fel tafod yr ych, sêr-flodyn Mecsico (cosmos) a lafant.  Fe wnaethom gynhyrchu astudiaeth achos ar gyfer RSPB yn rhoi manylion y gwelliannau rydyn ni wedi'u gwneud yn sgîl ei gyngor, gan osod esiampl y gall sefydliadau eraill sydd â lle cyfyngedig ei dilyn gobeithio.


Yn flaenorol, torrwyd y llain o dir ar ochr adeilad y Senedd yn aml i gadw uchder y llystyfiant yn isel, ond rydym wedi newid y ffordd y rheolir hyn eleni er mwyn hybu bioamrywiaeth.  Mae torri'r glaswellt yn llai aml wedi creu hafan ar gyfer blodau gwyllt ac amrywiaeth o blanhigion nad oeddem yn ei ddisgwyl.  Mae'r stribed blodau gwyllt bellach yn cynnal planhigion niferus gan gynnwys pimpernel ysgarlad, dau fath o degeirian, a hyd yn oed ffyngau a madarch yn yr hydref.

Cafodd y newidiadau hyn eu creu, ac yn wir maent yn cael eu cynnal, gan dîm o staff sy'n gwirfoddoli, yn bennaf yn ystod eu hamser cinio.  Ni fyddwn yn camu yn ôl oddi wrth yr elfen hon ar ôl ei chyflawni chwaith - bydd y clwb garddio a bioamrywiaeth yn parhau i gynnal a gwella'r cynefinoedd hyn, ac rydym wedi dechrau cynnal arolygon peillwyr i wirio eu heffeithiolrwydd hyd yn oed.

Mae ein prosiect Gwenyn y Pierhead yn parhau i ffynnu, a 2019 oedd y flwyddyn gyntaf iddo gynhyrchu mêl.  Cafodd hwn ei dynnu a'i roi mewn jariau gan fusnes bach lleol rydyn ni'n partneru ag ef ar y prosiect, ac yna cafodd y mêl ei werthu ymhlith staff gyda'r elw'n mynd yn ôl i'r prosiect.  Ar gyfer 2020 rydym yn gobeithio gosod trydydd cwch gwenyn a gallu cynhyrchu digon o fêl i werthu rhywfaint yn siop y Senedd.



*Mae chwilod mursen wedi cael eu denu i'r pwll dŵr newydd*



*Mae'r llain blodau gwyllt wedi cynhyrchu tegeirianau gwenyn gwych eleni*



*Gwenyn mêl (un o'n rhai ni o bosibl) yn gwneud defnydd da o'r lafant ar y safle*

# Caffael ac Adeiladu Cynaliadwy

## Mae ein defnydd o bapur wedi lleihau eto eleni, yn sgîl darparu argraffu canolog dilynol, sydd o gymorth i leihau defnydd diangen o bapur.

Disgwyliwn ostyngiad yn y defnydd o bapur eto'r flwyddyn nesaf mewn ymateb i ragor o atebolrwydd am ddefnyddio deunydd ysgrifennu. Mae ein holl bapur yn parhau i fod wedi'i ardystio gan FSC, sydd wedi'i ailgylchu 100%, neu'r ddau.

Yn yr un modd, mae ein ffynhonnell o ddodrefn swyddfa yn nodi'r defnydd o bren FSC, a chaiff ei gaffael drwy fframweithiau’r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol.

Nid ydym wedi ymgymryd ag unrhyw brosiectau adeiladu neu adnewyddu mawr dros y flwyddyn ddiwethaf.

# Rheoli Amgylcheddol

## Mae'r Comisiwn wedi cynnal system rheoli amgylcheddol ffurfiol ers mwy na degawd.

Rydym yn credu mewn tryloywder yn ogystal â gosod y safonau uchaf i ni ein hunain, a dyna pam rydym yn cynnal system rheoli amgylcheddol sy'n cael ei harchwilio'n allanol yn erbyn gofynion ISO14001. Mae'r safon reoli hon yn mynnu bod amrywiaeth o gamau yn cael eu dangos mewn archwiliad allanol, gan gynnwys rheolaethau ar effeithiau amgylcheddol allweddol, cydymffurfio â deddfwriaeth, a rhaglen o archwiliadau mewnol. Mae gennym dîm o archwilwyr mewnol hyfforddedig sy'n gwirio'r safle ffisegol a'n rheolaethau gweithredol i sicrhau ein bod yn cydymffurfio'n gyson drwy gydol y flwyddyn. Mae'r archwilwyr hefyd yn gwirio am risg llygredd ac yn edrych am arbedion effeithlonrwydd lle bo hynny'n bosibl.

Rydym yn parhau i weithio gyda chyrff sector cyhoeddus eraill yng Nghymru, yn ogystal â seneddau eraill y DU, er mwyn rhannu arfer gorau wrth wella'r amgylchedd yn barhaus.

# Effeithiau

## Mae'r tabl isod yn dangos effeithiau amgylcheddol sylweddol y sefydliad.

Cyfrifir y ffigur risg ar gyfer pob agwedd gan ddefnyddio graddfa'r effaith a pha mor debygol ydyw o ddigwydd, gan ystyried deddfwriaeth a lefel y rheolaeth a gynigir.  Mae effeithiau â sgôr o bump ar hugain neu fwy wedyn yn cael eu hystyried yn 'arwyddocaol' ac yn cael eu blaenoriaethu gan weddill y system amgylcheddol.

***Tabl 12: Elfennau ac Effeithiau Amgylcheddol***

| Elfen | Gweithgaredd | Effaith | Gradd arwyddocâd |
|---|---|---|---|
| **Defnyddio trydan** | Goleuo'r ystâd | Traul sylweddol ar adnoddau<br>Allyriadau anuniongyrchol<br>Cynyddu'r ôl troed carbon | 35 |
| **Defnyddio trydan** | Pweru offer swyddfa | Traul sylweddol ar adnoddau<br>Allyriadau anuniongyrchol<br>Cynyddu'r ôl troed carbon | 35 |
| **Trafnidiaeth** | Teithio ar fusnes | Allyriadau carbon<br>Risg i iechyd<br>Traul sylweddol ar adnoddau | 31 |
| **Trafnidiaeth** | Cymudo gan staff | Risg llygredd<br>Allyriadau carbon<br>Risg i iechyd<br>Traul sylweddol ar adnoddau | 31 |

| Elfen | Gweithgaredd | Effaith | Gradd arwyddocâd |
|---|---|---|---|
| **Defnyddio trydan** | Oeri: gweithredu offer aerdymheru a choiliau gwyntyllau | Traul sylweddol ar adnoddau<br><br>Allyriadau anuniongyrchol<br><br>Cynyddu'r ôl troed carbon | 28 |
| **Defnyddio nwy** | Gwresogi ein hadeiladau | Traul sylweddol ar adnoddau<br><br>Allyriadau nwyon tŷ gwydr<br><br>Cynyddu'r ôl troed carbon | 28 |
| **Defnyddio contractwyr** | Prosiectau adnewyddu a chynnal a chadw | Risg llygredd<br><br>Risg o'r llwybr gwaredu anghywir (e.e. safleoedd tirlenwi)<br><br>Cynhyrchu gwastraff<br><br>Caffael cynhyrchion / offer newydd<br><br>Effaith carbon posibl | 28 |

Fel y gellir gweld, mae ein prif effeithiau yn deillio o ddefnyddio cyfleustodau, trafnidiaeth a chynnal a chadw'r ystâd. Mae'r rhain i'w disgwyl mewn amgylchedd swyddfa i raddau helaeth.

Ein hunig newid ers y blynyddoedd diwethaf fu'r gostyngiad mewn sgôr arwyddocâd cynhyrchu gwastraff cyffredinol, o ystyried nad yw'n cael ei anfon i safleoedd tirlenwi mwyach.

# Atal llygredd

## Rydym yn sicrhau ein bod yn gweithredu prosesau llym ar gyfer atal llygredd sy'n deillio o'r gweithgareddau ar ein hystâd. Mae ein cynllun atal llygredd yn nodi ffynonellau llygredd posibl a chamau lliniaru cysylltiedig.

I ategu hyn, mae gennym rwystrau ffisegol, hyfforddiant a gweithdrefnau ar waith i reoli'r risgiau hyn. Fodd bynnag, dylid cofio ein bod yn safle â risg gymharol isel, a ninnau'n sefydliad sy'n cynnwys swyddfeydd yn bennaf, gydag ychydig o gemegau.

Ar draws y safle mae gennym nifer o becynnau gollyngiadau ar gael, ac mae'r rhain wedi'u gosod mewn lleoliadau hygyrch sy'n agos at fannau lle y gallai unrhyw lygredd ollwng. Ategir y rhain drwy arddangos gweithdrefnau wrth ymyl y pecynnau, ac mae holl staff y contractwr cyfleusterau sydd wedi'u neilltuo i ymdrin ag unrhyw achosion sy'n ymwneud â llygredd wedi cael hyfforddiant ar reoli gollyngiadau'n effeithlon. Mae draeniau dŵr wyneb a draeniau dŵr budr ar draws y safle wedi'u codio â lliwiau i sicrhau eu bod yn cael eu dynodi'n glir, a defnyddir tanc haen ddwbl ar gyfer storio disel y tu allan i'r adeilad. Caiff yr holl baent a sylweddau COSHH eu storio'n ddiogel mewn cypyrddau dan glo, a chaiff unrhyw wastraff peryglus fel tiwbiau fflworoleuol, offer trydanol a batris eu storio'n ddiogel mewn cawell benodol. Dilynir gofynion dyletswydd gofal ar gyfer storio deunyddiau gwastraff eraill yn ddiogel gan bob aelod o staff sy'n rheoli neu'n gwaredu gwastraff.

Mewn ymateb i'n harchwiliad ISO14001 allanol, rydym bellach yn gwirio atalwyr y maes parcio ar y safle yn amlach ac yn eu gwagio bob blwyddyn.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gwnaethom ailosod y tanc storio disel ar gyfer y generadur wrth gefn, am iddo ddod i ddiwedd ei oes. Mae'r tanc newydd yn cynnwys gwell amddiffyniad rhag colledion ac mae'n cydymffurfio â Rheoliadau Storio Olew (Cymru).

# \Y flwyddyn sydd i ddod

Rydym yn parhau i weithio i gyflawni'r targedau a fydd ar waith hyd at 2021, ac yn monitro a chyflwyno adroddiadau ar yr hyn a gyflawnir wrth fynd ymlaen.

| Amcanion | Targedau |
|---|---|
| **Lleihau ôl-troed carbon** | Parhau i leihau allyriadau ynni hyd ddiwedd Mawrth 2021 (yn seiliedig ar linell sylfaen 2012/13) |
| | Gwella effeithlonrwydd teithio mewn car ar gyfer busnes erbyn mis Mawrth 2021 (yn seiliedig ar linell sylfaen 2014/15) |
| **Lleihau effaith gwastraff** | Parhau â dim gwastraff-i-dirlenwi tan fis Mawrth 2021 |
| | Trosglwyddo o reoli gwastraff i reoli adnoddau'n gynaliadwy erbyn mis Mawrth 2021 |
| **Defnyddio llai o ddŵr** | Defnyddio 5 y cant yn llai o ddŵr yfadwy ar draws yr ystâd erbyn diwedd mis Mawrth 2021 (yn seiliedig ar linell sylfaen 2014/15) |

Gan barhau â'r targedau a restrir uchod am un flwyddyn arall, byddwn yn canolbwyntio ar effeithlonrwydd adnoddau ac yn treialu pecynnau y gellir eu hailddefnyddio lle bo hynny'n bosibl er mwyn lleihau tunelledd y deunydd sy'n cael ei drin, Byddwn yn gweithio gyda'n tîm arlwyo, yn ogystal â'r Senedd Ieuenctid fel rhan o waith ei Phwyllgor Sbwriel a Gwastraff Plastig i leihau'r defnydd o eitemau a phecynnau plastig ar y safle ymhellach.

Mae'r rhan fwyaf o'n gwaith yn ystod y strategaeth gyfredol wedi canolbwyntio ar ddefnyddio ynni a darparu cyfleusterau ar gyfer teithio mwy cynaliadwy, felly mae lle o hyd i leihau ein defnydd o ddŵr, yn enwedig yn ein hadeiladau sy'n hygyrch i'r cyhoedd.

Bydd gwaith adnewyddu cylch bywyd wedi'i gynllunio yn parhau, gyda thechnoleg fwy effeithlon yn cael ei gosod fel rhan o'r cynllun pan fydd hynny'n bosibl. Bydd hyn yn cynnwys rhagor o oleuadau LED yn y swyddfeydd a'r mannau

cyhoeddus, yn ogystal â rhagor o reolyddion goleuadau awtomatig. Rydym yn bwriadu disodli'r ysgogwyr ffenestri yn adeilad y Senedd, gan bod eu gweithrediad effeithlon yn darparu awyru naturiol ac yn lleihau drafftiau ar adegau eraill. Bydd y prosiect i ddisodli'r ffenestri ar gyfer Tŷ Hywel, un a fydd yn darparu rhai buddion amgylcheddol, hefyd yn cymryd cam ymlaen o ran datblygu manyleb y ffenestri.

Bydd ein gwaith o amgylch yr ystâd i hybu bioamrywiaeth hefyd yn gwneud cynnydd, a hynny yn yr ardal blodau gwyllt ac i ddatblygu cynefinoedd bychain o amgylch y safle i gynorthwyo creaduriaid di-asgwrn cefn.

Wrth inni ddod at ddiwedd ein strategaeth gyfredol, ein prif dasg ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod fydd llunio Strategaeth Lleihau Carbon newydd, i barhau y tu hwnt i 2021, hyd at 2030. Bydd y dyddiad targed 2030 hwn yn caniatáu golwg tymor hwy ar welliannau a buddsoddiad, ynghyd â sicrhau bod gweithrediadau'r Senedd yn gydnaws â tharged Llywodraeth Cymru ar gyfer gweddill y sector cyhoeddus yng Nghymru.

Rydym yn debygol o newid cwmpas ein hôl troed carbon yn ystod y strategaeth nesaf; gan gwmpasu nifer uwch o'r ffynonellau allyriadau anuniongyrchol Cwmpas 3 (e.e. nwyddau a gwasanaethau). Byddwn yn edrych ar sut rydym yn rheoli tymheredd yn yr adeiladau gyda strategaeth sy'n ceisio buddsoddi mewn awyru mwy naturiol, a lleihau'r ddibyniaeth ar systemau aerdymheru. Ar hyn o bryd, pwmp gwres o'r ddaear i adeilad y Senedd yw'r unig ffynhonnell o ynni adnewyddadwy ar yr ystâd, rhywbeth y byddwn hefyd yn mynd i'r afael ag ef yn y strategaeth newydd. Bydd mesurau effeithlonrwydd yn cael eu cynnwys hefyd, gyda newidiadau tebygol i'r BMS (system rheoli adeiladau) sy'n rheoli tymheredd yn y swyddfeydd. Ni fydd trafnidiaeth yn dianc o'n sylw ychwaith, o ran teithio busnes a chymudo i'r ystâd wrth i ni geisio lleihau ein hôl troed carbon ymhellach a gwneud teithio cynaliadwy mor hyfyw â phosibl ar gyfer ein cydweithwyr â'n hymwelwyr i gyd.

# Atodiad A: Data Amgylcheddol

| Dangosyddion Perfformiad Allweddol | 2012/13 | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm yr allyriadau nwyon tŷ gwydr net (Cwmpasau 1, 2 a 3), tCO2e | 2,314 | 2,252 | 2,051 | 1,841 | 1,654 | 1,296 | 1150 |
| Cyfanswm yr allyriadau ynni, tCO2e | 1,880<br>Llinell sylfaen: | 1,800 | 1,663 | 1,563 | 1,364 | 1,066 | 962 |
| Gwastraff a aiff i safleoedd tirlenwi, mewn tunelli | 17.2 | 4.7 | 4.6 | 5 | 4 | 0 | 0 |
| Cyfradd ailgylchu, ailddefnyddio ac adfer, canran o'r cyfanswm | 83% | 95 y cant | 95 y cant | 96% | 97% | 100 y cant | 100 y cant |
| Cyfanswm y dŵr a ddefnyddiwyd, m3 | 10,069 | 6,177<br>Llinell sylfaen: | 5,174 | 5,347 | 4,158 | 6,064 | 6,281 |
| Cyfanswm yr allyriadau teithio ar fusnes, tCO2e | 227 | 252 | 227 | 206 | 207 | 178 | 140 |
| Defnyddio papur (miliwn o ddalennau) | 2.24 | 2.09 | 1.93 | 1.99 | 2.92 | 2.73 | 2.33 |

** Eithriwyd teithio AS a Staff Cymorth AS rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2020 oherwydd oedi wrth adrodd.  Addaswyd blynyddoedd blaenorol wrth i hawliadau terfynol ar gyfer y blynyddoedd hynny gael eu prosesu.*

# Atodiad B: Meincnodi

Mae ein harwynebedd llawr (a ddefnyddiwyd fel llinell sylfaen ers nifer o flynyddoedd) wedi aros yr un fath eleni, gan fod ein hystâd sylfaenol yn cynnwys y tri adeilad ym Mae Caerdydd, fel y nodir isod.

| Adeilad | Maes |
|---|---|
| Tŷ Hywel | 15266 metr sgwâr |
| Y Senedd | 5121 metr sgwâr |
| Y Pierhead | 1821 metr sgwâr |
| **Cyfanswm** | **22462 metr sgwâr** |

Yn ystod y cyfnod hwn, rydym yn gobeithio gwella ein dulliau meincnodi, drwy adolygu ein defnydd o gyfleustodau yn ôl nifer y bobl sy'n defnyddio ein hadeiladau, yn ogystal ag yn ôl graddfa'r defnydd. I'r diben hwn rydym yn casglu ffigurau o ran deiliaid ac ymwelwyr er mwyn gallu eu cymharu o un flwyddyn i'r llall, i gynorthwyo i egluro newidiadau ac i ganfod tueddiadau hirdymor. Mae sawl contractwr ac asiantaeth allanol sydd â staff yn gweithio yn ein hadeiladau, ond gan eu bod yn defnyddio'r un cyfleustodau byddwn yn eu cyfuno o dan y ffigur sy'n cynrychioli 'deiliaid'. Rydym wedi diwygio'r cyfrifiad ar gyfer y ffigur hwn ychydig eleni, i gyfrif am y ffaith bod o leiaf hanner y Staff Cymorth wedi'u lleoli mewn swyddfeydd etholaethol.

| | Nifer y deiliaid | Nifer yr ymwelwyr |
|---|---|---|
| 2019/20 | 880 | 163461 |
| 2018/19 | 883 | 242223 |
| 2017/18 | 844 | 228748 |

| Adeilad | Defnydd Dŵr Blynyddol | | |
|---|---|---|---|
| | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 |
| **Tŷ Hywel (fesul deiliad y dydd)** | 23 litr | 21 litr | 22 litr |
| **Y Senedd (fesul ymwelydd)** | 3 litr | 3.5 litr | 10.4 litr |
| **Y Pierhead (fesul ymwelydd)** | 7 litr | 6.2 litr | 9.7 litr |

# Atodiad C: Polisi Amgylcheddol

## Comisiwn y Senedd sy'n sicrhau bod yr eiddo, y staff a'r gwasanaethau sy'n ofynnol ar gyfer gweithrediad effeithiol Senedd Cymru yn cael eu darparu.

Ein nod yw bod yn sefydliad enghreifftiol o ran cynaliadwyedd, a sicrhau bod ein gwasanaethau yn cael eu darparu'n effeithlon, gan roi sylw dyledus i'r egwyddor o hyrwyddo datblygiad cynaliadwy.

Caiff ein gwaith o ddydd i ddydd effaith ar yr amgylchedd, a hynny, yn bennaf, drwy ddefnyddio adnoddau (cyfleustodau a deunyddiau crai), drwy deithio a thrwy gynhyrchu gwastraff.

Mae Comisiwn y Senedd yn ymrwymo i:

- Sicrhau y caiff ein hadeiladau eu defnyddio'n effeithlon, a chwilio am gyfleoedd i leihau'r defnydd o adnoddau naturiol wrth ddarparu ein gwasanaethau, gan gynnwys plastig untro.
- Neilltuo amser ac adnoddau priodol i wella effeithlonrwydd ein hystâd wrth ddefnyddio ynni.
- Hyrwyddo ein rhinweddau o ran cynaliadwyedd i'r cyhoedd, ein hymwelwyr a rhanddeiliaid eraill.
- Sicrhau bod pob Aelod Cynulliad, eu staff cymorth, staff y Comisiwn a defnyddwyr eraill ein hadeiladau yn deall yn llwyr y cyfraniad y gallant ei wneud i wella ein perfformiad amgylcheddol.
- Datblygu diwylliant o gyfrifoldeb amgylcheddol ymysg defnyddwyr ein hadeiladau, ein contractwyr, ein cyflenwyr a'r ymwelwyr â'n hadeiladau .
- Osgoi teithio diangen lle bo hynny'n bosibl a hyrwyddo dulliau teithio cynaliadwy ymhlith staff ac ymwelwyr.
- Rhoi ystyriaethau cynaliadwyedd wrth wraidd prosesau gwneud penderfyniadau tryloyw gan gynnwys caffael cynhyrchion a gwasanaethau.
- Cynllunio, addasu a sicrhau bod adnoddau/camau digonol ar waith i sicrhau bod ein hasedau yn cael eu diogelu at y dyfodol yn erbyn heriau a ddaw yn sgîl hinsawdd sy'n newid.

- Cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaethau a safonau amgylcheddol perthnasol ac â chyfrifoldebau cydymffurfio eraill.
- Cynnal y weithdrefn a'r camau ffisegol fel ei gilydd i warchod yr amgylchedd, gan gynnwys drwy atal llygredd.
- Cefnogi a hybu bioamrywiaeth o amgylch ein hystâd.
- Gosod amcanion a thargedau amgylcheddol uchelgeisiol heriol, i sicrhau ein bod yn gwella'n barhaus, a nodi cynnydd o ran yr amcanion hyn yn gyhoeddus;
- Mae'r datganiad polisi hwn yn berthnasol i ystâd Senedd Cymru drwyddi draw (gan gynnwys Tŷ Hywel, y Senedd, y Pierhead a swyddfa Bae Colwyn) a chaiff ei adolygu bob blwyddyn a'i ddarparu i holl staff y Senedd drwy ein mewnrwyd, ac i bobl eraill sydd â diddordeb drwy ein gwefan. Bydd yn rhan o gontract y cyflenwyr sy'n defnyddio ein safle, a bydd ar gael i unrhyw un sy'n gwneud cais am gopi.

**David J Rowlands AC**

Comisiynydd Diogelwch ac Adnoddau'r Senedd

**Manon Antoniazzi**

Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 7

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 8

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 9

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon